Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
86/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
16/09/2025

# Gwerthusiad o Raglen Grantiau Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

© Crown Copyright Digital ISBN 978-1-80633-388-2

Awdur(on): Dr Holly Taylor-Dunn, Emily Preston-Jones, Caroline White, Sophi Ducie a Sarah Bristol-Abbott

Adroddiad Ymchwil Llawn: Taylor-Dunn, H; Preston-Jones, E; White, C; Ducie, D; Bristol-Abbott (2025) Gwerthusiad o Raglen Grantiau Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 86/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-grantiau-diwylliant-treftadaeth-chwaraeon-cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Is-adran Diwylliant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Culture@gov.wales

**Tabl cynnwys**


Rhestr o Ffigurau ..... 2

Rhestr o Dablau ..... 3

Rhestr termau ..... 4

1. Cyflwyniad ..... 8

2. Methodoleg ..... 18

3. Canfyddiadau Adran 1 – Maes 1 ..... 29

4. Canfyddiadau Adran 1 – Maes 2 ..... 39

5. Canfyddiadau Adran 1 – Maes 3 ..... 50

6. Canfyddiadau Adran 2 – Ymgysylltu ..... 66

7. Canfyddiadau Adran 3 – Canlyniadau ac effaith ..... 93

8. Theori ddiwygiedig y rhaglen ..... 157

9. Gwersi a ddysgwyd ..... 170

10. Casgliadau ..... 183

Atodiad A – Rhestr o Atodiadau ..... 187

Atodiad 1 – Theori cychwynnol y rhaglen (theori newid) ..... 188

Atodiad 2: Rhestr o'r sefydliadau cymunedol y gweithiodd maes 3 â nhw ..... 196

Atodiad 3: Manylion gwaddol maes 1 ..... 198

Atodiad 4: Manylion gwaddol maes 2 ..... 200

Atodiad 5: Manylion gwaddol maes 3 ..... 203

Atodiad 6: Grwpiau rhanddeiliaid a dulliau casglu data ..... 206

Atodiad 7: Tystiolaeth o brosiectau a ariannwyd yn bodloni Nodau a Chamau Gweithredu ArWAP, Meysydd 1 a 2 ..... 209

**Rhestr o Ffigurau**

**Ffigur 1 - Y Cylch Gwerthuso Realydd** .......... 19
**Ffigur 2. Maes 2: Sut y daeth pobl i wybod am y cyllid**.......... 42
**Ffigur 3. Maes 2: Cymharu â cheisiadau cyllid eraill**.......... 43
**Ffigur 4. Maes 2: Canfyddiadau o'r gofynion monitro** .......... 46
**Ffigur 5. Maes 3: Sut y daeth pobl i wybod am y cyllid**.......... 55
**Ffigur 6. Maes 3: Cymharu â cheisiadau cyllid eraill**.......... 56
**Ffigur 7. Maes 3: Canfyddiadau o'r gofynion monitro a gwerthuso** .......... 61
**Ffigur 8. Maes 3: Asesu'r cyfathrebu gan Diverse Cymru** .......... 64
**Ffigur 9. Math o gontract ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2**.......... 82
**Ffigur 10. Canfyddiad o wrth-hiliaeth o fewn sefydliadau ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2** .......... 86
**Ffigur 11. Canfyddiad o wrth-hiliaeth o fewn sefydliadau ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2 (yn ôl ethnigrwydd yr ymatebydd)** .......... 86
**Ffigur 12. Canfyddiad o wrth-hiliaeth o fewn sefydliadau ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2 (yn ôl math o gontract)**.......... 87
**Ffigur 13 - Crynodeb o'r canlyniadau a gyflawnwyd ar draws meysydd 1 - 3** 93
**Ffigur 14 - Theori'r rhaglen**..........

**Rhestr o Dablau**

Tabl 1 - Crynodeb o’r gweithgareddau casglu data, targedau a sampl a gyflawnwyd ..... 26
Tabl 2.1 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu ArWAP: Nod 1 - Arweinyddiaeth ... 95
Tabl 2.2 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu: Nod 2 - Cyllid..... 96
Tabl 2.3 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu: Nod 3 - Dathlu Amrywiaeth ..... 97
Tabl 2.4 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu: Nod 4 - Y Naratif Hanesyddol..... 98
Tabl 2.5 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu ArWAP: Nod 5 - Dysgu am ein hamrywiaeth ddiwylliannol..... 98
Tabl 3 - Amlder hyfforddiant neu gymorth gwrth-hiliol ..... 131
Tabl 4 - Canfyddiad o wrth-hiliaeth sefydliadol gan ymatebwyr i’r arolwg Grŵp 1 132
Tabl 5 - Newidiadau mewn agweddau personol a sefydliadol tuag at wrth-hiliaeth ymatebwyr i’r arolwg Grŵp 1 ..... 134

## Rhestr termau

**ArWAP**

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Cymunedau du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol**

Pob grŵp ethnig ac eithrio Prydeinig Gwyn, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol gwyn fel Sipsiwn, Roma a Theithwyr Gwyddelig.

**CHS**

Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

**EAP**

Panel Cynghori Arbenigol

**EoP**

Diwedd y Prosiect

**ESG**

Grŵp llywio gwerthuso

**Grant bach**

Grant o hyd at £1000

**Grant canolig**

Grant rhwng £3001 a £5000

**Grant cyfalaf**

Grant o hyd at £15,000 ar gyfer creu, prynu neu ailddatblygu asedau presennol yn sylweddol i alluogi sefydliadau i gynnal gweithgareddau diwylliannol cyfredol neu greu rhai newydd.

**Grant mawr**

Grant rhwng £5001 a £30,000

**Gwerthusiad realydd**

Dull o werthuso sy’n ceisio deall beth a gyflawnwyd, i bwy, ac ym mha gyd-destunau.

**Gwerthuso effaith**

Gwerthusiad sy'n ceisio deall effaith rhaglen.

**Gwerthuso proses**

Gwerthusiad sy'n ceisio deall sut y gweithredwyd rhaglen.

**Is-grŵp Atebolrwydd Allanol CHS**

Grŵp i gefnogi a herio Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gyflawni'r nodau polisi a'r camau gweithredu yn ArWAP sy'n ymwneud â Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon (CHS).

**Maes 1**

Ffrwd ariannu ar gyfer cyrff hyd braich i weithredu nodau CHS ArWAP

**Maes 2**

Ffrwd ariannu ar gyfer y sectorau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon lleol yng Nghymru i weithredu nodau CHS ArWAP

**Maes 3**

Ffrwd ariannu ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad i greu neu gynnal mannau diwylliant a threftadaeth.

**Mentoriaid cymunedol**

Mae pobl â phrofiad bywyd o hiliaeth yn cael eu cyflogi i weithio fel rhan o'r rhaglen grant.

**Rownd 1**

Y rownd gyntaf o gyllid a lansiwyd ym mis Awst 2023

**Rownd 2**

Yr ail rownd o gyllid a lansiwyd ym mis Chwefror 2024

**Sefydliad ar lawr gwlad**

Sefydliad sydd â throsiant blynyddol o dan £500,000 ac sy'n cael ei arwain gan a/neu ar gyfer pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol.

**Ymchwil M.E.L.**

Asiantaeth ymchwil gymdeithasol a gomisiynwyd i werthuso rhaglen grantiau CHS, ArWAP.

Hoffem gydnabod y rhai a gefnogodd neu a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn, boed hynny fel cyfranogwr ymchwil, ymgynghorydd, aelod o dîm y rhaglen neu aelod o banel, ac mae rhai wedi'u rhestru isod.

Humie Webbe
Jan Birch
Leila Usmani
Martin Gallagher
Rajma Begum

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan M.E.L. Research, asiantaeth ymchwil gymdeithasol a gomisiynwyd gan Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru i werthuso rhaglen grantiau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

## 1.2 Cefndir Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, yn adeiladu ar fentrau blaenorol Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb hiliol ac yn ailgadarnhau ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.

Gweledigaeth eang ArWAP yw bod Cymru yn genedl wrth-hiliol. Y pwrpas yw mynd ati ar y cyd i wneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio gwrth-hiliaeth fel:

> "Mynd ati'n weithredol i adnabod y systemau, y strwythurau a'r prosesau sy'n arwain at ganlyniadau trawiadol o wahanol i grwpiau ethnig lleiafrifol, a chael gwared arnynt. Mae'n golygu cydnabod y gallwn ni, hyd yn oed os na chredwn ein bod yn 'hiliol', drwy wneud dim byd, fod yn rhan o ganiatáu i hiliaeth barhau. Nid yw'n golygu "unioni" pobl na chymunedau ethnig lleiafrifol, ond yn hytrach unioni systemau nad ydynt wedi bod yn fuddiol i bobl ethnig leiafrifol ac sydd weithiau wedi bod yn niweidiol hyd yn oed iddynt. Mae'n golygu gweithio gyda chryfderau ac arweinyddiaeth sylweddol pobl ethnig leiafrifol a defnyddio eu profiadau bywyd o ran y ffordd rydym, ar y cyd, yn llunio ac yn cyflawni nodau. Mae'n golygu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol."



Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP) yn nodedig am dair nodwedd sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Yn gyntaf, mae'r cynllun wedi'i adeiladu ar werthoedd gwrth-hiliaeth. Yn ail, mabwysiadwyd egwyddorion cyd-greu wrth ddatblygu'r cynllun

gyda lleisiau yn cael eu clywed yn fewnol ac yn allanol i Lywodraeth Cymru, ar draws ystod o randdeiliaid a sefydliadau allweddol. Yn drydydd, rhoddir pwyslais ar gau'r bwlch gweithredu. Un o egwyddorion arweiniol y cynllun yw y dylid trosi'r nodau a'r camau gweithredu yn weithredu ystyrlon (ymgorffori gwrth-hiliaeth ar bob lefel mewn sefydliadau ac ym mhob agwedd ar gynllunio, cyllidebu, cyflogaeth a darparu gwasanaethau).

Mae ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn pwysleisio pwysigrwydd cynrychioli ac adlewyrchu hanes a diwylliant pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol er mwyn sicrhau bod eu cyfraniad i Gymru yn cael ei gydnabod tra'n galluogi mynediad a chyfranogiad cyfartal i ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon.

**1.3 Rhaglen grantiau ArWAP yr Is-adran Diwylliant:**

Mae Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru yn cwmpasu meysydd cylch gorchwyl Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, ac yn cyflawni ac yn cefnogi ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu gan gynnwys nodau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon ArWAP. At ddibenion ArWAP, mae'r diffiniad o 'ddiwylliant' yn cynnwys y Celfyddydau, yn ogystal ag Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

Darparodd cronfa diwylliant, treftadaeth a chwaraeon Cymru Wrth-hiliol gyllid grant ar draws tri maes gwahanol o gyflawni'r rhaglen dros dair blynedd ariannol hyd at fis Rhagfyr 2024 i gefnogi sefydliadau ar lefel genedlaethol, lleol a chymunedol i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu diwylliant, treftadaeth a chwaraeon a amlinellir yn ArWAP ac yn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu fel y nodir uchod.

Fel rhan o ddarparu'r grant, penododd yr Is-adran Diwylliant bedwar mentor cymunedol i gefnogi cyflawni nodau a chamau gweithredu CHS yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Cafodd y mentoriaid eu recriwtio i ddod â'u profiadau proffesiynol a bywyd o hiliaeth i weithredu polisi, gan gynorthwyo swyddogion i archwilio gwaith trwy safbwynt gwrth-hiliol. Cawsant eu recriwtio i gynghori ar broses y cynllun grant, adolygu cynigion cynllun grant a chynnig eu profiad ynghylch effaith hiliaeth yng nghyd-destun CHS. Pwrpas eu rôl oedd helpu i sicrhau bod y cynlluniau grant yn creu newidiadau cadarnhaol, ystyrlon a pharhaol i bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Roedd y tri maes cyflwyno yn cynnwys:

**Maes 1 - Cronfa diwylliant, treftadaeth a chwaraeon Cymru Wrth-hiliol**

Roedd maes 1 yn darparu cyllid grant uniongyrchol a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer prosiectau a gomisiynwyd gan gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys Chwaraeon Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Dyrannwyd cyfanswm o £1.8m i chwe phrosiect dros dair blynedd ariannol a ddechreuodd yn 2022/23. Derbyniodd sefydliadau a ariannwyd rhwng £240,000 a £529,000 i gyflawni eu prosiectau. Roedd mwyafrif y cyllid ar gyfer refeniw (£1,737,931.85) gyda swm bach o gyllid cyfalaf (£180,600).

Roedd y mathau o weithgareddau a gyflwynwyd o dan maes 1 yn cynnwys: hyfforddiant a mentora, recriwtio, cyflwyno gweithdai, cydweithio â sefydliadau ar lawr gwlad, adolygu a dad-drefedigaethu mannau cyhoeddus, darparu addysg a dysgu gwrth-hiliol, creu adnoddau newydd a chynnwys ar-lein yn unol ag egwyddorion gwrth-hiliaeth.

**Maes 2 - Cronfa diwylliant, treftadaeth a chwaraeon Cymru Wrth-hiliol**

Roedd maes 2 yn cynnwys cyllid grant wedi'i anelu'n benodol at y sectorau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon lleol yng Nghymru drwy broses gystadleuol ymgeisio am grantiau.

Dyrannwyd cyfanswm o £2.8m dros dair blynedd ariannol i 21 o brosiectau. Roedd mwyafrif y cyllid ar gyfer refeniw (£1,795,819.80) gyda rhywfaint o gyllid cyfalaf (£78,985.91). Derbyniodd prosiectau maes 2 rhwng £34,700 a £240,000.

Roedd enghreifftiau o feysydd a ariannwyd o dan y maes hwn yn cynnwys: defnyddio a rheoli casgliadau presennol a/neu arteffactau ac archifau newydd i wella mynediad, deall a chwalu rhwystrau i bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, rhaglenni mentora/hyfforddi, prosiectau cymunedol, datblygu arddangosfeydd parhaol a dros dro sy'n adrodd straeon trwy lygad profiad pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, datblygu cynnwys ar-lein.

**Maes 3 - Cynllun grant diwylliant Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad**

Roedd cyllid grant maes 3 wedi'i anelu at sefydliadau ar lawr gwlad[1] ledled Cymru. Roedd y maes hwn yn cefnogi pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, gan gynnwys pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, i gael mynediad cyfartal at weithgareddau diwylliannol ledled Cymru a chymryd rhan ynddynt. Yn wahanol i feysydd 1 a 2, gweinyddwyd maes 3 gan Diverse Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Roedd y maes hwn o gyllid grant yn ymateb uniongyrchol i ddwy weithred benodol yn ArWAP;

1. Mynd i'r afael â'r angen i adolygu ceisiadau am gyllid i wella canlyniadau ar gyfer sefydliadau a arweinir gan bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol neu bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol a,

2. Neilltuo adnoddau i gefnogi gweithgareddau diwylliannol a chreadigol ar lawr gwlad ymhlith grwpiau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol.

Nodwedd allweddol o'r maes hon oedd rhoi cyfle i bobl o leiafrifoedd ethnig feithrin ac ehangu eu digwyddiadau diwylliannol annibynnol ac i ddiffinio, dehongli a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n ystyrlon ac i greu diwylliant mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu cymdeithas amrywiol.

Cafodd maes 3 ei weinyddu mewn dwy rownd ac roedd yn cynnwys gwahanol feintiau o grant. Gweinyddwyd y ddwy rownd gan Diverse Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Lansiwyd Rownd 1 ym mis Awst 2023; roedd y ffenestr ymgeisio yn chwe wythnos a derbyniodd 26 o grwpiau a sefydliadau ar lawr gwlad gyllid. Gwahoddwyd ceisiadau am grantiau mawr (rhwng £5001 a £30,000) a chanolig (rhwng £1001 a £5000). Roedd y dyfarniadau yn amrywio o £3,170.00 i £30,000, gyda chyfran sylweddol wedi'i ddyrannu i brosiectau a oedd yn ceisio cyllid aml-flwyddyn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-2025.

Ym mis Chwefror 2024, lansiwyd ail rownd y cynllun grant lle gallai grwpiau a sefydliadau ar lawr gwlad wneud cais am grant bach o hyd at £1,000 neu grant cyfalaf o hyd at £15,000. Caeodd ceisiadau ar gyfer y cynllun ar 18 Mawrth, yn dilyn cyfres

[1] Diffinnir fel sefydliad sydd â throsiant o lai na £500,000

o weithdai gwybodaeth a fynychwyd yn dda dan arweiniad Diverse Cymru. Derbyniwyd mwy na 70 o geisiadau am grantiau, a oedd yn dangos diddordeb sylweddol gan ystod amrywiol o grwpiau a sefydliadau cymunedol dan arweiniad pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n darparu ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol.

Cafodd y grantiau bach eu capio ar £1,000 fesul grŵp/sefydliad, gyda chyfanswm cyllideb o £10,000, gan alluogi Llywodraeth Cymru i dreialu'r defnydd o gardiau rhagdalu i gefnogi sawl egin sefydliad a grŵp micro heb gyfrifon banc busnes, yn ogystal â grantiau a reolir fel arfer. Cynlluniwyd y dull newydd hwn i alluogi mwy o fynediad at gyllid gan sefydliadau ar lawr gwlad ac fe'i cytunwyd gan y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ym mis Ionawr 2024.

O ystyried ansawdd uchel ceisiadau am grantiau bach yn gyffredinol a'r defnydd is na'r disgwyl o gardiau rhagdalu, gwnaed addasiadau i gefnogi mwy o brosiectau llai, gan arwain at gynnydd yng nghyfanswm dyraniad y gyllideb ar gyfer grantiau bach i ychydig o dan £12,000 (ariannu 12 prosiect). Yn ogystal â'r grantiau bach, roedd dyraniad cyfalaf o £123,000 ar gael ar gyfer 2024/25 i gefnogi mentrau ar lawr gwlad. Gwahoddwyd sefydliadau i wneud cais am grant cyfalaf o hyd at £15000 i'w wario ar greu, prynu neu ailddatblygu asedau presennol yn sylweddol er mwyn galluogi sefydliadau i barhau i gynnal gweithgareddau diwylliannol cyfredol neu greu rhai newydd. Dyrannwyd cyfanswm o £121,465.12 o gyllid i 17 o brosiectau, yn amrywio o ran gwerth o £1528 i £14990. Ariannwyd cyfanswm o 29 o brosiectau yn rownd 2.

### 1.4 Nodau ac amcanion y gwerthusiad

Mae'r gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio ar broses rhaglen grantiau CHS ArWAP (sut y cafodd ei ddarparu) yn ogystal â'i heffaith (i ba raddau y mae'r rhaglen grantiau wedi cyflawni ei hamcanion).

Roedd chwe maes diddordeb allweddol wedi'u hamlinellu ar ddechrau'r gwerthusiad, fel y manylir isod.

**Proses ymgeisio am grant a rheoli'r rhaglen**

- Pa mor effeithiol oedd y broses ymgeisio ac arfarnu ar gyfer pob maes o'r cynllun?

- A wnaeth y broses ymgeisio ar gyfer maes 2 hwyluso dileu rhwystrau ar gyfer sefydliadau ethnig amrywiol yn effeithiol?
- A wnaeth y broses ymgeisio ar gyfer maes 3 hwyluso dileu rhwystrau ar gyfer grwpiau ethnig amrywiol yn effeithiol?
- I ba raddau y mae'r rhaglen grantiau wedi cael ei rheoli'n effeithiol yn unol ag egwyddorion ArWAP?
- Beth fu effaith cyllid refeniw o gymharu â chyllid cyfalaf ar y canlyniadau a gyflawnwyd?

**Proses ymgysylltu**

- Beth yw cyfansoddiad sectoraidd sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen grantiau ar draws y tri maes, ac a yw hyn yn gynrychiadol o grwpiau amrywiol?
- Pa ddulliau a weithredwyd i sicrhau bod pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn cael eu cynnwys wrth gyd-gynhyrchu'r rhaglen?
- Pa sianeli cyfathrebu a llwybrau mynediad y mae buddiolwyr wedi'u defnyddio i ymgysylltu â'r rhaglen?
- A yw cymryd rhan yn y rhaglen wedi rhoi hyder i sefydliadau ar lawr gwlad wneud cais am gyllid yn y dyfodol?

**Newid sefydliadol**

- I ba raddau y bu newid agwedd tuag at wrth-hiliaeth ar lefel sefydliadol a sectoraidd o fewn y prosiectau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon a ariannwyd?
- I ba raddau y bu newid yn y ffordd y mae datblygu a chyflwyno polisi diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda phobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol?
- I ba raddau y bu newid tuag at gynrychiolaeth grwpiau amrywiol yng nghyfansoddiad arweinyddiaeth ac aelodaeth fewnol sefydliadau a ariannwyd gan y rhaglen grantiau?
- I ba raddau y mae dysgu o'r prosiectau yn cael eu hymgorffori mewn gwaith sefydliadol ehangach ar draws y tri maes cyflawni? Dylai canolbwynt y dysgu gynnwys, er nad yw'n gyfyngedig i; gwerthoedd cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu

ystyrlon, mwy o ymgysylltiad ag aelodau amrywiol o'r gymuned, a chydweithredu a mentora ar draws y tri maes.

- I ba raddau y mae cyllid grant wedi helpu sefydliadau ar lawr gwlad i ddatblygu eu cynnig a dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol?
- I ba raddau y mae cyllid grant wedi helpu sefydliadau i gymryd cyfrifoldeb am nodau perthnasol ArWAP?
- I ba raddau y mae sefydliadau wedi ymgorffori newid cynaliadwy o ganlyniad i'r rhaglen grantiau (yn enwedig wrth recriwtio pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i rolau arbenigol).
- I ba raddau y mae statws a phresenoldeb pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol wedi gwella o fewn sefydliadau o ganlyniad i'r rhaglen grantiau?

**Mannau Diwylliannol, Treftadaeth a Chwaraeon**

- I ba raddau y bu gostyngiad mewn rhwystrau i grwpiau amrywiol mewn mannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yng Nghymru?
- I ba raddau y mae mwy o gynrychiolaeth o hanes pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ar draws y sectorau?
- Beth yw natur ymgysylltiad pobl â gofodau CHS o ganlyniad i'r rhaglen grantiau?
- Beth yw graddfa'r ymgysylltu ar gyfer cymunedau penodol (i'w diffinio yn dilyn adolygiad o'r holl gymunedau sy'n ymgysylltu neu a gefnogir gan waith a ariennir) gyda mannau CHS o ganlyniad i'r rhaglen grantiau?
- A yw mannau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon ar draws y sectorau (corfforol a rhithwir) yn cynnig gweithgareddau/casgliadau amrywiol a chynrychioliadol sy'n adlewyrchu hanesion amrywiol?
- A fu mwy o gydweithio, ymgysylltu a chynhwysiant o ran aelodau o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol mewn mannau diwylliant, hanesyddol a chwaraeon?
- A yw prosiectau sydd wedi'u hariannu (ym maes 3) wedi galluogi pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i greu neu gynnal mannau diwylliannol?

**Canlyniadau ac effaith**

- I ba raddau y mae'r rhaglen wedi cefnogi cyflawni nodau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon penodol ArWAP.
- I ba raddau y mae gweithgareddau a ariannwyd gan grant wedi cyflawni eu nodau a'u hamcanion.
- Nodi a yw canlyniadau ychwanegol, anfwriadol wedi digwydd o ganlyniad i weithgarwch a ariannwyd gan grant.
- Nodi enghreifftiau o weithio ar y cyd ar lefel genedlaethol, leol a chymunedol.
- I ba raddau y mae grantiau ar draws y tri maes wedi mynd i'r afael ag anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr? I'w wneud drwy archwilio nifer y grantiau sy'n targedu grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn benodol a nifer y grantiau sy'n ymgorffori agweddau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu prosiectau.
- Beth fu effaith gyffredinol y rhaglen grantiau, gan ystyried i ba raddau y mae sefydliadau a ariannwyd wedi ymgorffori arferion a dysgu gwrth-hiliol yn eu gwaith ehangach.
- Beth fu effaith gyffredinol y rhaglen grant wrth fynd i'r afael â chroestoriadedd.
- I ba raddau y mae newidiadau ym maes 1 wedi effeithio ar sefydliadau/grwpiau ym maes 2 a maes 3?

**Gwersi a ddysgwyd**

- Pa wersi a ddysgwyd ac argymhellion y gellir eu darparu o'r gwerthusiad o'r rhaglen grantiau?
- Beth y gellir ei gymryd ymlaen i ddylanwadu ar benderfyniadau a chreu tirwedd ariannu mwy teg ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol?
- Beth yw etifeddiaeth y rhaglen grantiau a pha mor gynaliadwy yw'r canlyniadau a gyflawnwyd?

### 1.5 Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i rannu'n nifer o adrannau, gan gynnwys:

Pennod methodoleg – esbonio sut y cafodd y gwerthusiad ei ddylunio a'i gynnal, gan gynnwys sut y cymhwyswyd y fframwaith gwerthuso realydd yn ymarferol. Mae'r

bennod hon hefyd yn amlinellu'r gwahanol fathau o gasglu data a ddigwyddodd a sut cafodd y data ei ddadansoddi a'i gyfuno.

Pennod canfyddiadau – mae'r bennod hon wedi'i rhannu'n nifer o adrannau, gan gynnwys:

- Adran 1 – Y broses o ymgeisio a rheoli grantiau – mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r broses ymgeisio a rheoli grantiau ar gyfer pob un o'r tri maes. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data o gyfweliadau â thîm y rhaglen, arweinwyr prosiectau, arolygon ar-lein gydag arweinwyr prosiect ym meysydd 2 a 3 a dadansoddiad o adroddiadau diwedd prosiect.
- Adran 2 – Ymgysylltu – Mae'r adran hon yn archwilio sut y gweithiodd y tri maes gyda chymunedau i ddylunio a chyflawni eu gweithgareddau, gan dynnu ar ddata o gyfweliadau â staff y rhaglen, arweinwyr prosiectau, staff y prosiect, arolygon ar-lein gydag arweinwyr prosiect ym meysydd 2 a 3 a dadansoddiad o adroddiadau diwedd prosiect. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys myfyrdodau gan grwpiau cymunedol (Grŵp 3) a phobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd i weithio ar brosiectau a ariannwyd (Grŵp 2).
- Adran 3 – Canlyniadau ac effaith – mae'r adran hon yn darparu disgrifiad manwl o'r hyn sydd wedi'i gyflawni ym mhob un o'r tri maes, gan gynnwys cynnydd tuag at nodau a chamau gweithredu ArWAP, cynnydd tuag at Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, canlyniadau mewn perthynas â mannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon a chanlyniadau ar lefel unigol, gymunedol, sefydliadol a chymdeithasol. Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o effaith y gronfa grantiau ar staff a dderbyniodd hyfforddiant ar wrth-hiliaeth (Grŵp 1) a phobl a fu'n ymwneud â gweithgareddau a ariannwyd (Grŵp 4). Mae'r adran hon yn gorffen gyda theori rhaglen ddiwygiedig i esbonio sut y cyflawnwyd canlyniadau ac ym mha gyd-destunau.
- Adran 4 – Gwersi a ddysgwyd – mae adran olaf y bennod canfyddiadau yn ystyried y gwersi a'r argymhellion sydd wedi dod i'r amlwg o wahanol ffynonellau yn ystod y gwerthusiad.

Casgliad ac argymhellion – Mae’r bennod olaf yn tynnu’r gwerthusiad at ei gilydd, gan dynnu sylw at wersi ac argymhellion allweddol ar gyfer cyllid grant gwrth-hiliol yn y dyfodol.

## 2. Methodoleg

### 2.1 Dull gwerthuso

Ymgymerwyd â dull gwerthuso realydd ar gyfer y prosiect hwn. Mae gwerthusiad realydd (Pawson a Tilley, 1997) yn ddull gwerthuso sy'n seiliedig ar theori sy'n ceisio deall beth sy'n gweithio, i bwy, ym mha amgylchiadau ac ym mha agweddau. Daeth i'r amlwg yn y 1990au fel ymateb i feirniadaeth o ddulliau gwerthuso traddodiadol. Ar y pryd, roedd y rhan fwyaf o werthusiadau polisi cymdeithasol naill ai'n defnyddio dulliau arbrofol (fel Treialon a Reolir ar Hap) a allai fesur y gwahaniaeth rhwng dau bwynt, neu ddulliau mwy ansoddol a allai ddisgrifio'r gwahaniaeth rhwng dau bwynt – ond ni allai'r naill na'r llall esbonio sut y cyflawnwyd y gwahaniaeth. Yr awydd i ddeall yr achos rhwng ymyriadau a chanlyniadau a arweiniodd at ddulliau gwerthuso newydd fel gwerthuso realydd.

Hanfod gwerthuso realydd yw nad yw rhaglenni cymdeithasol yn dod â newid, yn hytrach yr adnoddau maen nhw'n eu cynhyrchu a'r amodau maen nhw'n eu creu i bobl weithredu sy'n cynhyrchu newid.

Mewn gwerthusiad realydd, tybir y bydd rhaglenni a'r mesurau y maent yn eu cyflwyno yn sbarduno mecanweithiau gwahanol yn dibynnu ar y cyd-destun lleol. Mae cyd-destun felly yn bwysig iawn mewn gwerthusiad realydd oherwydd bydd naill ai'n helpu neu'n rhwystro mecanweithiau rhag arwain at ganlyniadau.


### 2.2 Dylunio theori gychwynnol y rhaglen

Cam cyntaf gwerthusiad realydd yw dylunio theori rhaglen (neu theori newid). Cynhaliwyd gweithdy gyda thîm y rhaglen, gan gynnwys Diverse Cymru a mentoriaid cymunedol i ddylunio theori gychwynnol y rhaglen. Er mwyn sicrhau bod y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y gweithdy yn gallu cyfrannu, anfonwyd fersiwn ar-lein i'r grŵp llywio gwerthuso[2]. Cynhyrchwyd fersiwn derfynol o'r ddogfen a oedd yn llywio sut y casglwyd gweddill y data ar gyfer y gwerthusiad (Atodiad 1).

[2] Roedd y grŵp llywio gwerthuso yn cynnwys staff yr Is-adran Diwylliant, mentoriaid cymunedol a'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil.

Ffigur 1 - Y Cylch Gwerthuso Realydd

(Belle a Rifkin, 2017) addaswyd o Marchal et al (2012)




## 2.3 Adnabod rhanddeiliaid perthnasol (gan gynnwys ymarfer mapio)

Gweithiodd y tîm gwerthuso gyda'r grŵp llywio gwerthuso i fapio'r rhanddeiliaid perthnasol ar gyfer y gwerthusiad hwn. Er bod llawer o'r gwaith hwnnw wedi'i wneud gan yr Is-adran Diwylliant ar yr adeg y comisiynwyd y gwerthusiad, roedd yn bwysig bod y mater yn cael ei archwilio ymhellach.

Cynhaliwyd ymarfer mapio trwy adolygu is-adran o adroddiadau monitro canol blwyddyn o bob un o'r tri maes. Mae'r broses hon yn tynnu sylw at bedwar grŵp allweddol a fyddai wedi rhyngweithio â'r rhaglen grant neu a fyddai wedi cael eu heffeithio gan y rhaglen grant mewn ffyrdd unigryw.

Mae'r grwpiau a'u meintiau sampl cysylltiedig wedi'u crynhoi isod:

- Grŵp 1: Pobl sy'n gweithio mewn sefydliadau a dderbyniodd hyfforddiant (drwy brosiectau a ariannwyd)
    - Sampl: 10 o brosiectau ar draws Meysydd 1 a 2

- Grŵp 2: Pobl a gafodd eu cyflogi neu eu comisiynu fel rhan o'r prosiectau a ariannwyd
    - Sampl: 23 o brosiectau ar draws Meysydd 1 a 2.
- Grŵp 3: Grwpiau cymunedol a weithiodd gyda'r prosiectau a ariannwyd i helpu i gyflawni neu ddylunio gweithgareddau
    - Sampl: 19 o brosiectau ar draws Meysydd 1 a 2
- Grŵp 4: Pobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau prosiect a ariannwyd
    - Sampl: Prosiectau ar draws Meysydd 1, 2 a 3.

Er bod grŵp 4 bob amser wedi bod yn rhan o'r cynllun gwerthuso, roedd y tri grŵp cyntaf yn ychwanegol. Er mwyn deall cyfanswm maint y sampl, adolygwyd gwybodaeth am y prosiect ar draws y tri maes i nodi faint o brosiectau allai fod â sampl berthnasol ar gyfer pob grŵp.

Yna gweithiodd y tîm gwerthuso gyda'r grŵp llywio i ddatblygu dulliau casglu data ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid. Gweler Atodiad 6 am ragor o wybodaeth am y grwpiau rhanddeiliaid, y dull casglu data a ddefnyddiwyd, sut y gwnaethpwyd y cyswllt cychwynnol, y dull samplu a'r ad-daliad.

### 2.4 Archwilio ffynonellau data posibl

Yn y dyluniad cychwynnol o'r dull gwerthuso, nod y tîm oedd cael mynediad at ddata ar nifer y ceisiadau aflwyddiannus i'r gronfa grantiau, yn ddelfrydol trwy set ddata gyda manylion pob cais, y sgôr a'r penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, nid oedd y data hwn wedi'i gasglu'n rheolaidd. Awgrymwyd hefyd y dylid siarad â rhai ymgeiswyr aflwyddiannus am eu profiad, ond nid oedd hyn yn bosibl gan fod eu manylion wedi'u dileu (yn unol â GDPR).

### 2.5 Creu Panel Cynghori Arbenigol

Ffurfiwyd Panel Cynghori Arbenigol (EAP) ar gyfer y gwerthusiad i gynnig cyngor ac arweiniad (wedi'i lywio gan brofiad bywyd o hiliaeth) i'r tîm gwerthuso ar ymgysylltu â phobl sy'n profi hiliaeth/hiliaeth strwythurol.

Pwrpas y grŵp oedd:

- Cynnig cyngor ac arweiniad ar sut i ymgysylltu'n ystyrlon â gwahanol gymunedau sydd wedi profi hiliaeth.
- Cynnig cyngor ac arweiniad ar wahaniaethau logistaidd y grwpiau, sydd wedi profi gwahanol agweddau ar y rhaglen grantiau.
- Helpu i gyd-ddylunio gweithgarwch ymgysylltu, gan gynnwys cynghori ar ddulliau, canllawiau pwnc a rhannu gwybodaeth am yr ymchwil.

Cynhaliwyd tri chyfarfod o bell gyda'r EAP a chwblhawyd dau adolygiad all-lein gan aelodau'r EAP rhwng Tachwedd 2024 a Mawrth 2025. Roedd cynnwys y rhain yn canolbwyntio ar gasglu data cynllunio gyda Grŵp 2 (pobl a gyflogwyd/comisiynwyd fel rhan o'r prosiectau a ariannwyd) a Grŵp 4 (pobl a 'gymerodd ran' mewn gweithgareddau prosiect a ariannwyd).

Roedd cymryd rhan yn y grŵp yn wirfoddol, a chafodd hyn ei gyfathrebu'n aml, heb fod argaeledd yn cael unrhyw effaith ar eu parhad ar y panel na'u perthynas â Llywodraeth Cymru a Diverse Cymru.

Talwyd £50 i aelodau'r grŵp am bob cyfarfod yr oeddent yn mynychu, ac am bob sesiwn adolygu all-lein, y cawsant eu hannog i dreulio dim mwy nag awr arni.

### 2.6 Dylunio offer casglu data

Yn seiliedig ar nodau ac amcanion y gwerthusiad, ac wedi'u llywio gan y fframwaith gwerthuso realydd, dyluniwyd yr offer casglu data ar gyfer y rhanddeiliaid a nodwyd. Dyluniwyd pob un o'r offer casglu data mewn ymgynghoriad â'r grŵp llywio gwerthuso, a lle bo'n berthnasol, yr EAP. Cymeradwywyd yr holl ddogfennau gan Lywodraeth Cymru cyn cael eu hanfon i'w cyfieithu. Mae crynodeb o'r offer casglu data isod:

- Cyfweliadau manwl gyda rheolwyr grantiau, Diverse Cymru a mentoriaid cymunedol i archwilio barn ar broses ac effaith y rhaglen grantiau.
- Cyfweliadau manwl gyda'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil a Thîm Gweithredu Canolog ArWAP i archwilio cyd-destun ehangach y rhaglen grantiau.

- Arolwg ar-lein ar gyfer yr holl brosiectau a ariannwyd ym meysydd 2 a 3 i ddeall eu barn ar y broses ymgeisio a rheoli grantiau, y canlyniadau a gyflawnwyd (gan gynnwys rhwystrau) a'u hargymhellion ar gyfer dulliau cyllido/gwrth-hiliaeth yn y dyfodol.
- Cyfweliadau manwl gyda derbynwyr cyllid grant ym mhob maes, i ddeall eu barn ar y broses ymgeisio a rheoli grantiau, y canlyniadau a gyflawnwyd (gan gynnwys rhwystrau) a'u hargymhellion ar gyfer dulliau cyllido/gwrth-hiliaeth yn y dyfodol.
- Arolwg ar-lein gyda phobl sy'n gweithio mewn sefydliadau a dderbyniodd hyfforddiant (o brosiectau a ariannwyd) – i ddeall eu barn ar yr hyfforddiant, unrhyw effaith a gafodd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Arolwg ar-lein a chyfweliadau gyda phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol a gyflogwyd/comisiynwyd fel rhan o'r prosiectau a ariannwyd – i ddeall eu profiad o weithio ar y prosiect, unrhyw effaith a gafodd a'u barn ar sut y gellid gwella pethau.
- Arolwg ar-lein gyda grwpiau cymunedol a weithiodd gyda'r prosiectau a ariannwyd i'w helpu i gyflawni neu ddylunio – i ddeall eu profiad o weithio gyda phrosiectau a ariannwyd ac unrhyw effaith.
- Ymweliadau personol ac ar-lein â phrosiectau gyda phobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau prosiectau a ariannwyd – i ddeall sut a pham y gwnaethant gymryd rhan, unrhyw effaith a gafodd arnynt, a'r hyn yr hoffent ei weld o ran mannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yng Nghymru.

### 2.6.1 Dulliau o gasglu data

Roedd mynediad at randdeiliaid perthnasol yn amrywio ar draws y grwpiau, felly hefyd yr heriau ymarferol a moesegol. Amlinellir y dull a gymerwyd gyda phob grŵp rhanddeiliaid isod. Cafodd yr holl offer ymchwil eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y grŵp llywio gwerthuso cyn cael eu defnyddio.

Cyfweliadau â staff y rhaglen – darparwyd cysylltiadau uniongyrchol (enwau a chyfeiriadau e-bost) gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. Darparodd Llywodraeth Cymru fanylion cyswllt i'r tîm ymchwil ar gyfer staff yr Is-adran Diwylliant, mentoriaid cymunedol, staff Diverse Cymru a gweithwyr eraill Llywodraeth Cymru.

Darparwyd y wybodaeth hon yn ddiogel trwy blatfform ar-lein. Cysylltodd aelod o'r tîm ymchwil â phob person yn unigol i drefnu cyfweliad. Adolygwyd amserlenni'r cyfweliadau ar ôl y ddau gyntaf i sicrhau bod y canllaw pwnc yn addas i'r diben.

Cyfweliadau ac arolwg ar-lein gyda phrosiectau a ariannwyd – darparwyd cysylltiadau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i'r tîm ymchwil. Ar gyfer meysydd 1 a 2 roedd hyn yn cynnwys enw a chyfeiriad e-bost. Ar gyfer maes 3 roedd hyn yn cynnwys cyfeiriad e-bost. Darparwyd y manylion cyswllt hyn gyda chaniatâd y prosiectau a ariannwyd fel rhan o'r cyllid grant. Cafwyd rhai heriau gyda'r dull hwn, yn enwedig ym maes 3 lle nad oedd pob un o'r cyfeiriadau e-bost yn gyfredol (gyda rhai pobl wedi gadael y sefydliad). Darparwyd taliadau cydnabyddiaeth i arweinwyr prosiectau maes 3 ar ffurf taleb gwerth £50 i siopa ar-lein a anfonwyd gan MEL Research drwy e-bost yn dilyn y cyfweliad. Gwnaed y penderfyniad hwn yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r mentoriaid cymunedol ac eraill a oedd yn ymwneud â'r rhaglen grantiau. Ystyriwyd ei bod yn bwysig cydnabod amser arweinwyr prosiectau maes 3 oherwydd bod yr unigolion hyn fel arfer yn gweithio mewn sefydliadau bach iawn gydag adnoddau cyfyngedig. Gall cymryd hyd at awr o'u hamser gael goblygiadau i'w cyflawni.

Ar gyfer y cyfweliadau, gwnaed cyswllt cychwynnol â'r holl arweinwyr prosiect ym maes 1 a sampl o arweinwyr prosiect ym meysydd 2 a 3. Sicrhaodd hyn ledaeniad ar draws y sectorau a gwahanol fathau o brosiectau. Adolygwyd y rhestr o gyfweledigion posibl yn barhaus oherwydd cyfraddau ymateb isel. Adolygwyd amserlenni'r cyfweliadau ar ôl y ddau gyntaf i sicrhau bod y canllaw pwnc yn addas i'r diben.

Ar gyfer yr arolwg ar-lein, (ar gyfer meysydd 2 a 3) anfonwyd hwn i'r holl gyfeiriad e-bost a ddarparwyd i'r tîm ymchwil. Profwyd yr arolygon ar-lein gan y tîm ymchwil a'r grŵp llywio gwerthuso.

Arolwg ar-lein gyda phobl a gymerodd ran mewn hyfforddiant a sefydliadau cymunedol – Cynlluniwyd arolygon dienw ar-lein ar gyfer grwpiau 1 a 3 er mwyn peidio â chasglu unrhyw ddata personol yn ddiangen. Gofynnwyd i arweinwyr prosiectau a ariannwyd ddosbarthu dolenni a gwahoddiadau'r arolwg i bobl berthnasol.

Arolwg ar-lein a chyfweliadau gyda phobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd fel rhan o brosiectau a ariannwyd – Trafodwyd y rhan benodol hon o'r gwerthusiad yn helaeth gyda'r EAP. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys yr angen i gyfweld â'r grŵp hwn (mewn perygl o brofi teimladau o echdynnu, llygadu ac ail-fyw trawma), diogelu anhysbysrwydd, amrywiad geiriad / terminoleg cwestiynau rhwng y rhai a gyflogwyd a'r rhai a gomisiynwyd, grymuso cyfweledigion, ac ad-daliad priodol. Esboniodd yr ymatebwyr bwysigrwydd rhoi rheolaeth i bobl dros eu gwybodaeth ac esboniwyd rhai o'r pryderon y gallai fod gan bobl ynglŷn â chymryd rhan. Cydweithredwyd yn agos â'r EAP i lywio'r gwaith o ddatblygu dull a fyddai'n sensitif i'r pryderon hyn. Er enghraifft:

- Darparu esboniad manwl o'r hyn i'w ddisgwyl, yn ogystal â chwestiynau'r cyfweliad cyn y cyfweliad, gan ganiatáu i'r sawl a oedd yn cael ei gyfweld amgyffred hyn a hysbysu'r tîm gwerthuso o unrhyw gwestiynau yr hoffai eu hosgoi.
- Darparu themâu a dyfyniadau o'r cyfweliad i'r sawl a oedd yn cael ei gyfweld i'w hadolygu a'u cymeradwyo hyd at saith diwrnod ar ôl y cyfweliad.
- Rhoi dewis i rywun gael ei enwi fel cyfrannwr i'r ymchwil

Gofynnwyd i arweinwyr prosiectau a ariannwyd anfon gwahoddiad e-bost a dolen i'r arolwg ar-lein at bobl ar ran y timau gwerthuso. Roedd y gwahoddiad yn cynnig yr opsiwn i dderbynwyr siarad ag ymchwilydd yn hytrach na chwblhau'r arolwg ar-lein (neu'n ychwanegol at hynny). Cynigiwyd taleb o £50 i'r rhai a gafodd eu cyfweld fel cydnabyddiaeth am eu hamser. Gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd natur sensitif y cwestiynau o bosibl ac i sicrhau, ymhlith technegau eraill, nad oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hecsbloetio ar gyfer sgwrs a allai beri iddynt ail-fyw trawma. Roedd yn arbennig o bwysig darparu taliad i weithwyr llawrydd gan y gallai'r un awr a dreuliwyd mewn cyfweliad fod yn cymryd amser i ffwrdd o waith cyflogedig arall. Byddai'n anfoesegol peidio ag ymestyn hyn i'r rhai a oedd wedi cael eu cyflogi ar gontractau, ac felly fe'i darparwyd i unrhyw unigolyn yng Ngrŵp 2 a gafodd ei gyfweld.

Ymgysylltu yn bersonol ac ar-lein â phobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau a ariannwyd – Fel gyda Grŵp 2, trafodwyd y dull yn helaeth gyda'r EAP. Nod y tîm oedd ymgysylltu ag unigolion mewn lleoliadau lle roeddent yn teimlo'n ddiogel. Mewn

cytundeb â'r EAP a'r grŵp llywio gwerthuso, penderfynwyd cysylltu â sefydliadau a oedd eisoes wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad (e.e. drwy gyfweliad) a chael sgwrs am unrhyw gyfleoedd i ddod i gwrdd â phobl a oedd wedi cymryd rhan mewn prosiectau a ariannwyd gan ArWAP. Dyluniwyd y canllaw pwnc ar gyfer trafodaethau mewn ymgynghoriad â'r EAP.

Gan fod y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw yn wahanol, megis yn ôl gweithgaredd, lleoliad, trefniadaeth ac aelodaeth, addaswyd y dull o ymgynghori ar gyfer pob un, tra'n canolbwyntio ar set o gwestiynau craidd. Gwnaed mynychwyr yn ymwybodol o'r pwrpas i'r ymchwilwyr oedd yn mynychu cyn y gweithdy ac fe'u hanogwyd i gymryd rhan yn y ffordd a oedd fwyaf addas iddynt. Roedd hyn ar ffurf rhai pobl yn siarad ag ymchwilwyr un i un, rhai trafodaethau grŵp a rhai ymatebion unigol a ddarparwyd ar nodiadau post-it.  Cynhaliwyd dau ymgynghoriad o bell, gydag unigolion yn ymuno fel rhan o grŵp ffocws ar-lein.

### 2.7 Gweithgareddau casglu data

**Tabl 1 - Crynodeb o'r gweithgareddau casglu data, targedau a sampl a gyflawnwyd**

| Dull casglu data | Cyfanswm y bobl | Sampl targed | Sampl a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau â swyddogion Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru, mentoriaid cymunedol, Diverse Cymru ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru | 11 | 11 | 9 |
| Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 2 | 21 | 21 | 7 |
| Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 3 | 55 | 55 | 12 |
| Cyfweliadau ag arweinwyr prosiect maes 1 | 7 | 7 | 7 |
| Cyfweliadau ag arweinwyr prosiect maes 2 | 21 | 10 | 9 o bobl o 8 prosiect |
| Cyfweliadau ag arweinwyr prosiect maes 3 | 55 | 15 | 16 o bobl o 12 o brosiectau |
| Arolwg ar-lein gyda phobl a dderbyniodd hyfforddiant neu gymorth | Anhysbys | 10 o brosiectau y nodwyd eu bod yn cynnig hyfforddiant neu gymorth | 18 |
| Arolwg ar-lein gyda grwpiau cymunedol | Anhysbys | 19 o brosiectau y nodwyd eu bod yn gweithio gyda grwpiau cymunedol | 3 |
| Arolwg ar-lein a chyfweliadau gyda phobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd | Anhysbys | 23 o brosiectau y nodwyd eu bod yn cyflogi/ comisiynu | 14 (11 o ymatebion i'r arolwg, 3 chyfweliad) |
| Ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein â phobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau a ariannwyd | Sampl anhysbys o unigolion, 82 o brosiectau | 80 (o 8 prosiect) | 67 (o 8 prosiect) |
| Dadansoddiad o adroddiadau diwedd prosiect | Maes 1 – 6<br>Maes 2 – 21<br>Maes 3 – 55 | Maes 1 – 6<br>Maes 2 – 21<br>Maes 3 – 55 | Maes 1 – 6<br>Maes 2 – 16<br>Maes 3 – 37 |

## 2.8 Newidiadau i'r dull gweithredu

Yn ystod y gwerthusiad, gwnaed newidiadau i'r dull gweithredu, mewn ymgynghoriad â'r grŵp llywio gwerthuso. Un o'r newidiadau allweddol oedd cyflwyno'r pedwar grŵp o bobl i ymgysylltu â nhw. Ni ddefnyddiwyd dau ddull. Y cyntaf oedd grŵp ffocws cymdeithas ddinesig a'r ail oedd sesiwn Mapio Effaith Crychdonnau (REM). Awgrymwyd y grŵp ffocws cymdeithas ddinesig yn y Gwahoddiad i Dendro gwreiddiol. Y nod oedd deall a oedd y rhaglen grantiau wedi cael effaith ar sut roedd pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol yn gweld mannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon. Ar ôl trafod amserlenni a nodau'r gwerthusiad, cytunwyd na fyddai'r grwpiau ffocws cymdeithas ddinesig yn ychwanegu'n sylweddol at ateb y nodau gwerthuso a'r cwestiynau ymchwil (oherwydd byddai llawer o'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu trwy siarad â grŵp 4). Bwriad y gweithdai REM, a gynigiwyd fel rhan o'r cais gwreiddiol, oedd dod ag arweinwyr prosiectau a ariannwyd ynghyd i fapio'r effeithiau a oedd yn gysylltiedig â'r cyllid. Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod gan brosiectau a ariannwyd gapasiti cyfyngedig ac oherwydd heriau wrth recriwtio i gyfweliadau a'r arolwg ar-lein, penderfynwyd na fyddai ffurf arall (ychwanegol) ar gasglu data yn ddoeth. Teimlwyd hefyd y gellid cyflawni nodau ac amcanion yr ymchwil gyda'r dulliau casglu data presennol.

## 2.9 Dadansoddi ac adrodd

Mae'r holl ddata ansoddol, gan gynnwys cyfweliadau, ymatebion testun agored i'r arolwg ar-lein, ac adroddiadau diwedd prosiect wedi'u dadansoddi'n thematig, ac yn unol â'r fframwaith gwerthuso realydd. Mae'r holl waith dadansoddi wedi cael ei adolygu gan y rheolwr prosiect.

Mae'r data a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad wedi cael ei ddefnyddio i ateb y nodau ymchwil allweddol (a'r cwestiynau cysylltiedig) y cytunwyd arnynt ar y dechrau. Lle bo hynny'n bosibl, defnyddiwyd ystod o ffynonellau data fel tystiolaeth o'r canfyddiadau (gan gryfhau eu dilysrwydd).

## 2.10 Cyfyngiadau

Mae rhai cyfyngiadau i'r gwerthusiad hwn. Un o'r cyfyngiadau allweddol yw bod prosiectau a ariannwyd wedi dod i ben ym mis Rhagfyr 2024 (gyda rhai yn dod i ben y flwyddyn flaenorol). Roedd hyn yn golygu bod casglu data gan bobl a oedd yn ymwneud â gweithgareddau prosiect a ariannwyd yn gyfyngedig oherwydd bod y gweithgareddau wedi dod i ben. Gan fod angen cyd-gynllunio'r dull casglu data gyda'r EAP, ni ddechreuwyd ymgysylltu â'r grwpiau hyn tan fis Chwefror 2025. Roedd hyn yn golygu casglu data gan sefydliadau a oedd yn dal i weithredu (ar ôl i'r cyllid ddod i ben). Felly, mae'r sampl wedi'i hystumio gan fod barn wedi'i chasglu gan bobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau a ariannwyd ac sy'n rhan o sefydliadau sydd â'r adnoddau i barhau heb grant ArWAP. Byddai wedi bod yn well ymweld â phrosiectau a digwyddiadau fel yr oeddent yn digwydd, ond byddai hyn wedi gofyn i'r gwerthusiad gael ei gomisiynu yn gynharach o lawer yn y broses grant.

Cyfyngiad allweddol arall yw'r sampl fach ar gyfer rhai o'r dulliau casglu data, (e.e. grwpiau cymunedol), yn ogystal ag adroddiadau diwedd prosiect sydd ar goll (o faes 3 yn benodol). Mae hyn yn golygu bod y casgliadau a dynnwyd o'r gwerthusiad hwn yn adlewyrchu'r data sydd ar gael, ac nad yw'n adlewyrchiad gwirioneddol o'r rhaglen grantiau gyfan.

Y cyfyngiad terfynol sydd wedi effeithio ar wahanol agweddau ar y broses ymchwil yw'r amserlen fer ar gyfer y gwerthusiad (Medi 2024 – Mawrth 2025). O ystyried cymhlethdod y grant a nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan, byddai wedi bod yn fuddiol cael mwy o amser i feithrin perthynas ag arweinwyr prosiect a sefydlu ymddiriedaeth, gan gryfhau dyfnder ac ansawdd y data o bosibl.

## 3. Canfyddiadau Adran 1 – Maes 1

### 3.1 Canfyddiadau allweddol



Roedd maes 1 yn canolbwyntio ar ddarparu cyllid i gyrff hyd braich ar draws diwylliant, treftadaeth a chwaraeon:

a) Er i rai prosiectau fynd trwy broses ailadroddus gyda Llywodraeth Cymru i fireinio eu prosiect, disgrifiodd eraill broses gystadleuol lle gwnaethant gais ac aros i glywed y canlyniad. Roedd gan arweinwyr prosiectau adborth cyfyngedig ar y broses ymgeisio, ar wahân i'r amser a gymerodd i dderbyn cadarnhad terfynol.

b) Nododd staff rhaglen Llywodraeth Cymru fod y broses rheoli grantiau yn gweithio'n dda, yn enwedig rôl mentoriaid cymunedol a gwerth cyfarfodydd monitro chwarterol. Fodd bynnag, roedd heriau, gan gynnwys oedi o ran darparu cyllid, cyllid cyfyngedig ar gyfer rôl mentor cymunedol, ac angen ar gyfer cymorth bugeiliol i staff prosiectau a oedd yn gweithio mewn sefydliadau lle roedd amrywiaeth gyfyngedig.

c) Nododd arweinwyr prosiectau nifer o agweddau cadarnhaol ar y broses rheoli grantiau, gan awgrymu ei bod yn debyg i grantiau cyllid eraill y llywodraeth, bod gofynion monitro yn ddichonadwy, bod y broses fonitro gyffredinol yn gefnogol, bod rôl y mentor cymunedol yn cael ei werthfawrogi a bod y cyllid yn weddol hyblyg.

d) Disgrifiodd arweinwyr prosiectau rai heriau hefyd, gan gynnwys, bod ffurflenni monitro yn ailadroddus, nad oedd amseriad y taliadau yn cyd-fynd â chyflawni'r rhaglen, bod angen mwy o gymorth bugeiliol ar staff prosiectau (fel y'i nodwyd gan staff Llywodraeth Cymru), y dylai fod wedi bod mwy o gyfleoedd i ddysgu ar y cyd a bod y gofynion monitro ariannol yn feichus.

### 3.2 Maes 1 – Barn Llywodraeth Cymru a staff y rhaglen ar y broses ymgeisio.

Darparodd maes 1 gyllid grant uniongyrchol a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer prosiectau a gomisiynwyd a gyflwynwyd gan gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru a

oedd yn cynnwys Chwaraeon Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Disgrifiodd staff y rhaglen sut y gwahoddwyd cyrff hyd braich i gyflwyno cynnig cychwynnol, cyn iddynt dderbyn fersiynau pellach yn ymateb i adborth ar sut y gellid datblygu'r cynnig, e.e. sut y gallai'r prosiect wneud newid mwy arwyddocaol, cyn i'r grant gael ei gynnig. Esboniodd un cyfranogwr mai hon oedd proses arferol Llywodraeth Cymru wrth ddyfarnu grantiau i gyrff hyd braich.

### 3.3 Maes 1 – Barn arweinwyr prosiectau ar y broses ymgeisio.

#### 3.3.1 Profiadau gwahanol o'r broses ymgeisio

Cafodd cyfranogwyr o'r pum sefydliad a ariannwyd ym maes 1 (roedd dau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect ar y cyd) brofiadau gwahanol o'r broses ymgeisio am grant. Er i rai ei ddisgrifio fel proses ailadroddus (fel y disgrifir uchod), roedd eraill yn ei ystyried yn broses gystadleuol, lle gwnaethant gais am y cyllid ac yna bu'n rhaid iddynt aros am benderfyniad – heb unrhyw adborth na thrafodaeth am eu cais.

> "Cawson ni ein hannog yn gryf i gyflwyno cais am y cyllid, yr oedden ni'n cytuno'n llwyr ag ef. Doedd e ddim yn teimlo y bydden ni'n 'sicr' yn cael y cyllid, ac roedd e'n teimlo fel ein bod ni'n mynd i mewn i ryw fath o broses gystadleuol. …Felly, cawson ni ein hannog i wneud cais – felly dyna oedd y cyfathrebu cyntaf. Fe wnaethon ni gais – glywon ni ddim byd, un mis yn ddiweddarach – fe wnaethon ni holi, fis yn ddiweddarach – cafodd ei gymeradwyo." Derbynnydd grant maes 1, ID12

Nododd y rhai a gymerodd ran yn y broses ailadroddol fod y broses wedi dechrau drwy gyflwyno syniad drafft ac yna fersiynau pellach o'r drafft nes bod holl gwestiynau'r Is-adran Diwylliant wedi'u hateb. Roedd hyn yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth neu ehangu ar bwyntiau yn y drafft.

Ym mhob achos, roedd y broses ailadroddol hefyd yn cynnwys trafodaeth gyda'r Is-adran Diwylliant ar sut i gyflawni'r prosiect gyda llai o arian na'r hyn y gofynnwyd amdano, a oedd yn golygu bod yn rhaid i'r prosiectau hyn addasu eu cynlluniau prosiect yn gyflym i'r cyllid oedd ar gael.

> "Cafodd ei leihau. Felly, roedd gennym ni lai nag yr oedden ni wedi gofyn amdano i ddechrau. Felly, roedd yn rhaid i ni fynd ati i ailfodelu mewn cyfnod byr iawn." Derbynnydd grant maes 1, ID8

Derbyniodd prosiectau oedd yn ymwneud â phroses gystadleuol ganfyddedig yr holl gyllid y gofynnwyd amdano.

### 3.3.2 Heriau gyda'r broses ymgeisio

I un cyfranogwr, roedd y broses ailadroddol hir, a barodd o fis Mehefin i fis Medi/Hydref, gyda chadarnhad terfynol tuag at ddiwedd y flwyddyn, yn rhwystredig a chododd bryderon am orfod gwario'r cyllid erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth (datryswyd hyn yn ddiweddarach – mwy o fanylion isod).

## 3.4 Maes 1 – Barn Llywodraeth Cymru a staff y rhaglen ar y broses o reoli grantiau.

Roedd staff y rhaglen o Lywodraeth Cymru o'r farn bod y broses rheoli grantiau wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi'r sawl a dderbyniodd grantiau. Y rheswm am hyn, yn ôl un cyfranogwr, oedd bod perthnasoedd wedi'u sefydlu a'u rheoli gyda'r prosiectau a ariannwyd o gamau cynnar y broses o ddyfarnu'r grantiau.

### 3.4.1 Gwerth cyfarfodydd monitro chwarterol

Canolbwyntiodd staff y rhaglen yn arbennig ar y cyfarfodydd monitro chwarterol dan arweiniad Arweinydd Cydraddoldeb yr Is-adran Diwylliant gyda chefnogaeth mentor cymunedol. Disgrifiwyd cyfarfodydd monitro fel cyfle i ddarganfod sut roedd prosiectau'n mynd rhagddynt, monitro gwariant, cyfathrebu gofynion ar gyfer cyflwyno hawliadau, cynghori prosiectau ar sicrhau mwy o gyfranogiad cymunedol os oedd angen, cynghori ar a oedd syniadau'n briodol yn ddiwylliannol ac, yn hollbwysig, nodi unrhyw broblemau a brofwyd gan brosiectau a ariannwyd, cyn darparu cymorth os oedd angen. Yn ôl yr Arweinydd Cydraddoldeb, er bod y cyfarfodydd monitro yn eithaf strwythuredig, mabwysiadwyd dull anffurfiol hefyd, gyda'r nod o chwalu rhwystrau i annog prosiectau i fod yn agored am unrhyw faterion yr oeddent yn eu profi, y gallent eu trafod wedyn â thîm yr Is-adran Diwylliant a chynnig cymorth.

### 3.4.2 Rôl mentoriaid cymunedol

Roedd mentoriaid cymunedol yn cael eu gwerthfawrogi am ddod â phrofiad bywyd o fod yn aelod o gymuned ethnig leiafrifol i'r broses rheoli grantiau, ynghyd â chefnogaeth, arbenigedd, cyngor a her. Fe wnaethant hefyd ddod â safbwyntiau a gwybodaeth ehangach i gefnogi'r Arweinydd Cydraddoldeb yn eu rôl.

### 3.4.3 Heriau'r broses rheoli grantiau

3.4.3.1 Oedi cyn lansio cynllun grantiau CHS ArWAP

Yn sgil yr oedi hwn, cafodd cyllid ei ddyfarnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, h.y. ym mis Hydref, a roddodd bwysau ar reolwyr prosiect sefydliadau i gyflawni'r hyn a ddylai fod wedi'i gyflawni yn y flwyddyn gyntaf o fewn chwe mis (mater a effeithiodd hefyd ar faes 2).

3.4.3.2 Adnoddau cyfyngedig ar gyfer mentoriaid cymunedol

Yn ôl mentoriaid cymunedol ac aelodau o dîm rhaglen Llywodraeth Cymru, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, gallai'r Is-adran Diwylliant ond alw ar fentoriaid cymunedol am gyfnod cyfyngedig a nodwyd y dylai'r swydd gael ei rheoleiddio yn ddelfrydol. At hynny, roedd yn rhaid i fentoriaid cymunedol weithio o gwmpas eu 'swydd bob dydd', a ddaeth yn ormod o her i un mentor cymunedol y bu'n rhaid iddo adael.

3.4.3.3 Yr angen am gymorth bugeiliol

Daeth mentoriaid cymunedol yn ymwybodol o'r angen am fwy o gymorth bugeiliol mewn rhai sefydliadau hyd braich i bobl a oedd yn gweithredu prosiect ar ran y sefydliad. Er enghraifft, cymorth lles i weithwyr prosiect profiad bywyd a oedd yn ymgymryd â gweithgareddau a allai achosi trallod, neu fwy o gefnogaeth i reolwyr prosiect Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol a oedd yn gweithio mewn amgylchedd gwasanaeth sifil nad yw'n amrywiol.

> "Mae'n debyg ei fod wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfarfodydd monitro, pan rydyn ni wedi gofyn cwestiynau penodol am sut mae sefydliadau'n cefnogi unigolion sy'n allweddol i gyflawni'r prosiect. Mae'n amlwg o ymatebion ac atebion pobl nad yw hynny wedi bod yn ystyriaeth mewn rhai sefydliadau." Llywodraeth Cymru [Mentor] ID7

## 3.5 Maes 1 – Barn arweinwyr prosiectau ar y broses rheoli grantiau

Cafodd y rhai a gymerodd ran ym maes 1 brofiadau gwahanol o'r broses rheoli grantiau yn gyffredinol. Er bod rhai yn meddwl ei fod wedi gweithio'n dda yn gyffredinol, roedd eraill o'r farn ei bod yn fwy heriol.

### 3.5.1 Profiad cadarnhaol o'r broses rheoli grantiau

Nodwyd y themâu canlynol gan gyfranogwyr a oedd yn fodlon â'r broses rheoli grantiau yn gyffredinol:

3.5.1.1 Roedd y grant yn debyg i grantiau eraill y llywodraeth

Roedd y broses rheoli grantiau yn debyg i brofiad blaenorol o grantiau'r llywodraeth.

> "Ar y cyfan, roeddwn i'n teimlo ei fod wedi cael ei reoli'n dda. Mae yna lawer o grantiau'r llywodraeth rydyn ni'n eu rheoli ac rwy'n credu ei fod yn bendant yn gyfartal â grantiau eraill yr ydym yn eu gweinyddu." Derbynnydd grant maes 1, ID9

3.5.1.2 Roedd gofynion monitro yn ddichonadwy

Roedd y gwaith o fonitro canlyniadau yn ddichonadwy ac ar y lefel arferol a ddisgwylir gan grantiau'r llywodraeth (roedd hyn yn cynnwys adroddiadau monitro chwarterol a chanol blwyddyn a hawliadau am gyllid, gan gynnwys yr holl anfonebau).

3.5.1.3 Roedd y broses fonitro yn gefnogol

Er gwaethaf ei thrylwyredd, roedd y broses fonitro yn gefnogol. Er enghraifft**,** roedd un cyfranogwr yn teimlo nad oeddent erioed wedi cael eu monitro mor agos ac mai'r unig dro yr oeddent wedi profi proses mor drylwyr oedd ar gyfer prosiect Ewropeaidd. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth mawr rhwng y ddau brofiad; er bod y broses o fonitro'r prosiect Ewropeaidd yn ymddangos bron fel pe bai eisiau 'eich dal allan', roedd proses rheoli maes 1 yn llawer mwy cyfeillgar a dim ond er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r prosiect y gofynnwyd cwestiynau.

Gwnaeth y cyfarfodydd monitro chwarterol weithio'n dda gan eu bod yn anffurfiol, yn gefnogol ac yn rhoi cyfle i ychwanegu mwy o fanylion at adroddiadau monitro chwarterol ac i siarad trwy'r cynlluniau ar gyfer y chwarter blwyddyn nesaf. Roedd

natur anffurfiol cyfarfodydd yn ei gwneud hi'n haws i brosiectau godi unrhyw faterion neu wneud newidiadau i brosiectau (mwy o fanylion yn nes ymlaen). At hynny, roedd staff yr Is-adran Diwylliant wedi bod yn gymwynasgar, yn gyflym i ymateb ac yn gyfeillgar yn gyffredinol.

Yn ogystal, nodwyd bod y templed monitro chwarterol yn hawdd ei gwblhau, gan gynnig offeryn defnyddiol i reolwyr prosiect fyfyrio ar gynnydd a heriau (fodd bynnag, cafwyd safbwyntiau cyferbyniol ar gynnwys y templedi adrodd – gweler isod).

> "Roedd y monitro chwarterol yn seiliedig ar dempled a oedd yn ddefnyddiol iawn o ran gallu fframio ein hymatebion ynghylch cynnydd. Roedd yna rai awgrymiadau da i ofyn am yr heriau, ac yn y blaen. Ac roedd cael y rheiny yna, rwy'n credu, yn ddefnyddiol i'r rheolwyr prosiect werthuso'n feirniadol sut roedden ni'n ei wneud." Derbynnydd grant maes 1, ID9

3.5.1.4 Cafodd mewnbwn mentor cymunedol ei werthfawrogi

Roedd cyfranogiad mentor cymunedol mewn cyfarfodydd monitro yn cael ei ystyried yn ychwanegiad gwerthfawr i'r broses adrodd.

> "O ran y broses adrodd, mae'n eithaf tebyg i grantiau blaenorol... yr hyn sy'n wahanol yw cael aelodau o'r gymuned a chynrychiolwyr sefydliadau Mwyafrif Byd-eang yn y gofod adrodd." Derbynnydd grant maes 1, ID7

3.5.1.5 Roedd y broses yn hyblyg i newidiadau

Roedd Llywodraeth Cymru yn hapus i brosiectau addasu elfennau o'u cynlluniau, a oedd yn broses syml trwy gais i amrywio contract. Er enghraifft, gwnaeth dau brosiect newidiadau sylweddol i'w prosiectau i gynnwys cyfranogiad cymunedol, e.e. cyd-greu â chymunedau a phrosiectau cymunedol, yn y ddau achos oherwydd dylanwad rheolwyr prosiect Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol nad oeddent yn rhan o ddyluniad gwreiddiol y prosiect. Nid oedd y naill prosiect na'r llall y gwnaethpwyd cais amdanynt wedi cynnwys unrhyw weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned nac ymgynghori ymlaen llaw â chymunedau i ddechrau.

> "Oherwydd y llywio cryf iawn, iawn gan [Enw'r Rheolwr Prosiect] tuag at gyd-greu. Un cwestiwn yr oedd [y rheolwr prosiect] yn gofyn i ni yn gyson oedd, "Iawn. Fe wnaethoch chi ddweud eich bod chi eisiau gwneud hyn. Ydych chi

wedi ymgynghori â'r gymuned rydych chi'n gweithio gyda hi? Ydyn nhw'n cytuno bod hynny'n flaenoriaeth iddyn nhw?", ac felly, fesul tipyn, symudodd y prosiect yn sylweddol o fod yn ymwneud â [pwnc gwreiddiol y cais]." Derbynnydd grant maes 1, ID10

At hynny, gwnaeth y broses rheoli grantiau annog y ddau brosiect i newid cyfeiriad eu prosiect, h.y. symud tuag at gyfranogiad cymunedol gan y byddai'n gwella'r prosiect, e.e. cysoni'r prosiect ag egwyddorion ArWAP. Gwnaeth un o'r arweinwyr prosiect ganmol cefnogaeth yr Arweinydd Cydraddoldeb yn arbennig gyda'i syniadau ar sut i wella'r prosiect.

"Hawdd iawn yn wir, ac yn fwy na hawdd. Cawson ni ein hannog i wneud hynny, i fynd i'r cyfeiriad yr oedd y gymuned eisiau mynd iddo." Derbynnydd grant maes 1, ID10

Roedd y broses rheoli grantiau hefyd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ariannol, e.e. yn caniatáu hyblygrwydd cyllidebol rhwng gwahanol gronfeydd cyllido drwy'r broses amrywio contract ac yn caniatáu i un prosiect wario'r rhan fwyaf o'r grant tuag at ddiwedd y prosiect oherwydd iddo ddechrau'n hwyr [er bod hyn hefyd yn cael ei ddisgrifio fel her – mwy o fanylion isod].

### 3.5.2 Heriau'r broses rheoli grantiau

Roedd yr holl gyfranogwyr, gan gynnwys y rhai a oedd yn fodlon yn gyffredinol, yn wynebu heriau gydag agweddau ar y broses rheoli grantiau.

#### 3.5.2.1 Nodwyd bod ffurflenni monitro yn ailadroddus

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o'r farn bod cwblhau ffurflenni monitro chwarterol yn ailadroddus. Roedd adroddiadau monitro chwarterol a chanol blwyddyn yn gofyn am bethau tebyg a oedd, yn ymarferol, yn golygu torri a gludo o'r adroddiad blaenorol. Awgrymodd un cyfranogwr y dylai'r Is-adran Diwylliant symleiddio'r ffurflen mewn ffordd a fyddai'n sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chasglu o hyd.

"Ac yna rydych chi'n cael ffurflen monitro canol blwyddyn i'w llenwi hefyd ac rwy'n torri ac yn gludo. Mae e' fel, "Pam? Rydw i wedi dweud y rhan fwyaf o hyn." Derbynnydd grant maes 1, ID8

> “Roeddwn i’n aml yn teimlo fy mod i’n ateb yr un cwestiwn drosodd a throsodd, neu’n ceisio dod o hyd i ffordd newydd o ddweud yr un peth eto.” Derbynnydd grant maes 1, ID13

Yn ogystal, nododd un cyfranogwr fod angen i’r ffurflenni ddarparu mwy o gyfle a ‘lle’ i ychwanegu ‘cyffyrddiad dynol’ wrth ysgrifennu adroddiadau, e.e. i allu mynegi sut roedd y prosiect yn newid bywydau pobl.

> “Ac roedd angen rhywfaint mwy o gyffyrddiad dynol arnyn nhw o gymharu â’r hyn roedden ni’n ysgrifennu. Roedd e’n teimlo fel bod y cwestiynau’n rhai blinedig ac, fel prosiectau fel hyn sy’n cynnwys, wyddoch chi, newid bywydau pobl go iawn a, wyddoch chi, mynd â phobl trwy wahanol newidiadau, rwy’n credu y gallai rhai o’r cwestiynau fod wedi bod yn fwy dynol.” Derbynnydd grant maes 1, ID13

At hynny, roedd rhai prosiectau yn teimlo ei bod yn heriol bod monitro yn gofyn yn gyson am effeithiau, pan oedd y prosiect ar y cam cyflawni allbynnau ac nad oedd sôn am unrhyw effeithiau eto.

> “Mae’n anodd eu bod nhw [Llywodraeth Cymru] yn gofyn am effaith a chanlyniadau cyn i chi hyd yn oed gyrraedd y cam hwnnw. Felly, roedd llawer o’n hadroddiadau yn ymwneud ag allbynnau, wyddoch chi, yr hyn rydyn ni wedi’i wneud, ac roedden nhw [Llywodraeth Cymru] yn gofyn byth a hefyd i ni ddweud beth fu’r effaith, canlyniad hynny, a’r cyfan y gall rhywun ei ddweud yw, “Bwrw ymlaen â’r prosiect, gwneud yr hyn yr oedden ni’n ei wneud, yr hyn y gofynnwyd i ni ei wneud”. Dim ond yn y broses hon nawr [y gwerthusiad] rydyn ni’n gweld yr effaith fawr. Yr adroddiad diwedd prosiect yw’r amser i werthuso’r etifeddiaeth a’r canlyniadau.” Derbynnydd grant maes 1, ID10

#### 3.5.2.2 Roedd amseru’r taliadau yn heriol

Cafodd y rhan fwyaf o brosiectau broblemau gyda phroffil cyllido maes 1, lle roedd mwy o gyllid yn cael ei ddarparu ar y dechrau, gan ddadlau bod angen amser i roi prosiectau ar waith yn gyffredinol. Er enghraifft, mae’n cymryd amser i recriwtio aelodau newydd o staff, sicrhau eu bod yn ymgartrefu mewn sefydliad, sefydlu cysylltiadau â’r gymuned neu ddatblygu gwaith artistig. Awgrymodd un cyfranogwr,

yn hytrach na darparu mwy o gyllid ar y dechrau, gyda chyllid yn lleihau'n raddol dros gyfnod tair blynedd y grant, y byddai wedi bod yn fwy defnyddiol cael y rhan fwyaf o'r cyllid yn y deunaw mis olaf pan oedd y prosiect yn barod i 'gyflymu'.

Yn y pen draw, roedd y broses rheoli grantiau yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd cyllidebol i'r rhan fwyaf o brosiectau yr effeithiwyd arnynt, er enghraifft trwy archwilio a ellid cael mynediad at gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, mae naratifau cyfranogwyr yn awgrymu bod y profiad hwn wedi achosi straen, wedi cymryd amser i'w sortio (gan effeithio ar ddechrau'r prosiect) ac wedi dibynnu ar waith caled ac ymrwymiad pobl i gwblhau prosiectau ar amser.

> "Canlyniad hyn yw ein bod ni wedi cael llawer iawn o weithgarwch tuag at ddiwedd y prosiect. Ac mae hynny wedi rhoi llawer iawn o bwysau ar bobl. Dydyn nhw ddim wedi gallu cymryd gwyliau. Nid ein bod ni wedi eu gorfodi; cymaint oedd eu hymrwymiad i'r prosiect fel na wnaethon nhw gymryd gwyliau." Derbynnydd grant maes 1, ID10

Gwaethygwyd dechrau araf un prosiect, oherwydd amser sefydlu, ymhellach gan yr amser a gymerodd i esbonio i Lywodraeth Cymru bod angen amser ar eu sefydliad i ddyfarnu grantiau i sefydliadau eraill oedd yn ymwneud â'r prosiect, ac nad oedd y sefydliadau hyn mewn sefyllfa i wario'r arian i wneud y gwaith a'i hawlio'n ôl.

> "Felly, yn sydyn roedd gennym ni'r pot mawr hwn o arian roedd yn rhaid i ni ei gael allan o'r drws oherwydd roedd angen ein bod ni'n ei roi i'r [sefydliadau eraill oedd yn gweithio ar y prosiect] yn y flwyddyn ariannol honno. Beth bynnag, ond roedd yn rhaid i ni ddarparu tystiolaeth bod y gwaith wedi'i wneud ac roedden ni'n dweud, "Arhoswch funud, nid dyna sut mae'n gweithio". Felly, fe gawson ni sgyrsiau heriol iawn ac yn y pen draw fe wnaethon nhw ddeall. … Ond fe achosodd e' oedi, wyddoch chi, fe achosodd e' oedi o ran mynd ati i roi pethau ar waith." Derbynnydd grant maes 1, ID8

Awgrymodd y prosiect hwn y dylid caniatáu mwy o amser ar y dechrau i ddatrys problemau posibl cyn i brosiect ddechrau yn y dyfodol. Yn y pen draw, caniatawyd i'r prosiect symud arian i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn dyfarnu'r grantiau.

#### 3.5.2.3 Yr angen am gymorth bugeiliol i staff y prosiect.

Yn unol ag adborth gan staff rhaglen Llywodraeth Cymru, tynnodd tri arweinydd prosiect sylw hefyd at yr angen am fwy o gymorth bugeiliol i reolwyr prosiectau sy'n gwneud newidiadau mewn sefydliadau â diwylliannau a phrosesau sefydledig iawn, ac i bobl â phrofiad bywyd o hiliaeth sy'n gweithio ar weithgareddau prosiect a allai ail-fyw trawma.

> "Mae heriau o amgylch diogelu... mae'n waith emosiynol gyda llafur emosiynol i ymarferwyr creadigol a staff….Fe wnaethon ni roi mesurau diogelu ar waith yn ystod y prosiect, ond fe ddylai fod wedi bod yno o'r cychwyn cyntaf." Derbynnydd grant maes 1, ID7

### 3.5.2.4 Mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd

Byddai rhai prosiectau wedi hoffi mwy o gyfleoedd i ddysgu ar y cyd rhwng prosiectau, yn hytrach nag un drafodaeth yn unig ar ddiwedd y prosiect. Er enghraifft, awgrymodd rhai cyfranogwyr y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi hwyluso digwyddiadau anffurfiol gyda rheolwyr prosiect er mwyn iddynt siarad am sut roedd eu prosiect yn mynd ac efallai creu cymuned ymarfer o amgylch cynllun ArWAP.

> "Y math hwnnw o rannu ar draws prosiectau, efallai mewn ystyr anffurfiol. Dim ond cael sgwrs, dod â'r rheolwyr prosiect neu'r holl swyddogion ymgysylltu at ei gilydd a dweud, "O, beth ydych chi'n ei wneud, sut mae eich prosiect yn mynd?" Ac efallai creu'r gymuned honno o amgylch y cynllun." Derbynnydd grant maes 1, ID9

### 3.5.2.5 Gofynion monitro ariannol beichus

Dim ond un cyfranogwr oedd o'r farn bod y broses rheoli grantiau yn feichus heb fod rhaid, ac roedd hyn yn ymwneud yn benodol â gofynion monitro ariannol, yn enwedig, gorfod darparu pob un anfoneb. Awgrymwyd y gallai monitro gymryd sampl o anfonebau yn hytrach na phob anfoneb.

Mae'n bosibl nad oedd cyfranogwyr eraill ym maes 1 yn gysylltiedig ag adroddiadau ariannol, h.y. efallai y byddai mwy wedi tynnu sylw at y mater hwn pe baent wedi bod yn gysylltiedig ag ef yn uniongyrchol. Er enghraifft, soniodd cyfranogwr arall nad oedd yn rhaid iddynt wneud monitro ariannol gan fod rheolwr ariannol eu sefydliad yn gwneud hynny drostynt.

# 4. Canfyddiadau Adran 1 – Maes 2


## 4.1 Canfyddiadau allweddol



**Proses ymgeisio**

- Nodwyd bod y broses asesu ceisiadau (a gynhaliwyd gan staff Llywodraeth Cymru) yn gweithio'n dda, ond y gallai fod rhagfarn – yn enwedig pan oedd ceisiadau'n cael eu hasesu gan swyddogion a oedd yn gweithio yn yr un sector ag ymgeiswyr (ac a oedd felly'n meddu ar wybodaeth flaenorol o'r sefydliad).
- Heriau gyda'r broses asesu ceisiadau gan gynnwys y teimlad ei bod yn cael ei frysio (ac felly'n straen i staff Llywodraeth Cymru). Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr prosiect wedi clywed am y cyllid ar lafar. Fe wnaethant ddisgrifio'r broses ymgeisio fel un syml ac nid oedd angen i'r mwyafrif siarad â Llywodraeth Cymru i gael cyngor yn ystod y broses ymgeisio.

**Proses rheoli grantiau**




- Nododd staff Llywodraeth Cymru nad oedd rhai sefydliadau wedi deall y byddai cyllid yn cael ei dalu mewn ôl-ddyledion, tra bod eraill yn cael trafferth gyda'r broses hawlio. Yn sgil hyn, sylweddolwyd y byddai prosiectau maes 2 wedi elwa ar fwy o gymorth.
- Roedd arweinwyr prosiect yn gadarnhaol i raddau helaeth ynghylch y broses rheoli grantiau, gan awgrymu bod y broses o gyflwyno tystiolaeth yn ddichonadwy, bod cyfathrebu a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn effeithiol, bod cyfarfodydd monitro yn gefnogol, bod mentoriaid cymunedol wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr a bod y broses yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd.
- Roedd beirniadaeth arweinwyr prosiect o'r broses rheoli grantiau yn ymwneud â'r angen am fwy o hyblygrwydd (yn enwedig pan oedd prosiectau'n wynebu heriau recriwtio), gofynion gwariant beichus, templedi adrodd monitro ailadroddus, y ffaith bod angen mwy o wybodaeth ar fentoriaid cymunedol i

wneud her a'r ffaith bod rhai prosiectau yn derbyn llai o arian na'r hyn y gofynnwyd amdano (gan effeithio ar yr hyn y gallent ei gyflawni).

## 4.2 Maes 2 – Barn Llywodraeth Cymru a staff y rhaglen ar y broses ymgeisio.

### 4.2.1 Y broses asesu ceisiadau

Roedd maes 2 yn cynnwys cyllid grant wedi'i anelu'n benodol at y sectorau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon lleol yng Nghymru drwy broses ymgeisio am grantiau gystadleuol. Nododd un cyfranogwr o staff rhaglen Llywodraeth Cymru fod y broses ar gyfer asesu ceisiadau maes 2 yn effeithiol ac yn deg yn gyffredinol.

> "Cynhaliwyd trafodaeth, a lle roedd amrywiad go iawn yn y sgoriau, esboniodd pob aelod o'r panel y rhesymeg y tu ôl i'r sgôr ac yna gwnaeth y cymedrolwr ymyrryd a rhoi ei safbwynt ef. Ac fe wnaethon nhw gytuno gyda'i gilydd beth allai fod yn fath o sgôr gyfartalog yn dibynnu yn amlwg ar yr hyn a gafodd ei ddweud. Felly, roeddwn i'n meddwl bod hynny'n ffordd effeithiol iawn o fynd i'r afael â'r broses oherwydd rwy'n credu bod yn rhaid i chi sicrhau lefel o degwch yn hyn. Ac rwy'n credu bod cael system sgorio a thrafodaeth banel o amgylch y sgorau a pennu sgôr gyffredinol ar gyfer pob cais yn wirioneddol effeithiol."
> Llywodraeth Cymru, ID2

Awgrymodd un cyfranogwr sy'n aelod o staff y rhaglen fod ffynhonnell bosibl o ragfarn tuag at sefydliadau hysbys yn bodoli wrth asesu ceisiadau maes 2. Roedd hyn oherwydd bod swyddogion a oedd yn asesu ceisiadau yn gweithio yn yr un maes arbenigedd â'r ymgeisydd. Er enghraifft, byddai rhywun o dîm Amgueddfeydd Llywodraeth Cymru yn eistedd ar baneli ar gyfer ceisiadau gan amgueddfeydd. Roedd hyn yn golygu y byddai swyddogion sy'n gweithio mewn maes penodol o bosibl yn adnabod sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwnnw, e.e. gan iddynt fod yn llwyddiannus mewn prosiectau blaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a allai ddylanwadu ar eu penderfyniad wrth asesu eu cais. Fodd bynnag, dylid nodi bod pobl a oedd yn ymwneud ag adolygu ceisiadau yn dilyn meini prawf penodol yn

hytrach na defnyddio profiad neu wybodaeth a oedd ganddynt am yr ymgeiswyr eisoes.

### 4.2.2 Heriau wrth reoli'r broses ymgeisio

Roedd rhai o staff y rhaglen o'r farn bod y broses asesu ychydig yn cael ei brysio a'i bod yn achosi straen. Roedd yn anodd cael paneli o bobl at ei gilydd o fewn dyddiadau cau tynn ac nid oedd y templed asesu ar gael i ddechrau.

Yn ogystal, nid oedd yr Is-adran Diwylliant yn gallu ariannu pob prosiect oherwydd lefel enfawr ac annisgwyl o geisiadau. O ganlyniad, gwnaethant ofyn i rai sefydliadau leihau eu cynigion yn gymesur.

### 4.2.3 Heriau o ran cyrraedd sefydliadau 'ar lawr gwlad'

Awgrymodd mentoriaid cymunedol fod cyllid maes 2 yn dueddol o gael ei ddyfarnu i sefydliadau mawr sydd â hanes o weithio ar brosiectau ar gyfer Llywodraeth Cymru ond nad oedd ganddynt o reidrwydd y cysylltiadau â'r gymuned benodol yn eu cais. At hynny, teimlwyd y gallai rhai sefydliadau fod wedi bod â mwy o ddiddordeb mewn ennill grant na chyfrannu at ArWAP. O ganlyniad, efallai y gallai'r sefydliadau hyn fod wedi gofyn i sefydliad ethnig lleiafrifol llai gysylltu â'r gymuned a gwneud y gwaith. Daeth mentoriaid cymunedol yn ymwybodol o hyn yn ystod cyfarfodydd monitro ar gyfer meysydd 1 a 2.

> "Trwy fynychu cyfarfodydd adolygu, rydym hefyd wedi nodi ein pryderon am yr unigolion hynny sydd wedi cael eu penodi, rwy'n tybio, i gyflwyno agweddau ar raglen ar gyfer sefydliadau nad oes ganddyn nhw'r cysylltiadau hynny â chymuned benodol." Llywodraeth Cymru [Mentor], ID7

Defnyddiodd swyddogion yr Is-adran Diwylliant y dysgu hwn wrth ddatblygu maes 3 (wedi'i anelu at sefydliadau ar lawr gwlad). Fel yr esboniodd un cyfranogwr:

> "Dim ond ar ôl i ni ddechrau trafod gyda'n partneriaid mwy sefydledig yn y ddau faes cyntaf y sylweddolon ni'r graddau na fydden nhw'n gallu dod â'r bobl ar lawr gwlad gyda nhw. Yna sylweddolon ni ....roedd angen i ni ddod o hyd i actor i'n cynrychioli ni a oedd eisoes yn ymgysylltu â'r cymunedau, a dyna'r ffordd yr oeddem yn mynd i wneud iddo weithio. ...fe wnaethon ni hynny

wedyn yn y pen draw ac fe ddaethon ni â Diverse Cymru i mewn." Llywodraeth Cymru, ID1


### 4.3 Maes 2 – Barn arweinwyr prosiect ar y broses ymgeisio

#### 4.3.1 Lle clywodd pobl am y cyllid

Dywedodd arweinwyr prosiect maes 2 a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi dod i wybod am y gronfa o amrywiaeth o ffynonellau. Y mwyaf cyffredin oedd ar lafar o fewn rhwydweithiau proffesiynol (pedwar allan o saith), ac yna'r cyfryngau cymdeithasol. Daeth un unigolyn i wybod trwy 'berthynas hirsefydlog', ond ni wyddys a oedd hyn trwy rwydweithiau proffesiynol neu bersonol. Ni allai'r rhai a gafodd eu cyfweld fod yn sicr ble y clywsant am y cyllid (o bosibl oherwydd bod eu prosiect wedi'i gwblhau dros 12 mis yn ôl).

**Ffigur 2. Maes 2: Sut y daeth pobl i wybod am y cyllid**

(Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 2, (cyfrif, nifer = 7))




#### 4.3.2 Y broses ymgeisio

O'r naw unigolyn a gafodd eu cyfweld (yn cynrychioli wyth prosiect), cymerodd chwech ohonynt ran yn y broses ymgeisio. Yn ogystal, roedd saith ymateb gan arweinwyr prosiect maes 2 i'r arolwg ar-lein a oedd yn gofyn cwestiynau am y broses ymgeisio.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr oedd yn rheolwyr prosiect maes 2 o'r farn bod y broses ymgeisio yn syml gan fod ganddynt brofiad o ysgrifennu ceisiadau. Yr unig


agwedd a roddodd rywfaint o her oedd gorfod cysylltu gweithgareddau'r prosiect â nodau a chamau gweithredu ArWAP.

> "Rydw i wedi cyflwyno ceisiadau grant i gronfeydd eraill o'r blaen felly rydw i wedi cael profiad o ysgrifennu ceisiadau grant ac roedd yr un yma yn eithaf syml. Rwy'n credu weithiau bod ceisio cysylltu'r hyn yr oeddem yn ei wneud yn uniongyrchol i nodau'r Cynllun Gweithredu yn cymryd ychydig o feddwl oherwydd yn amlwg mae'r Cynllun Gweithredu yn llawer ehangach ac mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn benodol iawn." Derbynnydd grant maes 2, ID4

Cafodd hyn ei gadarnhau gan y rhai a ymatebodd i arolwg maes 2 (saith ymateb wedi'i gwblhau). Dim ond un ohonynt oedd o'r farn bod y broses ymgeisio braidd yn heriol ac adroddodd y gellid bod wedi symleiddio rhai cwestiynau. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr bod digon o wybodaeth yn y dogfennau canllaw i ddechrau eu cais. Pan ofynnwyd iddynt gymharu pa mor rhwydd oedd gwneud y cais o gymharu â cheisiadau cyllid blaenorol, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yr arolwg nad oedd yn wahanol nac yn haws na rhai eraill.

**Ffigur 3. Maes 2: Cymharu â cheisiadau cyllid eraill**

(Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 2, (cyfrif, nifer = 7))




#### 4.3.3 Cyfathrebu â Llywodraeth Cymru yn ystod y broses ymgeisio

Ni wnaeth y rhan fwyaf o gyfranogwyr gyfathrebu â Llywodraeth Cymru o gwbl yn ystod y broses ymgeisio gan fod y canllawiau ymgeisio yn glir, er i un ychwanegu eu bod yn teimlo y gallent fod wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru pe bai angen. Byddai

un arall wedi hoffi mwy o gyswllt gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr oedi cyn clywed canlyniad eu cais, h.y. peidio â chlywed tan ganol mis Tachwedd ar ôl cyflwyno'r cais ddiwedd mis Awst. Ni chafodd yr un o'r saith a ymatebodd i arolwg maes 2 unrhyw wybodaeth, adnoddau na chymorth ychwanegol yn ystod y broses ymgeisio.

Dim ond un o'r rhai a gyfwelwyd gafodd unrhyw gysylltiad â Llywodraeth Cymru pan gysylltwyd ag ef i egluro ei gais. Roedd y cyfranogwr hwn fel arfer yn cael trafferth gyda cheisiadau am gyllid Llywodraeth Cymru ond roedd o'r farn bod y broses yn fwy cefnogol y tro hwn. Er bod y ffurflen gais yr un mor gymhleth a heriol, roedd yn ddefnyddiol bod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu ag ef i drafod yr hyn yr oedd angen ei gynnwys.

Dywedodd tri o'r saith a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi derbyn adborth ar eu cais, a arweiniodd at welliannau o fewn y prosiect a ariannwyd ac o ran eu ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

### 4.4 Maes 2 – Barn Llywodraeth Cymru a staff y rhaglen ar y broses o reoli grantiau.

Disgrifiodd staff rhaglen Llywodraeth Cymru yr un broses rheoli grantiau ar gyfer Meysydd 1 a 2; felly, nid yw'r wybodaeth yn cael ei hailadrodd yma.

#### 4.4.1 Heriau wrth reoli grant maes 2

Gweithiodd cyfarfodydd monitro chwarterol yn dda ar gyfer nodi unrhyw broblemau gyda phrosiectau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, daeth i'r amlwg yn gynnar iawn yng nghyfarfodydd monitro chwarterol maes 2 nad oedd rhai sefydliadau maes 2 yn deall eu bod yn derbyn cyllid mewn ôl-ddyledion. Nododd cyfarfodydd nad oedd y sefydliadau hyn yn gwneud hawliadau ar yr adeg ddisgwyliedig, e.e. dylent fod wedi gwneud hawliad yn gynnar yn y broses ac o fewn y flwyddyn ariannol yr oedd y cyllid yn cael ei hawlio ynddi. Fodd bynnag, roedd y sefydliadau hyn yn disgwyl derbyn arian ymlaen llaw i ariannu gweithgareddau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ar gyfer 'cwpl o sefydliadau', roedd yn rhaid dod o hyd i ateb er mwyn iddynt allu parhau â'u gweithgareddau, e.e. trwy symud cyllid a gweithgareddau o gwmpas. Fe'i disgrifiwyd fel 'cur pen' mawr yn y flwyddyn gyntaf.

> “Roedden nhw [Cyfarfodydd Monitro Chwarterol] yn werthfawr iawn o ran canu’r clychau larwm a gwneud i ni sylweddoli bod rhywfaint o gamddealltwriaeth wedi bod. Yn amlwg, wnaethon ni ddim esbonio hyn yn ddigon clir ac fe achosodd dipyn o gur pen i ni yn y flwyddyn gyntaf o ran y camau cywiro hynny a wnaeth i ni fynd hefyd i ailysgrifennu’r darn hwnnw o’r canllawiau. Roedd yn llawer, llawer cliriach.” Llywodraeth Cymru, ID1

At hynny, roedd rhai sefydliadau maes 2 yn cael trafferth gyda phroses hawliadau Llywodraeth Cymru a sut i ddangos tystiolaeth o hawliadau. Wrth edrych yn ôl, awgrymodd un cyfranogwr y byddai rhai prosiectau maes 2 wedi elwa ar gymorth ar sut i gyflwyno hawliadau, e.e. sut i ddangos tystiolaeth o hawliad, sut i gyflwyno hawliad, beth yw ‘croniadau’ ac ar ba bwynt y mae angen i brosiectau roi gwybod i dîm y sawl a oedd yn cael ei gyfweld am groniadau a thanwariant.

> “Felly roedd y rhain yn derminolegau nad oedd rhai o’r sefydliadau hyn yn gyfarwydd â nhw.” Llywodraeth Cymru, ID2

## 4.5 Maes 2 – Barn arweinwyr prosiect ar y broses rheoli grantiau

Cafodd cyfranogwyr maes 2 brofiadau gwahanol o’r broses gyffredinol o reoli grantiau.


### 4.5.1 Profiadau cadarnhaol o’r broses rheoli grantiau

#### 4.5.1.1 Roedd cyflwyno tystiolaeth yn ddichonadwy

Nododd y rhan fwyaf o’r rhai a gyfwelwyd bod gofynion monitro a gwerthuso yn ddichonadwy ac ar lefel a ddisgwylir gan gyllid cyhoeddus. Adleisiwyd hyn gan y rhai a ymatebodd i’r arolwg, gyda dim ond un yn adrodd bod y gofynion monitro yn feichus.

**Ffigur 4. Maes 2: Canfyddiadau o'r gofynion monitro**

(Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 2, (cyfrif, nifer = 7))




4.5.1.2 Cyfathrebu a chefnogaeth

Esboniodd y rhai a gyfwelwyd fod staff yr Is-adran Diwylliant yn gefnogol trwy gydol y broses e.e. yn cysylltu â phrosiectau yn dilyn gwallau mewn cyflwyniadau i esbonio'r hyn oedd ei angen ac yn rhoi mwy o amser i ddod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani os oes angen.

> "Weithiau pan oedden ni'n gwneud camgymeriadau bydden nhw'n dweud, "Rydych chi wedi gofyn am ormod neu dydych chi ddim wedi gofyn am ddigon. Nid dyma'r cyfanswm yr oedden ni'n ei ddisgwyl", felly roedden nhw'n wybodus iawn, ac roedd eu bys nhw ar y pwls." Derbynnydd grant maes 2, ID24

At hynny, roedd arweinwyr prosiect maes 2 a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru drwy gydol cyfnod y cyllid, gyda phob un o'r saith yn dweud ei fod yn 'Dda' neu'n 'Ardderchog'.

4.5.1.3 Roedd cyfarfodydd monitro yn gefnogol

Roedd cyfarfodydd monitro yn sgwrs adeiladol, gefnogol ac agored am hynt y prosiect, ac yn ffordd hawdd o rannu canlyniadau a gyflawnwyd a thrafod unrhyw faterion.

4.5.1.4  Gwnaeth mentoriaid cymunedol gyfraniad gwerthfawr

Er bod y rhai a gyfwelwyd ym maes 2 wedi cael profiadau gwahanol o rôl y mentor cymunedol, roedd y rhai a oedd yn gadarnhaol o’r farn bod cyfranogiad mentor cymunedol mewn cyfarfodydd monitro yn syniad gwych gan eu bod yn dod â phrofiad bywyd a her.

4.5.1.5  Roedd y broses yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd

Mae cyfrifon cyfranogwyr yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn hapus i brosiectau addasu elfennau o’u cynlluniau, fel arfer drwy gais i Amrywio Contract, a ddisgrifir fel proses gymharol syml.

Ymhlith yr enghreifftiau o newidiadau roedd:

- Newid yn y Rheolwr Prosiect, newidiadau mewn staff, newidiadau yn y lleoliadau oedd yn cymryd rhan
- Symud cyllid a ddyrannwyd ar gyfer lluniaeth gwirfoddolwyr i gostau teithio gwirfoddolwyr i ddiwallu anghenion y prosiect wrth iddo ddatblygu
- Lleihau niferoedd targed ar gyfer cymhwyster hyfforddi pan oedd angen mwy o amser ar hyfforddeion i gyflawni’r cymhwyster
- Ychwanegu gweithgaredd crefft at brosiect
- Caniatawyd i brosiect a oedd wedi wynebu trafferthion gyda dechrau hwyr cynllun grantiau ArWAP, h.y. canol Tachwedd 2023, ymestyn y prosiect tan fis Mehefin 2024 trwy amrywio’r contract.

Yn yr un modd, dywedodd tri o’r saith a ymatebodd i’r arolwg eu bod wedi wynebu rhwystrau i gyflawni yn ystod eu grant, a mynegodd pob un ohonynt fod y cyllidwr yn gefnogol neu’n gefnogol iawn wrth eu helpu i fynd i’r afael â’r rhain.

### 4.5.2 Beirniadaeth o’r broses rheoli grantiau

4.5.2.1  Yr angen am fwy o hyblygrwydd

Byddai rhai prosiectau yr effeithiwyd arnynt gan oedi wrth recriwtio wedi gwerthfawrogi mwy o hyblygrwydd i ymestyn eu prosiectau, yn enwedig gan fod y dechrau hwyr i gynllun grant maes 2 ym mis Tachwedd 2023 wedi effeithio’n

gyffredinol ar amserlenni prosiectau maes 2 eisoes (gyda chyllid yn gorfod cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth 2024).

#### 4.5.2.2 Roedd gofynion adrodd gwariant yn feichus

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y gofynion adrodd gwariant yn feichus, yn enwedig gorfod anfon pob derbynneb ac anfoneb. Nododd un cyfranogwr fod hyn y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir fel arfer o ran cyllid Llywodraeth Cymru. Codwyd hyn hefyd gan un arweinydd prosiect maes 1.

> "Oherwydd nad oedd rhai eraill [prosiectau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru] yr oeddem wedi gweithio arnyn nhw yn gofyn i ni am bethau mewn cymaint o fanylder. Roedden ni'n llythrennol yn anfon pob un anfoneb, popeth, tra yn y gorffennol, roedd yn teimlo fel bod gennym yr arian i'w wario cyn belled â'n bod ni'n gallu profi ein bod wedi'i wario yn y ffordd iawn. Roedd hynny'n ddigon. Roedd hyn ar y llaw arall, fyddech chi'n dweud microreoli?" Derbynnydd grant maes 2, ID26

#### 4.5.2.3 Roedd templedi adrodd monitro yn ailadroddus

Weithiau roedd templedi'n gofyn am wybodaeth o adroddiadau blaenorol dro ar ôl tro ac nid oeddent yn darparu cyfleoedd i siarad am straeon na'r hyn a ddysgwyd o'r prosiectau, nac yn ei gwneud yn glir beth oedd y prosiect yn ei wneud. Awgrymodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg y gallai fod llai o ffurflenni i'w llenwi a'u bod wedi newid mewn fformat trwy gydol y grant. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y byddai enghreifftiau o'r ffurflenni monitro wedi bod yn ddefnyddiol i'w gweld ar ddechrau tymor y grant.

#### 4.5.2.4 Roedd angen mwy o wybodaeth ar fentoriaid cymunedol

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod angen i fentoriaid cymunedol wybod mwy am y prosiectau i wneud cyfraniadau defnyddiol gan nad oeddent weithiau'n gwybod digon am yr hyn yr oedd y prosiect yn ei wneud i gyflwyno her.

> "Ac yna gofynnwyd i arbenigwyr eistedd ar y panel monitro, ac roeddwn i'n meddwl bod hyn yn wych, bod pobl â phrofiad bywyd yn dod i mewn ac yn y blaen. Roedd yn hynod bwysig. Ond dydw i ddim yn credu eu bod o reidrwydd wedi cael eu briffio digon ymlaen llaw. Ac felly, roeddwn i'n teimlo weithiau nad

oedden nhw'n deall yn iawn beth oedden ni, beth oedden ni'n ceisio ei wneud a phethau felly." Derbynnydd grant maes 2, ID4

#### 4.5.2.5 Derbyniodd prosiectau lai o arian na'r hyn y gofynnwyd amdano

Derbyniodd dau brosiect a gyfwelwyd lai o arian nag y gwnaethant gais amdano. Llwyddodd un i amsugno rhai gweithgareddau o fewn ffynhonnell arall o gyllid ond bu'n rhaid i'r llall gwtogi eu gweithgaredd arfaethedig cyn dechrau'r prosiect, gan leihau ehangder a chyrhaeddiad y prosiect wrth iddynt orfod leihau nifer y staff oedd yn cynnal gweithgareddau'r prosiect. Dywedodd chwech o'r saith arweinydd prosiect a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi derbyn llai o arian nag y gwnaethant gais amdano, a derbyniodd un ohonynt dros £60,000 yn llai.  Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, ym maes 2, bod canllawiau grant wedi nodi o'r cychwyn cyntaf na fyddai prosiectau, o bosibl, yn derbyn y dyraniad cyllid a ddymunwyd. Cynghorwyd ymgeiswyr i nodi sut y byddai modd lleihau maint y prosiect, pe bai angen, yn eu cais. Esboniodd yr Is-adran Diwylliant fod prosiectau'n cael eu hasesu ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch eu dichonoldeb ar raddfa lai. Mewn rhai achosion, gofynnwyd am gyngor gan arweinwyr y sector i gynorthwyo'r tîm grantiau i bennu'r dyraniad terfynol.

# 5. Canfyddiadau Adran 1 – Maes 3

## 5.1 Canfyddiadau allweddol



**Proses ymgeisio**

- Esboniodd staff Llywodraeth Cymru yr angen i greu maes newydd a fyddai'n cyrraedd sefydliadau 'ar lawr gwlad'. Gwnaethant weithio gyda Diverse Cymru (DC) i wneud y broses ymgeisio ar gyfer maes 3 yn hygyrch.
- Roedd Diverse Cymru yn teimlo bod y broses ymgeisio yn gweithio'n dda, yn enwedig cynnwys mentoriaid cymunedol (nad oeddent wedi bod yn rhan o'r gwaith o asesu ceisiadau tan y pwynt hwn).
- Roedd heriau gyda'r broses asesu ceisiadau, yn enwedig yn rownd 1 a ddisgrifiwyd fel 'anhrefnus'. Fodd bynnag, newidiwyd hyn ar gyfer yr ail rownd a theimlwyd ei bod wedi gweithio'n llawer gwell. Er gwaethaf hyn, codwyd rhai pryderon nad oedd maes 3 o reidrwydd yn cyrraedd y nifer o sefydliadau bach yr oedd wedi gobeithio ei wneud.
- Nododd arweinwyr prosiect fod y broses ymgeisio yn un syml ac roedd y mwyafrif yn teimlo ei bod yn fwy hygyrch na cheisiadau grant blaenorol (Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill). Roedd arweinwyr prosiect yn gwerthfawrogi'r cymorth oedd ar gael gan Diverse Cymru yn ystod y cam ymgeisio (gyda'r mwyafrif yn manteisio ar y cymorth). Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod angen mwy o gymorth arnynt.



**Proses rheoli grantiau**

- Roedd staff Diverse Cymru yn teimlo bod y broses rheoli grantiau wedi gweithio'n dda yn gyffredinol, ond gwnaethant brofi rhai heriau, gan gynnwys; uno a arweiniodd at oedi wrth ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau maes 3, dryswch (ar gyfer prosiectau a ariannwyd) ynghylch cyllid refeniw a chyfalaf ar wahân; yr angen i newid amserlenni rhai prosiectau a sefydliadau a oedd yn cael trafferth cyflawni eu canlyniadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd Diverse Cymru yn

gallu cefnogi sefydliadau gyda'r materion hyn, ond roedd yn dibynnu arnynt yn gofyn am gymorth.

- Nododd arweinwyr prosiect gyda phrofiadau cadarnhaol o'r broses rheoli grantiau nifer o ffactorau gan gynnwys; perthnasoedd dibynadwy â Diverse Cymru; adroddiadau gwariant dichonadwy (mewn cyferbyniad â meysydd 1 a 2); disgwyliadau clir gan Diverse Cymru ar y dechrau; gofynion monitro dichonadwy a hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newidiadau.
- Disgrifiodd arweinwyr prosiect eu bod wedi derbyn cymorth gan Diverse Cymru mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys help i adrodd gwariant, eglurhad ar gostau cyfalaf a chymorth i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau.
- Nododd prosiectau a gafodd drafferth gyda'r broses rheoli grantiau nifer o faterion, gan gynnwys; talu cyllid yn hwyr (a achosodd lawer o straen a phryder); oedi cyn clywed am ganlyniad cyllid; cyfathrebu gwael â Diverse Cymru; amseru adroddiadau monitro (ddim yn gyson â gweithgarwch y prosiect) a heriau oedd yn deillio o'r cam ymgeisio (e.e. dryswch ynghylch cyllid refeniw a chyfalaf).

## 5.2 Maes 3 – Barn Llywodraeth Cymru a staff y rhaglen ar y broses ymgeisio

### 5.2.1 Yr angen i greu maes ar gyfer 'sefydliadau ar lawr gwlad'

O ganlyniad i'r ffaith bod yr Is-adran Diwylliant wedi cynnwys pobl â phrofiad bywyd o hiliaeth wrth ddylunio a chyflwyno'r rhaglen grantiau, roeddent yn ymwybodol o'r rhwystrau a all fodoli i sefydliadau ar lawr gwlad sy'n gwneud cais am gyllid gan y llywodraeth. Arweiniodd y ddealltwriaeth hon, ynghyd â phrofiad o feysydd 1 a 2, at broses ymgeisio fwy syml ar gyfer maes 3. Nod hyn oedd cefnogi sefydliadau heb unrhyw brofiad o wneud cais am grantiau, a sicrhau ar yr un pryd bod y broses ymgeisio yn darparu profiad o ysgrifennu cais i sefydliadau ar lawr gwlad, y gallent ei ddefnyddio mewn ceisiadau cyllid pellach.

> "Fe ddysgon ni wers, am wn i. Felly, rhai o'r pethau a oedd yn amlwg i mi o faes 2 oedd sut rydyn ni'n sicrhau bod y broses ymgeisio yn llawer mwy syml heb golli'r elfen graidd o sut olwg sydd ar gais am grant oherwydd roeddwn i'n ymwybodol iawn, er ein bod ni'n galluogi math ehangach o gyfranogiad gan sefydliadau ar lawr gwlad i gael mynediad at gyllid, doedden ni ddim eisiau

> gwneud y broses yn rhy syml oherwydd, gwyddoch chi, yr holl fwriad mewn gwirionedd oedd eu bod nhw [sefydliadau ar lawr gwlad] yn datblygu'r sgiliau y gallen nhw eu defnyddio wedyn, chi'n gwybod, i geisio cyllid pellach, boed hynny trwy Lywodraeth Cymru neu, wyddoch chi, rhan o sefydliad, ac ati." Llywodraeth Cymru, ID2

At hynny, gweithiodd yr Is-adran Diwylliant gyda Diverse Cymru i greu strwythurau cymorth, megis gweminarau (2 ar gyfer pob rownd) a oedd yn darparu gwybodaeth am sut i ysgrifennu cais, yn amlinellu proses y cynllun grantiau, yn ymhelaethu ar y meini prawf ac yn darparu cyfleoedd i ofyn cwestiynau a chael atebion. At hynny, yn dilyn y sesiynau gwybodaeth, gallai sefydliadau gysylltu â Diverse Cymru am gymorth pellach, y cyfeiriwyd atynt fel rhai 'un-i-un', pe bai angen.

Esboniodd un mentor cymunedol sut roedd maes 3 yn cymharu â maes 1 a 2; roedd maes 3 yn ymwneud â galluogi grwpiau cymunedol nad ydynt fel arfer yn cael mynediad at arian i ddatblygu eu dulliau gweithredu eu hunain, tra bod maes 1 a 2 yn y bôn yn newidiadau 'ysgogi' er mwyn cyflawni dyletswydd statudol sefydliadau i ddileu hiliaeth.

> "Gyda maes tri, roedd yn ymwneud llawer mwy â galluogi, felly roedd hynny i roi cyfle i sefydliadau ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, eu dulliau eu hunain, beth bynnag, hyd yn oed os nad oedd ganddyn nhw'r cyfansoddiad iawn neu unrhyw beth fel yna. Mae yna lawer o grwpiau cymunedol allan yna sy'n gwneud pethau gwych ac sydd byth yn cael mynediad at gyllid." Llywodraeth Cymru [Mentor], ID6

### 5.2.2 Agweddau ar y broses ymgeisio a weithiodd yn dda

Roedd cyfranogwyr Diverse Cymru o'r farn bod y broses ymgeisio yn gweithio'n eithaf da, yn cynnwys paneli a oedd yn cynnwys mentoriaid cymunedol ac Arweinydd Cydraddoldeb yr Is-adran Diwylliant. Disgrifiodd staff Llywodraeth Cymru a Diverse Cymru sut y daeth mentoriaid cymunedol, a oedd yn rhan o'r broses ymgeisio am y tro cyntaf, â'u profiad bywyd i wneud yr achos dros ymgeiswyr, e.e. cymunedau yr oeddent yn gwybod amdanynt, a darparu her trwy dynnu sylw at ragdybiaethau a chwestiynu sefydliadau am eu cysylltiadau â chymunedau. Yn dilyn y panel grantiau,

anfonwyd rhestr dros dro at Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys prosiectau ychwanegol, e.e. gyda sgorau ffiniol, gan fod Llywodraeth Cymru, weithiau, yn gallu ariannu mwy o sefydliadau nag a feddyliwyd i ddechrau.

### 5.2.3 Heriau o ran y broses asesu ceisiadau

Disgrifiwyd rownd gyntaf y broses ymgeisio fel un 'anhrefnus' gan un aelod o'r panel, oherwydd nifer annisgwyl o fawr o ymgeiswyr o fewn cyfnod byr iawn. At hynny, pan dderbyniodd aelodau'r panel y ceisiadau gan Diverse Cymru, roedd hi'n rhy hwyr i gynnal cyfarfod cyn ymgeisio cyn cyfarfod y panel. Yn ogystal, nid oedd yn hawdd defnyddio Microsoft Forms i sgorio ceisiadau ac nid oedd yr holl wybodaeth am y cais ar gael. Fodd bynnag, cytunodd mentoriaid cymunedol a Diverse Cymru fod y materion hyn yn cael eu datrys ar gyfer yr ail rownd o'r gwersi a ddysgwyd. Er enghraifft, cynnwys sesiwn ar sut i asesu'r ceisiadau, sgorio ceisiadau cyn cyfarfod y panel – a helpodd Diverse Cymru i ddatblygu llinell sylfaen, rhoi mwy o amser i fentoriaid asesu ceisiadau a symleiddio'r system sgorio. At hynny, darparwyd yr holl wybodaeth angenrheidiol y tro hwn.

> "Fe wnaethon ni ddarparu'r ceisiadau llawn tra mai dim ond rhan o'r cais y gwnaethon ni ei darparu yn y rownd gyntaf. Felly, fe wnaethon ni ddarparu'r cais llawn i'r paneli. Fe wnaethon ni roi digon o amser iddyn nhw wneud hynny ac yna fe wnaethon ni ei symleiddio. Fe wnaethon ni ofyn i bobl roi eu sgoriau ar ddalen Excel." Diverse Cymru, ID9

### 5.2.4 Heriau parhaus wrth gael gafael ar gyllid ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad

Fodd bynnag, roedd pob un o'r mentoriaid cymunedol a staff Diverse Cymru yn teimlo bod rhai sefydliadau mwy, sefydledig wedi ennill cyllid maes 3, tra nad oedd rhai sefydliadau ar lawr gwlad wedi gwneud hynny, ac mai dim ond cyfle i ennill cyllid bach Rownd 2 oedd ganddynt. Teimlwyd y gallai sefydliadau nad oedd ganddynt brofiad neu nad oedd ganddynt yr adnoddau staff i ysgrifennu cais fod dan anfantais. Mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig â'r diffiniad o 'ar lawr gwlad' yn y broses ymgeisio, a ddiffiniodd sefydliad sydd â throsiant blynyddol o lai na £500,000 fel sefydliad 'ar lawr gwlad'. Bydd angen i sefydliadau sydd â'r lefel honno o incwm gael

eu cyfrif wedi ei archwilio'n annibynnol ac maent yn debygol o fod â mwy o seilwaith ar waith o gymharu â sefydliadau llai.


> "Y rhwystredigaeth yw bod sefydliadau mwy, elusennau sefydledig yn gwneud cais am botiau o gyllid fel hyn ac, yn anffodus, weithiau maen nhw'n llwyddiannus. Rwy'n dweud 'yn anffodus' oherwydd cyllid ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad ydyw mewn gwirionedd, y rhai sydd ei angen fwyaf. Doedd y broses ddim yn ddefnyddiol i rai pobl, yn fy marn i, wyddoch chi, rwy'n ofni ei bod wedi cyfrannu at ddull anghyfartal." Diverse Cymru, ID8

### 5.3 Maes 3 – Barn arweinwyr prosiect ar y broses ymgeisio

Yn ôl yr ymatebion i'r arolwg, cafodd arweinwyr prosiect maes 3 wybod am y cynllun grantiau trwy wahanol sianeli. Y mwyaf cyffredin o'r rhain oedd trwy wefan Diverse Cymru (6) neu ar lafar gwlad drwy eu rhwydweithiau proffesiynol (4). Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd (maes 3) yn gallu cofio ble y clywson nhw am y gronfa grantiau (o bosibl oherwydd bod rhai prosiectau wedi dod i ben dros flwyddyn ynghynt), ond i'r rhai a allai, cyfeiriwyd at Diverse Cymru, cylchlythyr digidol Sefydliad Cymunedol Cymru, a Hwb Amlddiwylliannol y Gogledd-ddwyrain.

**Ffigur 5. Maes 3: Sut y daeth pobl i wybod am y cyllid**

(Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 3, (cyfrif, nifer = 12))




### 5.3.1 Profiad cadarnhaol o'r broses ymgeisio

Roedd pob un o'r rheini a gyfwelwyd (maes 3) o'r farn bod y broses ymgeisio yn syml gan fod y mwyafrif wedi cael profiad o wneud cais am grantiau eraill, ac roedd yr unig gyfranogwr heb unrhyw brofiad blaenorol o wneud cais am gyllid o'r farn ei bod yn hawdd hefyd. Yn yr un modd, roedd y mwyafrif o'r arweinwyr prosiect a ymatebodd drwy'r arolwg (11 allan o 12) yn cytuno â'r farn hon.

> "Roedd y cwestiynau yn benodol, roedd cynllun y gyllideb yn hygyrch ac yn glir." Derbynnydd grant maes 3, ymatebydd 23 i'r arolwg

Fodd bynnag, dywedodd un o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (maes 3) ei fod o'r farn bod y broses ymgeisio braidd yn heriol, gan nodi anghydbwysedd rhwng cymhlethdod a hyd y cais a'r prosiect tymor byr a'r swm isel o gyllid.

Roedd y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod y broses grantiau CHS yn fwy hygyrch na phrofiadau blaenorol o geisiadau i Lywodraeth Cymru a chyrff cyllido eraill fel Cyngor y Celfyddydau a'r Loteri Genedlaethol.


> "Mae gennym gais drwy'r Gronfa [Llywodraeth Cymru]. Nawr roedd hynny'n eithaf cymhleth oherwydd roedd yn rhaid i chi. Roedd yn rhaid i chi ei gyfateb â'u meini prawf, nid dim ond eu meini prawf, ond meysydd penodol iawn. Felly

roedd e'n eithaf, eithaf anodd i'w wneud. Felly roedd hyn yn cymharu'n dda byddwn i'n dweud." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID36

Adlewyrchwyd hyn gan y rhai a ymatebodd i'r arolwg. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd fod y cais yn llawer anoddach na cheisiadau eraill.

**Ffigur 6. Maes 3: Cymharu â cheisiadau cyllid eraill**

(Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 3, (cyfrif, nifer = 12))




### 5.3.2 Mynediad at gymorth yn ystod y broses ymgeisio

Yn ogystal, rhoddodd y gronfa diwylliant, treftadaeth a chwaraeon fwy o gyfleoedd i gael mynediad at gymorth na phrofiadau blaenorol, e.e. drwy gysylltiad uniongyrchol â Diverse Cymru neu drwy fynychu'r ddwy weminar ar gyfer pob rownd.

Manteisiodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr maes 3 ar y cymorth oedd ar gael, fel gweminarau a chymorth un-i-un, a atebodd bopeth yr oedd angen iddynt ei wybod. Manteisiodd un sefydliad grant mawr ar gymorth drwy Hwb Amlddiwylliannol y Gogledd-ddwyrain, lle rhoddodd Diverse Cymru gyflwyniad defnyddiol ar sut i wneud cais am grant Cyfalaf Rownd 2. Ni chafwyd unrhyw gyfathrebu ychwanegol rhwng y rhan fwyaf o gyfranogwyr a Diverse Cymru y tu hwnt i'r gweminarau. Cyfeiriodd tri chyfranogwr at gyswllt uniongyrchol defnyddiol â Diverse Cymru dros y ffôn neu drwy e-bost i egluro ymholiadau, e.e. a oedd eu sefydliad yn gymwys.

> “Fe wnes i siarad â’r gweithiwr datblygu ddwy neu dair gwaith. Darnau bach roedden ni eisiau eu gwirio, am y broses, ac ati.” Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID49

Byddai rhai cyfranogwyr wedi hoffi cymorth ychwanegol. Roedd anghenion cymorth yn unigol ac yn amrywiol ac yn cynnwys; cymorth i ddeall y diffiniad o gyllid ‘cyfalaf’; cymorth gyda chostio prosiect; mwy o eglurder ynghylch cymhwysedd (yn enwedig ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol Gwyn); mwy o gyfle i ofyn cwestiynau y tu allan i weminarau, a sianeli cyfathrebu mwy amrywiol i roi gwybod i bobl am y cyllid (gan nad oedd rhai negeseuon wedi’u rhannu gan borthgeidwaid).

### 5.4 Maes 3 – Barn Llywodraeth Cymru a staff y rhaglen ar y broses o reoli grantiau

Roedd staff rhaglen Diverse Cymru o’r farn bod y broses rheoli grantiau wedi rhedeg yn eithaf esmwyth. Roedd y broses yn debyg i feysydd 1 a 2. Ar ôl derbyn adroddiadau canol prosiect, gofynnodd Diverse Cymru i brosiectau drefnu cyfarfod monitro gyda swyddog prosiect a rheolwr maes 3 i siarad am hynt eu prosiect ac unrhyw anghenion cymorth. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd dal i fyny misol rhwng Diverse Cymru a Llywodraeth Cymru i nodi unrhyw bryderon.

At hynny, gallai prosiectau gysylltu â Diverse Cymru ar sail ad hoc gydag unrhyw ymholiadau, a oedd yn tueddu i fod yn ymwneud â gwirio a allent ddefnyddio eu grant i brynu rhywbeth penodol neu a oedd modd gwneud newid i’w rhaglen o fewn y meini prawf cyllido.

#### 5.4.1 Heriau gyda’r broses rheoli grantiau

a) Effeithiwyd ar brosiectau maes 3 pan unodd Diverse Cymru â sefydliad arall tua mis Ebrill 2024. Achosodd hyn oedi cyn i Lywodraeth Cymru drosglwyddo cyllid i Diverse Cymru ac, o ganlyniad, oedi cyn i Diverse Cymru ddosbarthu arian i brosiectau maes 3. Llwyddodd Diverse Cymru i oresgyn hyn drwy ganiatáu i brosiectau addasu eu hamserlenni.

> “Pan wnaethon ni [Diverse Cymru] uno â sefydliad arall, nid oeddem bellach yn gallu hawlio fel Diverse Cymru, felly roedd oedi mawr wrth hawlio’r arian a derbyn yr arian a dosbarthu’r arian wedyn i’r sefydliadau y dyfarnwyd yr arian

> iddynt. ... Doedd [prosiectau maes 3] ddim yn hapus, fe wnaeth e' achosi problemau i nifer o brosiectau a sefydliadau, ond y cyfan y gallen ni ei wneud oedd ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl cystal ag y gallen ni." Diverse Cymru, ID9

b) Parhaodd cyllid refeniw a chyllid cyfalaf ar wahân i achosi dryswch i brosiectau. Roedd hyn wedi achosi dryswch yn y broses ymgeisio i ddechrau ar gyfer pob sefydliad maes 3 a gymerodd ran mewn cyfweliadau, rhai mawr a bach.
c) Bu'n rhaid i gwpl o brosiectau addasu eu hamserlen pan oedd digwyddiad diwrnod dathlu cymunedol yn digwydd ar adeg anodd o'r flwyddyn i ddenu cyfranogwyr, e.e. yn ystod gwyliau'r haf.
d) Cafodd rhai sefydliadau drafferth yn cyflawni eu canlyniadau oherwydd amserlen fer y prosiect ynghyd â materion personol.

> "Rwy'n credu i sefydliadau eraill, efallai oherwydd y pwysau gan ei bod yn amserlen fer iawn i fod yn cyflawni prosiect neu, er enghraifft, gallai materion godi, materion personol neu faterion sy'n ymwneud â'r prosiect yn gyffredinol a allai gyfyngu ar botensial eu prosiect i gyflawni'r canlyniad hwnnw mewn gwirionedd." Diverse Cymru, ID8

### 5.4.2 Cymorth i fynd i'r afael â heriau

Roedd staff Diverse Cymru yn gallu helpu prosiectau i oresgyn heriau i ryw raddau. Er enghraifft, pan oedd angen cymorth ar un prosiect i fonitro gwybodaeth oherwydd problemau personol, cafodd staff Diverse Cymru sgwrs gyda'r prosiect i gael y wybodaeth angenrheidiol a thrawsgrifio'r atebion. Tynnodd staff Diverse Cymru sylw at y ffaith bod eu gallu i gefnogi prosiectau yn dibynnu ar a oedd sefydliad yn barod i ymgysylltu â nhw i gael cymorth pan roedd angen.

> "Pam nad ydw i'n eistedd i lawr [gyda nhw] yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ysgrifennu e' lawr? Oherwydd efallai y gall fod problemau technegol hefyd lle nad oes ganddyn nhw fynediad at gyfrifiadur neu ei fod yn rhy anodd iddyn nhw ysgrifennu adroddiad. Gadewch i ni eistedd i lawr, cael y sgwrs honno gyda nhw, gofyn y cwestiynau sydd eisoes ar yr adroddiad, ac yna gallaf ei deipio i fyny iddyn nhw. Yna, y cyfan sydd angen iddyn nhw ei wneud yw ei lofnodi a'i anfon yn ôl ata' i, iawn?" Unwaith eto, un ffordd fach yr ydym yn

> bwriadu darparu'r cymorth hwnnw yw hyn, ond mae angen yr ymgysylltiad hwnnw. Lle gallai'r sefydliad roi'r gorau i ymgysylltu, dyna pryd mae'n mynd yn anodd iawn i ni." Diverse Cymru, ID8

Dim ond un prosiect maes 3 wnaeth ddim cwblhau eu prosiect, ac roedd hynny oherwydd amgylchiadau personol na allai Diverse Cymru eu helpu gyda nhw.

## 5.5 Maes 3 – Barn arweinwyr prosiect ar y broses rheoli grantiau

Cafodd cyfranogwyr maes 3 brofiadau gwahanol o'r broses rheoli grantiau yn gyffredinol.

### 5.5.1 Profiadau cadarnhaol o'r broses rheoli grantiau

Cafodd y rheini a dderbyniodd grantiau mawr, grantiau canolig a grantiau cyfalaf brofiad cadarnhaol o'r broses rheoli grantiau yn gyffredinol. Roedd y rhai a dderbyniodd grantiau bach yn llai hapus â'r broses rheoli grantiau ond ym mhob achos roedd argraffiadau negyddol yn cael eu dominyddu i raddau helaeth gan oedi wrth dderbyn y cyllid; adroddwyd am brofiadau mwy cadarnhaol pan drafodwyd y broses o reoli grantiau yn fanwl.

#### 5.5.1.1 Perthnasoedd ymddiriedus

Roedd cyfranogwyr oedd yn gwerthfawrogi proses rheoli grantiau Diverse Cymru (mae hyn yn cynnwys y rhai a dderbyniodd grantiau bach pan drafodwyd y broses yn fanwl) o'r farn bod perthnasoedd â Diverse Cymru yn dda, e.e. roeddent yn rhai calonogol ac ymddiriedus.

> "Roeddech chi'n teimlo eu bod nhw'n ymddiried ynoch chi i wneud yr hyn y gofynnwyd i ni ei wneud, doedden ni ddim yn teimlo bod unrhyw un yn swnian neu'n ein beirniadu neu unrhyw beth." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID43

#### 5.5.1.2 Roedd adrodd ar wariant yn ddichonadwy

Roedd adrodd ar wariant yn ddichonadwy i bob cyfranogwr ar y cyfan, er bod cyfranogwyr o'r farn ei bod yn anarferol gorfod anfon pob anfoneb. Roedd un neu ddau yn gwerthfawrogi cael eu 'microreoli' gan ei fod wedi eu gorfodi i fod yn drefnus gyda'u proses gyfrifyddu.

> "Cafodd ei ficroreoli i raddau helaeth, ond rwy'n credu bod hynny'n beth da. … ein bod ni bob mis yn rhifo pob anfoneb a phob derbynneb ac yna'n rhannu'r rheini gyda nhw [Diverse Cymru] ynghyd â'r cyfrifon. Ond ar ryw ystyr, mae hynny'n beth da oherwydd ei fod yn eich gorfodi i wneud hynny, i wneud cyfrifon yn fisol. Felly, dydy derbynebau ddim yn mynd ar goll a, wyddoch chi, aeth pethau ychydig yn fwy trefnus. Roedden ni'n gwneud hynny beth bynnag.... Ond mae'n helpu, yn enwedig byddwn i'n dweud, mae'n fwy nad oedd sefydliadau yn gyfarwydd ag ef." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Canolig, ID32

#### 5.5.1.3 Disgwyliadau clir

Roedd cyfranogwyr o'r farn bod Diverse Cymru wedi gwneud disgwyliadau adrodd yn glir iawn ar y dechrau a bod hyn wedi'u helpu i gynllunio.

> "Fe wnaethon nhw ddweud wrthym yn union beth oedd y disgwyliadau adrodd o ran rhyddhau cyllid, o ran monitro a gwerthuso a phethau felly." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, Rownd 2 Cyfalaf, ID38

#### 5.5.1.4 Roedd gofynion monitro yn ddichonadwy


Nododd y rhai a gyfwelwyd fod y cyfarfodydd monitro yn gyfle defnyddiol i adrodd a myfyrio ar gynnydd y prosiect a thrafod cynlluniau'r prosiect. Nododd y rhan fwyaf o brosiectau mai dim ond un cyfarfod monitro a gafwyd yn dilyn yr adroddiad canol tymor. Nodwyd bod yr adroddiadau monitro (adroddiadau canol tymor a diwedd prosiect) yn hawdd eu cwblhau ac yn 'eithaf safonol' o gymharu â phrofiad adrodd blaenorol.

> "I fod yn onest, doedd gen i ddim problem gyda'r [adroddiadau] monitro oherwydd roedd yn eithaf syml; nodi'r hyn rydych chi wedi'i wneud, yr effaith y mae wedi'i chael ar y gymuned a phethau felly, gydag ychydig o dystiolaeth, naill ai lluniau neu fideo, felly doedd gen i ddim problem gyda hynny. Mae hynny'n eithaf syml ac ateb yr holl gwestiynau a llenwi popeth." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 2 Bach, ID34

Nodwyd hyn hefyd ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg, gyda dim ond un yn adrodd bod y gwaith monitro a gwerthuso a oedd yn ofynnol yn feichus.

**Ffigur 7. Maes 3: Canfyddiadau o'r gofynion monitro a gwerthuso**

(Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 3, (cyfrif, nifer = 12))




5.5.1.5 Hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newidiadau

Cadwodd y rhan fwyaf o'r prosiectau yn yr astudiaeth at eu cynllun gwreiddiol. Roedd y nifer fach o brosiectau a wnaeth newidiadau i'w cynllun o'r farn bod y broses yn hawdd, e.e. trwy drafod â Diverse Cymru.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Newid lleoliadau'r prosiect: Er enghraifft, newid lleoliad ymweliad diwedd prosiect i un a fyddai'n cwmpasu mwy o nodau'r prosiect, a newid lleoliadau prosiect i alluogi ymgysylltiad ehangach â chymunedau. Roedd Diverse Cymru yn hapus i gytuno i'r newidiadau hyn gan eu bod 'yn ysbryd' cynllun y prosiect, gyda'r potensial i weithio'n well na'r cynllun gwreiddiol.
- Newid dyddiadau digwyddiadau i ffitio i mewn i amserlen fyrrach neu ddechrau hwyrach nag a ragwelwyd i ddechrau, e.e. oherwydd oedi wrth ddechrau'r prosiect (disgrifir hyn hefyd fel her – gweler Heriau isod). Hefyd, caniatawyd i un prosiect gyflwyno eu canlyniad terfynol yn ddiweddarach na'r disgwyl er mwyn osgoi rhoi cyfranogwyr agored i niwed dan bwysau.
- Gwnaeth dau brosiect yn yr astudiaeth newidiadau sylweddol i'w cynllun cyn dechrau'r broses rheoli grantiau (e.e. rhwng y cynnig grant a chadarnhau'r grant), h.y. lleihau maint y prosiect yn sylweddol, mewn un achos i ddarparu

ar gyfer llai o gyllid ac yn y llall i fynd i'r afael â chamddealltwriaeth y byddai'r rownd nesaf o gyllid (y cyllid cyfalaf) yn darparu arian i barhau â'u prosiect.

### 5.5.2 Cymorth gan Diverse Cymru wrth reoli grantiau

Roedd y cymorth a gafodd rhai cyfranogwyr (ym mhob achos, y rhai a dderbyniodd grantiau mwy o faint) gan Diverse Cymru yn unigol ac yn amrywiol, ac roedd yn cynnwys:

- Cymorth i gwblhau'r daflen adrodd gwariant, e.e. gan ei fod yn gymhleth ac yn ddryslyd i un cyfranogwr.
- Eglurhad ynghylch y diffiniad o Gostau Cyfalaf wrth adrodd gwariant. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr yn meddwl bod costau cyfalaf yn cynnwys pethau fel offer felly roedd yn synnu bod eitemau a brynwyd i adeiladu arddangosfa prosiect, e.e. deunydd ysgrifennu, yn cael eu hystyried yn gostau cyfalaf.
- Cymorth i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn yr adroddiad monitro pan oedd prosiect yn dal i fod wrthi'n datblygu proses yn hytrach nag allbwn. Daeth Diverse Cymru yn ôl atyn nhw a dweud wrthyn nhw am beidio â phoeni ac i ddisgrifio gweithgareddau'r prosiect yn unig.

### 5.5.3 Heriau gyda'r broses rheoli grantiau

Roedd heriau gyda'r broses rheoli grantiau ar gyfer maes 3 yn wahanol yn dibynnu ar faint y prosiect.

#### 5.5.3.1 Talu cyllid yn hwyr

Her allweddol ar draws pob un o rowndiau'r prosiect oedd talu cyllid yn hwyr: effeithiwyd ar wyth o'r tri ar ddeg o brosiectau a gyfwelwyd ar draws Rownd 1, Rownd 2 Cyfalaf a Rownd 2 Bach (yn ogystal ag un ymatebydd i'r arolwg). Yn ffodus, roedd pob prosiect a gyfwelwyd gennym yn gallu defnyddio potiau eraill o arian dros dro neu byddai'r oedi wedi effeithio ar weithgarwch y prosiect. Serch hynny, roedd cyllid hwyr yn straen i brosiectau. Roedd cyfranogwyr yn arbennig o bryderus am ddefnyddio potiau eraill o arian, oherwydd y risg na fyddai cyllid maes 3 yn cyrraedd, neu'r risgiau sy'n gysylltiedig â 'jyglo cyllid'.

> “Pan wnaethon ni ddim cael taliad, roedd yn rhaid i ni dalu rhai o’r staff drwy botiau eraill ac yna fe gafodd hynny effaith oherwydd ein bod ni’n ceisio jyglo cyllid ac rydyn ni’n casáu jyglo cyllid. Does neb yn hoffi jyglo cyllid oherwydd wedyn rydych chi’n gweithio ar rywfaint o fodel diffyg.” Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID46

Gwnaeth cyllid hwyr achosi pryder arbennig i sefydliadau bach a dderbyniodd grant gan fod cyfleoedd i gyrchu cyllid amgen i ddechrau eu prosiectau yn fwy cyfyngedig nag ar gyfer sefydliadau mwy. Yn ffodus, roedden nhw hefyd yn gallu defnyddio potiau amgen o arian, er mai arian y sefydliad ei hun oedd hwn mewn un achos.

> “Roedd e’n gyfnod llawn straen pan gawsoch chi’r anfoneb ac mae’n rhaid i chi dalu a does gennych chi ddim yr arian yn y cyfrif. Fe ddigwyddodd e’ unwaith. Yn ffodus, roedden ni wedi ennill bron i £300 o [waith arall y mae’r sefydliad yn ei wneud], felly mae gennym ni’r arian yma yn y cyfrif.” Derbynnydd grant maes 3, Rownd 2 Bach, ID27

5.5.3.2 Effaith oedi cyn derbyn canlyniad

Effeithiwyd ar rai cynlluniau prosiect gan oedi hir rhwng gwneud cais a chlywed bod cais yn llwyddiannus, e.e. cynlluniwyd eu prosiect o amgylch rhagdybiaeth ynghylch pryd y byddent yn clywed canlyniad y cais ac yn cael sêl bendith i ddechrau’r prosiect. Roedd yn rhaid i brosiectau addasu eu hamserlenni neu wasgu eu gweithgareddau i mewn i amserlen fyrrach, a effeithiodd ar yr amser a oedd ar gael i drefnu digwyddiadau. I rai, gwaethygwyd y mater hwn gan yr oedi a wynebwyd cyn derbyn arian.

> “Pan ysgrifennais i’r grant yn wreiddiol, roedd gennym ni gynlluniau i berfformio yn [enw digwyddiad mawreddog], neu i wneud rhywbeth ar ddiwedd y prosiect. Ond fe gymerodd e’ ormod o amser. Felly, fe gymerodd y broses o ganfod a oedden ni wedi bod yn llwyddiannus neu beidio ychydig o amser. Ac yna fe gymerodd e’ fwy o amser ar ôl hynny i gael yr arian yn y pot.” Derbynnydd grant maes 3, Rownd 2 Bach, ID17

5.5.3.3 Cyfathrebu gwael

Tynnodd rhai o'r derbynwyr grant bach a gyfwelwyd gennym sylw at gyfathrebu gwael. Er enghraifft, Diverse Cymru ddim yn ymateb i negeseuon e-bost am fis, neu ddim yn derbyn negeseuon e-bost – gofynnwyd i un sefydliad ail-anfon negeseuon e-bost. Mewn un achos, dywedodd prosiect nad oeddent wedi derbyn ateb i e-bost yn hysbysu Diverse Cymru bod y prosiect yn profi problemau. Mae cyfrifon cyfranogwyr yn awgrymu mai e-bost oedd yn cael ei ystyried fel yr unig fath o gyfathrebu ac efallai nad oeddent yn ymwybodol o ffyrdd mwy uniongyrchol o gyfathrebu. Gwnaeth un o gyfranogwyr maes 3, a oedd yn fodlon â'r cyfathrebu gan Diverse Cymru, gysylltu â nhw dros y ffôn.


> "Un o'r materion oedd cyfathrebu. Byddech chi'n anfon e-bost a byddech chi ddim yn cael ateb am fis arall, fwy na thebyg." Maes 3, Rownd 2 Bach, ID34

Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn cyd-fynd yn gyffredinol â phrofiad y rhai a gyfwelwyd. Er bod y mwyafrif yn gadarnhaol am eu profiad gyda Diverse Cymru, soniodd y rhai a gafodd broblemau am oedi o ran cyfathrebu.

> "Doedd negeseuon e-bost ddim yn cael eu hateb bob amser. Weithiau roedd yn cymryd 3-4 wythnos i gael ymateb. Roedd hyn yn rhwystredig." Derbynnydd grant maes 3 a ymatebodd i'r arolwg ID36

**Ffigur 8. Maes 3: Asesu'r cyfathrebu gan Diverse Cymru**

(Arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect maes 3, (cyfrif, nifer = 12))



#### 5.5.3.4 Amseru adroddiadau monitro

Profodd rhai cyfranogwyr broblemau gydag amseru'r adroddiadau monitro o ran amserlenni prosiectau. Er enghraifft, derbyniodd dau brosiect gais am yr adroddiad canol tymor pan oedd y prosiect newydd ddechrau oherwydd oedi wrth dderbyn cyllid. Dim ond tri mis oedd gan brosiect arall ag amserlen fer rhwng eu hadroddiad canol tymor a'u hadroddiad terfynol, a arweiniodd at lawer o ailadrodd yn yr ail adroddiad gan nad oedd llawer wedi digwydd yn y cyfamser.

> "Yma, rwy'n ailadrodd fy hun rhwng tri mis a dim ond 12 wythnos ydyw a rhwng y 12 wythnos mae gwyliau, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Mae tri mis yn gyfnod byr iawn i ni ac yna rydyn ni'n torri ar gyfer y Pasg." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Canolig, Rownd 2 Cyfalaf, ID41

Roedd un prosiect wedi'i gwblhau pan ofynnwyd iddynt ysgrifennu eu hadroddiad canol tymor, ond roedd yn rhaid iddynt ysgrifennu adroddiad terfynol o hyd pan ddaeth yr amser ar gyfer yr adroddiad terfynol, gan olygu bod ailadrodd.

At hynny, roedd rhai ymatebwyr i'r arolwg o'r farn nad oedd y gofynion monitro yn cyfateb i swm cyllid roeddent wedi'i gael.

> "Roedd y grant yn grant bach (yr oeddem yn ei werthfawrogi'n fawr) i'w wario mewn cyfnod byr, roedd y monitro yn y canol yn ormod ac fe gymerodd amser i ffwrdd o drefnu'r digwyddiad/gweithgareddau." Derbynnydd grant maes 3, ymatebydd i'r arolwg ID35

#### 5.5.3.5 Heriau sy'n deillio o'r cam ymgeisio

Cyllid cyfalaf o gymharu â chyllid refeniw - Roedd grant un prosiect (Rownd 1 Mawr) wedi'i bwysoli tuag at wariant cyfalaf ac nid oedd yn cynnwys digon o gyllid refeniw ar gyfer y prosiect. Nid yw'n glir sut roedd hyn wedi digwydd – o bosibl oherwydd gwall yn y cais. Yn ffodus, enillodd y sefydliad grant bach gan gyllidwr arall a helpodd i dalu'r gwariant refeniw ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys costau rheoli prosiect. Gofynnodd prosiect arall a wnaeth gais am grant Rownd 1 am ormod o gyfalaf, felly bu'n rhaid iddynt aros nes y gallent wneud cais am gyllid cyfalaf Rownd 2 i brynu offer cyfalaf a oedd yn hanfodol i gynllun y prosiect.

Amserlenni prosiectau - Fe wnaeth un prosiect gamddeall yr amserlen ar gyfer prosiectau maes 3 pan wnaethant gais am gyllid. Roedd y sefydliad wedi bwriadu i'r rhan fwyaf o'r prosiect ddigwydd yn y flwyddyn ariannol ganlynol gan ddechrau ar 31 Mawrth 2024 ond gwnaethant ddarganfod ar y cam cynnig amodol bod yn rhaid cwblhau gwariant y prosiect erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol honno, h.y. cyn 31 Mawrth 2024. Bu'n rhaid i'r prosiect gwtogi ei amserlen yn gyflym cyn dechrau'r prosiect. O ganlyniad, roedd yn heriol mynd i'r afael â gweithgareddau yn yr amserlen fyrrach ond, yn y pen draw, roedd arweinydd y prosiect yn teimlo bod y prosiect wedi cyflawni'r hyn yr oedd wedi bwriadu ei wneud.

# 6. Canfyddiadau Adran 2 – Ymgysylltu

## 6.1 Canfyddiadau allweddol



- Disgrifiodd rhai sefydliadau maes 1 eu hunain fel rhai cymharol newydd i weithredu'r ArWAP ac ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol. Er gwaethaf hyn, maent yn adrodd eu bod wedi gweithio gyda 54 o sefydliadau yn gyffredinol, gan gynnwys gweithgareddau cyd-gynhyrchu gweithgareddau, ymgysylltu â chymunedau, cyflogi/comisiynu pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol, gweithio gyda pyrthgeidwaid, ymgysylltu ag ymgynghorwyr a gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol.
- Roedd pob prosiect maes 1 yn teimlo eu bod wedi cryfhau eu perthynas â chymunedau nad oeddent wedi'u cyrchu o'r blaen. Yn anffodus, nid oeddent yn gallu darparu unrhyw fanylion ar nodweddion pobl a oedd yn ymwneud â'u gweithgareddau.
- Mae sefydliadau maes 2 yn amrywio rhwng cyrff mawr i sefydliadau bach ar lawr gwlad, rhai ohonynt yn cael eu harwain gan bobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol. Felly, roedd eu lefel o ymgysylltiad â grwpiau cymunedol cyn cyllid ArWAP yn amrywio'n sylweddol. Mae dadansoddiad o'r data sydd ar gael yn awgrymu bod sefydliadau maes 2 wedi ymgysylltu â chymunedau mewn pedair ffordd allweddol; trwy godi ymwybyddiaeth o'u

prosiectau a'u cyfleoedd; trwy gyflogi/comisiynu pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol; trwy gyd-ddylunio/cyd-gyflwyno prosiectau a ariannwyd ac wrth gael mynediad at gymunedau i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ariannwyd. Gyda'i gilydd, nododd sefydliadau maes 2 a ariannwyd eu bod wedi gweithio gyda 50 o sefydliadau cymunedol.

- Oherwydd natur sefydliadau maes 3 (sy'n cael eu harwain gan bobl o gymunedau lleiafrifol) roedd natur eu hymgysylltu a'u cydweithrediad yn wahanol i'r meysydd eraill. Fodd bynnag, fe wnaethant adrodd eu bod wedi gweithio gyda 55 o sefydliadau cymunedol, a nodwyd eu bod wedi cynnwys pobl â phrofiad bywyd o hiliaeth trwy wahanol gamau'r prosiect, o'r dylunio hyd at y cyflwyno.
- Effaith ymgysylltu – sefydliadau cymunedol: Nododd pob un o'r tri sefydliad cymunedol eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad a bod y sefydliadau yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn gweithredu mewn ffordd wrth-hiliol. Roedd dau o'r tri yn bwriadu parhau â'u cyfranogiad y tu hwnt i ddiwedd y prosiect.
- Effaith ymgysylltu – pobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd: Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn y grŵp hwn yn teimlo bod cyfleoedd cyd-ddylunio yn gyffredin i ryw raddau neu i raddau helaeth, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rôl. Fodd bynnag, nododd eraill nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi digon, gydag un person yn mynegi nad oedd eu hymdrechion yn cael eu cydnabod yn llawn. Profodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr rywfaint o fudd o fod yn rhan o'r prosiectau, ond tynnwyd sylw eto at y ffaith nad yw rhai sefydliadau'n ymgorffori arferion gwrth-hiliol ar bob lefel a oedd yn cael effaith negyddol ar unigolion. Er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn teimlo bod cynnydd wedi bod tuag at wrth-hiliaeth, gwnaethant awgrymu bod angen gwneud mwy.

## 6.2 Maes 1 – Prosesau ymgysylltu

Mae'r adran hon yn cyflwyno data o gyfweliadau ag arweinwyr prosiectau ochr yn ochr â dadansoddiad o adroddiadau Diwedd Prosiect (EoP).

### 6.2.1 Ymgysylltu â grwpiau cymunedol cyn ArWAP

Yn ôl y rhai a gyfwelwyd, roedd y rhan fwyaf o sefydliadau maes 1 yn weddol newydd i weithredu'r ArWAP ac ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol. At hynny, oherwydd yr amser byr o gyhoeddi'r ArWAP i'r gwahoddiad i wneud cais am grant, nid oedd y mwyafrif yn cynnwys unrhyw ymgynghoriad â chymunedau, ac eithrio un prosiect ar y cyd a oedd yn deillio o brosiect ymgysylltu ehangu presennol yn seiliedig ar ymchwil sylweddol.

Serch hynny, yn ystod maes 1, gwnaeth prosiectau gamau sylweddol tuag at gynyddu mynediad at fannau a hanesion, gan gysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol a chyd-greu. Fel y soniwyd mewn adran gynharach, symudodd cyfranogiad rheolwyr prosiect â phrofiad bywyd ddau brosiect yn sylweddol o'r cynllun cychwynnol tuag at ymgysylltu cymunedol a chyd-gynhyrchu ac, mewn un achos, cynyddodd cyfranogiad yn y gofod Chwaraeon.

> "Rwy'n credu mai'r ffordd roedd y prosiect yn cael ei ragweld ar y dechrau oedd y byddai gweithwyr y prosiect yn dod i mewn ac yn cynnal cyfweliadau â'r mawr a'r da, y dynion busnes a'r gwleidyddion llwyddiannus. Ond fe ddes i i mewn ac yn unol ag ysbryd ArWAP fe wnes i ymrwymiad i annog lleisiau nas clywir yn aml fel pobl a oedd yn gweithio yn y mwyngloddiau, straeon menywod. … Fe gawson ni bobl lwyddiannus a oedd ar frig eu gyrfaoedd, ac fe glywson ni leisiau nas clywir yn aml ac i lawer dyma'r tro cyntaf iddyn nhw gael platfform." Derbynnydd grant maes 1, ID11

### 6.2.2 Gweithgareddau cyd-gynhyrchu ym maes 1

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o adroddiadau EoP, roedd pob prosiect maes 1 yn cynnwys cyd-gynhyrchu â grwpiau cymunedol i ryw raddau, e.e. i ddatblygu gweithgaredd chwaraeon, cynnwys cyfranogwyr mewn rhannu hanesion llafar, datblygu adnoddau addysgol, creu gweithiau celf sy'n adlewyrchu straeon pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, cael mewnbwn i arallgyfeirio adnoddau a chael adborth ar ddatblygu cynhwysiant mannau arddangos.

### 6.2.3 Graddau ymgysylltu â'r gymuned ym Maes 1

Yn ôl adroddiadau EoP, gweithiodd prosiectau maes 1 gyda chyfanswm o 54 o grwpiau cymunedol ac unigolion trwy eu prosiectau a ariannwyd. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Prosiect hanes llafar sy'n dod o hyd i gyfranwyr a gwirfoddolwyr i gyflwyno gweithgareddau prosiect: gan dynnu ar gysylltiadau personol helaeth rheolwr y prosiect â Chyngor Mwslimiaid Cymru, Cyngor Sikhiaid Cymru, Cyngor Hindŵaidd Cymru, y Sanatan Dharma Mandal [teml Hindŵaidd yng Nghaerdydd; ymgynghorydd a oedd wedi byw yng ngwersyll Tonfanau; ymgynghorydd o blith Asiaid Ismaili [cangen o Shia Islam] o Uganda, ac ymgynghorydd gydag arbenigedd mewn Pensaernïaeth Asiaidd. Hefyd: arddangosfeydd o hanesion llafar yng Nghanolfan Celfyddydau'r Eglwys Norwyeg ym Mae Caerdydd, a'r Senedd, Bae Caerdydd.
- Prosiect cymunedol sy'n cydweithio â sefydliadau cymunedol i gyflwyno gweithdai i ysgolion: Cymdeithas Tsieineaid yng Nghymru, Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru, ac Unify.
- Prosiect Chwaraeon sy'n cyd-ddatblygu digwyddiad Ramadan hanner nos: Cynhaliwyd hwn mewn partneriaeth â Foundation for Sports Coaching CIC. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

### 6.2.4 Dulliau o ymgysylltu â chymunedau

Nododd prosiectau maes 1 eu bod wedi defnyddio nifer o wahanol ddulliau o ymgysylltu â chymunedau, gan gynnwys:

- Cyflogi staff prosiect o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol sydd â phrofiad bywyd o gymunedau, gan gynnwys rheolwyr prosiect a gweithwyr prosiect lleol sydd â chysylltiadau mewn cymunedau lleol.
- Comisiynu artistiaid o gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli mewn casgliadau celf trwy gysylltiadau presennol â'r gymuned artistig neu drwy alwad gan sefydliadau celfyddydau gweledol cydweithredol. At hynny, cynhaliodd ymarferwyr creadigol drafodaethau gyda'u cymunedau fel bod yr hyn a grëwyd ganddynt yn cynnwys lleisiau o'r gymuned.

- Gweithio gyda phyrthgeidwaid fel Cyngor Mwslimiaid Cymru, Cyngor Sikhiaid Cymru, Cyngor Hindŵaidd Cymru, y Sanatan Dharma Mandal [teml Hindŵaidd] yng Nghaerdydd.
- Ymgysylltu ag ymgynghorwyr sydd â phrofiad penodol o gymunedau, e.e. rhywun a fu'n byw mewn gwersyll ailsefydlu ar gyfer Asiaid Uganda a allai gysylltu'r prosiect â phobl eraill a oedd yn byw yno ar yr un pryd, a chynrychiolwyr o gymunedau nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys yn y naratif, e.e. Asiaid Ismaili a gafodd eu diarddel o Uganda hefyd.
- Gweithio gyda sefydliadau cymunedol lleol, fel sefydliad chwaraeon cymunedol lleol o'r enw Foundation for Sports Coaching, i ddarganfod beth fyddai cymunedau yn hoffi ei weld yn cael ei wneud/gwrando ar anghenion cymunedol, yn hytrach na bod pobl eraill yn penderfynu beth sy'n cael ei wneud.

> "Felly, roedd yn fath syml iawn o gysylltiad trwy brofiad bywyd ac roeddwn i'n gallu wedyn pwyso ar ei arbenigedd [cyswllt mewn sefydliad cymunedol] yn y sylfaen chwaraeon a dweud, "Rydych chi'n gwybod beth sydd ei angen", a dydw i ddim yn meddwl bod hyn erioed bron wedi cael ei ofyn. Wyddoch chi, o lens ddilys o yn hytrach na mynd fel, "Rydyn ni'n meddwl bod angen llawer mwy o arian arnoch chi," yn hytrach na mynd, "Beth sydd ei angen arnoch chi mewn gwirionedd? Fel, beth ydych chi ei eisiau?" Ac yna, "Gadewch i mi ddod o hyd i ateb iddo," yn hytrach na fy mod i'n mynd, "Mae gen i gynllun i chi". Fe newidiodd y sgwrs gyfan." Derbynnydd grant maes 1, ID13

Nododd pob un o'r rhai a gyfwelwyd fod perthnasoedd â chymunedau nad oeddent wedi'u cyrchu o'r blaen cyn y cyllid wedi cryfhau. Fodd bynnag, tynnodd un cyfranogwr sylw hefyd at yr her bosibl o gynnal perthnasoedd unwaith y daw'r cyllid i ben.

> "Rwy'n credu yn sicr y gallwn ni ddweud ein bod ni wedi cryfhau a chreu perthnasoedd newydd gyda chymunedau ac unigolion o'r Mwyafrif Byd-eang. Rwy'n credu mai'r her pan ddaw'r cyllid i ben, yw sut rydych chi'n cynnal y perthnasoedd hynny. Felly, yn bendant mae newid sylweddol wedi bod yn nifer y cymunedau rydyn ni wedi ymgysylltu â nhw, y mathau o gymunedau rydyn

ni wedi ymgysylltu â nhw.…Yn enwedig o fewn y gymuned artistig, bu cynnydd yn amrywiaeth ein cysylltiadau a’n cyswllt â’r cymunedau hynny.” Derbynnydd grant maes 1, ID9

### 6.2.5 Manylion y bobl a gyrchodd brosiectau a ariannwyd


Er gwaethaf y ffaith bod templedi adrodd monitro yn gofyn am fanylion y rhai oedd wedi cael mynediad at weithgareddau prosiectau a ariannwyd, dywedodd pedwar prosiect na allent ateb y cwestiwn hwn, naill ai oherwydd nad oedd y prosiect yn casglu data penodol ar nodweddion gwarchodedig neu oherwydd nad oedd y data ar gael. Darparodd prosiect arall restr fanwl iawn o ganran y plant Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol mewn ysgolion lleol (nad oedd o reidrwydd yn adlewyrchu’r disgyblion y gwnaethant weithio gyda nhw ar y prosiect) a rhoddodd un arall nifer y mynychwyr yn unig.

## 6.3 Prosesau Ymgysylltu Maes 2


Mae’r adran hon yn cyflwyno data o gyfweliadau ac arolwg ar-lein gydag arweinwyr prosiect a dadansoddiad o adroddiadau EoP.

Roedd arweinwyr prosiect maes 2 wedi’u rhannu o ran sut yr oeddent eisoes wedi’u cysylltu â chymunedau cyn cyllid ArWAP. Roedd rhai sefydliadau eisoes yn gweithio gyda chymunedau amrywiol; yn nodedig, roedd dau o’r rhai a gyfwelwyd yn cael eu harwain gan bobl o liw gyda chysylltiadau ag ystod o leiafrifoedd ethnig o fewn y sefydliad a thrwy eu grwpiau cymunedol, ac roedd sefydliad arall yn gweithio gyda nifer fawr o sefydliadau ar lawr gwlad trwy ganolfan ranbarthol. Roedd eraill yn newydd i weithio gyda chymunedau ac yn sianelu cyllid ArWAP i roi hwb i ddatblygu dulliau o gael gwared ar rwystrau yn eu gofod, e.e. theatr a chwaraeon.

Nododd dadansoddiad o’r gwahanol ffynonellau data bedair ffordd allweddol yr aeth prosiectau maes 2 ati i ymgysylltu â chymunedau yr effeithir arnynt gan hiliaeth:



Codi ymwybyddiaeth o brosiectau neu gyfleoedd a ariennir a grëwyd ganddynt



Cyd-ddylunio/cyd-gyflwyno prosiectau a ariennir



Cyflogi pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i gyflawni prosiectau a ariennir



Mynediad at gymunedau i gymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect a ariennir

### 6.3.1 Codi ymwybyddiaeth o brosiectau neu gyfleoedd a ariennir a grëwyd ganddynt

Disgrifiodd arweinwyr prosiect eu bod wedi defnyddio ystod o ddulliau i godi ymwybyddiaeth o'u prosiectau a ariannwyd, gan gynnwys:

- Hysbysebu ar gyfer staff prosiect Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, e.e. rheolwyr prosiectau, staff ymchwil a mentoriaid gwrthdro, a chyfranwyr i hanesion llafar.
- Rheolwyr prosiect yn gwneud cysylltiadau â chymunedau ac yn adeiladu rhwydwaith, pan nad oedd y rhwydweithiau hyn wedi bodoli o'r blaen. E.e. trwy 'fynd allan yna' i gwrdd â grwpiau cymunedol (yn hytrach nag anfon negeseuon e-bost, fel y gwnaeth ei ragflaenydd). Ers hynny, roedd y cyfranogwr hwn wedi adeiladu perthynas gref â chymunedau, sydd wedi ehangu wrth i'r cymunedau hyn roi gwybod i gymunedau eraill am y prosiect.

  "Es i allan yno y mis cyntaf. Fe wnes i godi'r perthnasoedd roeddwn i wedi'u gadael, ond es i atyn nhw ac rwy'n credu bod pobl yn meddwl ar unwaith, wyddoch chi, ein bod ni'n prynu i mewn i'r broses yn fwy oherwydd fy mod i'n mynd atyn nhw. Ac yna unwaith y gwnaethon nhw gwrdd â mi, wyddoch chi, mae gen i rai perthnasoedd ystyrlon cryf iawn nawr, sy'n gwneud y gofod hwn yn haws i weithio ynddo. A nawr mae gan y bobl hynny gysylltiadau mewn cymunedau eraill, ac maen nhw'n hysbysu'r rheini. "Ydych chi'n gwybod am

[enw'r prosiect]?" ac mae fel pelen eira, felly gobeithio y bydd yn parhau i dyfu am flynyddoedd i ddod." Derbynnydd grant maes 2, ID25

- Hwb rhanbarthol fel Hwb Amlddiwylliannol Gogledd-ddwyrain Cymru, drwy rannu un pot o gyllid maes 2 gyda 28 o brosiectau ar lawr gwlad a'u cefnogi gyda'u prosiectau, e.e. cymorth gyda setiau sgiliau ar gyfer rheoli prosiectau, ynghyd â chymorth i wneud cais am gyllid amgen.
- Trwy arweinwyr cymunedol y mae cymunedau yn ymddiried ynddynt ac a allai annog pobl i gymryd rhan.
- Trwy gymdeithasau lleol: cysylltodd un prosiect â'r brifysgol leol i weld a fyddai gan unrhyw un o'i chlybiau neu gymdeithasau ddiddordeb.
- Sefydliadau porthgeidwad i gyrraedd cymunedau, megis y Gymdeithas Tsieineaidd, Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru a BAWSO (roedd y sefydliad hwn eisoes yn gysylltiedig â'r sefydliadau hyn drwy ymgyngoriadau ArWAP cynharach) a Race Council Cymru.
- Rhwydweithiau sefydliadau eu hunain, e.e. roedd un sefydliad maes 2 yn sefydliad ar lawr gwlad gyda'i rwydwaith cymunedol ei hun.

### 6.3.2 Cyd-ddylunio/cyd-gyflwyno prosiectau a ariennir

Ar ôl sefydlu cysylltiad â chymunedau a grwpiau/sefydliadau cymunedol, disgrifiodd rhai arweinwyr prosiect maes 2 sut y gwnaethant weithio i ymgorffori eu safbwyntiau mewn cynllunio prosiectau. Mae tystiolaeth o gyfweliadau ac EoPs yn awgrymu bod arweinwyr prosiect wedi cysylltu â sefydliadau cymunedol i gael cyngor ar ddylunio agweddau ar brosiectau, gan gynnwys:

- I gael cyngor ar sut i addasu gweithdai ymgysylltu ag amgueddfeydd i grwpiau cymunedol penodol, e.e. gwybodaeth am y gymuned, terminoleg briodol: Panel Cynghori Is-Sahara, Race Equality First, Pafiliwn Grangetown a Tŷ Pawb a'r Race Council.

- I gael cyngor ar sut i gefnogi merched ifanc Mwslimaidd ar gwrs hyfforddi sy'n gweddïo bum gwaith y dydd: Women Connect First yng Nghaerdydd, a arweiniodd at osod matiau gweddi ym mhob canolfan tenis dan do ledled Cymru, a ddaeth o gwmni o'r enw Umbrella Faith.

- I gael cyngor ar gynnal gwyliau Chwaraeon: gweithio gyda Foundation 4 Sports Coaching.

Yn yr un modd, awgrymodd cyfweliadau ag arweinwyr prosiect eu bod wedi ymgynghori â grwpiau cymunedol wrth ddylunio a chyflwyno prosiectau, gan gynnwys:

- Cyd-gynhyrchu cynllun y prosiect o fewn sefydliadau yn achos dau sefydliad dan arweiniad pobl o liw.
- Cyd-gynhyrchu cynllun y prosiect gyda grŵp cymunedol sefydliad ei hun, h.y. 470 o aelodau o'r gymuned, sy'n dod yn bennaf o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol. Penderfynodd y grŵp cymunedol archwilio pwnc eu prosiect.
- Cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd wrth ddylunio sesiynau hyfforddi.
- Trafodaethau bord gron gyda phobl o gymunedau amrywiol i archwilio'r rhwystrau sy'n wynebu pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol o ran cymryd rhan yn y Celfyddydau.
- Dylunio gweithgareddau wedi'u teilwra i'r hyn yr oedd cyfranogwyr ei eisiau.

> "Roedd encil yr awduron wedi'i deilwra i'r hyn yr oedd cyfranogwyr eisiau ei gael allan o'r digwyddiad; eu hanghenion nhw yn hytrach na threfnwyr yn tybio eu hanghenion. Ni wnaethon ni, yr awduron, ni wnaethom ddylunio'r encil ar eu cyfer yn unig. Fe wnaethon ni eu cynnwys. Fe wnaethon ni ofyn pwy fydden nhw'n ei hoffi i fod yn hwyluswyr, beth fydden nhw'n hoffi ei gael allan o'r wythnos, wyddoch chi. Felly mewn gwirionedd roedd eu lleisiau yn cael eu clywed ac fe wnaethon ni ei deilwra iddyn nhw. A beth oedd eu hanghenion yn hytrach na dim ond tybio felly ar bob pwynt rydyn ni wedi ceisio gwneud hynny." Derbynnydd grant maes 2, ID [Dienw]

Roedd nifer o enghreifftiau o gyd-gyflwyno yn adroddiadau prosiectau maes 2 lle roedd sesiynau neu ddigwyddiadau yn cael eu cynnal gan bobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Prosiect crefft sy'n cael ei redeg gan ddau addysgwr artist.
- Artist yn creu gwaith i ddathlu cysylltiadau rhwng Cymru ac Affrica a chyflwyno gweithdai mewn ysgolion.

- Gweithdai sy’n archwilio rhwystrau sy’n atal grwpiau amrywiol rhag ymgysylltu ag amgueddfeydd a gyflwynir mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol treftadaeth o dreftadaeth Jamaica ac Affrica a’r Caribî.
- Roedd cyfranogwyr ar gyfer carnifal a ddyfeisiwyd ac a arweiniwyd gan bobl greadigol Ddu ac amrywiol yn cynnwys: Successors of the Mandingue (sefydliad diwylliannol Affricanaidd sy’n cefnogi cerddoriaeth, dawns a chyfraniadau artistig), Côr Oasis One World (o ffoaduriaid a cheiswyr lloches), Sri Dasmais Singh Singh Sabha Gurdwara Bhatra gyda Phrosiect Treftadaeth Cymru. Roedd y prosiect hwn hefyd yn cynnwys cydweithio â gwahanol ysgolion i ddatblygu mentrau dysgu gwrth-hiliol.

Cafwyd hyd i dystiolaeth bellach o gyd-gynhyrchu yn yr EoPs ar gyfer maes 2, lle roedd prosiectau wedi cysylltu â sefydliadau cymunedol i gael mynediad at bobl â phrofiad bywyd o hiliaeth i helpu i ddatblygu adnoddau cynaliadwy, e.e. cofnodion hanesyddol mwy hygyrch, arallgyfeirio ffynonellau hanesyddol, amgylcheddau mwy cynhwysol, ac ati. Roedd enghreifftiau yn cynnwys:

- Ar gyfer 8 curadur ifanc Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i gasglu hanesion llafar: Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange.
- Ar gyfer gwirfoddolwyr sy’n cynnal ymchwil ar gyfer datblygu adnoddau hanesyddol: edrychodd y sefydliad hwn ar lawr gwlad i’w gymuned ei hun i gynnull tîm o wirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd ethnig, gan gynnwys cymunedau Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Nepalaidd, Sri Lankaidd, Nigeriaidd, Affricanaidd, Ewropeaidd a Gwyn Prydeinig.
- Ar gyfer tîm o fentoriaid gwrthdro i weithio gydag Arweinwyr Lleoliadau Creadigol/Gwasanaethau Diwylliannol: Hybiau Amlddiwylliannol y sefydliad ei hun. Gweithiodd y prosiect gydag unigolion a grwpiau o gefndiroedd Affricanaidd, Caribïaidd, De Asia, Dwyrain Asia, y Dwyrain Canol a chefndiroedd treftadaeth gymysg ledled Cymru.

Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi yma y gallai fod amrywiadau yn y ddealltwriaeth o gyd-gynhyrchu, cyd-ddylunio a chydweithredu gan fod pob un o’r saith a ymatebodd i’r arolwg wedi adrodd eu bod wedi cymryd rhan ym mhob un o’r tri dull hyn yn ystod

eu prosiect. Er y gallai hyn fod yn wir am y saith a ymatebodd i'r arolwg, roedd graddfa'r cyd-gynhyrchu a welwyd yn adroddiadau'r prosiectau yn amrywio rhwng prosiectau, sy'n awgrymu y gallai fod angen eglurder i nodi'r hyn sy'n cael ei ystyried yn lefelau angenrheidiol o gyd-gynhyrchu.

### 6.3.3 Cyflogi pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i gyflawni prosiectau a ariennir

Ni ddarparodd 13 o'r 16 o brosiectau wybodaeth am hyn yn eu hadroddiad EoP. O'r rhai a wnaeth:

- Roedd un prosiect yn cyflogi rheolwr prosiect o gymuned Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, a thri ymchwilydd â 'phrofiad bywyd' o'r ardal leol.
- Rheolwyd un prosiect gan ddau artist/addysgwr, ac roedd un ohonynt o dreftadaeth Asiaidd.
- Cyflogodd un prosiect fentoriaid gwrthdro o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol.
- Efallai na atebodd pedwar prosiect y cwestiwn hwn gan eu bod yn sefydliadau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol a oedd â threfniadau rheoli prosiect ar waith eisoes cyn y prosiect.
- At hynny, yn ôl data cyfweliadau, roedd gan ddau sefydliad arall reolwyr prosiect Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, un wedi'i gyflogi i redeg y prosiect, tra bod rheolwr prosiect arall yn aelod parhaol o staff.

Felly, gan gyfuno data cyfweliadau ac adroddiadau gyda'i gilydd, roedd saith allan o'r 16 o brosiectau a gynhwyswyd yn y gwerthusiad hwn yn cyflogi staff o gymunedau lleiafrifol. Mae'n bwysig nodi bod y swyddi a grëwyd ar gyfer y prosiect yn gontractau dros dro (ystyrir y mater hwn eto yn ddiweddarach yn yr adroddiad).

### 6.3.4 Cael gafael ar gymunedau i gymryd rhan mewn prosiectau

Y ffordd olaf y gwnaeth prosiectau maes 2 ymgysylltu â chymunedau lleol oedd trwy gysylltu â sefydliadau cymunedol i ddod o hyd i gyfranogwyr ar gyfer prosiectau a ariannwyd, er enghraifft:

- Ar gyfer prosiect Chwaraeon: Amar Cymru (rhwydwaith o gefnogwyr Cymru yn bennaf o gymuned gynyddol y wlad o dde Asia), Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Heddlu De Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru.
- Ar gyfer prosiect Crefft: Women Connect First, Ysgol Gynradd Mount Stuart, Pafiliwn Tre-biwt, a Chyngor Dinas Caerdydd.
- Ar gyfer prosiect Chwaraeon menywod: BME Sports Cymru, Chwaraeon Cymru, StreetGames, Criced Cymru, Tennis Cymru a Saethyddiaeth Cymru.

Gweithiodd prosiectau maes 2 gyda chyfanswm o 50 o sefydliadau cymunedol.

### 6.3.5 Manylion y bobl a gyrchodd brosiectau a ariannwyd

Dim ond tri adroddiad EoP a roddodd unrhyw fanylion am nodweddion pobl a oedd yn ymwneud â'r prosiectau a ariannwyd, gyda dau yn sôn nad oedd gofyn iddynt gasglu'r wybodaeth hon. Ni wnaeth eraill ateb y cwestiwn o gwbl neu roddwyd disgrifiadau cyffredinol iawn, e.e. 'Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol'. Felly, nid yw'n bosibl llunio unrhyw drosolwg ystyrlon o nodweddion buddiolwyr o ddata'r adroddiadau.

Yn y tri achos lle darparwyd data, roedd y nodweddion a restrwyd yn cynnwys oedolion, plant, pobl ifanc, ysgolion, athrawon, artistiaid, staff amgueddfa, aelodau o'r gymuned, mynychwyr gweithdy, gwirfoddolwyr, croestoriad o bobl niwroamrywiol a phobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Roedd y ddau adroddiad a restrodd ethnigrwydd yn cynnwys: Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Nepalaidd, Sri Lankaidd, Nigeriaidd, Affricanaidd, Ewropeaidd, cymunedau Gwyn Prydeinig, Tsieineaidd, Iorddonaidd, Iranaidd, Twrcaidd, Eifftaidd; pobl o sawl gwlad yn Affrica, y Caribî, a'r Unol Daleithiau.

## 6.4 Prosesau Ymgysylltu Maes 3

Roedd prosiectau maes 3 eisoes wedi'u cysylltu â chymunedau fel sefydliadau cymunedol. At hynny, roedd gweithgareddau prosiect yn aml yn barhad o weithgaredd presennol. Wedi dweud hynny, roedd prosiectau yn defnyddio ystod o

ddulliau i ehangu cyfranogiad a chyrraedd a chyfoethogi gweithgareddau gydag arbenigedd [Mae'r data isod wedi'i gymryd o ddadansoddiad o adroddiadau EoP]:

### 6.4.1 Dulliau o gyrraedd cymunedau

- Gweithgareddau hysbysebu, gweithdai a sesiynau hyfforddi: anaml y mae adroddiadau maes 3 yn disgrifio sut y gwnaethant ddenu cyfranogiad ar gyfer gweithgareddau prosiect, ond mae'r dulliau a grybwyllir yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, argymhellion (ar lafar), gwahoddiad personol, taflenni a phosteri mewn hybiau cymunedol a defnyddio eu rhwydweithiau eu hunain.
- Dod o hyd i gyfranogwyr gweithgareddau drwy sefydliadau lleol e.e. ar gyfer y rhai sy'n chwilio am noddfa, i bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol, mannau addoli fel Mandirs a Gurdwaras, a sefydliadau ar gyfer oedolion hŷn.
- Dod o hyd i artistiaid i gydweithio â nhw, e.e. dawnswyr a cherddorion drwy hysbysebu a phrifysgolion lleol.
- Sefydliadau cydweithredol yn cyfeirio pobl at weithgareddau'r prosiect.

### 6.4.2 Roedd dulliau o gyd-gynhyrchu yn cynnwys:

- Manteisio ar arbenigedd yn y gymuned, e.e. gan henuriaid, gan bobl sydd ag arbenigedd coginio, gan bobl sy'n cyfrannu hanesion llafar a chan artistiaid lleol yn y gymuned, e.e. mewn dawns neu gerddoriaeth.
- Defnyddio syniadau gan y gymuned, e.e. syniadau ar gyfer gweithgareddau.
- Gweithio gydag artistiaid sy'n ymwneud â'r prosiect fel cerddorion a dawnswyr.
- Cydweithio â sefydliadau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol eraill i ddod ag arbenigedd ar gyfer ystod o ffurfiau celf, a meysydd eraill fel creu cyfryngau a choginio.

### 6.4.3. Graddau ymgysylltu â'r gymuned ym maes 3

Mae data o adroddiadau EoP yn awgrymu bod prosiectau maes 3 wedi gweithio gyda 55 o sefydliadau cymunedol i gyflawni eu gweithgareddau. Fodd bynnag, ni ddarparwyd data cyson ar nodweddion pobl a gyrchodd eu prosiectau.

Mae sampl fach o sefydliadau cymunedol wedi'u rhestru isod (gweler Atodiad 2 am y rhestr lawn).

- GROW Cymru yn Abertawe (ar gyfer prosiect sy'n arddangos tecstilau a ffasiwn Nigeria)
- Mudiad Cymunedol Mwslimiaid Ifanc, ac ymarferwyr lleol creadigol wedi'u lleoli yng Nglan yr Afon a The Place (ar gyfer prosiect hanes llafar a gyhoeddwyd ar ffurf llyfr)
- Sanatam Mandir a'r Sri Dasmais Singh Sabha Gurdwara, Caerdydd (i gysylltu ag aelodau o'r gymuned o'r cymunedau Hindŵaidd a Sikhiaid ar gyfer prosiect hanes llafar), ac EYST, The Mentor Ring a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## 6.5 Effaith ymgysylltu - Meysydd 1 a 2 – Profiadau sefydliadau cymunedol a fu'n gweithio gyda phrosiectau a ariannwyd

Fel yr adroddwyd uchod, gweithiodd meysydd 1 a 2 gydag amrywiaeth o sefydliadau cymunedol i ddylunio a chyflawni'r prosiectau a ariannwyd. Ceisiodd y tîm gwerthuso ddeall sut roedd y sefydliadau hynny wedi teimlo am y profiad. Cafodd arolwg ar-lein ei ddylunio a'i ddosbarthu, gan ofyn i arweinwyr prosiect anfon hwn at y sefydliadau cymunedol yr oeddent wedi gweithio gyda nhw. Yn anffodus, dim ond tri ymateb gafwyd i'r arolwg, ac roedd pob un ohonynt o'r sector diwylliant a threftadaeth. Cyflwynir crynodeb byr o'u profiadau isod, gyda'r gyfradd ymateb fach wedi'i nodi fel cyfyngiad.

O ran y tri grŵp cymunedol a ymatebodd, roedd eu rôl yn y prosiect yn troi o gwmpas cydweithio â rhannau o'r prosiect a ariannwyd neu'r prosiect cyfan. Adroddwyd eu bod yn teimlo bod eu lleisiau a'u syniadau yn cael eu bwydo i rannau o'r hyn yr oedd y prosiect yn ei gyflawni.

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod eu harbenigedd yn cael ei werthfawrogi, gan fod yn rhan o'r sefydliad a ariannwyd trwy gydweithio, yn hytrach na thrwy ymgynghori neu gyd-ddylunio[3] . Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y sefydliadau yr oeddent yn

[3] Fel y'i diffinnir yn yr arolwg fel Ymgynghoriad: Cafodd rhannau neu'r cyfan o'r prosiect a ariannwyd eu llywio trwy ymgynghori â'ch grŵp cymunedol neu sefydliad. Gwnaeth eich lleisiau a'ch syniadau helpu'r sefydliad a ariannwyd i ddeall sut i gyflawni eu prosiect. Cydweithio: Cyflwynwyd neu cynhaliwyd rhannau neu'r cyfan o'r prosiect a ariannwyd gan eich sefydliad neu grŵp cymunedol. Roedd eich lleisiau a'ch syniadau yn rhan o'r hyn a gyflawnwyd gan y prosiect.

gweithio gyda nhw yn gweithredu mewn ffordd wrth-hiliol. Mae'n bwysig nodi bod y sefydliadau a ariannwyd a gefnogwyd gan y grwpiau cymunedol hyn yn cael eu harwain gan leiafrifoedd ac efallai na fydd y profiadau a gafwyd yn cefnogi sefydliadau eraill yn cael eu hadlewyrchu. Cafodd pob un o'r ymatebwyr brofiad cadarnhaol gyda'r sefydliad a ariannwyd, gan adrodd:

> "Roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn awyddus iawn i ddatblygu galluoedd pobl ifanc, a lles. Roedd swyddfa'r prosiect lles a phobl ifanc yn gefnogol iawn wrth ddod â phobl ifanc at ei gilydd." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 1, ID2

> "Cynlluniodd y sefydliad bopeth yn dda ac roedd gweithio gyda chymuned mor amrywiol yn wobr. Roedd hwn hefyd yn gyfle gwych i rwydweithio." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 1, ID3

Dywedodd dau ymatebydd eu bod yn bwriadu parhau i ymwneud â'r sefydliad a ariannwyd y tu hwnt i'r prosiect a ariannwyd a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau parhaus a chyngor a chefnogaeth barhaus.

> "Parhau i ddatblygu sgiliau [enw gweithgaredd] ymhlith pobl ifanc, ac ystyried datblygu'r sesiynau hyn o fewn y gymuned Tsieineaidd ar gyfer oedolion a gofalwyr." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 1, ID2

> "Rwyf eisoes wedi derbyn cefnogaeth a chyngor gan [enw'r sefydliad]. Rydym yn edrych ymlaen at weithio ar ein ddau brosiect. Canlyniad cadarnhaol, mae [enw'r sefydliad] wedi arwain y ffordd o ran cydlyniant cymunedol." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 1, ID3

Pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn argymell sefydliadau eraill i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel eu sefydliad eu hunain, adroddodd ymatebwyr fod angen marchnata mwy penodol a deialog barhaus a chyfleoedd i gysylltu â grwpiau cymunedol fel digwyddiadau.

### 6.6 Effaith ymgysylltu - Meysydd 1 a 2 – Profiadau pobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd fel rhan o brosiectau a ariannwyd

---

Cyd-ddylunio: Dyluniwyd rhannau neu'r cyfan o'r prosiect a ariannwyd gyda chyfranogiad sylweddol eich sefydliad neu grŵp cymunedol. Roedd eich lleisiau a'ch syniadau yn llywio elfennau craidd o'r hyn a ddyluniwyd ac a gyflwynwyd.

Fel yr amlinellir yn yr adran hon o'r adroddiad, aeth nifer o brosiectau ym meysydd 1 a 2 (cyfanswm o 23 – yn seiliedig ar yr adolygiad o brosiectau) ati i gyflogi neu gomisiynu pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i weithio ar eu prosiectau a ariannwyd (fodd bynnag, nid pob prosiect wnaeth recriwtio o gymunedau lleiafrifol). Roedd y tîm gwerthuso yn awyddus i ddeall sut brofiad gafodd y bobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd wrth weithio ar y prosiect. Mae'r dadansoddiad isod wedi'i gymryd o 11 o ymatebion wedi'u cwblhau i'r arolwg a thri chyfweliad.

### 6.6.1 Ynglŷn â'r ymatebwyr

Cafwyd 11 o ymatebion wedi'u cwblhau i'r arolwg, pedwar gan bobl a gyflogwyd a saith gan bobl a gomisiynwyd i weithio ar brosiectau a ariannwyd gan ArWAP. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn gweithio yn y sector diwylliant a threftadaeth, gyda dim ond un ymatebydd yn gweithio yn y sector chwaraeon. O'r 11 o ymatebwyr, nododd pedwar eu bod yn Wyn (gan gynnwys un person a nododd ei fod yn Wyddel Gwyn). Nododd y saith ymatebydd arall eu bod o amrywiaeth o grwpiau ethnig. Lle y bo'n berthnasol o fewn y dadansoddiad, darparwyd manylion o ethnigrwydd yr ymatebydd.


Un gwahaniaeth nodedig oedd bod y rhai a gafodd eu comisiynu yn hytrach na'u cyflogi i weithio ar brosiect bron yn gyfan gwbl yn bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Er nad yw manylion y swyddi parhaol yn hysbys, mae'n ddiddorol nodi bod tair o'r pedair rôl gyflogaeth wedi'u llenwi gan bobl Wyn a oedd yn cael eu cyflogi gan y sefydliad ar y pryd o fewn ffrwd ariannu a oedd yn annog cydweithredu â phobl â phrofiad bywyd.

Ymhlith yr holl ymatebwyr, roedd y mwyafrif yn gyfarwydd iawn â'r sefydliad yr oeddent yn gweithio neu'n gweithio ar ei liwt ei hun iddo cyn dechrau'r rôl. Roedd chwech wedi gweithio yno o'r blaen, a thri yn cael eu cyflogi ar yr adeg honno. Ymhlith y rhai a gyfwelwyd, roedd dau yn gyfarwydd â'r sefydliad i ryw raddau; roedd un wedi cael perthynas ymddiriedus a sefydlwyd trwy gomisiynau blaenorol gyda nhw.

> "Roedd yn gyfuniad o fod yn gwybod ei fod yn sefydliad diogel i weithio gydag ef sy'n wirioneddol agored i wrando a thrafod pethau mewn ffordd sy'n adeiladol ac yn ddefnyddiol." Cyfwelai Grŵp 2

**Ffigur 9. Math o gontract ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2**

(Arolwg gyda phobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd fel rhan o brosiectau a ariannwyd, (cyfrif, nifer = 11))




### 6.6.2 Cymhellion dros weithio ar y prosiect

Pan ofynnwyd iddynt am yr hyn a ddenodd nhw i'r rôl, soniodd ymatebwyr am eu hymrwymiad i wrth-hiliaeth a chyfiawnder cymdeithasol, gyda sawl unigolyn wedi'i ysgogi gan y cyfle i gyfrannu at newid diriaethol yn y meysydd hyn, yn enwedig yng nghyd-destun llyfrgelloedd. Adleisiwyd y cyfraniad hwn at newid gan y rhai a gyfwelwyd, gydag un yn cyfeirio'n benodol at y cyfle i ymgysylltu â phobl mewn cymunedau gwledig. Roedd gan rai ddiddordeb mewn defnyddio eu profiad personol a'u harbenigedd i gefnogi nodau'r prosiect, yn enwedig y rhai oedd yn anelu at gynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y sector diwylliant a threftadaeth. Mynegodd ymatebwyr frwdfrydedd dros waith creadigol, ymgysylltu â'r gymuned, ac adeiladu perthnasoedd cydweithredol hefyd yn ogystal â'r cyfle i dyfu'n bersonol a datblygu'n broffesiynol trwy fod yn rhan o'r cyllid.

> "Cynyddu amrywiaeth yn hanes Cymru. Mae yna ddiffyg cynrychiolaeth syfrdanol o fenywod, amrywiaeth ethnig, LHDTC+, anabledd ac eraill." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID64

> "Yn wirioneddol gyffrous gan lywodraeth a oedd yn ymrwymo'n benodol i wrth-hiliaeth. Roedd y rhaglen benodol yr oeddwn i'n gweithio arni hefyd yn siarad â fy set sgiliau a'm profiad." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID72

### 6.6.3 Profiadau o weithio ar y prosiect

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr cyflogedig yn hapus gyda'r broses ymgeisio er i un nodi ei fod yn anfodlon iawn â'r broses ymgeisio a'r cyfweliad – fodd bynnag, ni wnaeth ymhelaethu ar y rheswm am hyn heblaw am sôn bod ei rôl yn gyffredinol iawn. O'r saith a gomisiynwyd, roedd y mwyafrif yn fodlon â'r elfennau o'r broses gomisiynu a oedd yn berthnasol iddynt (y cyfweliad, y cais/cynnig a'r disgrifiad o'r gwaith). Dim ond dau o'r saith oedd yn gorfod cynnig am y gwaith, gan adlewyrchu natur argymhellion gwaith llawrydd – gyda thri o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a dau o'r rhai y cyfwelwyd â nhw yn adrodd eu bod wedi cael eu gwahodd i'r rôl. Roedd dau o'r saith yn teimlo nad oedd y disgrifiad o'r gwaith yn adlewyrchu realiti'r rôl. Roedd un yn anfodlon â hyn a nododd ei fod wedi arwain at lawer mwy o waith a olygodd fod angen treulio amser ychwanegol di-dâl yn ail-ddylunio deunyddiau dysgu.

> "Roedd angen ailwampio'r deunyddiau hyfforddi ar gyfer cynulleidfa ar-lein nad oedd wedi'i gynnwys yn y costau na'r gost am gyfieithydd Cymraeg." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID14

O ran pa mor gyffredin oedd y cyfle i gyd-ddylunio yn eu rôl, nododd naw o'r ymatebwyr eu bod wedi cael y profiad hwn i ryw raddau. Roedd y rhai a oedd yn ymgysylltu â chyd-ddylunio'r prosiect yn teimlo'n gadarnhaol am y profiad yn bennaf, gan nodi, er ei fod yn straen, roedd yn berthnasol ac nid oedd yn teimlo fel ymarfer ticio bocs. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau, a'i fod yn brofiad cydweithredol. Fodd bynnag, cafodd un ymatebydd brofiad niwtral, gan deimlo rhwystredigaeth am nodau anghyson y digwyddiad a'u bod eisiau gwneud mwy gyda'u syniadau.

> "Cafodd fy syniadau eu gweithredu ond cawson nhw eu cyfuno â gweithgareddau eraill yn y fath fodd fel na allwn ni gael cymaint allan o'm cynnig ag y gallai fod wedi bod yn bosibl." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID60

O'r rhai a gyfwelwyd, adroddodd dau ar elfennau cyd-ddylunio eu rôl gyda'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau ohonynt yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, canfu un o'r rhai a gyfwelwyd a weithredodd fel ffrind beirniadol i sefydliad llai fel rhan o'i rôl nad oedd ei gefnogaeth cyd-gynhyrchu wedi'i gofleidio'n llawn, gan deimlo y gallai'r sefydliad

hwn fod wedi elwa ar fentora gan fod ganddynt ddiffyg dealltwriaeth am gyd-gynhyrchu gwirioneddol a sut i fynd i'r afael ag ef.

Wrth ystyried profiad pob un o'r rhai a ymatebodd ac y cyfwelwyd â nhw (n = 14) o gynnig syniadau newydd ar gyfer dull y prosiect neu herio syniadau presennol, dywedodd naw eu bod wedi ceisio gwneud hyn. Roedd un ymatebydd i'r arolwg yn teimlo'n anghyfforddus yn gwneud hyn, gan nodi anfodlonrwydd nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwneud llawer iawn nac yn deall y prosiect yn dda iawn. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd ymatebwyr adborth cadarnhaol gan bobl yr oeddent yn gweithio gyda nhw, gan nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ac yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt. Fodd bynnag, dywedodd tri unigolyn eu bod wedi cael ymatebion negyddol i'w heriau neu awgrymiadau a wnaeth iddynt deimlo'n ddig ac yn rhwystredig. Er enghraifft, nododd un unigolyn ei fod wedi tynnu sylw at arferion recriwtio hiliol a'u cwestiynu, a bod hyn wedi arwain at gasleitio, mân-weithredoedd ymosodol a chael ei drin gyda chanlyniadau mwy arwyddocaol na'r sawl a oedd wedi gweithredu mewn ffordd hiliol.

> "Yn flin. Fe ysgrifennais i'r cais. Fe drafodais ef gyda'r holl bartïon dan sylw. Fe wnaeth y cyfranogwyr fwynhau eu hunain ac roedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Fe wnaethon ni ragori o bell ffordd ar yr allbynnau y cytunwyd arnyn nhw. Wnaeth Llywodraeth Cymru ddim ymdrech o gwbl i fynychu'r lansiad a'r arddangosfa. Roeddwn i'n teimlo nad oedd ganddyn nhw unrhyw ddealltwriaeth na diddordeb yn yr hyn roedden ni wedi'i gyflawni fel sefydliad bach dan arweiniad pobl Ddu." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID26

Roedd yn gyffredin i'r rhai a gyflogwyd ac a gomisiynwyd deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y cyfraniadau roddent yn eu gwneud yn eu rôl, gyda dim ond un yn teimlo nad oedd hynny'n wir. Dyma'r ymatebydd a oedd yn anfodlon â'i bersbectif ar ddiddordeb a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i'w brosiect. Roedd yr ymatebion gair am air yn adlewyrchu profiadau o deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu harbenigedd, gyda chydnabyddiaeth gan reolwyr, cydweithwyr, a'r cyhoedd. Nododd un ymatebydd fod ei gyflogwr yn dweud wrtho'n aml ei fod yn cael ei werthfawrogi ac roedd yn gweld eu hawgrymiadau'n cael eu gweithredu hefyd. Fodd bynnag, roedd yna deimladau hefyd nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi, gydag

un unigolyn yn mynegi nad oedd ei ymdrechion yn cael eu cydnabod yn llawn. Cyfrannodd materion cyfathrebu ac oedi ymhellach at y diffyg gwerthfawrogiad roedd un ymatebydd yn ei deimlo (er na ddywedwyd unrhyw beth penodol ynghylch pwy oedd dan sylw).

> “Roedd fy rheolwr yn hawdd i ddod ymlaen gydag ef, ac yn ymddiried ynof i wneud penderfyniad mawr ac roedd e’n gefnogol / yn cynnig help pan oedd angen." Ymatebydd i’r arolwg Grŵp 2 ID22

> “Daeth y rôl yn fwy nag yr oeddwn i erioed wedi’i ddisgwyl ac er ei fod yn brofiad da, wn i ddim a gafodd fy holl ymdrechion eu gwireddu.” Ymatebydd i’r arolwg Grŵp 2 ID13


Cafwyd ymatebion cymysg ond llai cadarnhaol yn gyffredinol i deimlo’n rhan o’r sefydliad yn ystod eu gwaith llawrydd neu gomisiynedig, gyda’r mwyafrif yn dweud nad oeddent o gwbl (4), neu i ryw raddau (1).

### 6.6.4 Cynnydd tuag at wrth-hiliaeth

Wrth sefydlu i ba raddau yr oedd sefydliadau wedi gwneud cynnydd neu symudiadau tuag at wrth-hiliaeth yn ystod rolau ymatebwyr yn y prosiect, gofynnwyd cwestiwn sylfaenol. Roedd dau ymatebydd yn teimlo bod y sefydliad yn gweithredu mewn ffordd wrth-hiliol i ‘raddau helaeth’ cyn i’r prosiect ddechrau ac roedd pump yn credu hyn ‘i ryw raddau’. Fodd bynnag, dywedodd pedwar o’r 11 fod hyn naill ai’n digwydd ‘ychydig iawn’ neu ‘ddim o gwbl’, yr oedd pob un ohonynt yn y sector diwylliant a threftadaeth (gweler Ffigur 10). Adlewyrchwyd y gyfran hon yn y rhai a gafodd eu cyfweld, gydag un o’r tri yn adrodd diffygion amlwg yn arferion gwrth-hiliol y sefydliad. Ymhlith y rhai a ymatebodd i’r arolwg, roedd gwahaniaethau rhwng ymatebwyr Gwyn ac ymatebwyr Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol yn ogystal â rhwng ymatebwyr llawrydd/wedi’u comisiynu a chyflogedig. Roedd ymatebwyr Gwyn wedi’u rhannu’n gyfartal rhwng ychydig iawn (2) ac i raddau helaeth (2). Roedd yr ymatebwyr Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol yn fwyaf tebygol o nodi ‘i ryw raddau’; ni wnaeth yr un ohonynt nodi ‘i raddau helaeth’ (gweler Ffigur 11).


**Ffigur 10. Canfyddiad o wrth-hiliaeth o fewn sefydliadau ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2**

(Arolwg gyda phobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd fel rhan o brosiectau a ariannwyd, (cyfrif, nifer = 11))




**Ffigur 11. Canfyddiad o wrth-hiliaeth o fewn sefydliadau ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2 (yn ôl ethnigrwydd yr ymatebydd)**

(Arolwg gyda phobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd fel rhan o brosiectau a ariannwyd, (cyfrif, nifer = 11))




Rhwng y rhai oedd â gwahanol fathau o gontractau, roeddent yn tueddu i fynd i wahanol gyfeiriadau fel nad oedd yr un o'r ymatebwyr llawrydd/wedi'i gomisiynu yn adrodd bod y sefydliad yn gweithio mewn ffordd wrth-hiliol 'i raddau helaeth', tra bod dau o'r pedwar aelod o staff cyflogedig wedi nodi hynny (gweler Ffigur 12).

**Ffigur 12. Canfyddiad o wrth-hiliaeth o fewn sefydliadau ymatebwyr i'r arolwg Grŵp 2 (yn ôl math o gontract)**

(Arolwg gyda phobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd fel rhan o brosiectau a ariannwyd, (cyfrif, nifer = 11))




Roedd saith o'r 11 o ymatebwyr yn teimlo bod agweddau wedi newid yn y sefydliad mewn perthynas â gwrth-hiliaeth yn ystod y prosiect a ariannwyd a ddosbarthwyd o ran ymgorffori arferion a pholisïau gwrth-hiliol (5), mwy o ymgysylltiad â phobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol (4) a chynnydd mewn cynrychiolaeth staff Duon, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol – fodd bynnag, nid oedd hyn ar lefelau uwch/arweinyddiaeth. Adroddodd un ymatebydd fod agweddau wedi newid mewn categori 'arall', gan nodi bod y newidiadau a arsylwyd ar lefel unigol. Yn gadarnhaol, gan gymharu pellter a deithiwyd, dywedodd pob un o'r tri ymatebydd a ystyriodd yn flaenorol mai 'ychydig iawn' yr oedd eu sefydliad yn ei wneud i weithredu mewn ffordd wrth-hiliol cyn y grant, eu bod wedi sylwi bod agweddau wedi newid.

> "Mae'r newidiadau rydw i wedi'u gweld hyd yma wedi bod ar lefel unigol. Fodd bynnag, mae'r sefydliad bellach wedi fy nghomisiynu i fynd â nhw trwy adolygiad o'u gwaith trwy lens gwrth-hiliol. Bydd hyn yn eu helpu i greu cynllun gweithredu gwrth-hiliol. Felly, er nad wyf wedi gweld newidiadau mawr hyd yn hyn, rwy'n teimlo eu bod yn ymwybodol o'r hyn nad ydyn nhw'n ei wybod, ac yn ceisio cymorth i unioni hyn" - Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID72

Pan roddwyd y cyfle i ehangu ar eu canfyddiad o ddiwylliant y sefydliad mewn perthynas â gwrth-hiliaeth, cododd rai themâu. Roedd rhai yn teimlo bod y sefydliad yn ystyried ei fod ymhellach ymlaen nag yr oedd mewn gwirionedd ar ei daith tuag at wrth-hiliaeth, a bod angen gwneud llawer mwy. Nododd rhai eu bod yn teimlo bod y prosiect yn gosod ymrwymiad a'r tôn tuag at ymdrechu i sicrhau arferion gwrth-hiliol.

Roedd ymatebydd arall yn teimlo, er y gellid gwneud mwy i gefnogi cynrychiolaeth yn y sefydliad, bod hyn yn anodd ei gyflawni mewn ardaloedd daearyddol gyda lefelau isel o amrywiaeth. Roedd un ymatebydd, a oedd wedi adrodd am rai materion yn ymwneud ag aelod penodol o staff, yn teimlo ei fod wedi cael triniaeth wahanol gan yr unigolyn hwn o gymharu ag eraill yn ei sefydliad. Mewn sawl un o'i atebion pwysleisiodd yr effaith negyddol, aralleiddio yr oedd ei brofiad gyda'r person hwn wedi'i chael. Mae hwn yn sylw nodedig, a gododd hefyd mewn cyfweliadau – bod ymrwymiad y sefydliad i weithredu pan fydd hyn yn digwydd yn hanfodol ac er bod angen i wrth-hiliaeth fod yn ymrwymiad sefydliadol, mae'n rhaid iddo gael ei gynnal yn unigol hefyd. Mewn achosion lle nad yw pobl yn cynnal ymrwymiadau sefydliadol i wrth-hiliaeth, yna mae cyfrifoldeb ar y sefydliad i gymryd camau angenrheidiol.

> "Fe brofais i wahaniaeth amlwg yn y ffordd y ces i fy nhrin gan un o'r "trefnwyr" yn y grŵp. Fe ysgrifennais i ddogfen fanwl am y profiad hwn ond doeddwn i ddim eisiau gorfod mynd trwy broses gyfryngu na chael fy holi ymhellach felly dim ond amlinellu'r ymddygiadau wnes i a gofyn iddyn nhw stopio." - Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID30

O ran eu sector, roedd naw allan o'r 11 yn teimlo bod agweddau tuag at wrth-hiliaeth yn newid yng Nghymru i ryw raddau, ac roedd un yn credu bod hyn yn digwydd i raddau bach iawn. Mae ymatebwyr yn teimlo bod llawer o ffordd i fynd, yn enwedig o ran agweddau unigol. Nodwyd hefyd fod rhai ardaloedd daearyddol yng Nghymru a rhai sefydliadau yn teimlo ymhellach ar ei hôl hi nag eraill. Roedd un ymatebydd yn teimlo bod angen dull cydgysylltiedig gyda'r holl sefydliadau yn gweithredu gyda'i gilydd er mwyn creu newid yn y sector. Fodd bynnag, lleisiwyd rhywfaint o optimistiaeth, yn enwedig o ran y canfyddiad bod mwy o gynhwysiant a chynrychiolaeth o artistiaid a phobl greadigol Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol.

> "Rwy'n sylwi bod llawer mwy o gynhwysiant a chynrychiolaeth o artistiaid Mwyafrif Byd-eang. Felly ar yr wyneb, oes, mae newidiadau yn digwydd. Ond mae yna waith i'w wneud o hyd i herio a dadwreiddio rhagfarn ddofn, sy'n rhagfarn ddiarwybod yn aml, sy'n dod (i'w ddweud yn blwmp ac yn blaen) oddi wrth 'bobl Wyn'." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID30

Roedd teimladau cymysg ynglŷn â'r graddau y bydd eu prosiectau yn cefnogi mynediad at gyfleoedd i bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol ymgysylltu yn y sectorau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon gyda phump o'r deg yn nodi ansicrwydd. Teimlwyd bod yna gymunedau o hyd sy'n parhau i gael eu tanwasanaethu, yn benodol:

- Pobl ethnig leiafrifol mewn ardaloedd gwledig
- Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf
- Pobl anabl
- Menywod
- Pobl Tsieineaidd
- Pobl Japaneaidd
- Pobl Arabaidd

> "Mae'n anodd creu cysylltiad â [grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr] a chael pobl o'r gymuned i ymddiried ynom ni fel sefydliad" **-** Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID22

> "Cymunedau Mwslimaidd. Oherwydd mewn lleoliad gwledig mae hwn yn grŵp cyfunol o unigolion sydd wedi'u rhwymo gan ffydd yn hytrach na chenedligrwydd / ethnigrwydd. Mae eraill sy'n cael eu heithrio yn cynnwys newydd-ddyfodiaid cenhedlaeth gyntaf nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r boblogaeth hon [mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf] (oni bai eu bod mewn addysg) yn parhau i fod yn gudd. Mae peidio â gallu cyfathrebu yn gwahardd cymaint o weithgareddau" - Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID26

### 6.6.5 Effaith y prosiect

Roedd saith ymatebydd yn teimlo y byddai eu prosiect yn ei gyfanrwydd wedi cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd cwpl o'r dyfyniadau air am air yn canolbwyntio mwy ar y bobl a gefnogwyd yn benodol gan eu prosiect (e.e. y rhai y gwnaethant ryngweithio â nhw'n benodol). Roedd eraill yn teimlo ei bod hi'n rhy gynnar i ddweud, er bod cynnydd mewn cynrychiolaeth yn helpu yn y tymor byr.

> "Rwy'n credu y bydd rhywfaint o fudd wedi bod i bobl y Mwyafrif Byd-eang sy'n agos at yr amgueddfeydd a gymerodd ran. Fodd bynnag, roedd y garfan yn fach felly byddai'r effaith wedi bod yn gyfyngedig. Hefyd, roedd yr amserlen o dan gymaint o bwysau fel fy mod i'n teimlo bod hyn wedi cyfyngu ar yr effaith bosibl." - Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID72

O ystyried canlyniadau cael eu cyflogi neu eu comisiynu o dan gyllid ArWAP, nododd y mwyafrif eu bod yn teimlo bod y rôl o fudd cadarnhaol iddynt ar lefel bersonol. Roedd eu hymatebion yn adlewyrchu ystod o brofiadau gyda llawer yn cyfeirio at ennill sgiliau newydd ac ehangu eu rhwydweithiau.

Roedd un o'r ymatebwyr Gwyn yn teimlo bod ei ddealltwriaeth o gymunedau a hiliaeth wedi cael ei hehangu a dywedodd ymatebydd arall ei fod yn gallu cyrraedd pobl a oedd fel arfer y tu allan i'w waith.

Yn anffodus, roedd dau ymatebydd yn teimlo nad oeddent wedi elwa o'r profiad, gan gyfeirio at staff a oedd yn eu gwneud yn anghyfforddus a gafodd effaith wedyn ar eu gallu i ymgysylltu'n gymdeithasol â chydweithwyr eraill. Cyfeiriodd ymatebydd gwahanol at y ffaith bod llawer o straen ac ychydig iawn o anogaeth yn ogystal â rheolaeth wael gan Lywodraeth Cymru.

Adroddodd rhai o'r ymatebwyr ganlyniadau annisgwyl o fod yn rhan o brosiectau a ariannwyd, yn amrywio o brofiadau cadarnhaol i rai negyddol. Roedd gan rai ohonynt fwy o hyder oherwydd eu bod wedi bod yn ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau neu gyfrifoldebau gwahanol tra nododd eraill eu bod o'r farn bod Cymru yn Genedl sy'n gwella. Defnyddiodd un o'r rhai a gyfwelwyd ei gyfle i dreialu dull cydweithredol o

hyfforddiant, lle roedd y gynulleidfa yn cyd-arwain ac yn llywio'r sesiwn, gan adrodd bod llwyddiant hyn a'r hyder a enillwyd yn ganlyniad nad oeddent wedi'i ddisgwyl.

> "Helpodd y comisiwn i feithrin fy hyder wrth gyflawni prosiectau, cyfrifoldebau dod o hyd i berfformwyr, gwisgoedd a theithio gyda ychydig bach o siarad cyhoeddus. Rhoddodd fwy o syniad i mi o faint o waith sy'n gysylltiedig ac i reoli grwpiau mawr o bobl" Cyfwelai Grŵp 2

Adroddwyd rhai canlyniadau negyddol annisgwyl, gyda chyfeiriad at gefnogaeth gan y cyllidwr a'i ddyletswydd gofal ac undod tuag at gyflogeion/gweithwyr llawrydd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol o dan y ffrydiau cyllido hyn – a adleisiwyd yn y cyfweliadau. Roedd canlyniad negyddol arall yn ymwneud â derbyn sylwadau negyddol gan bapurau newydd cenedlaethol.

#### 6.6.6 Heriau a wynebwyd

Pan ofynnwyd iddynt fyfyrio ar yr her fwyaf a wynebwyd yn ystod eu prosiect, cyfeiriwyd at ddelio â chyllidwyr. Soniodd un ymatebydd yn benodol am ddiffyg diddordeb a dealltwriaeth.

Ymhlith y materion eraill roedd yr anawsterau wrth sicrhau cynrychiolaeth a chyd-gynhyrchu priodol trwy gydol y prosiect. Gwnaeth rhai hefyd wynebu problemau gyda rheolaeth wael, syniadau negyddol rhagfarnllyd gan sefydliadau eraill, a heriau technegol cyflwyno ar-lein.

Roedd yr heriau ychwanegol a wynebwyd gan un ymatebydd yn ymwneud â bod yn destun gwahaniaethu a chael ei wneud i deimlo'n anghyfforddus gan reolwr Gwyn, a greodd amgylchedd llawn straen, gan gyfyngu ar ei ryddid a'i fwynhad o'r profiad.

Roedd anawsterau eraill yn cynnwys rheoli logisteg fel dod o hyd i berfformwyr, ymarferion a gwisgoedd, yn ogystal â'r ffaith bod adnoddau cyfyngedig yn achosi straen o ran ymdrechion. Fel y nodwyd uchod, roedd rhwystredigaethau hefyd o ran ymateb y cyhoedd, gydag un person yn derbyn sylw negyddol yn y cyfryngau, a'r pwysau o fod eisiau cyflawni mwy gyda chyllid ac adnoddau cyfyngedig.

> "Ceisio sicrhau bod cynrychiolaeth, cyd-gynhyrchu a dewis yr unigolion/grwpiau gorau i weithio gyda nhw yn ystod y prosiect" Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID22

> "Gormod o rannau symudol ar gyfer symiau bach o arian yn arwain at allbynnau ac egni gwasgaredig" Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID60

### 6.6.7 Llwyddiannau allweddol

Roedd y llwyddiannau mwyaf a brofwyd gan y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn cynnwys cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus a chynyddu ymgysylltiad gan wahanol grwpiau.

Roedd y diddordeb a gynhyrchwyd trwy gynnwys a ryddhawyd yn gyflawniad allweddol arall, ac adroddiadau bod aelodau o'r cyhoedd yn mynegi dealltwriaeth ddyfnach a chysylltiad emosiynol â'r hyn a welsant.

Llwyddiant nodedig arall oedd ennill hyder grwpiau a arferai fod yn sgeptigol yn ôl a'u cefnogi gyda'u prosiectau. Roedd ymgysylltiad cadarnhaol mynychwyr, gan gynnwys y rhai a gymerodd ran mewn sgyrsiau gonest ac a rannodd wirioneddau anghyfforddus, hefyd yn uchafbwynt.

Yn ogystal, gwerthfawrogwyd effaith hyfforddiant ar lyfrgellwyr a gweld creadigrwydd personol yn cyfrannu at y prosiect. Cyfeiriwyd hefyd at fynd â'u gwaith i wahanol leoliadau a gwyliau, yn ogystal â chynrychioli ffigyrau hanesyddol pwysig mewn casgliadau. Yn olaf, roedd teimlo'n rhan o rywbeth pwysig yng Nghymru yn destun balchder i un ymatebydd.


> "Nid oedd gan Ferched Llangollen, y gellir dadlau eu bod yn un o'r cyplau o'r un rhyw enwocaf mewn hanes, dudalen yn y Bywgraffiadur Cymreig ond gofynnwyd i mi ychwanegu un a nawr maen nhw yno!" Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2 ID64

# 7. Canfyddiadau Adran 3 – Canlyniadau ac effaith

## 7.1 Crynodeb o’r canlyniadau allweddol a gyflawnwyd ar draws y rhaglen grantiau

Mae Ffigur 13 yn rhoi trosolwg lefel uchel o rai o’r canlyniadau allweddol a gyflawnwyd ar draws tri maes y rhaglen grantiau. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu trafod yn fanwl mewn adrannau dilynol o’r adroddiad.

**Ffigur 13 - Crynodeb o’r canlyniadau a gyflawnwyd ar draws meysydd 1 - 3**



## 7.2 Nodau a chamau gweithredu ArWAP – Meysydd 1 a 2

Mae Tabl 2 yn cynrychioli'r dystiolaeth o fewn adroddiadau EoP o brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynghylch nodau a chamau gweithredu ArWAP (nid oedd yn ofynnol i faes 3 adrodd yn erbyn y nodau a'r camau gweithredu). Fel y gwelir, mae rhai nodau y mae prosiectau a ariannwyd wedi darparu mwy o dystiolaeth ar eu cyfer nag eraill. Mae gan bob nod o leiaf rai camau gweithredu y darparwyd tystiolaeth ar eu cyfer, fodd bynnag, mae rhai camau gweithredu na chafodd unrhyw dystiolaeth ei nodi ar eu cyfer mewn unrhyw adroddiadau EoP. Nid yw hyn yn golygu'n bendant nad yw prosiectau o bosibl wedi gwneud gwaith tuag at y camau hyn. Yn hytrach, nid ydynt wedi cyfeirio at hyn yn eu hadroddiad. Dylid nodi hefyd, ar gyfer rhai camau gweithredu, er bod llawer o brosiectau wedi cyfeirio atynt, efallai y bydd rhai yn dangos cyfraniad tuag at y cam gweithredu yn unig, yn hytrach na thystiolaeth o'i gyflawni (gweler nod 3, cam gweithredu 1). Lle bo hynny'n berthnasol, mae maint y dystiolaeth a ddarparwyd yn adroddiadau EoP wedi'i nodi yn y golofn 'Manylion'. Am ddisgrifiad manylach o'r gweithgareddau a ddangosodd bob nod a cham gweithredu, gweler Atodiad 7)

[Tystiolaeth gyfyngedig = 1-2 o brosiectau yn darparu tystiolaeth, Tystiolaeth gymedrol = 3-4 prosiect yn darparu tystiolaeth. Tystiolaeth sylweddol = 5 prosiect neu fwy yn darparu tystiolaeth.

**Tabl 2.1 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu ArWAP: Nod 1 - Arweinyddiaeth**

| **CAM GWEITHREDU** | **CRYFDER Y DYSTIOLAETH**<br>No evidence / Limited evidence / Moderate evidence / Substantial evidence | **MANYLION** |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1:** Cadw at egwyddorion | Tystiolaeth gyfyngedig | Darparodd 1 prosiect dystiolaeth dda |
| **Cam Gweithredu 2:** Hyfforddiant | Tystiolaeth sylweddol | Darparodd 5 prosiect dystiolaeth dda |
| **Cam Gweithredu 3:** Amrywiaeth o ran personél | Tystiolaeth gymedrol | Darparodd 1 prosiect dystiolaeth dda, darparodd 3 dystiolaeth gyfyngedig |
| **Cam Gweithredu 4:** Dulliau recriwtio amrywiol | Tystiolaeth gymedrol | Darparodd 1 prosiect dystiolaeth dda, darparodd 2 dystiolaeth gyfyngedig |
| **Cam Gweithredu 5:** Ymdrin â gwahaniaethu | Dim Tystiolaeth | Ni ddarparwyd tystiolaeth |

**Tabl 3.2 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu: Nod 2 - Cyllid**

| CAM GWEITHREDU | CRYFDER Y DYSTIOLAETH<br>No evidence / Limited evidence / Moderate evidence / Substantial evidence | MANYLION |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1:** Dosbarthu cyllid yn deg | Dim Tystiolaeth | Ni ddarparwyd tystiolaeth |
| **Cam Gweithredu 2:** Mwy o fynediad at gyllid | Tystiolaeth gyfyngedig | Darparodd 2 brosiect dystiolaeth dda |
| **Cam Gweithredu 3:** Cyd-ddylunio a chydweithio rhwng sefydliadau a chyllidwyr | Tystiolaeth gyfyngedig | Darparodd 1 prosiect dystiolaeth dda |
| **Cam Gweithredu 4:** Cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer sefydliad ar lawr gwlad sy'n cefnogi grŵp hil leiafrifiedig | Tystiolaeth gyfyngedig | Darparodd 2 brosiect dystiolaeth, ond nid oedd yn cyfateb yn uniongyrchol â'r cam gweithredu |

**Tabl 4.3 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu: Nod 3 - Dathlu Amrywiaeth**

| CAM GWEITHREDU | CRYFDER Y DYSTIOLAETH  | MANYLION |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1:** Cyd-gynllunio gweithgareddau i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol i ddathlu hunaniaeth | Tystiolaeth sylweddol | Darparodd 2 brosiect dystiolaeth dda, darparodd 10 arall dystiolaeth o gyfraniad. |
| **Cam Gweithredu 2:** Deunydd cyfathrebu marchnata gwrth-hiliol amlwg | Tystiolaeth gyfyngedig | Darparodd 2 brosiect dystiolaeth gyfyngedig |
| **Cam Gweithredu 3:** Sector gwrth-hiliol sy'n cynhyrchu cynnwys amrywiol ac yn darparu cyfleoedd creadigol o flaen a thu ôl i'r camera | Dim Tystiolaeth | Dim tystiolaeth (Ond cyfrannodd prosiectau Strand 3 at hyn) |
| **Cam Gweithredu 4:** Mynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn diwydiannau creadigol | Tystiolaeth gymedrol | Darparodd 3 phrosiect dystiolaeth o weithgarwch cysylltiedig ond nid oedd yn ffit agos o ran y cam gweithredu |

**Tabl 5.4 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu: Nod 4 - Y Naratif Hanesyddol**

| CAM GWEITHREDU | CRYFDER Y DYSTIOLAETH<br>No evidence / Limited evidence / Moderate evidence / Substantial evidence | MANYLION |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1:** Dad-drefedigaethu mannau cyhoeddus a chasgliadau (cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol) | Tystiolaeth sylweddol | Darparodd 12 o brosiectau dystiolaeth dda |
| **Cam Gweithredu 2:** Canoli profiadau a hanesion hil leiafrifiedig. Dileu rhwystrau i fynediad i safleoedd treftadaeth | Tystiolaeth sylweddol | Darparodd 11 o brosiectau dystiolaeth dda |
| **Cam Gweithredu 3:** Adolygu ailgynllunio naratifau hanesyddol ac adrodd arno | Tystiolaeth gymedrol | Darparodd 2 brosiect dystiolaeth dda, darparodd 2 dystiolaeth gyfyngedig |

**Tabl 6.5 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan brosiectau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 ynglŷn â nodau a chamau gweithredu ArWAP: Nod 5 - Dysgu am ein hamrywiaeth ddiwylliannol**

| CAM GWEITHREDU | CRYFDER Y DYSTIOLAETH<br>No evidence / Limited evidence / Moderate evidence / Substantial evidence | MANYLION |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1:** Mae cynnwys ar-lein yn cydnabod amrywiaeth ac yn ceisio gwella gwelededd. Cefnogi ymgysylltu â grwpiau hil leiafrifiedig | Tystiolaeth gymedrol | Darparodd 4 prosiect dystiolaeth dda |
| **Cam Gweithredu 2:** Ymwreiddio a chysylltu straeon o grwpiau hil leiafrifiedig o fewn adnoddau addysgol presennol | Tystiolaeth sylweddol | Darparodd 6 phrosiect dystiolaeth dda |

## 7.3 Canlyniadau Maes 1 - Canfyddiadau allweddol




Dangosodd prosiectau maes 1 ddealltwriaeth dda o nodau a chamau gweithredu ArWAP a darparu tystiolaeth eu bod wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad at bob un o'r pum nod (gyda thystiolaeth gryfach mewn rhai meysydd nag eraill).

- Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr maes 1 wedi bodloni eu dangosyddion perfformiad allweddol (hunan-ddiffiniol), neu wedi gwneud cyfraniadau sylweddol iddynt.
- Roedd pob prosiect naill ai wedi bodloni, neu 'gyfrannu' at gyflawni eu hymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu.
- Disgrifiodd prosiectau maes 1 nifer o ffyrdd yr oeddent yn creu neu gynnal mannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon, gan gynnwys; adlewyrchu amrywiaeth mewn gofodau CHS; mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad; codi ymwybyddiaeth ac addysg a meithrin gallu.
- Mewn perthynas â newid sefydliadol, disgrifiodd prosiectau eu bod ar gam cynnar y broses. Roedd rhai yn gallu mynegi newidiadau i flaenoriaethau sefydliadol (gyda mwy o ffocws ar EDI) a gwell perthnasoedd â sefydliadau cymunedol, fodd bynnag, roedd cynnydd cyfyngedig tuag at amrywiaeth y gweithlu.
- Roedd prosiectau maes 1 yn teimlo eu bod wedi effeithio ar unigolion a chymunedau trwy greu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chreu cyfleoedd i bobl rannu eu profiadau a theimlo eu bod wedi'u dilysu.
- Roedd safbwyntiau cymysg ar gynaliadwyedd cyllid maes 1. Er bod y rhai a gyfwelwyd gan dîm rhaglen Llywodraeth Cymru yn teimlo bod prosiectau maes 1 bellach mewn lle i brif ffrydio eu gweithgareddau, roedd arweinwyr prosiectau yn teimlo na fyddent yn gallu parhau â'r gwaith hwn heb gyllid ychwanegol. Er gwaethaf hyn, mae nifer o ganlyniadau cynaliadwy wedi'u cyflawni.

### 7.3.1 Cyflawni nodau ArWAP

Fel yr amlinellir yn Nhabl 2, gwnaeth prosiectau maes 1 gyfraniadau at holl nodau ArWAP, ond nid o reidrwydd pob un o'r camau gweithredu. Gweler Atodiad 7 am ddadansoddiad llawn o nodau a chamau gweithredu maes 1. Mae dadansoddiad o adroddiadau EoP yn awgrymu bod gan brosiectau maes 1 ddealltwriaeth dda o nodau a chamau gweithredu ArWAP, sy'n cymharu'n ffafriol â maes 2 (gweler isod). Dim ond un sefydliad a adroddodd weithgareddau a oedd yn cyfrannu at nodau 1 a 2. Yn nodedig, hepgorodd un sefydliad maes 1 arall sôn am ddosbarthiad cyllid yn eu disgrifiad o nodau a chamau gweithredu ArWAP, er bod dosbarthu arian yn ganolog i'r hyn y maent yn ei wneud ac fe'i gwelwyd yn ystod y prosiect. [Esboniad posibl am y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o sefydliadau maes 1 yn cysylltu gweithgareddau â'r nodau hyn yw bod y nodau hyn yn ymwneud â'u gweithgaredd arferol, meysydd y gweithir arnynt yn ehangach ac ati.]

Defnyddiodd sefydliadau chwaraeon (ym meysydd 1 a 2) eiriad gwahanol ar gyfer nod 2, gan awgrymu eu bod wedi cael eu diwygio i gysoni â gwaith sefydliadau chwaraeon. Mae'n bwysig nodi mai dim ond disgrifiad cyffredinol o weithgarwch tuag at nodau ArWAP y mae un o dri phrosiect Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ei roi ac felly ni ellid ei gynnwys yn y dadansoddiad manwl.


### 7.3.2 Cyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Roedd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wedi'u hunan-ddiffinio gan y prosiectau pan wnaethant gais am gyllid ac yn adlewyrchu'r hyn yr oeddent yn gobeithio ei gyflawni. O'r 6 phrosiect ym maes 1 (roedd un sefydliad yn rhedeg tri phrosiect ac roedd un yn brosiect ar y cyd rhwng dau sefydliad):



**Fe wnaeth 3 fodloni eu DPA***

*Roedd un o'r prosiectau hyn wedi bodloni eu DPA ar wahân i un neu ddau a ddosbarthwyd fel 'anghymwys' yn ystod y prosiect, e.e. cafodd un o'r DPA ei dendro i sefydliad arall.



**Fe gyflawnodd 3 y mwyafrif o'u DPA***

*Dim ond un neu ddau DPA nad oedd wedi'u bodloni - roedd y rhesymau dros beidio â bodloni'r DPA yn cynnwys cyfyngiadau cyllideb sy'n effeithio ar weithgareddau a gynlluniwyd, tasgau hirdymor e.e. sefydlu a chynnal rhwydwaith cynghori nad oedd wedi'i gyflawni'n llawn eto, neu weithgareddau nad oeddent wedi'u gorffen eto yn achos prosiect a oedd yn dal i fynd rhagddo ar adeg yr adrodd.

### 7.3.3 Cyflawni Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

- Adroddodd tri phrosiect eu bod wedi mynd i'r afael ag o leiaf un o'u hymrwymiadau.
- Disgrifiodd tri phrosiect arall eu bod wedi 'cyfrannu' at o leiaf un o'r ymrwymiadau. Mae dau yn defnyddio'r gair 'cyfrannu' yn eu disgrifiad tra bod un arall yn disgrifio gweithgaredd prosiect fel 'cam bach ond hanfodol ymlaen.' [Dylid nodi nad yw'r defnydd o iaith yn yr ateb hwn, e.e. adrodd yn gadarnhaol bod ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu wedi'u cyflawni yn erbyn adrodd cyfraniadau tuag at yr ymrwymiadau, yn adlewyrchu lefelau cynnydd a wnaed mewn canlyniadau prosiectau ar gyfer y prosiectau hyn. Mewn geiriau eraill, roedd y rhai sy'n adrodd 'cyfraniadau' i'r ymrwymiadau wedi cyflawni cymaint â'r rhai sy'n adrodd bod yr ymrwymiadau wedi cael sylw.]

### 7.3.4 Mannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon

Roedd prif allbynnau prosiectau maes 1 yn canolbwyntio ar weithgareddau i alluogi mynediad at fannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i grwpiau amrywiol a chynyddu cynrychiolaeth hanesion lleiafrifoedd ethnig ar draws y sectorau. Dywedodd cyfranogwyr Llywodraeth Cymru, ar ôl dechrau araf, fod prosiectau maes 1 yn cyflawni eu canlyniadau i raddau helaeth ac yn dechrau ymgorffori'r dysgu.

> "Mae yna lawer o weithgarwch gwych sy'n cael ei gyflawni, a gallwn weld o'r canlyniadau eu bod yn gwneud gwahaniaeth i bobl, maen nhw'n cynyddu cyfranogiad." Llywodraeth Cymru, ID1

Yn ôl arweinwyr prosiectau a ariannwyd, mae cyllid maes 1 wedi galluogi sefydliadau i roi hwb, cyflymu neu ganolbwyntio ymdrechion ar weithio tuag at nodau ArWAP.

> "Rwy'n credu ei fod wedi cyfalafu meysydd gweithgarwch a oedd yn mynd rhagddynt, lle roedd gennym genhadaeth, mewn ffordd na fyddem wedi gallu ei gyflawni heb y prosiect …. Mae'n bendant wedi cynyddu ein hallbwn, ac wedi cynyddu ein gallu i wireddu canlyniadau'r cynllun gweithredu [ArWAP]." Derbynnydd grant maes 1, ID9

Mae disgrifiadau o gyflawniadau gan staff y prosiect, ynghyd â dadansoddiad o adroddiadau EoP yn awgrymu bod camau sylweddol tuag at gynyddu cynrychiolaeth grwpiau ethnig lleiafrifol mewn mannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon wedi'u gwneud ym maes 1.  Mae'r rhain wedi'u rhannu'n bedair thema allweddol:

#### 7.3.4.1 Adlewyrchu amrywiaeth mewn mannau CHS

Roedd rhai prosiectau yn canolbwyntio ar ddatgelu hanesion cudd i fynd i'r afael â thueddiad i hanes Cymru (yn wir hanes y DU) gael ei weld trwy lens 'Gwyn', i dynnu sylw at y ffaith bod cymunedau amrywiol wedi bod yn rhan o hanes Cymru ers amser maith. Er enghraifft, casglodd un prosiect hanesion llafar o Asiaid Uganda a ddaeth i fyw yng ngwersyll Tonfanau yng Nghymru, a gwersylloedd eraill yng Nghymru, ar ôl cael eu diarddel o Uganda ym 1972. At hynny, roedd y cyfweliadau hyn yn dal 'lleisiau prin a glywyd'.

Disgrifiodd rheolwr y prosiect sut roedd yr hanesion llafar a'r ffilmiau yn cael effaith bwerus ar y rhai oedd yn eu gwylio, gan gyffwrdd ag emosiynau pobl, a darparu llwyfan ar yr un pryd ar gyfer 'lleisiau prin a glywyd'.

> "Ac yn y gynulleidfa, roeddech chi'n gallu gweld bod bron pawb eisiau crio oherwydd emosiwn yr hyn oedd yn cael ei ddweud ac a ddangoswyd yn y cefndir mewn animeiddio yn dangos beth oedd yn ei olygu mewn gwirionedd i'r fenyw sâl iawn hon orfod cerdded i fyny'r allt i'r ganolfan feddygol. Fe wnaethon ni gyffwrdd emosiynau pobl mewn ffordd fawr." Derbynnydd grant maes 1, ID11

Roedd prosiect sefydliad arall yn canolbwyntio ar arallgyfeirio adnodd Bywgraffiad Cymreig i gynnwys cyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Mae'r adroddiad EoP yn disgrifio sut, drwy gyfuniad o ymgysylltu â'r gymuned, ymchwil a

rhwydweithio, mae sylfeini wedi'u gosod ar gyfer cynrychiolaeth well o bobl hanesyddol yng Nghymru ac oddi yno. Serch hynny, tynnodd adroddiad EoP y prosiect sylw at y ffaith bod yr adnodd yn parhau i fod yn rhagfarnllyd iawn o blaid dynion Gwyn, Cristnogol yn bennaf a chan fod y bywgraffiad yn cyhoeddi tua 50 o erthyglau newydd bob blwyddyn o fewn y 5,000 o erthyglau presennol, bydd y rhagfarn yn parhau am amser hir.

7.3.4.2 Mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad

Roedd mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad yn bwyslais allweddol rhai o'r prosiectau a oedd yn gysylltiedig â chwaraeon. Roedd digwyddiad Ramadan hanner nos un prosiect yn cael ei fynychu'n dda (tua 100 o gyfranogwyr) ac arweiniodd at barhau a chynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon yn y ganolfan. Er enghraifft, cymryd rhan mewn chwarae sboncen, a ddechreuodd fel 'taro o gwmpas' yn y digwyddiad, a arweiniodd at y lleoliad yn anfon rhywun atynt i esbonio'r rheolau, a arweiniodd at sesiwn flasu chwe wythnos i bobl a fynychodd y digwyddiad Ramadan hanner nos. Yn ogystal, bu cynnydd mewn pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn chwarae badminton yn y ganolfan ers y digwyddiad.

> "Mae'r digwyddiad Ramadan hanner nos wedi cael derbyniad da iawn. Cawsom lawer o bobl ifanc o'n cymuned Fwslimaidd yn chwarae chwaraeon am y tro cyntaf, yn enwedig sboncen a badminton… Rydym wedi gweld cynnydd mewn pobl yn archebu'r ganolfan ar gyfer y cyrtiau badminton ac yn defnyddio'r cyfleusterau tennis bwrdd. Felly, rydyn ni wedi gweld y niferoedd yn llythrennol yn tyfu yn y gofod hwnnw." Derbynnydd grant maes 1, ID13

Roedd ail flwyddyn Ramadan hanner nos yn cynnwys arlwy pwrpasol i fenywod a merched. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys digwyddiadau sglefrfyrddio a BMX arbennig a oedd yn ymgysylltu ag ystod o bobl o leiafrifoedd ethnig.

> "Roedd pobl o bob ethnigrwydd yno. Fe wnaethon ni eu cael nhw ar sglefrfyrddau am y tro cyntaf ac fe wnaethon ni lawer o gyfleoedd o gwmpas math o hyfforddi a'u datblygu a gwneud ychydig o waith lles hefyd. Felly roedd yn dda iawn ac yn wirioneddol effeithiol." Derbynnydd grant maes 1, ID13

#### 7.3.4.3 Codi ymwybyddiaeth ac addysg

Roedd rhai prosiectau yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac addysg trwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd ehangach mewn trafodaethau i archwilio materion cydraddoldeb, ymfudo, gwytnwch, hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth. Roedd un prosiect yn cynnwys seminarau misol i ddarparu llwyfan ar gyfer dadl ehangach ynghylch cydraddoldeb, ymfudo, gwytnwch, hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth. Mynychodd dros chwe chant o bobl y seminarau hyn ac mae recordiadau ar gael ar sianel YouTube y prosiectau ac maent wedi cael eu gweld gan gynulleidfaoedd ehangach.

Gweithiodd prosiectau eraill ar ddatblygu adnoddau addysgol. Cynhyrchodd tîm y Bywgraffiadur Cymreig lyfr lliwio dwyieithog hefyd yn cynnwys deg o bobl, a chymerwyd chwech ohonynt o'r rhestr o enwau a ddarganfuwyd yn ystod y prosiect, ynghyd â bywgraffiadau byrion sy'n addas i blant. Mae'r llyfr lliwio wedi dechrau helpu i gynyddu gwelededd straeon sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, yn ogystal â grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli, yn enwedig i gynulleidfaoedd iau a rhai nad ydynt yn defnyddio'r Bywgraffiadur Cymreig. Er enghraifft, mae'r llyfr lliwio wedi cael ei weld bron i 400 o weithiau ar wefan Casgliad y Werin Cymru.

#### 7.3.4.4 Meithrin gallu

Gweithiodd prosiect chwaraeon gyda sefydliadau cymunedol i fagu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cyllido oedd ar gael. Roedd rhai sefydliadau eisoes wedi elwa o gyllid llwyddiannus cychwynnol ar adeg yr adroddiad. Mae'r agwedd hon ar y prosiect wedi adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda sefydliadau cymunedol hefyd. At hynny, mae'r adroddiad yn nodi y bydd y cyllid a ddyfarnwyd yn cefnogi cymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i gymryd rhan mewn chwaraeon yn y pen draw.

### 7.3.5 Newid sefydliadol

Tynnodd un o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd a oedd yn myfyrio ar gyflawniadau maes 1 sylw at y posibilrwydd o 'losgi hirach' o ran ymgorffori newid

mewn sefydliadau a chyflawni effaith sefydliadol, e.e. sicrhau bod eu gweithluoedd a'u strwythurau llywodraethu yn gwbl gynrychioliadol.

> "Rwy'n credu bod llosgi hirach ar rywfaint o hyn yn ymwneud â sefydliadau sy'n sicrhau bod eu gweithluoedd a'u strwythurau llywodraethu yn gwbl gynrychioliadol. Mae'n cynnwys llosgi hirach o ran cyflogaeth, gan ddod â phobl newydd i mewn o ran aelodau'r bwrdd ac ymddiriedolwyr, i ddod â rhai newydd i mewn i fwy ethnig amrywiol, ac nid yw hyn mewn gwirionedd yn ymwneud â'r cyllid grant, mae hynny'n ymwneud â'n nodau a'n camau gweithredu eraill yn yr ArWAP." Llywodraeth Cymru, ID1

Ategwyd hyn gan ddisgrifiadau'r rhai a gyfwelwyd o effaith sefydliadol, sy'n awgrymu bod unrhyw newid sefydliadol yn ei gamau cynnar, e.e. pan ofynnwyd iddynt am effaith sefydliadol, roedd ymatebion cyfranogwyr yn gyffredinol yn canolbwyntio ar fwy o ymwybyddiaeth, sylw a myfyrio'n fewnol ar waith parhaus ym maes gwrth-hiliaeth, gyda data o adroddiadau EoP yn mynegi'r bwriad i barhau i 'bwyso' am arallgyfeirio'r Bwrdd Cynghori, ac ymrwymiad i flaenoriaethu cymunedau heb eu cynrychioli hyd yma mewn cynlluniau strategol ar gyfer 2025-2030 yn y dyfodol.

#### 7.3.5.1 Effaith ar flaenoriaethau sefydliadol

Roedd gan un sefydliad flaenoriaeth cynllun busnes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sefydledig eisoes yr oedd yr ArWAP yn cyd-fynd ag ef cyn cyhoeddi ArWAP, a phenodwyd arweinydd y prosiect fel swydd barhaol. Roedd y prosiect hwn hefyd yn cynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth i staff ac aelodau'r bwrdd, a fydd yn cael ei gynnal trwy fodel hyfforddi'r hyfforddwr, ac adolygiad o broses recriwtio'r sefydliad trwy lens cynhwysiant, ar gyfer eu sefydliad a'r sector.

Adroddodd pob un o'r rhai a gyfwelwyd fod eu prosiectau wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio yn eu sefydliadau gyda'r bwriad, os yn bosibl, o gymhwyso'r rhain o hyn ymlaen, e.e. darparu model ar gyfer gweithio gyda chymunedau a chyd-greu, comisiynu artistiaid, a phrosiectau yn y dyfodol.

Yn ogystal, nododd adroddiadau EoP rai newidiadau mewn systemau strwythurol oherwydd prosiectau a ariannwyd, gan gynnwys:

- Bydd newidiadau i Ganllawiau Golygyddol sefydliad yn sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect yn cael ei ymgorffori.
- Mae drafftiau cynnar o Gynllun Strategol newydd sefydliad ar gyfer 2025-2030 yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo amrywiaeth yn ôl yr adroddiad, cefnogi Cymru wrth-hiliol, a blaenoriaethu cymunedau a lleisiau sydd hyd yn hyn wedi'u tangynrychioli mewn casgliadau a gweithgareddau. At hynny, bydd Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chydraddoldeb y sefydliad yn goruchwylio cynnydd yn y maes hwn.

#### 7.3.5.2 Effaith ar amrywiaeth y gweithlu

Nododd adroddiadau EoP rai newidiadau sydd â'r potensial i effeithio ar amrywiaeth y gweithlu yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Mae adolygiad annibynnol o recriwtio wedi tynnu sylw at feysydd ar gyfer cynnydd pellach yn ogystal â'r cynnydd a wnaed. At hynny, bydd arferion recriwtio yn cael eu monitro yn y dyfodol gan bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y sefydliad.
- Mae hyfforddiant gwrth-hiliaeth a ddatblygwyd trwy'r prosiect wedi cynyddu ymwybyddiaeth a hyder wrth fynd i'r afael â hiliaeth. Mae adborth staff yn awgrymu bod hyfforddiant wedi cael ei dderbyn yn dda, gyda staff yn teimlo'n fwy parod i gydnabod a herio rhagfarn hiliol. At hynny, bydd yr hyfforddiant yn parhau, gan ddefnyddio model hyfforddi'r hyfforddwr, a fydd yn galluogi cydweithwyr mewnol i ddarparu hyfforddiant i staff newydd a phresennol.

#### 7.3.5.3 Effaith ar y berthynas â chymunedau

Roedd pob sefydliad yn teimlo eu bod wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr â chymunedau, er bod un cyfranogwr yn tynnu sylw at bwysigrwydd a her cynnal y perthnasoedd hyn heb gyllid pellach.

> "Rwy'n credu yn sicr y gallwn ddweud yn bendant ein bod wedi cryfhau a chreu perthnasoedd newydd gyda chymunedau ac unigolion o'r Mwyafrif Byd-eang. Rwy'n credu mai'r her pan ddaw'r cyllid i ben yw sut rydych chi'n cynnal y perthnasoedd hynny. Felly, yn bendant mae newid sylweddol wedi bod yn nifer

> y cymunedau rydyn ni wedi ymgysylltu â nhw, y mathau o gymunedau rydyn ni wedi ymgysylltu â nhw.... Yn enwedig o fewn y gymuned artistig, bu cynnydd yn amrywiaeth ein cysylltiadau â'r cymunedau hynny." Derbynnydd grant maes 1, ID9

Roedd dau sefydliad yn teimlo eu bod bellach yn cael eu gweld mewn goleuni newydd gan gymunedau ethnig lleiafrifol a allai fod wedi meddwl yn flaenorol nad oedd y sefydliadau hyn wedi gwneud fawr ddim iddynt, wedi'u galluogi gan ymdrechion y sefydliadau hyn i ymgysylltu â chymunedau. Mae un yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal 'ailadeiladu pontydd'.

> "Dwi'n meddwl bod [enw'r corff hyd braich] yn hanesyddol wedi rhoi rhai grwpiau cymunedol dan anfantais ledled Cymru, yn enwedig o gefndiroedd nad ydynt, wyddoch chi, yn draddodiadol Cymreig a Gwyn....Rwy'n credu y tu allan i'r grwpiau cymunedol hynny, mae pobl wedi teimlo ychydig fel eu bod cael cam gan [enw'r corff hyd braich]. Ac rwy'n credu bod y mathau hynny o brosiectau yn cael eu dechrau i ailadeiladu rhai pontydd a bod yn dipyn o estyn llaw iddynt... Felly rwy'n credu mai'r perygl a'r her yno yw nad ydyn nhw'n teimlo bod hyn fel tocyn untro, mae angen iddyn nhw deimlo fel bod effaith sylweddol a chynaliadwyedd yn rhai o'r prosiectau hyn." Derbynnydd grant maes 1, ID13

Adroddodd sefydliad arall, oherwydd y prosiect hwn, fod sefydliadau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol eraill wedi cysylltu â nhw i adrodd eu straeon oherwydd eu bod yn gweithio gyda chymunedau am y tro cyntaf.

> "Perthynas llawer agosach â chymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol yng Nghymru. Maen nhw'n gwybod pwy ydyn ni nawr ac rydyn ni'n gwybod pwy ydyn nhw ac maen nhw'n ein caru ni fel sefydliad, maen nhw'n meddwl ein bod ni'n wych ac rydyn ni'n gwybod ble i fynd nawr." Derbynnydd grant maes 1, ID10

At hynny, roedd y sefydliad hwn yn dod yn adnabyddus am eu harbenigedd mewn cysylltu â chymunedau. Yn ddiweddar, cysylltwyd â nhw gan sefydliad mawr arall yn y DU a oedd eisiau ymgysylltu mwy â chymunedau ethnig lleiafrifol ac yn cydnabod y gallai'r sefydliad hwn eu cyflwyno i bobl yr oeddent eisiau siarad â nhw.

Tynnodd dadansoddiad o adroddiadau EoP sylw at effaith hirdymor bosibl y cysylltiadau hyn. Er enghraifft, mae prosiect maes 1 wedi meithrin perthynas â grwpiau cymunedol a fydd yn parhau y tu hwnt i'r prosiect, drwy gefnogi Kiran Cymru gyda'u prosiect Treftadaeth Affganaidd (cam nesaf arfaethedig Kiran Cymru o'u prosiect maes 2) a thrafod cydweithrediadau posibl yn y dyfodol.

7.3.5.4 Effaith ar unigolion, cymunedau a chymdeithas ehangach

Mae adran 7.7 yn cyflwyno adborth gan bobl a gymerodd ran yn rhai o'r prosiectau a ariannwyd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir isod wedi'i chasglu o gyfweliadau ac adroddiadau EoP ac felly mae'n seiliedig ar safbwyntiau prosiectau a ariannwyd. Efallai na fydd yr effeithiau hyn yn adlewyrchu safbwynt y rhai a gymerodd ran.

Datblygu sgiliau - Yn ôl prosiectau a ariannwyd, datblygodd gweithwyr proffesiynol creadigol brofiad o weithio yn y sector celfyddydau ac amgueddfeydd, gan gryfhau eu hymarfer trwy rwydweithio a mentora ac ennill amlygiad ar gyfer eu gwaith.

Credwyd bod aelodau'r gymuned yn elwa o gael eu cynnwys mewn gweithdai ysgrifennu, gyda chefnogaeth hwyluswyr Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol lleol, ar sut i ymchwilio ac ysgrifennu bywgraffiadau hanesyddol. Yn ddiweddarach, cyfrannodd nifer o'r cyfranogwyr hyn eu herthyglau eu hunain i'r Bywgraffiadur Cymreig. Roedd y ddau weithdy yn cynnwys cyfranogwyr o gefndiroedd amrywiol.

Llais a dilysu - Yn ôl prosiectau a ariannwyd, i lawer o gyfranwyr a gymerodd ran yn yr archif hanes llafar, roedd hwn yn gyfle cyntaf i adrodd eu straeon yn y ffordd yr oeddent ei eisiau ac mewn iaith o'u dewis. At hynny, roedd y broses o adrodd straeon a chael straeon personol wedi'u recordio yn galluogi llawer o bobl i symud ymlaen o safbwynt y diarddel a'r mudo. Awgrymodd adroddiadau EoP fod yr holl gyfranwyr wedi mynegi balchder mewn bod yn rhan o'r prosiect ac am weld eu straeon yn cael eu harddangos yn yr arddangosfa genedlaethol ac yng nghyhoeddiad y prosiect.

7.3.6 Cynaliadwyedd ac etifeddiaeth

Nododd un cyfranogwr o Lywodraeth Cymru y mater posibl o gynaliadwyedd gweithgaredd prosiect maes 1; y bydd angen i sefydliadau ddod o hyd i ffyrdd o barhau â gweithgareddau heb dderbyn unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn aros i weld a fydd hyn yn cael ei gyflawni.

> “Mae angen iddyn nhw [cyrff hyd braich] fod yn prif ffrydio’r weithgaredd hwnnw nawr yn y blynyddoedd i ddod fel y gallan nhw ddarparu mwy a mwy ohono o fewn eu grant, heb i ni roi arian ychwanegol iddynt. Maen nhw’n bwriadu gwneud hynny, ac maen nhw’n dweud wrthym eu bod nhw’n mynd i’w wneud. Ond bydd rhaid aros i weld a fydd hynny’n digwydd.” Llywodraeth Cymru, ID1

Fodd bynnag, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd yn eu naratifau na fyddai eu sefydliadau yn gallu parhau â gweithgarwch prosiect tebyg ar yr un raddfa heb y cyllid ychwanegol. Esboniodd un o’r rhai a gyfwelwyd fod eu cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen waith lem y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru ac nad oedd yn cynnwys cwmpas i weithio ar eu prosiect ArWAP ar ôl i’r cyllid ddod i ben. Dim ond trwy gyllid ychwanegol y gallent wneud hyn.

Mewn perthynas â’r swyddi a grëwyd fel rhan o brosiectau a ariannwyd, dim ond un arweinydd prosiect a gadwyd ond fe’i penodwyd yn barhaol ar ddechrau’r prosiect a bydd yn parhau â’i rôl cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Parhaodd sefydliad arall i gyflogi un o’r ddau reolwr prosiect a ariannwyd gan y prosiect ond nid yn eu rôl prosiect; symudon nhw i ran arall o’r sefydliad. Roedd sefydliad arall yn y broses o drafod a ellid ymestyn rolau ymarferwyr creadigol ar adeg y cyfweliad. Ni allai sefydliad arall gadw eu rheolwr prosiect a’u gweithwyr prosiect ac esboniodd fod hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi eu cyfarwyddo i beidio â recriwtio unrhyw staff newydd ar y pryd oherwydd uno posibl â sefydliad arall.

Ar adeg y cyfweliad, adroddodd rhai sefydliadau eu bod yn y broses o wneud cais am gyllid ychwanegol i barhau â’r prosiect neu eu bod yn trafod sut y gallent barhau â’r prosiect.

At hynny, tynnodd un cyfranogwr sylw at bwysigrwydd sefydliadau yn parhau â gwaith y prosiect, fel arall gallai gweithgareddau prosiect gael eu hystyried yn ‘symbolaidd’ gan gymunedau y maent wedi gweithio mor galed gyda nhw i ennill ymddiriedaeth.

Wedi dweud hynny, mae rhai canlyniadau cynaliadwy wedi’u cyflawni, er enghraifft:
(Gweler Atodiad 3 am fanylion cynlluniau ar gyfer y dyfodol a nodwyd yn adroddiadau EoP)

- Bydd adnoddau hanesyddol amrywiol yn parhau i fod ar gael a gobeithio y byddant yn cael eu datblygu dros amser.
- Mae gwahanol ffyrdd o weithio wedi'u profi a byddant yn cael eu defnyddio eto, e.e. modelau ar gyfer comisiynu artistiaid Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, gweithio gyda chymunedau neu arallgyfeirio casgliadau. At hynny, mae perthnasoedd a allai fod yn barhaol wedi'u hadeiladu gyda chymunedau.

  "Rydym wedi profi model o weithio gyda chymunedau yng Nghymru. Rydym yn gwybod nawr beth sy'n gweithio; rydym yn gwybod sut i'w wneud a byddem wrth ein boddau yn gwneud mwy. Felly, un etifeddiaeth yw datblygu methodoleg. Ail etifeddiaeth yw adeiladu perthnasoedd parhaol, yr hyn rwy'n gobeithio fydd yn berthnasoedd parhaol gyda chymunedau Asiaidd, sy'n gwybod amdanom ni nawr ac rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw." Derbynnydd grant maes 1, ID10

- Mae digwyddiadau llwyddiannus wedi arwain at ganllaw i gynnal digwyddiadau chwaraeon cynhwysol, a fydd yn cael ei rannu gyda'r sector.
- Mae adolygiad recriwtio prosiect wedi arwain at ganllaw arfer da i recriwtio a fydd yn cael ei rannu gyda'r sector.
- Bydd hyfforddiant gwrth-hiliol mewnol yn parhau gan ddefnyddio model hyfforddi'r hyfforddwr, a bydd hyfforddiant ar-lein ar alw ar gyfer y sector yn parhau.

## 7.4 Canlyniadau Maes 2 - Canfyddiadau allweddol




- Cafodd prosiectau maes 2 drafferth i ddangos dealltwriaeth dda o nodau a chamau gweithredu ArWAP, gan awgrymu bod llawer wedi cael trafferth cysylltu gweithgaredd eu prosiect â nhw. Er gwaethaf hyn, roeddem yn gallu nodi tystiolaeth eu bod wedi gwneud cyfraniadau at bob un o'r pum nod (gyda thystiolaeth gryfach mewn rhai meysydd nag eraill).
- Roedd 12 allan o 16 sefydliad maes 2 wedi cyflawni eu DPA (hunan-ddiffiniol), gyda'r lleill yn cwrdd â'r rhan fwyaf ohonynt.
- Adroddodd wyth sefydliad eu bod wedi cyflawni eu hymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu, ac adroddodd chwech arall eu bod wedi gwneud cynnydd ond bod gwaith i'w wneud o hyd.
- Roedd y cynnydd tuag at fannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon ym maes 2 yn gymysg. Er bod rhai gweithgareddau wedi dechrau creu cyfleoedd ym mywyd y prosiect, roedd gan eraill y potensial i gynyddu cyfranogiad yn y dyfodol. Roedd gweithgareddau yn ymwneud i raddau helaeth â; adlewyrchu amrywiaeth; codi ymwybyddiaeth ac addysg; mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad; a meithrin gallu.
- Roedd y cynnydd tuag at newid sefydliadol yn amrywio. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo eu bod eisoes yn gweithio mewn ffordd wrth-hiliol cyn y cyllid, ond roeddent yn dal i deimlo eu bod wedi gwneud cynnydd yn ystod y prosiect. Roedd rhai prosiectau yn disgrifio newidiadau i'w blaenoriaethau sefydliadol, roedd eraill yn gwneud cynnydd i gynyddu amrywiaeth ar lefel y bwrdd, roedd rhai yn disgrifio newidiadau parhaol i ffyrdd o weithio, roedd nifer o brosiectau yn teimlo eu bod wedi datblygu perthnasoedd gwell â chymunedau ac eraill wedi elwa o fwy o gapasiti (o ganlyniad i'r cyllid). Fodd bynnag, fel gyda maes 1, cyfyngedig oedd y dystiolaeth o gynnydd ar amrywiaeth y gweithlu.
- Disgrifiwyd effeithiau ar unigolion a chymunedau gan gynnwys datblygu sgiliau, cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon o gymunedau amrywiol, cynyddu

cyfranogiad yn y Celfyddydau, datblygu adnoddau addysgol a hwyluso cysylltiadau rhwng cymunedau.

Mae cyllid wedi cefnogi sefydliadau i ddatblygu eu gallu. Er enghraifft, esboniodd un prosiect sut roedd cyllid wedi helpu i roi hwb i brosiect penodol yr oeddent wedi'i gynllunio ers peth amser ond nad oeddent wedi llwyddo i'w gyflawni, h.y. sefydlu grŵp i gynllunio rhaglen digwyddiadau ar y cyd, wedi'i ffurfio o aelodau o sawl grŵp cymunedol sydd fel arfer yn cynnal gweithgareddau ar wahân yn y ganolfan.

Hyfforddodd prosiect arall ddau Hwylusydd Côr gwirfoddol mewn Rheoli'r Celfyddydau, a oedd hefyd yn golygu y gallai'r côr gael ei arwain gan bobl â phrofiad bywyd, pan oeddent wedi cael eu harwain gan aelodau Gwyn o'r blaen.

> “Ein blaenoriaeth fel sefydliad fel rydyn ni wedi datblygu yw bod pobl â phrofiad bywyd fel [enwau’r ddau hwylusydd] yn arwain y sesiynau ac yn hwyluso’r sesiynau. Wyddoch chi, pan wnaethon ni sefydlu gyntaf, roedd yn tueddu i fod, roedd yn cael ei arwain i raddau helaeth gan bobl Wyn, dosbarth canol. Wyddoch chi, ie. Ac felly mae’n fwy am gydnabod cryfderau a datblygu cryfderau’r bobl y mae’r prosiect wedi’i sefydlu i fod o fudd iddyn nhw.” Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID43

At hynny, mae cyllid Cyfalaf Rownd 2 wedi helpu sefydliadau i gynnal a datblygu eu gweithgareddau ymhellach. Er enghraifft, mae prosiectau sydd wedi prynu eitemau fel camerâu fideo ac offer cyfryngau wedi gallu eu defnyddio i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi ysgogi a galluogi sefydliadau i chwilio am brosiectau yn y dyfodol, e.e. lle bydd offer a brynwyd yn ddefnyddiol.

> “Gyda’r offer recordio, oherwydd mae yna, rydyn ni’n meddwl am brosiectau eraill... Felly rydyn ni’n edrych ar brosiectau yn y dyfodol lle byddem yn defnyddio’r offer hwn i recordio ac mae eu cael nhw wrth law yn ddefnyddiol iawn.” Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Canolig, Rownd 2 Cyfalaf, ID39

Mae hefyd yn bwysig nodi yma fod pob un o’r sefydliadau a ariannwyd ym maes 3 a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein wedi dweud eu bod yn debygol o wneud cais am gyllid yn y dyfodol gan Diverse Cymru a Llywodraeth Cymru.

### 7.6.2 Effaith ar unigolion

Yn ôl cyfrifon rheolwyr prosiect, gwnaeth maes 3 effeithio ar unigolion a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:

#### 7.6.2.1 Datblygu sgiliau

Roedd prosiectau a ariannwyd yn darparu mynediad at ystod eang o weithgareddau datblygu sgiliau, gan gynnwys:

- Pobl ifanc yn dysgu sgiliau animeiddio ac yn meithrin dealltwriaeth o ragolygon gyrfa posibl yn y diwydiant ffilm a theledu.

- Disgyblion ysgol gynradd Blwyddyn 6 yn dysgu sgiliau cyfryngau trwy weithgareddau ymarferol gwneud ffilmiau, ynghyd â datblygu ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod mewn teledu, ffilm a chymdeithas. Cafodd y disgyblion hefyd fewnwelediad i rolau amrywiol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ffilm a theledu gyda'r nod o ennyn diddordeb mewn gyrfaoedd yn y dyfodol.
- Sgiliau plethu gwallt i famau o gefndiroedd 'Gwyn' neu dreftadaeth ddeuol yr oedd angen help arnynt i reoli gwallt Affro eu plentyn, gan nad ydynt erioed wedi dysgu'r sgiliau hyn gan eu rhieni.
- Uwchsgilio dau hwylusydd côr mewn Rheoli'r Celfyddydau, e.e. cynllunio, trefnu a gweithredu digwyddiadau cymunedol a gŵyl, sydd wedi cynyddu capasiti'r sefydliad yn y dyfodol.
- Sgiliau gwneud gwisgoedd ar gyfer grŵp sy'n dysgu am ddillad o'u treftadaeth Nigeriaidd.

7.6.2.2 Datblygu talent

Mewn prosiectau eraill, rhoddwyd cyfleoedd i bobl ddatblygu eu doniau. Er enghraifft, meithrin artistiaid cerddorol Du trwy ganu gyda band, gan arwain at berfformiadau mewn gwyliau. Nod un prosiect oedd datblygu artistiaid sydd wedi'u tangynrychioli a'u helpu i gael mynediad i'r diwydiant cerddoriaeth trwy greu a chyflwyno portffolio o artistiaid cerddoriaeth o ansawdd uchel a rhyddhau recordiadau o safon.

Y brif effaith i'r artistiaid oedd deunydd cerddoriaeth newydd o safon ac, i rai, y tro cyntaf iddyn nhw ryddhau traciau. Hefyd, y cyfle i berfformio gyda band am y tro cyntaf a'r diddordeb maen nhw wedi'i gael ers hynny. Heb y gefnogaeth hon, efallai na fyddai'r artistiaid hyn wedi symud ymlaen y tu allan i lwyfannau perfformio lleol. Er ei bod yn rhy gynnar i ddweud a yw effaith y prosiect yn dod â mwy o fanteision, nod y prosiect yw parhau i ddatblygu artistiaid a chydweithio â nhw i greu llwybrau newydd ar gyfer eu gwaith.

> "Byddwn i'n dweud mai'r prif sbardun oedd cael artistiaid Du gyda band ac yna eu rhoi ar lwyfannau da iawn. Roedd hynny'n anhygoel. ….. Ac roedden nhw wrth eu bodd. Mae'r artistiaid fel, "Waw, rydyn ni, wyddoch chi, rydyn ni wedi ei gwneud hi". Felly ie, mae'n rhaid taw hynny yw prif bwrpas y prosiect, cael yr

> amser i feithrin hynny, i ymarfer a chodi'r safon ac yna eu cyflwyno ar lwyfannau mawr. Wyddoch chi, profiad gwerthfawr, ie." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID36

Comisiynodd prosiect arall ddarn dawns newydd a grëwyd gan artistiaid gyda grwpiau cymunedol. Creodd buddiolwyr y prosiect ddarnau unigol a darnau grŵp hefyd. Perfformiwyd y gwaith a gomisiynwyd mewn gŵyl ddawns awyr agored.

7.6.2.3 Darparu cyfleoedd i gysylltu â chymunedau lleol i bobl sydd newydd gyrraedd Cymru.

Nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod ymgysylltiad cadarnhaol â'r cyfleoedd i feithrin cysylltiad a grëwyd gan eu prosiectau, ynghyd ag ymatebion cadarnhau iddynt.

- Mae cyfarfodydd misol yng nghlwb cymdeithasol Ewlo i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu wedi dod yn boblogaidd iawn ymhlith grwpiau lleiafrifol gan gynnwys ceiswyr lloches.
- Adroddodd prosiect amrywiaeth sy'n dathlu cynhwysiant diwylliannol trwy weithgareddau amrywiol, gan gynnwys podlediad i bobl ifanc, mai dyma'r tro cyntaf i lawer o fynychwyr Sioe Dalent a Ffasiwn Abertawe, yn enwedig y rhai o gefndiroedd ceiswyr lloches a ffoaduriaid, deimlo eu bod yn cael eu dathlu, eu cynrychioli a'u cofleidio fel rhan o gymuned ehangach. Gadawodd awyrgylch bywiog a chynhwysol y sioe gyfranogwyr gydag ymdeimlad dwfn o falchder a pherthyn.
- Mae côr yn croesawu pobl sy'n chwilio am noddfa (mae ei aelodaeth yn canolbwyntio ar bobl sy'n chwilio am noddfa) a'i nod yw cysylltu â'r gymuned ehangach trwy gyfrwng cân, symudiad a sgwrs.
- Mae grŵp dawns sy'n cynnwys trigolion lleol o Gymru a phobl a ddaeth i fyw yng Nghymru bob amser wedi croesawu pobl sydd newydd gyrraedd Cymru, gan gynnwys ceiswyr lloches neu ffoaduriaid, a sefydlwyd côr i gefnogi pobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru.

  > "Wel, mae wedi dod â'r gymuned at ei gilydd, sy'n rhywbeth. Felly, mae 20 o bobl yn dod at ei gilydd, tua 20 o bobl yn dod at ei gilydd bob wythnos.....mae

gennym ni grŵp hyfryd sy'n gefnogol iawn o'i gilydd mewn cymaint o ffyrdd, sy'n hyfryd." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Canolig, ID32

"Ac mae'n ffordd o gysylltu ac adeiladu cymuned gyda'n gilydd trwy ganeuon, ysgrifennu caneuon, dawns ac mae'n cael ei hwyluso gan bobl sydd â phrofiad bywyd a hefyd sydd heb brofiad bywyd o geisio lloches." Derbynnydd grant maes 3 Rownd 1 Mawr, ID43

7.6.2.4 Cymorth gyda lles corfforol a meddyliol, ynghyd â mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o undod.

Roedd mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol yn nodwedd bwysig o lawer o'r prosiectau ym maes 3. Tynnodd adroddiadau diwedd prosiect sylw at ystod o weithgareddau i helpu i ddod â phobl at ei gilydd, gan gynnwys:

- Prosiect ar gyfer pobl Affro-Caribïaidd 60+ oed gan gynnwys gweithgareddau domino, adloniant a bwyd Caribïaidd i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol.
- Prosiect dawns draddodiadol wedi'i anelu at oedolion hŷn i hyrwyddo ysgogiad corfforol a meddyliol, mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a rhoi hwb i hyder trwy archwilio gwahanol ffurfiau dawns traddodiadol.
- Dosbarthiadau i bobl Cwrdaidd a effeithiodd ar les meddyliol plant a rhieni, yn enwedig teuluoedd sy'n ceisio lloches.
- Prosiect sy'n canolbwyntio ar 'Te, Cyfeillgarwch a Lles' trwy greu gofod diogel lle roedd menywod yn teimlo'n gyfforddus i siarad am bynciau mor amrywiol â chyfeillgarwch, bwyd, iechyd, perthnasoedd a chael plant.
- Ymweliad gan Henuriaid Windrush Cymru ag Amgueddfa Lofaol Cymru Big Pit a gryfhaodd yr ymdeimlad o gymuned ac a wasanaethodd fel gwrthgyferbyniad i ynysu o fewn y grŵp, gan greu amgylchedd cefnogol ar gyfer sgwrsio, chwerthin a chyfeillgarwch.

At hynny, mae adroddiadau EoP yn awgrymu bod y bobl a fu'n ymwneud â phrosiectau a ariannwyd yn teimlo'r budd:

- Drymio Affricanaidd: Mynegodd cyfranogwyr ymdeimlad cryf o berthyn, cyflawniad a chyfoethogi diwylliannol dro ar ôl tro.

- Roedd pobl ifanc Romani sy'n gweithio ar weithgareddau mewn cerddoriaeth, dawns a'r celfyddydau yn ymgysylltu â mannau proffesiynol fel Theatr Glan yr Afon ac yn gweithio gyda staff recordio a chynhyrchu. Rhoddodd hyn 'hyder newydd' iddynt, gan sylweddoli bod croeso iddynt yn y mannau hyn.
- Roedd gweithdai cerddoriaeth Soel Connect yn gwella lles meddyliol ac emosiynol y cyfranogwyr ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned ac undod. At hynny, roedd yr ymarferion canu a'r cynhesu lleisiol yn dod â llawenydd a chyffro.

7.6.2.5 Meithrin ymdeimlad o falchder yn eu hunaniaeth ddiwylliannol:

Cyflawnwyd hyn mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, trwy ddysgu gweithgareddau o'u diwylliannau eu hunain fel plethu gwallt; gweithdai cerddoriaeth, dawns a chelfyddydau, a dathlu eu diwylliant mewn man cyhoeddus, e.e. mewn perfformiadau a gwyliau.

> "Rwy'n credu mai'r wers etifeddiaeth yw'r addysg rydyn ni wedi'i meithrin hyd yn oed ym meddyliau'r rhai bach, wyddoch chi, y rhai iau efallai, rydych chi'n gwybod bod y rhan fwyaf ohonyn nhw efallai wedi cael eu geni yn y wlad hon a dydyn nhw erioed wedi profi na deall eu treftadaeth na phwysigrwydd eu gwallt fel person, yn enwedig os ydych chi'n fenyw, chi'n gwybod. Felly, rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y bydden nhw'n ei gofio ac yn teimlo cysylltiad â'u gwreiddiau a pha mor bwysig ydyw iddyn nhw." Derbynnydd grant bach maes 3, Rownd 2, ID34

### 7.6.3 Effeithiau ar gymunedau

At hynny, yn ôl rheolwyr prosiect, mae gweithgareddau prosiect wedi galluogi mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o grwpiau cymunedol amrywiol (o fewn gweithgareddau cymunedol ac, o bosibl, gyda chymdeithas ehangach) trwy rannu diwylliannol, rhyng-gysylltu a rhannu hanesion a phrofiadau yn y ffyrdd canlynol:

7.6.3.1 Trwy berfformiadau

O ffurfiau celf (megis dawns, canu a bandiau) o ystod eang o wahanol ddiwylliannau, gan gynnwys:

- Daeth 8,000 o ymwelwyr i Ŵyl Reggae a Riddim, sy'n dathlu diwylliant, cerddoriaeth a dawns y Caribî, gyda phwyslais ar addysg, creadigrwydd, ac ymgysylltu â'r gymuned. Cafodd y digwyddiad hwn, a gynhelir bob dwy flynedd, ei gefnogi a'i gyfoethogi gan gyllid grant.
- Mae perfformiadau byw côr ar gyfer pobl sy'n ceisio noddfa wedi rhoi llais i'r gymuned ac mae'n hyrwyddo mwy o empathi a dealltwriaeth o'r problemau maen nhw'n eu hwynebu. Mae cyllid wedi galluogi'r côr i ehangu eu cyrhaeddiad perfformio.
- Artistiaid cerddorol ifanc, Du prosiect yn perfformio yng Ngŵyl Immersed lle gwerthwyd 1,000 o docynnau.

Mae arweinwyr prosiect yn disgrifio'r digwyddiadau hyn fel rhai sy'n cael eu derbyn yn dda gan gynulleidfaoedd cyhoeddus (ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu eu bod wedi cael eu mynychu'n dda) ac wedi arwain at geisiadau i'r grwpiau berfformio'n ymhellach i ffwrdd i bobl eraill.

> "Roedd yn llwyddiant gweld pobl, pobl y Gymuned, yn hapus. Wyddoch chi, rwy'n cofio menyw a ddywedodd, "Fyddwch chi'n cael hyn bob tro fel bob mis?" Felly, fe wnaeth hi fwynhau ei hun yn fawr. Roedd yn llwyddiant i ni ein bod ni'n gwneud pobl yn hapus a bod pobl yn mwynhau eu hunain". Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID43

Disgrifiodd un o gyfranogwyr Diverse Cymru ymateb (ac amrywiaeth) cynulleidfa mewn digwyddiad arddangos.

> "Felly, roedden nhw'n gallu rhoi'r arddangosfa enfawr hon ymlaen lle cawson ni noson o wahanol, wyddoch chi, gwahanol berfformiadau, felly cerddi, roedd gennych chi ddawnsfeydd, roedd gennych chi bob math o bethau. Ond pan edrychais i o gwmpas yn y gynulleidfa, roedd y gynulleidfa yn amrywiol, felly nid oedd gennych chi bobl o leiafrifoedd ethnig neu'r Mwyafrif Byd-eang yn unig. Roedd pobl o bob cefndir ac oedran gwahanol, ac roedden nhw wir yn mwynhau'r sioe, yn dangos diddordeb yn y sioe." Diverse Cymru ID8

#### 7.6.3.2 Trwy gyhoeddiadau gan grwpiau cymunedol

Talodd cyllid i un prosiect argraffu a rhannu eu cylchgrawn rheolaidd (a gyhoeddir ar-lein fel arfer). Rhannwyd hwn ac fe'i prynwyd gan y gymuned Pwylaidd, Gymreig a Seisnig yng Nghaerdydd a gwerthwyd y 1000 o gopïau. Mae'r prosiect yn priodoli llwyddiant y cylchgrawn i'r ffaith ei fod wedi cael ei argraffu, e.e. mae yno ar y bwrdd a bydd pobl yn edrych arno.

> "Mae'n rhywbeth y gallwch chi ei ddangos a'i basio iddyn nhw. Gallwch chi anfon y ddolen ond pan fyddwch chi'n anfon y ddolen, "O, iawn, fe wnawn ni glicio, edrych arno yn nes ymlaen. Ond pan mae cylchgrawn ffisegol ar y bwrdd, bydd rhywun bob amser yn edrych arno." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 2 Bach, ID27

Mae enghraifft arall yn cynnwys prosiect a oedd yn dathlu treftadaeth goginio Bangladeshaidd yng Nghymru drwy greu llyfr coginio sy'n arddangos ryseitiau teuluol traddodiadol a drosglwyddwyd i lawr trwy'r cenedlaethau, a lansiwyd yn y gymuned leol ac sydd wedi denu diddordeb yn ehangach drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

#### 7.6.3.3 Trwy ddod â chymunedau at ei gilydd trwy weithgareddau a chyfnewid diwylliannau

Creodd amrywiaeth o brosiectau a ariannwyd gyfleoedd i gymunedau ddod at ei gilydd, gan gynnwys:

- Mae prosiect dawns Iberaidd yn rhannu eu dawnsfeydd gyda'r gymuned leol yn ystod eu perfformiadau, sy'n helpu i oresgyn unrhyw stereoteipiau negyddol am eu grŵp ethnig.
- Mae un prosiect yn creu llwyfan ar gyfer cyfnewid diwylliannol rhwng cymunedau Cymru a chymunedau Somali drwy weithdai diwylliannol, sesiynau adrodd straeon, a digwyddiadau addysgol sy'n tynnu sylw at draddodiadau a hanes y ddwy gymuned.
- Mae côr amlddiwylliannol yn dod ag aelodau o wahanol gymunedau at ei gilydd i annog cyfeillgarwch a rhannu traddodiadau cerddorol. Maent yn canu caneuon o Gymru, Lloegr, y Ffindir, De Affrica, Lesotho a Libanus.

- Disgrifiodd prosiect amrywiaeth sut roedd Sioe Dalent a Ffasiwn Abertawe yn arddangos y tapestri cyfoethog o ddiwylliannau a thalentau sy'n ffurfio cymuned amlddiwylliannol Abertawe.
- Mae côr dan arweiniad pobl Ddu yn cyfuno traddodiadau cerddorol Affricanaidd â cherddoriaeth gorawl Gymreig, gan feithrin ymdeimlad o berthyn yn ei aelodau trwy iaith gyffredinol cerddoriaeth:

  "I rywun fel fi, doedd gen i ddim i'w wneud â'r Gymraeg o gwbl, er fy mod i wedi bod byw yng Nghymru ers amser hir, nes i mi ddechrau canu yn Gymraeg, felly byddwn i'n dweud bod y cyllid wedi helpu i gyflwyno pobl Ethnig Leiafrifol Du i'r Gymraeg ar y lefel sylfaenol ac mae'n rhywbeth yr ydym yn bwriadu parhau i'w wneud fel grŵp heb gyllid oherwydd rydyn ni bellach yn caru canu yn Gymraeg. Ac rydyn ni nawr wrth ein boddau yn cyfuno canu Cymraeg gyda chanu cyfoes, canu gospel a synau Affricanaidd." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, Rownd 2 Cyfalaf, ID38

7.6.3.4 Trwy greu mannau diogel lle gall cymunedau rannu balchder yn eu diwylliant

Roedd hon yn nodwedd bwysig o lawer o brosiectau ac yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- Mae cyfres o seminarau creadigol misol sy'n cynnwys arbenigwr diwydiant Mwslimaidd sy'n rhannu mewnwelediadau a phrofiadau o'u maes wedi darparu platfform lle mae mynychwyr yn cysylltu, yn dysgu ac yn teimlo'n ysbrydoledig, ac yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi.
- Mae prosiect Romani ar gyfer ieuenctid Roma sy'n archwilio Celfyddydau a Cherddoriaeth Roma wedi hwyluso gwaith rhwng cenedlaethau lle mae pobl ifanc wedi dysgu gan henuriaid ac i'r gwrthwyneb.
- I aelodau o'r gymuned Garibïaidd leol, roedd yr 'ŵyl Reggae a Ridim' yn gyfle i weld eu diwylliant yn cael ei ddathlu a'i gydnabod mewn man cyhoeddus.
- Darparodd Podlediad Ieuenctid, a ddyluniwyd ac a arweiniwyd gan bobl ifanc, lwyfan i drafod yr heriau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol unigryw y mae unigolion ifanc yn eu hwynebu wrth ddilyn gyrfaoedd. Ar y cyfan, roedd y

prosiect yn grymuso unigolion i deimlo ‘eu bod yn cael eu gweld, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a’u bod yn rhan o gymuned fwy, gefnogol’ ac yn meithrin ymdeimlad newydd o falchder a pherthyn ymhlith ei fuddiolwyr.

7.6.3.5 Trwy ddatgelu hanesion cudd

Nodwyd bod hyn yn helpu’r gymuned ehangach i weld bod pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn rhan o hanes Cymru ac yn rhoi cyfle i gymunedau archwilio eu treftadaeth. Roedd rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- Prosiect o’r enw ‘Hidden Voices’ a oedd yn cynnwys coladu cyfweliadau byr gyda henuriaid o gymunedau De Asia [Hindŵaidd a Sicaidd] a chasglu straeon personol o raniad India, mudo a thraddodiadau diwylliannol. Roedd y prosiect yn galluogi aelodau hŷn o gymunedau De Asia i deimlo’n falch o’u treftadaeth a, thrwy rannu eu profiadau, cafodd y cyfranogwyr eu grymuso i gofio digwyddiadau yn y gorffennol, yr oedd rhai ohonynt yn anodd iddynt eu rhannu yn flaenorol. Mae’r prosiect hefyd wedi sefydlu gwefan ryngweithiol fel archif ddigidol bwrpasol ar gyfer cyfweliadau a fideos henuriaid.
- Prosiect sy’n cynnal ac yn dathlu Treftadaeth Ddiwylliannol Girmitya (llafurwyr ymrwymedig o India Brydeinig) trwy hanesion llafar a chreu adnoddau digidol mewn amgueddfeydd a phrifysgolion. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys Cynhadledd Ryngwladol Girmit, digwyddiad ‘llwyddiannus iawn’ gyda nifer o siaradwyr rhyngwladol. Roedd dros 100 o gynrychiolwyr yn bresennol.
- Arddangosfeydd cerdded i mewn o waith Mohammed Amin Hussain, ffoto-newyddiadurwr a dynnodd luniau o’r newyn yn Ethiopia a arweiniodd at Live Aid. Fe hefyd oedd yr unig newyddiadurwr a gafodd ganiatâd i fynd i mewn i Uganda pan gafodd Asiaid Dwyrain Affrica eu diarddel. Roedd yr arddangosfa hefyd yn cynnwys cyfres o bortreadau ffotograffau a gomisiynwyd o bobl y daeth eu neiniau a theidiau i fyw yng Nghymru sydd wedi gwneud yn dda. Roedd rhannu’r straeon hyn yn rhoi hwb i falchder cyfranogwyr a mynychwyr o leiafrifoedd ethnig.

  “Yr hyn y mae pobl wedi dweud eu bod yn ei hoffi a’i barchu’n fawr yw’r ffaith eu bod nhw’n gallu gweld eu hunain yn y portread yn arbennig. Ac felly mae’n

ymwneud â phobl o liw a dyna'r adborth rydyn ni wedi'i gael gan bobl sy'n tueddu i stopio [enwau aelodau o dîm y prosiect], ac maen nhw'n tueddu i ddweud yn syth, "Mae'n lun o hwn a hon, a doedden ni ddim yn gwybod hyn a'r llall". Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID49

7.6.3.6 Trwy alluogi dealltwriaeth o brofiadau ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Roedd digwyddiad Llyfrgell Ddynol ar-lein yn cynnwys cyn-geiswyr lloches sy'n gwneud yn dda yn eu gyrfa ddewisol yn rhannu eu bywydau e.e. roedd un cyn-geisiwr lloches bellach yn athro coleg yng Nghaerdydd.

"Mae gen i un peth rwy'n ei gofio o'r Deml Heddwch oherwydd o ganlyniad i'r prosiect hwn, mae pobl, mae yna rai pobl, doedden nhw ddim yn gwybod am y broses lloches a doedden nhw ddim yn gwybod bod yna geiswyr lloches na'r hyn mae'n ei olygu? Ceiswyr lloches? Beth mae'n ei olygu? Bywyd ceisiwr lloches. Felly, dydyn nhw ddim yn gwybod, dydyn nhw ddim yn gwybod unrhyw beth. Ac ar y prosiect hwnnw fe wnaethon nhw gwrdd â cheiswyr lloches. Fe gawson nhw sgyrsiau gyda nhw. Felly roedd hynny o fudd i ni fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches i fod yno a dangos ein bod ni'n bodoli a dyna'r hyn y gallwn ni ei wneud." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID43

7.6.3.7 Trwy ddatgelu cymunedau cudd

Disgrifiwyd rhai o'r prosiectau yn adroddiadau EoP fel rhai sy'n helpu i dynnu sylw at fodolaeth 'cymunedau cudd', er enghraifft:

- Mae'r Gymuned Sipsiwn a Roma wedi byw yng Nghasnewydd ers 15 i 20 o flynyddoedd, heb i neb sylwi, ond mae gweithgarwch prosiect wedi ennill llawer o sylw yn y gymuned ehangach.
- Mae prosiect cylchgrawn wedi cynyddu gwelededd a chydnabyddiaeth o'r gymuned Pwylaidd yng Nghymru. Mae wedi tynnu sylw at gyfraniadau a doniau unigolion Pwylaidd, gan hyrwyddo delwedd gadarnhaol ac annog cyfnewid a chydweithredu diwylliannol pellach.
- Roedd gweithgareddau a oedd yn galluogi dealltwriaeth o brofiadau ceiswyr lloches a ffoaduriaid, er enghraifft digwyddiad Llyfrgell Ddynol ar-lein, yn

cynnwys cyn-geiswyr lloches sy'n gwneud yn dda yn eu gyrfa ddewisol yn rhannu eu bywydau.

### 7.6.4 Effaith ar gymunedau ehangach

Disgrifiodd rheolwyr prosiect ffyrdd eraill roedd gweithgarwch prosiect wedi cyfrannu at effeithiau ehangach ar gymunedau. Er enghraifft:

- Cylchgrawn printiedig a helpodd i gysylltu grŵp lleiafrifol â Chymru a'r DU, trwy ennyn diddordeb enwogion yn y DU a'u gwlad tarddiad. Er enghraifft, trwy enwogion fel Aelodau Seneddol a'r Arglwydd Raglaw yn dod i wybod am y cylchgrawn pan gafodd ei werthu mewn digwyddiad dadorchuddio cofeb ryfel. Derbyniodd y sefydliad lythyr gan Balas Buckingham hefyd yn eu llongyfarch ar y cylchgrawn a chan Arlywydd y wlad tarddiad.
- Helpodd arddangosfeydd ffotograffau cerdded i mewn gynulleidfaoedd Gwyn yn bennaf i weld y byd mewn ffordd wahanol, a chael eu symud wrth weld ffotograffau o'r newyn yn Ethiopia. Digwyddodd hyn pan gynhaliwyd arddangosfa ffotograffau'r prosiect mewn canolfan gymunedol mewn ardal â thrigolion Gwyn yn bennaf.
- Denodd digwyddiadau cerddorol, oedd â'r nod o fod yn gynhwysol i bawb, grwpiau lleiafrifol eraill. Er enghraifft, mynychodd Little People UK, cwmni sy'n cefnogi pobl â chorachedd, ŵyl am y tro cyntaf gan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac roedd yr ŵyl yn trefnu llwyfannau gwylio ar eu cyfer.

### 7.6.5 Cynaliadwyedd prosiectau

Roedd gan yr holl arweinwyr prosiect a gyfwelwyd gynlluniau i gynnal gweithgareddau, er bod y mwyafrif yn dibynnu ar dderbyn cyllid. Roedd rhai wrthi'n meddwl am wneud cais am gyllid, roedd gan rai syniadau ynghylch pwy y gallen nhw fynd atynt am gyllid, roedd rhai wedi gwneud cais am gyllid, ac roedd dau wedi cael cyllid.

#### 7.6.5.1 Straeon llwyddiant allweddol

Prosiect sydd wedi elwa ar fwy o amlygiad yw prosiect Girmitya sydd wedi cael 'diddordeb rhyngwladol aruthrol' ac sydd eisoes wedi cael gwahoddiad i gynnal Cynhadledd Ryngwladol Girmit nesaf yn Trinidad a Tobago yn 2025, ac yna yn Ne

Affrica yn 2026. Mae cynlluniau hefyd i gynnal cynhadledd yn y DU (tebyg i'r gynhadledd a gynhaliwyd yn ystod y prosiect) yn Senedd San Steffan i sicrhau bod gwleidyddion y DU hefyd yn ymwybodol o Girmit a'u cyfraniadau. Mae'r prosiect wedi derbyn llawer o ddiddordeb gan Lywodraeth Cymru yn dilyn awgrym Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y dylid cyflwyno'r pwnc hwn yng nghwricwlwm yr ysgol. Ar adeg llunio'r adroddiad, roedd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer yn ddiweddarach y mis hwnnw gydag Adran Addysg Llywodraeth Cymru i archwilio hyn ymhellach.

7.6.5.2 Sefydliadau y mae angen cyllid arnynt i barhau

Roedd angen cyllid ar rai gweithgareddau a oedd wedi bod yn mynd rhagddynt cyn maes 3, e.e. côr a grŵp dawns, i barhau ar yr un lefel, ac roedd y ddau yn bwriadu ymestyn eu cyrhaeddiad i gymunedau ehangach, e.e. i ledaenu ymwybyddiaeth i gymunedau heb fawr o wybodaeth am grwpiau amrywiol. Roedd un o'r rhain wedi llwyddo i gael arian o ffrydiau cyllido eraill ers 2020, felly roedden nhw'n chwilio am ffrwd ariannu arall ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Roedd un sefydliad wrthi'n gwneud cais am gyllid i ehangu eu gŵyl yn 2025, er bod yr ŵyl mewn sefyllfa dda i redeg ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol gan ddefnyddio'r pebyll a'r babell fawr a brynwyd gyda chyllid cyfalaf. Roedden nhw hefyd yn archwilio cyllid ar gyfer comisiwn dawns arall ar gyfer 2025.

Mae prosiect Celfyddydau Somali yn gweithio ar gronfa dreftadaeth y Loteri gwerth £250,000 ar gyfer prosiect tair blynedd i ehangu eu gwaith gydag aelodau ifanc o'r gymuned, gan gynnig dosbarthiadau wythnosol mewn coginio, ffotograffiaeth, ffasiwn, barddoniaeth, dawns a drama a chreu mwy o raglenni dogfen byrion a ffilmiau am y gymuned hefyd, wedi'u gwneud gyda'r gymuned ac ar ei chyfer.

7.6.5.3 Prosiectau a fydd yn parhau

Bydd y prosiectau canlynol yn gallu cynnal eu gweithgarwch y tu hwnt i'r prosiect: Dau gôr – côr i gefnogi iechyd meddwl a chôr amlddiwylliannol; Live Level sy'n cefnogi artistiaid Du ifanc gyda sesiynau rheolaidd; Te, Cyfeillgarwch a Lles; 'Gŵyl Reggae a Ridim' (a ariannwyd gan Gyngor y Celfyddydau); prosiect Welfare Indian Film; bydd y cylchgrawn Pwylaidd yn parhau ond bydd yn dychwelyd i'r fersiwn ar-lein arferol.

7.6.5.4 Gweithgareddau sydd wedi dod i ben

Bydd y Clwb Domino yn dod i ben, er gyda chefnogaeth bellach maent yn bwriadu trefnu gweithgareddau pellach yn ogystal â theithio i Glybiau Domino eraill yn y DU, gan ffurfio partneriaethau pellach.

Ni all y prosiect celfyddydau, cerddoriaeth a dawns Roma barhau y tu hwnt i'r prosiect ond y gobaith yw y bydd y grŵp yn elwa o fod wedi gwneud cysylltiadau â'r gymuned, e.e. gyda Theatr Glan yr Afon.

7.6.5.5 Prosiectau sy'n anelu at ehangu gweithgareddau

Disgrifiodd nifer o brosiectau gynlluniau i ehangu eu gweithgareddau, gan gynnwys ehangu cyrhaeddiad, arallgyfeirio gweithgareddau neu ddatblygu adnoddau. Darperir rhestr lawn yn Atodiad 5.

## 7.7 Meysydd 1, 2 a 3 – Effaith ar bobl a ymgysylltodd â phrosiectau a ariannwyd

### 7.7.1 Canfyddiadau allweddol:



- Roedd y rhesymau dros fynychu gweithgareddau yn cynnwys datblygu sgiliau, angerdd personol, cysylltiad cymdeithasol, cyfnewid diwylliannol, ac awydd i gyfrannu at y gymuned.
- Roedd y manteision i'r rhai a fynychodd yn cynnwys; perthyn a chysylltiad cymdeithasol, dathlu diwylliant a thraddodiad, cydlyniant â chymunedau lleol Cymru, cysylltu â'u gwreiddiau, bod yn rhan o grŵp cefnogol, dysgu a thwf personol, mwy o hyder, manteision iechyd meddwl ac ehangu mynediad at bobl yn y gymuned.

Er mwyn deall effaith cyllid ArWAP ar bobl a ymgysylltodd â'r prosiectau a ariannwyd, siaradodd y tîm gwerthuso â chwe deg saith o bobl o wyth prosiect a ariannwyd ar draws y tri maes (1 o faes 1, 2 o faes 2 a 5 o faes 3). Roedd y mwyafrif o'r rhain yn grwpiau a gyflwynodd weithgaredd neu sesiwn i aelodau presennol o'u cymuned, er enghraifft grŵp o famau a phlant bach sy'n cynnal gwahanol weithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Roedd rhai o'r gweithgareddau hyn yn newydd a rhai wedi'u hadeiladu ar waith presennol – er enghraifft i gyflwyno gŵyl yn arddangos eu crefft.

### 7.7.2 Rhesymau pam y cymerodd pobl ran yn y gweithgareddau a ariannwyd

Gwelwyd presenoldeb yn aml oherwydd bod pobl yn gyfarwydd â'r sefydliad oedd yn cynnal y digwyddiad neu'n darparu'r cyfle. Mewn llawer o achosion, roedd y mynychwyr yn ymwybodol o'r hyn roedd y sefydliad yn ei gynnig a byddent yn mynd i lawer o'u gweithgareddau oherwydd ymddiriedaeth a pherthnasoedd presennol. Mae hyn yn dangos yr angen am fannau diogel y mae pobl eisoes yn ymddiried ynddynt i gyflwyno gweithgareddau a fydd yn apelio atynt, mewn amgylcheddau diogel sy'n rhoi rhywfaint o fudd iddynt.

I'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymddengys mai'r cymhelliant cychwynnol dros fynychu oedd y lle neu'r sefydliad oedd yn cynnal y gweithgaredd. Yna arweiniodd cyfranogiad at fuddion oedd yn cyd-fynd â nodau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon

y rhaglen. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ariannu sefydliadau sydd eisoes yn darparu lleoedd i grwpiau lleiafrifol, a gall y cyllid hwnnw ar gyfer gweithgareddau sicrhau manteision pellach i'r hyn sy'n cael ei deimlo y tu hwnt i fod yn rhan o'r gofod.

Un o'r manteision hyn yw bod rhai gweithgareddau a ariannwyd yn ôl natur wedi cynyddu cyrhaeddiad sefydliadau, trwy allgymorth o wyliau neu berfformiadau, gan ganiatáu i fwy o bobl ddod i wybod am yr hyn maen nhw'n ei gynnig. Oherwydd hyn roedd yn anoddach nodi rhesymau dros fynychu'r prosiect penodol a ariannwyd trwy'r grant hwn, oherwydd yn aml byddai aelodau presennol yn mynychu beth bynnag oedd yn cael ei gynnal. Y cariad at y gofod sy'n cael ei greu a'r hyn y mae'n ei ddarparu iddynt sy'n gyrru ymgysylltiad â'r gweithgaredd a ariennir. Fodd bynnag, mae'n amlwg lle y cynigiwyd gweithgaredd newydd ei fod wedi cael effeithiau cadarnhaol ychwanegol a'i fod wedi gallu cyrraedd pobl newydd.

Mynychodd llawer o gyfranogwyr y gweithgareddau gydag awydd cryf i ddysgu sgiliau newydd neu wella rhai presennol, gyda sawl un yn tynnu sylw at y cyfle i wella eu cymwysterau neu ddatblygu eu CV. I eraill, roedd angerdd personol a mwynhad o'r gweithgaredd, fel dawnsio, canu, neu fynegiant diwylliannol, yn gymhellion allweddol. Yn ogystal, roedd cysylltiad cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig, gyda chyfranogwyr yn ceisio ffurfio cyfeillgarwch, creu ymdeimlad o berthyn, a chymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon mewn gofod diogel a chynhwysol.

Roedd cyfnewid diwylliannol hefyd yn ffactor arwyddocaol, gan fod llawer eisiau rhannu a dysgu am eu traddodiadau diwylliannol eu hunain wrth gysylltu ag eraill. Roedd y cyfle ar gyfer twf personol, yn feddyliol ac yn gorfforol, yn gymhelliant arall, gan fod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y gweithgareddau hyn yn gyfle i ymlacio a lleddfu straen, ynghyd â'u heffaith gadarnhaol ar iechyd corfforol.

> "I wella fy ngwaith tîm a datblygu fy CV". Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 2

> "Rwy'n mynychu oherwydd fy mod i'n hoffi dawnsio a dangos agweddau ar ddiwylliant Colombia." Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 4

> "Daeth â phobl o wahanol lefydd at ei gilydd". Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 5

> "Rydw i eisiau cael rhyddhad o'r gorbryder rwy'n dioddef ohono." Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 4

Roedd rhai cyfranogwyr yn cael eu gyrru hefyd gan awydd i helpu eraill, gyda llawer yn mynegi diddordeb mewn mentora neu gefnogi unigolion iau i gyrraedd eu potensial. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith y rhai oedd yn awyddus i gyflwyno chwaraeon mwy amrywiol i'r gymuned. Pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd helpu eraill i feithrin hyder, gyda sawl un yn nodi'r mwynhad roeddent yn ei gael o weld eraill yn llwyddo ac yn tyfu.

Yn gyffredinol, roedd y cyfuniad o ddatblygu sgiliau, angerdd personol, cysylltiad cymdeithasol, cyfnewid diwylliannol, ac awydd i gyfrannu at y gymuned yn ffactorau allweddol yn y rheswm pam roedd  cyfranogwyr yn mynychu'r digwyddiadau neu'r gweithgareddau hyn.

> "I gyflwyno chwaraeon mwy amrywiol i'r gymuned". Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 2

> "Rwyf am weld plant yn cyrraedd eu llawn botensial. Rôl mentor." Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 2

### 7.7.3 Manteision ac effeithiau cymryd rhan

Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent yn ei hoffi am y digwyddiad, y grŵp neu'r cyfle a gynigiwyd i fynychwyr, rhannwyd llawer o resymau. Roedd y rhain yn aml yn cyd-fynd ag atebion a roddwyd ganddynt yn ddiweddarach am yr effaith a gafodd y gweithgareddau arnyn nhw, neu'r gwahaniaeth a wnaeth yn eu bywydau:



Ymdeimlad o berthyn a chysylltiad cymdeithasol – Roedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu ac yn profi ymdeimlad o berthyn.




Cysylltu â phobl eraill – Creodd y prosiectau gyfleoedd i feithrin perthnasoedd a lleihau ynysu.



Dathlu diwylliant a thraddodiadau – Roedd gweithgareddau yn helpu cyfranogwyr i barchu eu treftadaeth ddiwylliannol ac i ymfalchïo ynddi.



Galluogi cydlyniant â chymunedau lleol yng Nghymru – Helpodd prosiectau i adeiladu pontydd rhwng cymunedau a meithrin perthynas leol.



Cysylltu â'u gwreiddiau – Cafodd cyfranogwyr gyfle i ailgysylltu ag agweddau ar eu hunaniaeth a'u hynafiaeth.



Bod yn rhan o grŵp cefnogol – Disgrifiodd llawer ohonynt deimlad o gael eu cynnal a'u hannog gan ddeinameg y grŵp.



Teimlo'n rymusol – Dywedodd cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n fwy abl a brwdfrydig.



Dysgu a thwf personol – Roedd prosiectau yn cefnogi myfyrio, datblygu sgiliau a safbwyntiau newydd.



Cynyddu hyder – Disgrifiodd llawer gynnydd mewn hunanhyder a mynegiant.



Iachau – Roedd y prosesau yn darparu rhyddhad emosiynol a lle i brosesu profiadau'r gorffennol.



Manteision iechyd meddwl – Nododd sawl cyfranogwr welliant mewn iechyd meddwl a lles.



Ehangu mynediad i bobl yn y gymuned – Roedd gweithgareddau yn dod â phobl na fyddent yn cwrdd fel arall at ei gilydd, gan leihau dieithrwch.

Soniwyd yn aml am berthyn a chysylltiad cymdeithasol, gan y rhai a oedd eisoes yn mynychu gweithgareddau eraill y sefydliad a ariannwyd a'r rhai a oedd yn newydd i'r sefydliad. Mynegodd llawer o gyfranogwyr sut roedd y cyfleoedd yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn gysylltiedig ag eraill, ac yn rhan o grŵp cefnogol. Adleisiwyd hyn o ran yr effaith a gafodd arnyn nhw gydag atebion yn ymwneud ag effaith gwneud ffrindiau, cysylltu ag eraill o gefndiroedd tebyg a dod o hyd i le lle maent yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu deall.

Daeth budd cysylltiedig ar ffurf cysylltu â diwylliant a dathlu traddodiadau neu arferion gyda llawer yn mynegi bod y gweithgaredd yn eu galluogi i gysylltu neu ailgysylltu â'u gwreiddiau a'u diwylliant eu hunain, a wnaeth wahaniaeth mawr i'w bywydau. Roedd

hyn yn arbennig o bwysig i bobl sydd wedi'u hynysu'n fwy oddi wrth eu teulu neu eraill yn eu cymuned.

Hefyd, gwerthfawrogwyd y gweithgareddau sy'n galluogi cydlyniant â chymunedau Cymreig lleol neu'n arddangos eu diwylliant i bobl Cymru a oedd yn rhoi ymdeimlad o rymuso. I rai, roedd bod yn rhan o'r grŵp a ariannwyd yn rhoi hygrededd a seilwaith i'w sefydliad a oedd yn eu galluogi i gefnogi eu cymunedau eu hunain.

> "Mae wedi cael effaith enfawr arnaf. Cyn hyn doeddwn i ddim yn gwneud llawer o ffrindiau ond rwy'n gwybod pan fyddaf yn mynd i'r grŵp hwn y byddaf yn cwrdd â llawer o bobl" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 5

> "Mae'n ystyrlon i mi gofio fy nghartref a rhannu fy niwylliant" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 4

> "Gwnaeth i mi deimlo'n berthnasol mewn cymuned amrywiol" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 1

> "Mae'n grymuso cymunedau amrywiol i deimlo nad oes rhaid iddyn nhw guddio ac y gallan nhw fod yn falch o'u diwylliant." Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 5

Roedd y themâu eraill a gododd o effaith a budd y gweithgareddau yn ymwneud â dysgu, twf personol a grymuso gyda mynychwyr yn mynegi eu diolchgarwch am gael lle i ddatblygu sgiliau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'u diwylliant. Roedd hefyd yn cefnogi datblygu sgiliau proffesiynol i fynychwyr mewn sawl sefydliad.

Rhannodd eraill hefyd fod y gweithgaredd a ariannwyd wedi cynyddu eu hyder a'u gallu i gefnogi eu cymunedau eu hunain. Pwysleisiwyd y cyfle i ddianc rhag bywyd bob dydd, cael lle i ymlacio a chael cefnogaeth gan eraill, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau cadarnhaol ar iechyd meddwl. Roedd yr effeithiau hyn yn arbennig o bwysig i bobl a oedd wedi bod trwy brofiadau bywyd anodd fel ceisio lloches, gyda mynychwyr yn mynegi bod y mannau hyn wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu pobl i brosesu trawma, i wella ac i adfer. Gwnaethant hefyd alluogi mynychwyr i rannu gwybodaeth a chefnogi ei gilydd, gan greu rhwydwaith cymorth cymdeithasol i'w helpu trwy amseroedd anodd. Roedd rhai gweithgareddau o fudd i iechyd meddwl neu iechyd corfforol neu'r ddau, gan wella ffitrwydd a lleihau pryderon o fywyd bob dydd.

> “Mae bywyd yn drawmatig i ffoaduriaid a cheiswyr lloches – mae mannau fel hyn yn eu helpu.” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 4

> “Roedd yn gwneud i mi deimlo’n rymus i allu gwneud sgil ymarferol.” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 1

> “Roedd yn amser i ymlacio, siarad a rhannu.” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 3

> “Mae cael mynediad yng nghyfnodau cynnar gyrfa yn amhrisiadwy. Mae’n darparu adnoddau am ddim na fyddai ar gael fel arall ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned.” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 8

Roedd ehangu mynediad yn nodwedd o’r manteision a’r effeithiau a deimlwyd gan y rhai oedd yn mynychu llawer o weithgareddau. Nododd pobl fod y gweithgareddau yn rhoi rhywbeth i’r gymuned nad oedd yn bodoli o’r blaen, yn ogystal â chynnig mwy o gyfleoedd i fod yn rhan o bethau.

Mynegodd un grŵp y byddent wedi llenwi eu hamser gyda phethau llai defnyddiol a niweidiol pe na baent yn mynd i’r gweithgaredd, a oedd yn caniatáu iddynt ddysgu, cefnogi eraill ac adeiladu sgiliau bywyd sylweddol a gymerwyd ymlaen.

I eraill, roedd y cyllid yn eu galluogi i helpu sefydliadau llai sydd wedyn yn golygu y gellir cefnogi cannoedd o aelodau o’r gymuned a gefnogir gan y sefydliadau hyn.


> “Heb hyn byddwn i wedi bod gartref yn chwarae ar y play station” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 2

> “Y tu ôl i bob arweinydd cymunedol yma mae cannoedd o aelodau o’r gymuned sy’n cael eu cefnogi.” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 7

> “Mae cael plant i ymgysylltu, bod yn egnïol, yn drefnus, yn gynhyrchiol, yn helpu pawb” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 2

## 8. Theori ddiwygiedig y rhaglen

**Ffigur 14 - Theori'r rhaglen**



## 8.1 Theori ddiwygiedig y rhaglen

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad yn unol â'r fframwaith gwerthuso realydd. Mae'r diagram cryno uchod yn cyflwyno trosolwg o'r canlyniadau allweddol sydd wedi'u cyflawni ar draws y chwe maes, y mecanweithiau y gwelwyd eu bod wedi arwain atynt, a'r cyd-destunau a helpodd neu a rwystrodd y mecanweithiau hynny. Mae'r drafodaeth isod yn esbonio sut y cyflawnwyd y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn (mecanweithiau) a'r ffactorau cyd-destunol y gwelwyd eu bod wedi effeithio arnynt. Mae hyn yn ddysgu pwysig ar gyfer unrhyw rowndiau yn y dyfodol (neu gynlluniau grant tebyg) gan ei fod yn helpu i nodi beth o ran y ffordd y mae'r gronfa grantiau wedi'i chyflawni sydd wedi helpu i gyflawni'r canlyniadau a welwyd.

## 8.2 Mecanweithiau

Mae mecanweithiau'n disgrifio beth o ran y ffordd mae cyllid grant CHS ArWAP wedi'i roi ar waith sydd wedi helpu i arwain at y canlyniadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Er i rai o'r mecanweithiau a ragdybiwyd ar ddechrau'r gwerthusiad (gweler Atodiad 1) gael eu cefnogi gan y dystiolaeth, nid oedd hyn yn wir ym mhob achos. Yn ogystal, nododd y gwerthusiad fecanwaith newydd a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwil.

### 8.2.1 Mecanwaith - Pont rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau

Mae annibyniaeth Diverse Cymru a'r mentoriaid cymunedol wedi hwyluso adeiladu perthnasoedd ymddiriedus rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau ar lawr gwlad.

Daeth yn amlwg i'r Is-adran Diwylliant nad oedd sefydliadau a ariannwyd ym meysydd 1 a 2 yn gallu ymgysylltu â sefydliadau ar lawr gwlad yn gyffredinol, oherwydd rhwystrau fel diffyg ymddiriedaeth gyda'r Llywodraeth neu ddiffyg hyder i wneud cais. Yn sgil hyn, penderfynodd yr Is-adran Diwylliant ar ddull ar wahân ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad (maes 3), gan ddod â Diverse Cymru, sefydliad a oedd eisoes yn ymwneud â chymunedau ar lawr gwlad, i mewn.

> "Dim ond ar ôl i ni ddechrau trafod gyda'n partneriaid mwy sefydledig yn y ddau faes cyntaf y sylweddolon ni i ba raddau na fydden nhw'n gallu dod â'r bobl ar lawr gwlad gyda nhw. Yna fe sylweddolon ni, "Na, daliwch ymlaen, mae angen dull hollol gynnil ar wahân i ymgysylltu â'r rheini ar lawr gwlad"....Roedd angen

i ni ddod o hyd i actor i'n cynrychioli a oedd eisoes yn ymwneud â'r cymunedau, a dyna'r ffordd yr oeddem yn mynd i wneud iddo weithio. ... a gwnaethon ni hynny wedyn yn y pen draw a dod â Diverse Cymru i mewn." Llywodraeth Cymru, ID1

Canfuwyd tystiolaeth bod Diverse Cymru a'r mentoriaid cymunedol wedi chwarae rhan bwysig wrth adeiladu perthnasoedd ymddiriedus â sefydliadau ar lawr gwlad.  Roedd cyfranogwyr a oedd yn gwerthfawrogi proses rheoli grantiau Diverse Cymru o'r farn bod y berthynas â Diverse Cymru yn dda, e.e. roeddent yn rhai calonogol ac ymddiriedus.

### 8.2.2 Mecanwaith - Hyblygrwydd a chreadigrwydd strwythur y grant

Mae'r rhaglen grantiau wedi rhoi lefel o hyblygrwydd i brosiectau a ariennir nad yw ar gael yn aml.  Tynnodd cyfranogwyr ar draws y tri maes sylw at hyblygrwydd y gronfa. Er i'r rhan fwyaf o brosiectau maes 3 gyflawni'r hyn yr oeddent wedi'i fwriadu, roedd y nifer bach o brosiectau a wnaeth newidiadau i'w cynllun prosiect o'r farn bod y broses yn hawdd, e.e. trwy drafod â Diverse Cymru.

Nododd prosiectau ym meysydd 1 a 2 fod rhywfaint o hyblygrwydd hefyd, fel arfer trwy gais i amrywio contract, a ddisgrifir fel proses gymharol syml.

Ym maes 1, roedd y broses rheoli grantiau hefyd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ariannol, e.e. roedd yn caniatáu hyblygrwydd yn y gyllideb rhwng gwahanol gronfeydd cyllido trwy'r broses o amrywio contract ac fe ganiataodd i un prosiect wario'r rhan fwyaf o'r grant tuag at ddiwedd y prosiect oherwydd bod y prosiect wedi dechrau'n hwyr.

> "Roedden nhw'n hyblyg. Fe wnaethon ni wario'r rhan fwyaf o'r grant tuag at ddiwedd y prosiect yn y pen draw a, wyddoch chi, gallen ni fod wedi cael ffrae am wneud hynny a chael rhywun yn dweud wrthon ni am wario yn fwy cyfartal ar draws 18 mis neu ddwy flynedd gyfan y prosiect. Ond, wyddoch chi, roedden nhw'n hyblyg iawn. Roedden nhw'n barod i fod yn hyblyg, felly roedd hynny'n dda." Derbynnydd grant maes 1, ID10

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod prosiectau ym meysydd 1 a 2 yn teimlo bod angen mwy o hyblygrwydd wrth reoli'r grant, yn enwedig pan roedd taliadau hwyr neu heriau y tu hwnt i'w rheolaeth yn effeithio ar brosiectau.

### 8.2.3 Mecanwaith - Ymrwymiad i gyd-gynhyrchu

Mae cyfranogiad mentoriaid cymunedol a phobl sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth yn is-grŵp atebolrwydd allanol CHS[5] wedi sicrhau bod gwahanol safbwyntiau wedi'u hystyried a'u hymgorffori yn nyluniad y rhaglen grantiau a'r ffordd y caiff ei chymhwyso.

Roedd hwn yn fecanwaith pwysig wrth helpu cronfa grantiau CHS ArWAP i gyflawni'r canlyniadau , yn enwedig ar gyfer maes 3. Mae cynnwys mentoriaid cymunedol (a ddisgrifir yn fwy yn y mecanwaith 'profiad bywyd'), ochr yn ochr â'r Arweinydd Cydraddoldeb, wedi helpu prosiectau i symud tuag at gyd-gynhyrchu gan y byddai'n gwella'r prosiect, e.e. cysoni'r prosiect ag egwyddorion ArWAP.

> "Hawdd iawn yn wir, ac yn fwy na hawdd. Cawson ni ein hannog i wneud hynny, i fynd i'r cyfeiriad yr oedd y gymuned eisiau mynd iddo." Derbynnydd grant maes 1, ID10

### 8.2.4 Mecanwaith - Gwerth profiad bywyd

Mae llawer o'r tîm (gan gynnwys personél allweddol yn Llywodraeth Cymru, Diverse Cymru a'r is-grŵp atebolrwydd allanol) sy'n gysylltiedig yn gynrychiolwyr o gymunedau sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth sy'n dod â dilysrwydd i'r rhaglen ac yn sicrhau ei bod yn ystyried ac yn cwestiynu effaith penderfyniadau.

Roedd hwn yn fecanwaith pwysig wrth helpu'r grant i gyflawni ei ganlyniadau. Cafodd mentoriaid cymunedol eu gwerthfawrogi am ddod â phrofiad bywyd o fod yn aelod o gymuned ethnig leiafrifol i'r broses rheoli grantiau, ynghyd â chefnogaeth, arbenigedd, cyngor a her, h.y. herio meddyliau a rhagdybiaethau, i dîm o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn Wyn yn bennaf ac nad oedd ganddynt unrhyw brofiad bywyd o hiliaeth. Yn yr un modd, roedd prosiectau maes 1 yn teimlo bod mentoriaid cymunedol yn ychwanegiad gwerthfawr i'r broses adrodd.

[5] Grŵp a sefydlwyd i gefnogi a herio Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gyflawni'r nodau polisi a'r camau gweithredu yn ArWAP sy'n ymwneud â Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon (CHS).

“O ran y broses adrodd, mae’n eithaf tebyg i grantiau blaenorol... yr hyn sy’n wahanol yw cael aelodau o’r gymuned a chynrychiolwyr sefydliadau Mwyafrif Byd-eang yn y gofod adrodd.” Derbynnydd grant maes 1, ID7

“Cawson ni gyfarfod monitro gyda rhyw fath o drydydd parti allanol [mentor cymunedol]. Rwy’n credu bod hynny’n dda i gael y persbectif hwnnw hefyd o fewn y monitro.” Derbynnydd grant maes 1, ID9

Er bod y rhai a gyfwelwyd (maes 2) wedi cael profiadau gwahanol o’r mentor cymunedol (fel y trafodwyd yn adran 4.5), roedd y rhai a oedd yn gadarnhaol yn meddwl bod cyfranogiad mentor cymunedol mewn cyfarfodydd monitro yn syniad gwych gan eu bod yn dod â phrofiad bywyd a her.

### 8.2.5 Mecanwaith - Dull hyblyg a hygyrch o ymgysylltu, ariannu a gweithio gyda sefydliadau ar lawr gwlad

Mae’r gwaith a wnaed gan Diverse Cymru (ffyrdd o weithio nad ydynt ar gael i Lywodraeth Cymru) wedi galluogi sefydliadau llai i dderbyn cyllid a gweithio gyda chymunedau lleiafrifol (gan gyrraedd pobl na fyddai wedi elwa o gyllid y Llywodraeth fel arall).

Roedd dull hyblyg a hygyrch Diverse Cymru yn amlwg o’r hyn a ddywedwyd mewn cyfweliadau ag arweinwyr prosiect maes 3. Dechreuodd hyn ar y cam ymgeisio, gyda phob un o’r rhai a gyfwelwyd (ym maes 3) yn nodi bod y broses ymgeisio yn syml:

“Roedd yn hawdd ac yn ddigon syml. Roedd y cais yn ddigon hawdd i’w lenwi." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 2 Bach, ID17

Nodwyd bod y broses grantiau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn fwy hygyrch na phrofiadau blaenorol o geisiadau i Lywodraeth Cymru a chyrff cyllido eraill fel Cyngor y Celfyddydau a’r Loteri Genedlaethol. Efallai mai’r rheswm am hyn oedd y ffaith bod y grant yn darparu mwy o gyfleoedd i gael mynediad at gymorth na phrofiadau blaenorol, e.e. drwy gysylltiad uniongyrchol â Diverse Cymru neu drwy fynychu’r ddwy weminar ar gyfer pob rownd.

“Dydw i ddim yn cofio unrhyw beth yn sefyll allan a oedd yn dweud “O, mae hon yn agwedd anodd iawn [arno]”. Ac roedd llawer o gyfleoedd i gael cymorth. Felly, fe ddywedwyd wrthym y gallen ni fynychu unrhyw fath o, chi’n gwybod,

gallen ni ofyn unrhyw gwestiynau." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Canolig, Rownd 2 Cyfalaf, ID39

Manteisiodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr maes 3 ar y cymorth oedd ar gael, fel gweminarau a chymorth un-i-un, a atebodd bopeth yr oedd angen iddynt ei wybod, tra bod eraill wedi cysylltu i wirio eu cymhwysedd.

Yn ystod y broses rheoli grantiau, parhaodd Diverse Cymru i weithredu mewn ffordd hyblyg a hygyrch. Darparwyd cymorth wedi'i deilwra i arweinwyr prosiectau gan gynnwys:

- Cymorth i gwblhau'r daflen adrodd gwariant, e.e. gan ei fod yn gymhleth ac yn ddryslyd i un cyfranogwr.
  - Eglurhad ynghylch y diffiniad o gostau cyfalaf wrth adrodd gwariant. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr yn meddwl bod costau cyfalaf yn cynnwys pethau fel offer felly roedd yn synnu bod eitemau a brynwyd i adeiladu arddangosfa prosiect, e.e. deunydd ysgrifennu, yn cael eu hystyried yn gostau cyfalaf.
  - Cymorth i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn yr adroddiad monitro pan oedd prosiect yn dal i fod wrthi'n datblygu proses yn hytrach nag allbwn. Daeth Diverse Cymru yn ôl atyn nhw a dweud wrthyn nhw am beidio â phoeni ac i ddisgrifio gweithgareddau'r prosiect yn unig.

"Fe wnes i siarad â'r gweithiwr datblygu ddwy neu dair gwaith. Darnau bach roedden ni eisiau eu gwirio, am y broses, ac ati." Derbynnydd grant maes 3, Rownd 1 Mawr, ID49

Roedd staff Diverse Cymru yn gallu helpu prosiectau i oresgyn heriau yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft, pan oedd angen cymorth ar un prosiect i fonitro gwybodaeth oherwydd problemau personol, cafodd staff Diverse Cymru sgwrs gyda'r prosiect i gasglu'r wybodaeth a thrawsgrifio eu hymatebion.

Mae'r dull cefnogol a hygyrch hwn yn fecanwaith allweddol wrth gefnogi llwyddiant maes 3 (dim ond un prosiect na fu modd ei gwblhau, ac roedd hynny am resymau personol).

### 8.2.6 Dim tystiolaeth ar gyfer mecanwaith - Goruchwyliaeth, mewnwelediad a her gan adrannau ehangach Llywodraeth Cymru.

Rhagdybiwyd y gallai cyfranogiad tîm gweithredu ArWAP, yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil ac is-grŵp atebolrwydd allanol CHS fod wedi herio a chefnogi'r rhaglen grantiau i ystyried nodau ehangach ArWAP a sicrhau bod penderfyniadau'n gyson ag agendâu presennol Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o'r mecanwaith hwn yn ystod y gwerthusiad. Nid yw hyn i ddweud nad oedd goruchwyliaeth, mewnwelediad a her yn ffactor pwysig wrth ddatblygu'r grant, dim ond nad oedd wedi dod i'r amlwg fel ffactor yn y gwaith o ddarparu'r grant (o safbwynt y rhai a gyfwelwyd).

### 8.2.7 Mecanwaith newydd – Proses rheoli grantiau gefnogol

Nodwyd mecanwaith newydd yn ystod y gwerthusiad y gellir gweld ei fod wedi hwyluso'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y gronfa grantiau hon, sef proses rheoli grantiau gefnogol (ar gyfer meysydd 1 a 2). Roedd yn amlwg o'r hyn a ddywedwyd mewn cyfweliadau ag arweinwyr prosiect ym meysydd 1 a 2 eu bod yn gwerthfawrogi'r ffordd gefnogol yr aethpwyd ati i reoli grantiau.

Esboniodd y rhai a gyfwelwyd fod staff yr Is-adran Diwylliant yn gefnogol trwy gydol y broses e.e. yn cysylltu â phrosiectau yn dilyn gwallau mewn cyflwyniadau i esbonio'r hyn oedd ei angen ac yn rhoi mwy o amser i ddod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani os oedd angen.

> "Roeddwn i'n teimlo bod cefnogaeth yno ac os byddai cwestiynau'n cael eu gofyn i mi weithiau ac nad oeddwn i'n gallu darparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt, fe fydden nhw'n dweud, "Wel, wyddoch chi, gallwch chi fynd i ffwrdd nawr a chwilio amdani a dod o hyd iddi. Ac roedd hi, roedd yn fwy o sgwrs adeiladol rwy'n teimlo. Yr hyn oedd e', wyddoch chi, oedd, "Mae angen i chi adrodd yn ôl ar hyn a hyn a hyn". Derbynnydd grant maes 2, ID4

Cafodd hyn ei drosi'n gyfarfodydd monitro, a ddisgrifiwyd fel sgwrs adeiladol, gefnogol ac agored am hynt y prosiect, a ffordd hawdd o rannu'r canlyniadau a gyflawnwyd a thrafod unrhyw faterion.

Roedd y ffordd gefnogol yr aethpwyd ati i reoli grantiau yn caniatáu i brosiectau fod yn agored am heriau a ffyrdd newydd o weithio (fel y gwelir yn yr enghraifft a ddarparwyd yn gynharach lle y gwnaeth prosiectau addasu i weithio'n fwy cydweithredol â chymunedau). Pe na bai tîm yr Is-adran Diwylliant wedi creu amgylchedd cefnogol, mae'n debygol na fyddai prosiectau wedi bod mor agored i newid eu dull gweithredu.

### 8.3 Cyd-destunau

Canfuwyd tystiolaeth o nifer o ffactorau cyd-destunol sydd wedi effeithio ar weithredu cronfa grantiau CHS ArWAP, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae rhai cyd-destunau'n ymwneud â meysydd penodol (mae hyn yn cael ei nodi lle bo hynny'n berthnasol).

#### 8.3.1 Hwyluso cyd-destunau

Er bod y mwyafrif o ffactorau cyd-destunol a nodwyd yn ymwneud â chyd-destunau cyfyngol (gweler isod), canfu'r gwerthusiad dystiolaeth o rai cyd-destunau galluogi hefyd. Mae'r rhain yn darparu dysgu pwysig ar gyfer ystyried yr hyn sydd ei angen i helpu sefydliadau i weithredu eu prosiectau yn effeithiol.

Cydweithrediadau a phartneriaethau â sefydliadau eraill – nododd prosiectau ym mhob un o'r tri maes fod cydweithrediadau a phartneriaethau yn ffactorau allweddol yn llwyddiant eu prosiectau.

> "Y bartneriaeth yn bendant, oherwydd trwy'r bartneriaeth rydyn ni'n dod â phrofiadau a gwybodaeth wahanol i mewn ac yn gallu manteisio ar hynny i gyd. Felly dydyn ni ddim ond yn dibynnu ar yr hyn y gallai fod gennym, ond rydych chi'n dod â math ehangach o wybodaeth a phrofiad i mewn." Derbynnydd grant maes 1, ID8

Adleisiwyd hyn gan brosiectau mewn meysydd eraill a dynnodd sylw at yr adnoddau, yr arbenigedd a'r profiad a ddarparwyd o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

> "Rwy'n credu ei fod wedi bod yn gymorth mawr gweithio gyda'r sefydliad [enw'r sefydliad]. Ond roedd hynny mewn sawl ffordd. Fe wnaethon ni ddefnyddio eu lleoliad, fe wnaethon nhw ddod o hyd i'r cyfranogwyr ac fe wnaethon nhw drefnu'r bwyd er mai ni talodd amdano. Roedd honno'n bartneriaeth dda iawn." Derbynnydd grant maes 3, ID1

Mae hwn yn gyd-destun pwysig, ac mae'n awgrymu bod y cydweithio sy'n digwydd rhwng sefydliadau sy'n derbyn y cyllid a'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn yn helpu i weithredu'r grant yn effeithiol.

Ymrwymiad sefydliadol presennol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – tynnodd un o sefydliadau maes 1 sylw at hyn, gan ddweud bod ymrwymiad eu sefydliad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn golygu ei bod yn haws rhoi'r prosiect ar waith:

"Mae wedi helpu bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eisoes yn flaenoriaeth yn fewnol, ac fe wnaeth hyn osod y llwyfan." Derbynnydd grant maes 1, ID12

Derbyniad cadarnhaol mewn cymunedau - er bod rhai sefydliadau ac aelodau staff yn gwrthwynebu cymryd rhan mewn gwaith o gwmpas gwrth-hiliaeth (gweler isod), nid oedd hyn o reidrwydd yn wir i bobl yn y gymuned. Myfyriodd un prosiect maes 3 ar sut yr oeddent wedi disgwyl rhywfaint o ymateb negyddol i'w prosiect, ond roedd yr ymateb a gawsant i'r gwrthwyneb:

"Roedd eu hagwedd yn wahanol iawn, iawn i'r hyn y byddech chi'n ei ddarllen yn y papurau. Ac roedd hynny'n wych." Derbynnydd grant maes 3, ID49

Hyblygrwydd gweithio ar-lein – mewn prosiect maes 2, roedd y symudiad tuag at gyfathrebu ar-lein wedi hwyluso eu prosiect.

"Felly, wyddoch chi, rwy'n meddwl taw'r ffaith ei fod wedi dod allan o'r pandemig mewn gwirionedd, dyma pam nad yw cymaint o bobl bellach yn meddwl ddwywaith am fynd ar Teams neu ailddechrau galwad neu rywbeth tebyg a phobl na fyddai wedi dychmygu gwneud hynny o'r blaen, a nawr, wyddoch chi, rydych chi'n cysylltu â gwirfoddolwyr ac yn anfon neges atyn nhw yn dweud, "Rydyn ni'n dal i fyny gyda gwirfoddolwr ar Teams, dyma'r ddolen". Ac mae pawb yn iawn. Felly, rwy'n credu bod y datblygiadau hynny wir wedi ei gwneud hi'n haws i ni." Derbynnydd grant maes 2, ID4

### 8.3.2 Cyd-destunau sy'n cyfyngu

Nododd y gwerthusiad dystiolaeth o nifer o ffactorau cyd-destunol y gwelwyd eu bod wedi rhwystro llwyddiant y gronfa grantiau. Mae llawer o'r rhain yn faterion allanol sydd y tu hwnt i reolaeth y partneriaid cyflawni neu Lywodraeth Cymru.

Mae'n cymryd amser i ddatblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol – codwyd hyn gan feysydd 1 a 2 a amlygodd fod angen amser i sefydlu'r perthnasoedd hynny er mwyn datblygu a chyflawni prosiectau gyda grwpiau cymunedol. Roedd hyn yn arbennig o wir am sefydliadau nad oeddent wedi gweithio yn y gofod hwn o'r blaen ac felly nad oedd gan y gymuned (yn ddealladwy) fawr o ymddiriedaeth ynddynt. Teimlwyd pe bai'r cyllid eisiau i gyd-gynhyrchu fod yn rhan allweddol o'r dull gweithredu, yna dylai'r amserlenni cyllido fod wedi ystyried hyn.

Diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau prosiect gan gymunedau amrywiol**:** Nododd prosiectau ym meysydd 1 a 2 faterion o ran hyn. Adroddodd prosiect maes 1, yn ystod trafodaethau, fod rhai pobl wedi cwestiynu pam fod grant sylweddol i gefnogi gwrth-hiliaeth yn mynd i gorff a ariannwyd gan y llywodraeth sy'n cael ei redeg gan bobl Wyn; bod dynion dosbarth canol Gwyn yn dweud wrth bawb beth i'w wneud. Ceisiodd y cyfranogwr esbonio bod y prosiect yn cynnwys cyd-greu. Daeth prosiect maes 1 arall ar draws rhwystrau wrth gysylltu â chymunedau oherwydd diffyg ymddiriedaeth yn y sefydliad, yn enwedig oherwydd eu tawelwch yn ystod Mae Bywydau Du o Bwys a chyfnodau eraill o aflonyddwch; bod "tawelwch yn gyfystyr â chyfranogaeth". Felly, aeth llawer o waith i ailadeiladu ymddiriedaeth â chymunedau yn ystod y prosiect.

> "Y math hwnnw o feddylfryd pan fo pobl yn mynd, "O, mae hynny'n nodweddiadol o [enw'r sefydliad]. Dydyn nhw ddim yn ymddiried yn ein cymunedau; dydyn nhw ddim yn cefnogi ein cymunedau". Felly, llawer o hynny mae'n rhaid i ni geisio ailennyn ymddiriedaeth." Derbynnydd grant maes 1, ID13

Codwyd hyn hefyd ym maes 2, yn enwedig pan oedd prosiectau eisoes wedi'u dylunio, ac roedd cymunedau amrywiol yn teimlo mai dim ond wedyn roedd eu hymgysylltiad yn cael ei ystyried.

> "Un o'r bobl gyntaf i mi geisio estyn allan ato oedd [enw cymuned] ond doedden nhw ddim eisiau. Roedd y person yn eithaf gelyniaethus ac yn wrthwynebus

iawn oherwydd maen nhw'n clywed y sgyrsiau hyn 6, 7, 8, 9 gwaith y dydd ac maen nhw eisiau bod yn rhan o geisiadau ar y dechrau ac nid ar ôl i bethau ddigwydd." Derbynnydd grant maes 2, ID22

Materion sefydliadol mewnol – nododd prosiectau ym meysydd 1 a 2 fod materion mewnol fel ad-drefnu neu ddiswyddiadau wedi cael effaith negyddol ar gyflawni eu prosiectau. Mae hyn yn ffactor pwysig o ran y graddau y gall cyllid grant gyflawni ei nodau, gydag ansicrwydd mewnol yn cael effaith bosibl ar newid sefydliadol.

Materion gwleidyddol allanol – ar draws y tri maes, tynnodd cyfranogwyr sylw at effaith trafodaeth 'dde eithafol', yn enwedig yn dilyn y terfysgoedd ym mis Awst 2024. Teimlwyd bod hyn wedi cael effaith negyddol ar y gronfa grantiau, gyda rhai unigolion yn cael eu targedu gan allfeydd cyfryngau 'asgell dde'. Ni chynhaliodd un prosiect unrhyw gyfweliadau i gasglu straeon ym mis Awst 2024 i wneud yn siŵr bod aelodau o'r prosiect a oedd yn dod o leiafrifoedd ethnig yn ddiogel. Gwnaeth y terfysgoedd hefyd sbarduno trawma i bobl a gyfwelwyd, e.e. profodd Asiaid Uganda brotestiadau tebyg pan ddaethon nhw yma am y tro cyntaf yn y 1970au.

Mewn prosiect arall, denodd hysbysebion cyfryngau cymdeithasol noddedig ar gyfer gŵyl sylwadau hiliol. Yn sgil hyn, bu'n rhaid i'r prosiect ailwampio eu hymgyrch cyfryngau cymdeithasol, h.y. cael gwared ar y sylwadau, a chael cefnogaeth gan Blismona Cymunedol i sicrhau bod pobl yn ddiogel ar y diwrnod.

Esboniodd arweinydd a gyfwelwyd o un o'r prosiectau ym maes 3 sut y cafodd lleoliad ar gyfer ystod o ddigwyddiadau i bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol ei gau am bythefnos. Cynghorodd yr heddlu y dylai'r lleoliad gael ei gau er diogelwch y cyfranogwyr eu hunain, a hynny ar ôl i rywun a oedd yn gweithio yn swyddfeydd y lleoliad fod yn destun ymosodiad y tu allan i'r theatr.

Amharodrwydd i gefnogi gwrth-hiliaeth – Esboniodd prosiect maes 2 sut y dywedwyd wrth fentoriaid o chwith i 'fynd i ffwrdd a pheidio byth â chysylltu â nhw eto' gan un neu ddau sefydliad; nad oedd ganddynt ddiddordeb yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

> “Dydyn ni ddim eisiau gwybod unrhyw beth am Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Does dim croeso i chi yma. Dilëwch ein cyfeiriad me-bost o’ch system a pheidiwch byth â chysylltu â ni eto.” Derbynnydd grant maes 2, ID24

Ni fyddai sefydliadau eraill yn gadael i fentoriaid o chwith weld y Prif Swyddog Gweithredol, gan gynnig trosglwyddo’r neges i Brif Swyddogion Gweithredol yn lle hynny. Hyfforddwyd mentoriaid o chwith i fynnu gweld Prif Swyddogion Gweithredol, oherwydd mae angen i ymgorffori diwylliant gwrth-hiliol ym mhob sefydliad ddechrau gyda’r Prif Weithredwr a’r uwch dîm rheoli. Mewn prosiect maes 2 arall, gwnaethant ddarganfod nad oedd rhai staff ‘Gwyn’ yn agored i gynhwysiant oherwydd diffyg gwybodaeth, e.e. doedden nhw ddim yn gwybod sut i gynnal sesiwn i fenywod Mwslimaidd, neu ofn ‘dweud rhywbeth o’i le’. Roedd y sefydliad yn gweithio gyda staff i fynd i’r afael â hyn.

Mae’r amharodrwydd hwn (mewn rhai mannau) yn awgrymu bod mwy o waith i’w wneud i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr ArWAP ar lefel unigol.

Heriau ymarferol – nododd rhai prosiectau maes 2 heriau wrth recriwtio pobl â phrofiad bywyd o hiliaeth ac awgrymwyd bod hyn oherwydd bod llawer iawn o brosiectau ArWAP yn dechrau ar yr un pryd. Mewn prosiect arall, roedd diffyg cyfleusterau mewn ardaloedd yng nghanol y ddinas yn effeithio ar yr hyn y gallent ei gyflawni.

Argyfwng costau byw – tynnodd nifer o brosiectau, yn enwedig ym maes 3, sylw at effaith negyddol yr argyfwng costau byw. Teimlwyd bod hyn wedi effeithio ar nifer y bobl a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ariannwyd (gyda chostau cludiant a gofal plant yn uchel) a nifer y gwirfoddolwyr y gallent eu recriwtio. Cafodd effaith hefyd ar brosiectau maes 3 a oedd yn wynebu costau cynyddol, yn enwedig llogi ystafelloedd.

Diffyg ymrwymiad gan sefydliadau allanol – Esboniodd rhai prosiectau maes 3 sut roedd sefydliadau allanol a oedd wedi darparu llythyrau o gymorth i dderbynwyr grant yn flaenorol, wedi torri eu gair o ran yr hyn roeddent wedi’i gytuno i’w roi ar waith yn wreiddiol.

Trasiedi bersonol – roedd hyn yn broblem i rai prosiectau maes 3 (lle mai un person sy'n gyfrifol am yr hyn a gyflawnir). Cafodd rhai achosion o drasiedi bersonol effaith sylweddol ar yr hyn a gyflawnwyd ac, mewn un achos, cafodd y prosiect mo'i gwblhau.

Gwahaniaeth rhwng y Gogledd a'r De. Tynnodd rhai prosiectau (ym meysydd 2 a 3) sylw at y ffaith bod gwahaniaeth amlwg rhwng y Gogledd a'r De o ran y sylw a roddwyd gan bolisïau. Teimlwyd bod hyn wedi cyfyngu ar y graddau y derbyniodd prosiectau yn y Gogledd gyllid digonol. Cydnabuwyd y pwynt hwn gan Lywodraeth Cymru[6] yn dilyn rownd gyntaf cyllid maes 3, lle aeth y mwyafrif o'r cyllid i sefydliadau yn y De/Gorllewin. Yn yr ail rownd o gyllid, gwnaethpwyd ymdrech ar y cyd i gynyddu ceisiadau o'r Gogledd, gan arwain at fwy o ledaeniad daearyddol, yn enwedig ar gyfer prosiectau a gafodd cyllid cyfalaf.

[6] Nodyn cyngor ar ddyrannu cyllid drwy Gynllun Grantiau Diwylliant Cymru Wrth-hiliol ar gyfer Sefydliadau ar Lawr Gwlad

# 9. Gwersi a ddysgwyd

Casglwyd dysgu ac argymhellion o nifer o ffynonellau yn ystod y gwerthusiad. Isod mae trosolwg o rywfaint o'r dysgu mwyaf arwyddocaol.

## 9.2 Argymhellion cyffredinol

Mae'r rhain yn argymhellion a gododd sawl gwaith trwy drafodaethau gydag arweinwyr prosiectau, wrth gyfweld â thîm y rhaglen a chynrychiolwyr Diverse Cymru ar draws pob maes yn ogystal ag o'r adolygiad o adroddiadau EoP. Mae'r rhain wedi'u trefnu'n bum thema allweddol sydd wedi'u labelu i nodi ble y gwnaethant godi. Y themâu yw: rheoli grantiau, monitro ac adrodd, cyfathrebu, cyd-gynhyrchu a dysgu a rennir, etifeddiaeth a chynaliadwyedd, a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

### 9.1.1 Rheoli, monitro ac adrodd grantiau

1. Symleiddio'r broses wariant
2. Creu canllawiau ar sut i ddangos tystiolaeth a chyflwyno hawliadau, gan ddarparu diffiniadau o dermau technegol.
3. Cyfathrebu mwy dibynadwy ac amserol gan y cyllidwr a Diverse Cymru.
4. Taliadau cyllid cyson ac amserol a mwy o ymateb yn achos oedi.
5. Caniatáu hyblygrwydd yn y defnydd o grantiau i alluogi prosiectau i addasu i amgylchiadau sy'n newid.
6. Caniatáu hyblygrwydd wrth gyflwyno amserlenni monitro gwybodaeth, i alinio â gweithgareddau prosiect.
7. Templedi adroddiadau monitro addasiadau i gefnogi prosiectau i ddisgrifio'r broses yn hytrach na'r allbwn.

Ar draws y tri maes, gwnaed argymhellion lluosog i symleiddio'r broses wariant gydag awgrymiadau fel gofyn am sampl o anfonebau yn hytrach na phob un ohonynt, yn enwedig ar gyfer sefydliadau maes 3 sy'n gwneud nifer o daliadau bach. Awgrymwyd cefnogaeth hefyd ar gyfer maes 2, drwy greu canllawiau ar sut i ddangos tystiolaeth a chyflwyno hawliad ac esboniad o derminoleg fel beth yw 'croniadau' ac ar ba bwynt y mae angen i brosiectau roi gwybod i'r Is-adran Diwylliant am groniadau a thanwariant gan fod y rhain yn derminolegau nad oedd rhai o'r sefydliadau hyn yn gyfarwydd â nhw.

Codwyd gwell prydlondeb a chyfathrebu yn aml, yn enwedig gan arweinwyr prosiectau, gan dynnu sylw at yr angen am gyfathrebu mwy dibynadwy gan Diverse Cymru, gan gynnwys cydnabod ceisiadau a dderbyniwyd yn amserol ac adborth clir, er mwyn osgoi materion fel ceisiadau yn cael eu colli neu eu dal mewn hidlwyr sbam. Byddai sicrhau bod dyddiadau cau yn cael eu cadw a diweddariadau yn cael eu darparu trwy gydol y broses yn helpu sefydliadau i gynllunio a gweithredu eu prosiectau yn well.

Codwyd talu cyllid cyson ac amserol hefyd gan bob maes, gan fod oedi wrth ddosbarthu cronfeydd yn achosi rhwystrau sylweddol. Mae sicrhau bod grantiau'n cael eu talu ar amser ac yn y symiau y gofynnwyd amdanynt yn wreiddiol yn bwysig i dderbynwyr grant, gan fod oedi a oedd yn effeithio ar amserlenni'r prosiect wedi arwain at sefydliadau yn ceisio cyllid ychwanegol neu addasu eu cynlluniau. Byddai cael taliadau mwy rhagweladwy ac amserol wedi lleihau'r heriau hyn fel y byddai mwy o ymatebolrwydd lle mae oedi'n digwydd.

Ar draws y bwrdd, gofynnwyd am hyblygrwydd yn y defnydd o grantiau megis caniatáu i sefydliadau newid rhwng cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn ystod y prosiect. Byddai hyn yn helpu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn gwneud y broses yn fwy deinamig. Yn ogystal, byddai cynnig cymorth ychwanegol trwy gydol y camau ymgeisio a gweithredu yn helpu derbynwyr grant i reoli canlyniadau hirach na'r disgwyl.

Argymhellwyd hyblygrwydd wrth gyflenwi adroddiadau monitro fel bod derbynwyr grant yn cael eu caniatáu i alinio â'u hamserlenni prosiect a gweithgareddau yn ogystal ag addasu templedi adroddiadau monitro i'w gwneud hi'n haws i brosiectau ddisgrifio'r hyn y maent yn ei wneud i drafod proses yn hytrach nag allbwn, yn enwedig yn ystod camau datblygu tasgau prosiect penodol.

### 9.1.2 Cyfathrebu

1. Hyrwyddo cyllid ArWAP yn fwy o fewn mannau VSCE ar lawr gwlad.
2. Hyrwyddo a dosbarthu'r gronfa o fewn ardaloedd o Gymru sy'n derbyn llai o gyllid yn draddodiadol.

3. Hyrwyddo a llwyfannu gwaith sefydliadau diwylliannol, crewyr ac artistiaid Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, yn benodol o amgylch dyddiadau diwylliannol arwyddocaol i gymunedau
4. Hwyluso partneriaethau a chydweithrediadau rhwng sefydliadau a arweinir gan bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol a sefydliadau diwylliannol prif ffrwd, cynghorau celfyddydau, a diwydiannau creadigol.

Argymhellodd cynrychiolwyr meysydd 2 a 3 y dylid hyrwyddo'r ArWAP a chyllid arall yn fwy, gan sicrhau bod grwpiau cymunedol yn gweld cyfleoedd ac yn cael eu hannog i wneud cais. Gwnaed awgrymiadau i lunio rhestr o gysylltiadau allweddol ar draws pob grŵp cymunedol yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am gyfleoedd i fod yn rhan o'r gronfa hon, naill ai fel derbynwyr grant neu drwy gefnogi sefydliadau eraill. Pwysleisiwyd bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ardaloedd yng Nghymru sy'n derbyn llai o gyllid, er enghraifft, nododd cyfranogwr ym maes 3 fod llawer mwy o sefydliadau llwyddiannus o goridor yr M4 na rhannau eraill o Gymru yn ystod rownd gyntaf maes 3, e.e. Casnewydd, Caerdydd, Abertawe gan fod y rhan fwyaf o'r ceisiadau wedi dod oddi yno. Ceisiodd Diverse Cymru fynd i'r afael â hyn ar gyfer yr ail rownd drwy weithio gyda Chydlynydd Cydlyniant Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru a chynnal sesiwn ymgysylltu gyda Hwb Amlddiwylliannol Gogledd-ddwyrain Cymru.

> "Felly, fe wnaethon ni weithio gyda [enw Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru] yn Wrecsam a oedd yn wych ac fe wnaethon ni sesiwn ymgysylltu yn benodol ar gyfer y Gogledd ac arweiniodd hynny at fwy o geisiadau. Felly, roedden ni'n hapus iawn am hynny." Diverse Cymru, ID9

Argymhellwyd gweithgarwch hyrwyddo a gwelededd trwy ddigwyddiadau a gwyliau a noddir gan y llywodraeth hefyd, i lwyfannu gwaith sefydliadau diwylliannol, crewyr ac artistiaid Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, yn benodol o amgylch dyddiadau diwylliannol arwyddocaol i gymunedau. Gall hyn helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfraniadau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i ddiwylliant Cymru ac annog mwy o ymgysylltu a chyfranogiad gan gymunedau amrywiol. Gallai hyn hefyd gynnwys cydweithio ag allfeydd cyfryngau i ymhelaethu ar straeon a gwaith gan artistiaid a sefydliadau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol. Awgrymwyd hefyd hwyluso

partneriaethau a chydweithrediadau rhwng sefydliadau a arweinir gan bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol a sefydliadau diwylliannol prif ffrwd, cynghorau celfyddydau, a diwydiannau creadigol. Gall y partneriaethau hyn hwyluso cyfnewid gwybodaeth, rhannu adnoddau, a rhaglennu trawsddiwylliannol sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sector.

### 9.1.3 Cyd-gynhyrchu a dysgu a rennir

1. Ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau cyn cynllunio prosiect/cais i ddeall eu hanghenion diwylliannol a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu.
2. Datblygu mentrau wedi'u targedu sy'n ymateb i dirwedd ddiwylliannol amrywiol ac esblygol Cymru
3. Gosod disgwyliadau ar gyfer cyd-gynhyrchu gwirioneddol ac uwchsgilio'r sector, gan sicrhau bod prosiectau a ariennir yn ymgynghori â chymunedau'n bwrpasol.
4. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i wneud mwy o gyd-gynhyrchu mewnol, gan wahodd ac annog mwy o gynrychiolwyr pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol i fod ar fyrddau gwneud penderfyniadau, gan weithredu fel model rôl i'r sector.
5. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir yn ystod cyllid, yn enwedig cefnogi cyrff hyd braich a'r rhai maent yn gweithio gyda nhw.

Argymhellwyd o feysydd 1, 2 a 3 y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu mwy o adnoddau i ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau cyn cynllunio prosiectau/ceisiadau i ddeall eu hanghenion diwylliannol, a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gyfleoedd diwylliannol a chreadigol i weithio gyda'i gilydd i nodi beth sydd ei angen a ble. Gall hyn lywio'r gwaith o ddatblygu mentrau wedi'u targedu a sicrhau bod y cymorth a roddir gan y llywodraeth yn ymateb i dirwedd ddiwylliannol amrywiol ac esblygol Cymru. Er enghraifft, tynnodd prosiect Roma ym maes 3 sylw at y ffaith bod angen i'r gymuned Roma reoli prosiectau eu hunain gan nad oes gan grwpiau neu sefydliadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau am brosiectau gynrychiolaeth Roma.

Yn ogystal, dylai prosiectau a ariennir ymgynghori â chymunedau yn hytrach na dweud wrthynt beth sydd ei angen arnynt. Argymhellwyd y dylai'r Is-adran Diwylliant wneud mwy i annog prosiectau i fod yn gyd-greadigol a datblygu gweithgareddau o syniadau

aelodau'r gymuned. Teimlwyd bod diffyg dealltwriaeth o'r hyn y mae gwir gyd-gynhyrchu yn ei olygu a'r gofynion, a sut i'w wneud yn bwrpasol ac yn ddiogel. Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru uwchsgilio'r sector drwy weithdai neu gyfarwyddyd ynghylch hyn ar gyfer rowndiau cyllido yn y dyfodol.

Roedd un cyfwelai grŵp 2 yn teimlo y dylai fod cosbau i sefydliadau sy'n ymgysylltu'n wael â chyd-gynhyrchu neu'n ei wneud yn anfrwdrydig, heb gymryd yr amser a'r ymdrech angenrheidiol i ymgysylltu â chymunedau yn ystyrlon. Pwysleisiwyd hyn yn arbennig ar gyfer maes 1 gan fod angen i leisiau'r bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan hiliaeth fod ar flaen y gad.

> "Mae cynnwys safbwyntiau gan gymunedau Mwyafrif Byd-eang yn rhan o gyfrifoldebau sefydliadau treftadaeth o ran stiwardiaeth, datblygu gwybodaeth a dilysrwydd." Cyfwelai Grŵp 2

> "Pan fydd sefydliadau mawr Cymru gyfan yn cael cyllid ac maen nhw'n dod i'w ddarparu yn y Gogledd, ni waeth pa mor dda yw eu bwriad pan maen nhw'n dweud eu bod nhw eisiau dod i gyflawni gyda'ch sefydliadau, nid yw'n adlewyrchu anghenion y gymuned" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 7

O ran cyd-gynhyrchu mewnol, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru weithredu fel esiampl i'r sector. Dylent annog a gwahodd mwy o gynrychiolaeth o bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol ar eu byrddau gwneud penderfyniadau, nid dim ond ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a ariennir fynd ati i gyd-gynhyrchu. Adleisiwyd hyn ym maes 3 gydag argymhellion i gynnwys mwy o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol 'wrth y bwrdd' yn Llywodraeth Cymru gan mai dim ond os daw gan y bobl sydd angen eu cefnogi y gellir gweithredu newid. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn arweinydd i eraill ei ddilyn trwy arddangos eu hagenda cynhwysiant eu hunain a'u dull gwrth-hiliol. Drwy weithredu fel model rôl i'r sector, gall Llywodraeth Cymru ysbrydoli cynrychiolaeth a chyfranogiad amrywiol mewn cyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau, pwyllgorau cynghori a phaneli cyllido sy'n gysylltiedig â phrosiectau diwylliannol a chreadigol, a'r celfyddydau a'r seilwaith diwylliannol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol yn cael eu clywed a bod eu hanghenion yn cael eu hystyried yn ddigonol mewn polisi a rhaglennu.

Gofynnodd meysydd 1 a 2 am fwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir yn ystod y prosiectau, yn enwedig cefnogi cyrff hyd braich a'r rhai y maent yn gweithio gyda nhw trwy hwyluso cyfleoedd o'r fath yn ystod y prosiect. Yn ogystal, dylai'r cyllidwr rannu'r hyn a ddysgwyd gyda'r sector er mwyn ysbrydoli sefydliadau eraill i fabwysiadu arferion tebyg a chreu cyfleoedd mwy cynhwysol. Un alwad a gafwyd gan faes 2 oedd annog cyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon i weithio gyda'i gilydd a rhannu megis cyfeirio pobl at chwaraeon eraill a chynnal gwyliau aml-chwaraeon fel bod pobl yn gallu penderfynu pa gamp sy'n iawn ar eu cyfer nhw.

### 9.1.4 Gwaddol a chynaliadwyedd

1. Pwyslais ar effeithiau tymor hir, nid canlyniadau tymor byr.
2. Mae angen cyllid tymor hwy, yn enwedig ar gyfer sefydliadau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol fel y gallant gael gafael ar adnoddau i ffynnu.

Mynegwyd pwyslais ar effeithiau tymor hir, nid canlyniadau tymor byr ar draws pob maes, er i'r her sy'n wynebu'r Is-adran Diwylliant wrth weithio o fewn cyllid tair blynedd gan Lywodraeth Cymru gael ei nodi. Mae angen cyllid tymor hwy, yn enwedig ar gyfer sefydliadau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol fel y gallant gael gafael ar adnoddau i ffynnu. Bydd cyllid sy'n galluogi sefydliadau i dyfu eu capasiti, cynyddu maint eu digwyddiadau, fforddio staff llawn amser, tîm ymroddedig a seilwaith cynaliadwy yn helpu sefydliadau i gynllunio a chyflawni mentrau a phrosiectau diwylliannol effeithiol.

Byddai cyllid parhaus yn sicrhau bod prosiectau ArWAP a'r genhadaeth yn gyffredinol yn gallu cael eu datblygu ac nad ydynt yn dychwelyd i'r 'sefyllfa flaenorol' ar ôl y rownd ariannu hon. Adleisiwyd hyn gan un o gyfranogwyr grŵp 4 (a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a ariannwyd) a fynegodd ddryswch mai 2030 yw nod ArWAP ond bod y cyllid a ddyrannwyd dros 5 mlynedd yn brin o hyn.

### 9.1.5 Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fel cyllidwr

1. Bod yn ymwybodol o 'ddeinameg elyniaethus' bosibl a all gael ei hachosi pan fydd cymunedau sy'n dioddef toriadau mewn gwasanaethau neu gyfleoedd yn gweld cynnydd mewn cyllid ar gyfer gwrth-hiliaeth.

2. Ffocws ar ddatblygu, gweithredu a defnyddio polisïau gwrth-hiliaeth yn y sector diwylliannol i atal sefydliadau nad ydynt yn gweithredu yn y ffordd hon rhag achosi niwed wrth gyflwyno gweithgareddau gwrth-hiliaeth.
3. Dod i adnabod sefydliadau ar lawr gwlad, cwrdd â chymunedau a derbynwyr grant sy'n cyflawni'r gwaith.

Soniwyd efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o 'ddeinameg elyniaethus' bosibl a all gael ei hachosi pan fydd cymunedau sy'n dioddef toriadau mewn gwasanaethau neu gyfleoedd yn gweld cynnydd mewn cyllid ar gyfer gwrth-hiliaeth. Mae hyn yn cysylltu ag argymhellion ehangach ynghylch deall a chefnogi addysg ac integreiddio trawsddiwylliannol trwy weithio i gynyddu derbyn cymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol gan gymunedau Cymreig a phobl Wyn.

Gall datblygu a gweithredu polisïau gwrth-hiliaeth helpu gyda hyn, trwy orfodi strategaethau sy'n hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-wahaniaethu yn y sector diwylliannol oherwydd gall ariannu sefydliadau i gyflogi pobl a chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, ymgysylltu â nhw a chyflawni ar eu cyfer wneud mwy o niwed nag o les yn y tymor byr, ac o bosibl hefyd yn y tymor hir, os nad ydyn nhw eu hunain yn wrth-hiliol.

Yn olaf, gwnaethpwyd ceisiadau i Lywodraeth Cymru dreulio mwy o amser yn dod i adnabod sefydliadau ar lawr gwlad a bod ag 'esgidiau ar y ddaear', gan gwrdd â chymunedau a derbynwyr grant sy'n gweithio gyda phobl o ddydd i ddydd. Adleisiwyd hyn gan un o'r rhai o grŵp 2 a ymatebodd i'r arolwg (pobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd i weithio ar brosiectau a ariannwyd) a bwysleisiodd cyn lleied yr oeddent yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'u prosiect, neu yn ei ddeall. Codwyd hyn ymhellach gan sefydliadau ym meysydd 2 a 3 a rhai o grŵp 2 a gyfwelwyd a fynegodd y byddai ymweliadau gan y cyllidwr yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi.

### 9.3 Argymhellion ar gyfer gwella profiad pobl a gyflogir neu a gomisiynir i weithio ar brosiectau a ariennir.

Cododd pobl a gyflogwyd neu a gomisiynwyd i gyflawni prosiectau a ariannwyd rai awgrymiadau pwysig i Lywodraeth Cymru a oedd yn canolbwyntio ar eu dyletswydd

gofal i weithwyr a gyflogir drwy gyllid ArWAP a sut y gallant gefnogi'r sector yn fwy cyffredinol.

1. Cynnal asesiadau gwrth-hiliaeth cyn-ariannu i sicrhau bod gan ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymiad cryf i wrth-hiliaeth, a ddangosir trwy arferion a pholisïau mewnol ac allanol.
2. Sefydlu ac ymarfer dim goddefgarwch o hiliaeth a llwybr ar gyfer rhoi gwybod amdani'n allanol.
3. Darparu cymorth llesiant neu gymorth arall i staff a gyflogir o fewn y prosiectau hyn, gan y gall niwed fod yn fwy tebygol wrth weithio yn y maes sensitif hwn a allai beri iddynt ail-fyw trawma.
4. Sicrhau nad yw sefydliadau yn disgwyl i staff Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol fod yn llais EDI lle mae hyn y tu hwnt i'w rôl.
5. Ni ddylai cynyddu cynrychiolaeth mewn sefydliadau lle mae mwyafrif y bobl yn Wyn fod yn ymarfer ticio bocs; dylai gael ei wneud yn bwrpasol a chyda pholisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi'r unigolion hyn.
6. Annog dull cydgysylltiedig, gan alw ar sectorau cyfan i weithio gyda'i gilydd tuag at wrth-hiliaeth.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad gwrth-hiliaeth sefydliadol cyn-ariannu i sicrhau bod gan ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymiad cryf i wrth-hiliaeth, a ddangosir trwy arferion a pholisïau mewnol ac allanol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn amddiffyn a chefnogi staff Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol mewnol neu a gomisiynir. Byddai'r asesiad ataliol hwn yn sicrhau nad yw cyllid o dan ymbarél gwrth-hiliaeth yn mynd i sefydliadau nad ydynt yn cynnal arferion gwrth-hiliol yn fewnol ac yn allanol nac yn parhau i'w cynnal.

Cafwyd enghraifft arbennig o hyn gan unigolyn yng ngrŵp 2 a gafodd ei gyflogi fel gweithiwr llawrydd o dan gyllid maes 1 ac a welodd ac a fu'n destun sawl achos o hiliaeth, gwahaniaethu a mân-weithredoedd ymosodol gan bobl mewn grym yn y sefydliad a ariannwyd. Codwyd cwestiwn ynghylch pwy sydd â'r ddyletswydd gofal wrth dalu arian wrth fynd ar drywydd gwrth-hiliaeth. Cafwyd galwadau i sicrhau nad yw hiliaeth yn cael ei goddef a bod yna lwybr i roi gwybod amdani'n allanol (e.e. i'r cyllidwr nid y sefydliad sy'n derbyn y grant).

Mae cymorth llesiant hefyd yn hanfodol, ac mae'n rhywbeth y dylai'r cyllidwr fod yn barod i'w ddarparu wrth weithio yn y maes sensitif hwn a allai beri i bobl ail-fyw trawma. Adleisiwyd hyn gan gyfwelai arall o grŵp 2 a gafodd ei hun yng nghanol darn newyddion cenedlaethol mewn perthynas â'r gronfa yr oedd yn rhan ohoni. Nododd y byddai cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar y pryd wedi golygu llawer.

> "Ar raglenni fel hyn, bydd gweithwyr Mwyafrif Byd-eang yn aml yn dod yn darged beirniadaeth neu gamdriniaeth, ac mae'n bwysig bod comisiynwyr yn meddwl am yr effaith ar yr unigolion hynny a'u dyletswydd gofal. Dydw i ddim yn beio [sefydliad] yn y ffordd y gwnaethon nhw fy nghefnogi i, ond rwy'n teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi estyn o leiaf neges o gefnogaeth neu sicrwydd." Ymatebydd i'r arolwg Grŵp 2, ID72

Argymhelliad pellach oedd na ddylai sefydliadau roi gormod ar bwysau ar staff Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i ddod yn llais EDI lle mae hyn y tu hwnt i'w rôl, er enghraifft os nad ydynt yn cael eu cyflogi'n benodol fel hyfforddwr gwrth-hiliaeth. Ni ddylai cynyddu cynrychiolaeth mewn sefydliadau lle mae mwyafrif y bobl yn Wyn fod yn ymarfer ticio bocs; dylai gael ei wneud yn bwrpasol a chyda pholisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi'r unigolion hyn. Pwysleisiwyd hefyd gan gyfwelydd yng ngrŵp 2 na ddylai fod angen i staff amrywiol fod o gefndiroedd academaidd, yn enwedig os yw'r rôl o fewn y gymuned. Caiff hyn ei weld yn aml wrth gyflogi staff Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, lle y caiff gweithwyr academaidd proffesiynol eu cyflogi o flaen rhywun sydd â llai o 'gymwysterau' sydd â phrofiad o weithio'n agos gyda chymunedau y mae ei sgiliau yn fwy perthnasol i ffynnu yn y rôl.

Cyfeiriodd unigolion yng ngrŵp 2 hefyd at yr angen am ddull cydgysylltiedig sy'n cefnogi ac yn galw ar sectorau cyfan i weithio gyda'i gilydd tuag at wrth-hiliaeth. Cafodd hyn ei leisio'n benodol o ran amgueddfeydd; nodwyd y dylai pob amgueddfa fabwysiadu dull wedi'i dargedu gyda'i gilydd i ddad-drefedigaethu a myfyrio ar y rhai maen nhw'n eu gwasanaethu a chyda pha wybodaeth.

> "Bod yn fyfyriol a meddwl ar gyfer pwy ydyn ni yma? Beth yw ein pwrpas? Os mai ein pwrpas yw adrodd straeon mewn hanes, ar gyfer pwy rydyn ni'n eu hadrodd? O ble rydyn ni'n eu cael? Ble rydyn ni'n eu rhoi? A phwy ydyn ni'n eu

gwasanaethu gyda nhw a myfyrio ar hynny ac yna mynd oddi yno." Cyfwelai Grŵp 2

### 9.4 Argymhellion ar gyfer gwella mynediad at fannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon

Trwy ymgynghori â phobl a fynychodd brosiectau a ariannwyd, awgrymwyd yn aml bod angen:

1. Mwy o offer a chyfleusterau neu rai gwell i gefnogi gweithgareddau a ariennir.
2. Mwy o integreiddio â phobl leol yng Nghymru a allai gael ei gefnogi drwy sicrhau bod gwahanol grwpiau yn cael eu derbyn yn fwy.
3. Ariannu'r gwaith o gynnal yr hyn sydd eisoes ar gael, nid dim ond gweithgareddau newydd.
4. Cynyddu amlder a hyd gweithgareddau, gan sicrhau bod modd cyflawni'n barhaus a chynnwys pobl sy'n symud.
5. Cynyddu cyfleoedd i grwpiau penodol e.e. pobl ifanc, merched, y rhai nad ydynt mewn addysg mwyach, pobl yn y gymuned LHDTC+, y rhai sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol neu sydd mewn perygl o gael eu hynysu.
6. Dylai cyfleoedd fod yn ysbrydoledig ac yn ysgogol i ennyn diddordeb pobl a allai fod â llai o ddiddordeb, e.e. taith i Wimbledon i annog pobl ifanc i ddechrau chwarae tennis.
7. Mae angen i fannau fod yn gynrychioliadol ac adlewyrchu amrywiaeth pobl yng Nghymru, nad yw'n wir yn aml mewn rhai mannau chwaraeon neu ddiwylliannol.

Trwy ymgynghori â phobl a fynychodd brosiectau a ariannwyd, awgrymwyd yn aml bod angen mwy o offer a chyfleusterau neu rai gwell i gefnogi'r gweithgareddau a fynychir, megis mannau mwy a dulliau trafnidiaeth. Fel arall, nododd rhai y gall eu heffaith a'u cyrhaeddiad fod yn eithaf cyfyngedig. Soniwyd am yr awydd hwn i gyrraedd mwy o bobl gan lawer o gyfranogwyr a fynegodd y byddai eu digwyddiadau neu weithgareddau yn well pe byddent yn cynnwys mwy o bobl, boed yn bobl a allai elwa o'r gweithgaredd neu'r rhai mewn gwahanol rannau o'r wlad. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â'r angen am fwy o integreiddio â phobl leol yng Nghymru, ac awydd cryf i rannu profiadau diwylliannol gyda chymunedau lleol a dysgu oddi wrthynt. Roedd

rhai pobl yn teimlo bod angen mwy o dderbyniad gan rai grwpiau er mwyn cyflawni hyn. Roedd awydd cryf am fwy o gyfleoedd i gynnal digwyddiadau gyda'r rhai o wahanol ddiwylliannau a rhannu a dathlu traddodiadau, bwyd ac arferion eraill.

> "Mae mynediad at offer yn hanfodol oherwydd mae prosiectau cerddoriaeth yn ddrud, sy'n digalonni llawer o artistiaid. Mae gallu mynd i mewn i stiwdio gyda mentoriaid profiadol yn amhrisiadwy" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 8

> "Mwy o gyfleusterau i'r gymuned – unrhyw fath o gamp. Rhai sy'n agored i'r gymuned, cyfleusterau cyhoeddus" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 2

> "Mwy o weithgareddau a digwyddiadau sydd wedi'u teilwra i ddathlu diwylliant mewn perthynas â diwylliant Cymru" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 3

> "Pobl o Gymru i gymryd rhan gyda ni fel y gallwn ni glywed am eu diwylliant, eu dawnsfeydd a'u traddodiadau" Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 4

Roedd rhai mynychwyr eisiau cynnal yr hyn a oedd eisoes ar gael, nid o reidrwydd gweithgareddau newydd. Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r cyfle a roddwyd gan y derbynnydd grant ac roedden nhw eisiau iddo barhau gan ei fod yn darparu buddion pellgyrhaeddol iddyn nhw a'u cymunedau. I'r bobl hyn, y prif ofyniad oedd ffordd o gynyddu amlder neu hyd yr hyn a oedd ar gael neu ei alluogi i redeg trwy gydol y flwyddyn a pheidio â chael ei gyflwyno'n ysbeidiol, ac i allu cynnwys mwy o bobl. Adleisiwyd hyn gan lawer o bobl eraill a fynegodd yr angen am gynnydd mewn cyllid i alluogi hyn yn ogystal â chymorth a chefnogaeth gan bobl â chyfalaf cymdeithasol uchel neu bŵer gwleidyddol. Mewn un enghraifft, sicrhaodd y cyllid fod llif o gefnogaeth i sefydliadau llai na fyddent yn bodoli hebddo oherwydd y cymorth a roddwyd i gael mynediad at gyllid. Teimlwyd y dylai cyllid ar gyfer yr achos hwn fod yn hirdymor, ac y dylai alluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar y cymorth maent yn ei roi a pheidio â gorfod ceisio cyllid i oroesi byth a beunydd.

> "Nid yw'n gwneud synnwyr i'r cyllid stopio yn 2024 os mai'r nod gwrth-hiliaeth yw 2030. Ddylen ni ddim bod yn gwneud cais am gyllid yma ac acw, dylai fod yn rhan o system y llywodraeth, a dylen ni ddim bod yn parhau i wneud cais, 'na' yn y fan yna, 'na' yn y fan acw. Mae'n cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith pwysig rydyn ni'n ei wneud." Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 7

> “Mae angen cymorth cyfalaf dynol arnom gan bobl mewn grym” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 4

> “Datblygu grwpiau a digwyddiadau presennol i gyrraedd lleoedd a grwpiau a phobl ehangach” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 4

> “Mae’r cyllid yn rhedeg allan mor gyflym, pe bai’n para’n hirach gallen ni wneud mwy a chael mwy o effaith” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 3

Thema arall oedd cynyddu mynediad at weithgareddau i gymunedau lleiafrifol ac yn enwedig i’r bobl ynddynt y darperir llai ar eu cyfer. Pwysleisiwyd yr angen am ddull croestoriadol. Awgrymwyd y dylai fod mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â diwylliant, treftadaeth a chwaraeon (yn enwedig i ferched a phobl ifanc 18-25 oed nad ydynt mewn addysg mwyach) a grwpiau a allai wneud gyda chymorth penodol fel pobl yn y gymuned LHDTC+ a’r rhai sydd wedi’u hynysu’n gymdeithasol neu sydd mewn perygl o gael eu hynysu. Er mwyn gwneud hyn, nodwyd bod yn rhaid i gyfleoedd fod ar gael yn gyntaf, a bod angen i’r cyfleoedd hyn fod yn ysbrydoledig ac yn ysgogol er mwyn ennyn diddordeb pobl. Er enghraifft, gallent gynnwys cyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau sy’n llai hygyrch yn draddodiadol, neu roi rhywbeth i bobl y gallant fynd ag ef adref gyda nhw o weithgareddau fel offer chwaraeon parhaol neu gitiau, i ennyn balchder ac ymdeimlad bod buddsoddiad yn cael ei wneud ynddynt. Yn ogystal â hyn, mae’n bwysig bod mannau yn gynrychioliadol ac yn adlewyrchu amrywiaeth pobl yng Nghymru gan nad yw hyn yn wir yn aml mewn chwaraeon neu fannau diwylliannol penodol.

> “Os yw’r cyllid yn seiliedig ar wrth-hiliaeth, byddai wedi bod yn ystyrlon ymgorffori thema unedig, gan ddod â gwahanol genres at ei gilydd ar gyfer neges ar y cyd.” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 8

> “Cyfleoedd i fynd ar deithiau i ddigwyddiadau chwaraeon fel Wimbledon” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 2

> “Mae mynediad at gyfleusterau yn haws i fyfyrwyr, ond unwaith rydych chi’n annibynnol, mae’n anoddach defnyddio adnoddau oherwydd eich amserlen waith. Mae slotiau’n llenwi’n gyflym ar y penwythnos, a dim ond yn ystod y dydd mae rhai cyfleoedd yn digwydd.” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 7

“Dydy rhai pobl ddim yn mynd i lyfrgelloedd yng Nghymru oherwydd dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli. Mae pobl yn dweud nad ydyn nhw’n amrywiol iawn” Cyfranogwr Grŵp 4, Sefydliad 6

## 9.5 Argymhellion ar gyfer monitro a gwerthuso

Isod, cyflwynir argymhellion ychwanegol i Lywodraeth Cymru i gefnogi monitro a gwerthuso’r math hwn o grant yn y dyfodol. Mae’r argymhellion hyn yn seiliedig ar asesiad cyffredinol y tîm gwerthuso o’r data a ddarparwyd ac a gasglwyd. Er nad yw’n niweidiol i’r gwerthusiad, byddai mynd i’r afael â’r argymhellion hyn mewn rowndiau cyllid yn y dyfodol yn cefnogi mwy o eglurder ar gyfer rhai cwestiynau ymchwil. Byddai argymhelliad chwech yn sicrhau bod modd ymgorffori awgrymiadau o’r fath mewn dogfennau cais am grant a rheoli grant cyn eu cyflwyno.

1. Cadw gwybodaeth gynhwysfawr am bob cais i’r gronfa (gan gynnwys ceisiadau aflwyddiannus).
2. Cael caniatâd i werthuswyr gysylltu â cheisiadau aflwyddiannus i ddeall eu barn a’u profiadau.
3. Ystyried pa nodau a chamau gweithredu ArWAP sy’n cael sylw wrth wneud penderfyniadau ar ba brosiectau i’w hariannu (er mwyn sicrhau lledaeniad ar draws y nodau).
4. Casglu gwybodaeth am y bobl a gyflogir neu a gomisiynir fel rhan o brosiectau a ariennir gan gynnwys manylion am natur eu cyfranogiad a’r hyn fydd yn digwydd i’w rôl ar ddiwedd y prosiect.
5. Sicrhau bod gofynion adrodd yn gliriach fel bod gwybodaeth ddemograffig yn cael ei chasglu.
6. Yn y dyfodol, comisiynu gwerthusiadau ar ddechrau’r cyllid er mwyn sicrhau bod gwerthuswyr yn gallu datblygu perthnasoedd â phrosiectau ac ennyn dealltwriaeth ddyfnach o sut mae’r grant wedi’i gymhwyso yn ymarferol.

## 10. Casgliadau

Mae'r gwerthusiad hwn wedi rhoi golwg fanwl ar sut mae grant CHS ArWAP wedi gweithredu a'r hyn y bu modd iddo ei gyflawni.

### 10.1 Mae prif lwyddiannau'r gronfa grantiau yn cynnwys:



Cronfa wedi ei rheoli'n dda, gyda phroses ymgeisio glir a dull gefnogol o reoli grantiau.



Dull arloesol o ariannu sefydliadau ar lawr gwlad, dan arweiniad Diverse Cymru, a lwyddodd i greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol o adeg y cais a thrwy gydol y prosiect.



Pwyslais allweddol ar ymgysylltu a chydweithredu â chymunedau (gwelwyd tystiolaeth o hyn ym mhob maes).



Creu a datblygu partneriaethau rhwng sefydliadau mewn gwahanol feysydd.



Dechrau newid sefydliadaol, a rhywfaint o dystiolaeth o newid mewn blaenoriaethau sefydliadol ac ymgais i wneud y gweithlu'n fwy amrywiol.



Ymdrech gydlynol i wneud mannau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon yn fwy amrywiol a hygyrch.



Tystiolaeth o ganlyniadau ar ystod o lefelau, gan gynnwys ar unigolion a chymunedau; yn amrywio o ddatblygu sgiliau i gydlyniant cymdeithasol.

**10.2 Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hefyd wedi nodi rhai bylchau allweddol (ar sail nodau a fwriadwyd y gronfa grant), gan gynnwys:**

- Ychydig iawn o ymgysylltu â chymunedau Sipsi, Roma, a Theithwyr. Er gwaethaf y ffaith bod hwn yn bwyslais allweddol i Lywodraeth Cymru, dim ond un prosiect a ariannwyd a oedd yn gweithio'n benodol gyda'r grŵp hwn (ac nid oedd modd i'r prosiect hwnnw barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben). Mae prosiectau eraill yn debygol o fod wedi gweithio gyda phobl o'r cymunedau hyn ond mae diffyg cofnodi mewn adroddiadau EoP yn golygu na ellir gwneud casgliadau pendant ar hyn.
- Mater pwysig a gododd yn y gwerthusiad hwn oedd profiad pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol sydd wedi gweithio ar brosiectau a ariannwyd gan ArWAP ac sydd wedi cael profiadau negyddol o'r sefydliad a ariannwyd. Mae'r mater hwn yn codi cwestiwn pwysig am gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a sefydliadau a ariennir i sicrhau bod pobl â phrofiad bywyd o hiliaeth yn cael cymorth bugeiliol (yn annibynnol ar y sefydliad) a bod arfer gwrth-hiliol yn cael ei weithredu ar bob lefel.
- Mae dadansoddiad o adroddiadau EoP yn awgrymu bod tystiolaeth o gyflawni nodau ArWAP yn amrywiol. Mae llai o dystiolaeth ar gyfer rhai nodau a chamau gweithredu nag eraill. Mae hyn yn debygol oherwydd y ffaith bod penderfyniadau ariannu yn seiliedig ar sgorio'r ceisiadau yn hytrach na mapio pa nodau a chamau gweithredu yr oeddent yn mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn rhywbeth i'w ystyried ar gyfer cylchoedd ariannu yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, roedd yn amlwg bod llawer o brosiectau maes 2 wedi ei chael yn anodd alinio eu gweithgareddau â'r nodau a'r camau gweithredu.
- Mae'r effaith ar newid sefydliadol yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Mae hyn yn ddealladwy gan y bydd yn cymryd amser i newid ffyrdd sefydledig o weithio, a chydnabuwyd hyn gan lawer o'r cyfranogwyr y siaradwyd â nhw. Nid yw'n amlwg ar hyn o bryd a fydd yr hyn a ddysgwyd o'r cyllid yn effeithio ar ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae cynaliadwyedd y gronfa grantiau (ym maes 1 yn arbennig) yn aneglur. Er y dylai gwreiddio nodau ArWAP fod yn 'fusnes fel arfer' i gyrff hyd braich, nododd y cyfranogwyr y siaradwyd â nhw eu pryderon

am eu capasiti i barhau â'r gwaith hwn heb gyllid ychwanegol (yn enwedig o ystyried y paramedrau llym sydd ar waith ar gyllid Llywodraeth Cymru). Mae potensial i hyn effeithio ymhellach ar gymunedau y maent wedi ymgysylltu â nhw, gan y gallai dod â'r gwaith hwnnw i ben ddadwneud yr ymddiriedaeth a ddatblygwyd.

Ar ben hyn, er bod y gwerthusiad wedi gallu ateb y mwyafrif helaeth o'r cwestiynau ymchwil a nodwyd ar ddechrau'r gwerthusiad hwn, mae rhai na ellir eu hateb, yn bennaf oherwydd diffyg data. Mae'r rhan nesaf yn amlinellu'r prif fylchau mewn data a allai fod wedi effeithio ar y gwerthusiad.

## 10.3 Cwestiynau heb eu hateb oherwydd prinder data

Data cyfyngedig ar bwy a ymgysylltodd â'r prosiectau a ariannwyd – er gwaethaf y ffaith bod templed adroddiad EoP yn gofyn am fanylion y bobl a oedd wedi ymgysylltu â gweithgareddau'r prosiect a ariannwyd, nid oedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau ar y prosiectau yn cynnwys y wybodaeth hon. Mae rhai adroddiadau yn awgrymu nad oedd y prosiectau yn ymwybodol bod angen iddynt gasglu'r wybodaeth hon sy'n golygu bod deall cyrraedd y gronfa grantiau yn heriol.

Nid oedd data ar gael ar brosiectau aflwyddiannus. Fel yr amlinellwyd yn y bennod ar fethodoleg, roedd tîm y gwerthusiad wedi gobeithio cael data ar yr holl geisiadau grant i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o nodweddion a phrofiadau prosiectau aflwyddiannus. Byddai hyn wedi helpu i ddeall y graddau yr oedd y grant yn cyrraedd sefydliadau ar lawr gwlad (e.e. os oedd ymgeiswyr aflwyddiannus yn fwy tebygol o fod yn sefydliadau llai gyda chapasiti cyfyngedig i ysgrifennu ceisiadau).

Ychydig iawn o ddata a oedd ar gael ar unigolion a gyflogwyd drwy'r prosiectau a ariannwyd. Yr unig wybodaeth a gasglwyd ar hyn oedd drwy'r ymarfer mapio a gynhaliwyd gan dîm y gwerthusiad, gan nad oes cofnodion canolog yn bodoli. Ystyrir hyn yn fesur pwysig o effaith arian y grant a dylid ei gasglu yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried rhai o'r heriau a adroddwyd gan y rhai hynny a weithiodd ar y prosiectau hyn.

**Cyfeiriadau**

Diverse Cymru. (n.d.). Culture Grant Scheme. (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2025).

Llywodraeth Cymru. (2022). Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2025).

Llywodraeth Cymru. (2021). Rhaglen Lywodraethu. (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2025).

Marchal, B., van Belle, S., van Olmen, J., Hoerée, T. a Kegels, G. (2012). Is realist evaluation keeping its promise? A review of published empirical studies in the field of health systems research. *Evaluation*, 18(2), t.192–212.

Pawson, R. (2003). Nothing as Practical as a Good Theory. *Evaluation*, 9(4), t.471–490.

Pawson, R. a Tilley, N. (1997) Realistic Evaluation. Sage Publications Ltd., Llundain.

Van Belle, S., Rifkin, S. a Marchal, B. (2017). The challenge of complexity in evaluating health policies and programs: the case of women's participatory groups to improve antenatal outcomes. *BMC Health Services Research*, 17(1).

## Atodiad A – Rhestr o Atodiadau


Atodiad 1 - Theori cychwynnol y rhaglen (theori newid)

Atodiad 2 - Rhestr o sefydliadau cymunedol y gweithiodd maes 3 â nhw

Atodiad 3 - Manylion gwaddol maes 1

Atodiad 4 - Manylion gwaddol maes 2

Atodiad 5 - Manylion gwaddol maes 3

Atodiad 6 - Grwpiau rhanddeiliaid a dulliau casglu data

Atodiad 7 - Tystiolaeth o brosiectau a ariannwyd yn bodloni Nodau a Chamau Gweithredu ArWAP, Meysydd 1 a 2

## Atodiad 1 – Theori cychwynnol y rhaglen (theori newid)

| | |
|---|---|
| **Cyd-destun**<br><br>Pam mae angen y rhaglen grantiau hon? | Er gwaethaf cynnydd mewn rhai meysydd, mae hiliaeth systemig yn parhau mewn llawer o sefydliadau a sectorau ledled Cymru (ac yn wir, y tu hwnt iddi). Mae cymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru yn parhau i wynebu gwahaniaethau sylweddol o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfiawnder. Tynnodd Pandemig Covid-19 sylw at, a gwaethygodd, yr anghydraddoldebau presennol yn ein cymdeithas, gyda phobl o gymunedau lleiafrifol yn fwy tebygol o farw o ganlyniad i'r feirws. Ond datgelodd y Pandemig hefyd lefelau hiliaeth a gwahaniaethu yn ein cymdeithasau a thynnodd sylw at yr angen i sefydliadau cyhoeddus fyfyrio ar arferion hirsefydlog sy'n cael effaith andwyol ar gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.<br><br>Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn strategaeth gynhwysfawr gyda'r nod o ddileu hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ledled Cymru erbyn 2030. Mae'n hanfodol ar gyfer creu Cymru decach a mwy cynhwysol drwy ymdrin â hiliaeth systemig, hyrwyddo cydraddoldeb, a sicrhau bod lleisiau ac anghenion cymunedau ethnig lleiafrifol yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.<br><br>Mae Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru yn cynnwys meysydd gwaith Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, ac mae'n cyflawni ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys nodau Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. At ddibenion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae 'Diwylliant' yn cynnwys y Celfyddydau, yn ogystal ag Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.<br><br>Mae Cronfa Ddiwylliant Cymru Wrth-hiliol yn rhoi cyllid grant ar draws tri gwahanol faes cyflwyno rhaglenni, dros dair blynedd ariannol hyd at fis Rhagfyr 2025 i gefnogi sefydliadau ar lefel genedlaethol, leol a chymunedol i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu diwylliant, treftadaeth a chwaraeon a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. |

| | |
|---|---|
| **Nodau ac amcanion**<br><br>Beth yw nodau cyffredinol y rhaglen grantiau? | Mae Cronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol yn rhoi cyllid grant i gefnogi sefydliadau i gyflawni nodau a chamau gweithredu Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br><br>**Nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:**<br><br>▪ Arweinyddiaeth - Dwyn sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus i gyfrif am gyflawni mesurau a chamau gweithredu gwrth-hiliol, fel y nodir yn y cynllun gweithredu.<br>▪ Cyllid - Gweithio gyda'n cyrff noddedig i sicrhau eu bod yn defnyddio'u pwerau gwario i ymwreiddio arferion gwrth-hiliol, hwyluso cydraddoldeb mynediad a chanlyniadau, a gwneud y mwyaf o gyfranogiad ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.<br>▪ Dathlu amrywiaeth - Cefnogi pob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru i groesawu a dathlu ei threftadaeth ddiwylliannol amrywiol wrth ddeall a chydnabod yr hawl i gael ryddid i fynegu'ch diwylliant.<br>▪ Y naratif hanesyddol - Gweithio gyda chyrff cyhoeddus i gydnabod yn llawn eu cyfrifoldeb (unigol a chydweithredol) am osod y naratif hanesyddol cywir, hyrwyddo a chyflwyno hanes cytbwys, dilys a dad-drefedigaethol o'r gorffennol – un sy'n cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol ac effaith gadarnhaol cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.<br>▪ Dysgu am ein hamrywiaeth ddiwylliannol - Nodi a chyflawni targedau i ddarparu gwasanaethau addysg a dysgu gwrth-hiliol; gan gynnwys deunyddiau dehongli, marchnata ac addysgol sy'n cydnabod ac yn dathlu cymysgedd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol ein cymdeithas, annog ymgysylltu corfforol a deallusol eang gan felly hyrwyddo arferion ac egwyddorion gwrth-hiliol drwyddi draw.<br><br>Nod **ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu** yw cynrychioli ac adlewyrchu hanes a diwylliant pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i sicrhau bod eu cyfraniad i Gymru yn cael ei gydnabod wrth alluogi mynediad a chyfranogiad cyfartal i ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon.<br><br>Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yw 'dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau'. |

| | |
|---|---|
| **Allbynnau**<br>Yr adnoddau sy'n darparu'r rhaglen grantiau | ▪ Maes 1 - £1.8m o gyllid pwrpasol ar gyfer Cyrff a Noddir yn Genedlaethol dros dair blynedd ariannol.<br>▪ Maes 2 - £2.8m o gyllid pwrpasol ar gyfer y sector lleol dros dair blynedd ariannol.<br>▪ Maes 3 - £455,000 o gyllid pwrpasol dros ddwy flynedd ariannol.<br>▪ Tîm prosiect penodedig yn yr Is-adran Diwylliant i gyflwyno'r cynllun grantiau.<br>▪ Amser staff pwrpasol ar gyfer monitro a gwerthuso.<br>▪ Llywodraethiant a rheolaeth Llywodraeth Cymru.<br>▪ Sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd aelodau staff.<br>▪ Rôl mentoriaid cymunedol.<br>▪ Cynlluniau cyfathrebu a marchnata. |

| **Canlyniadau**<br>**(beth ddylai'r rhaglen grantiau ei gyflawni?)** | **Dulliau**<br>**(beth yw hi am y rhaglen grantiau a allai arwain at ganlyniadau?)** | **Cyd-destunau**<br>**(beth allai helpu neu rwystro'r rhaglen grantiau rhag cyflawni canlyniadau?)** |
|---|---|---|
| **Canlyniad 1) - Cynnydd tuag at gyflawni nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** – a gyflawnwyd rhai nodau i raddau mwy helaeth nag eraill? A wnaeth yr adroddiadau | **Pontio rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau** – Mae annibyniaeth Diverse Cymru a'r mentoriaid cymunedol wedi hwyluso | **Galluogwyr** |

| | | |
|---|---|---|
| grant awgrymu bod canlyniadau arfaethedig wedi'u cyflawni ac a oedd y rhain yn cyd-fynd â nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol?<br>• Arweinyddiaeth<br>• Cyllid – amrywiaeth o sefydliadau ar lawr gwlad a ariennir drwy faes 3.<br>• Dathlu amrywiaeth – amrywiaeth o brosiectau<br>• Y naratif hanesyddol<br>• Dysgu am ein hamrywiaeth ddiwylliannol<br>**Canlyniad 2) - Cynnydd tuag at gyflawni Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a** (thrwy estyniad) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –**<br>▪ Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith prosiectau a ariennir o Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.<br>▪ Tystiolaeth o sefydliadau yn 'dathlu amrywiaeth' ac yn gweithio i 'ddileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau'.<br>**Canlyniad 3) Canlyniadau ar lefel unigol**<br>• Mae pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn teimlo'n fwy abl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon. | datblygu perthnasoedd dibynadwy rhwng y Llywodraeth a sefydliadau ar lawr gwlad.<br>**Hyblygrwydd a chreadigrwydd strwythur y grant** – mae'r rhaglen grantiau wedi rhoi lefel o hyblygrwydd i brosiectau a ariennir nad yw yn aml ar gael. Mae hyn o bosibl wedi helpu sefydliadau i greu newid ystyrlon yn eu cymunedau (yn hytrach na bodloni gofynion cyllidwyr).<br>**Ymrwymiad i gyd-gynhyrchu** – mae cyfranogiad mentoriaid cymunedol a'r rhai sy'n ymwneud â'r is-grŵp atebolrwydd allanol wedi sicrhau bod gwahanol safbwyntiau wedi'u hystyried a'u gwreiddio wrth ddylunio a defnyddio'r rhaglen grantiau.<br>**Gwerth profiad bywyd** - Trwy'r mentoriaid cymunedol, personél allweddol yn Llywodraeth Cymru, Diverse Cymru a'r is-grŵp atebolrwydd allanol. Mae llawer o'r tîm dan sylw yn cynrychioli cymunedau sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth sy'n dod â dilysrwydd i'r rhaglen ac sy'n sicrhau ei bod yn ystyried ac yn cwestiynu effaith penderfyniadau. | ▪ Ymgysylltu pwrpasol â'r gymuned<br>▪ Cydweithio â chyrff hyd braich, academyddion, sefydliadau seilwaith<br>▪ Myfyrio a bod yn agored i fod yn anghywir<br>▪ Presenoldeb presennol cryf o fewn grŵp targed a/neu wybodaeth o'r grŵp targed<br>▪ Ffocws/nodau penodol, culach<br>▪ Mae **man diogel a chroesawgar** – wedi'i greu gan CHS, wedi galluogi Llywodraeth Cymru, mentoriaid cymunedol a Diverse Cymru i gael sgyrsiau gonest am yr hyn sydd angen digwydd wrth reoli'r rhaglen Grantiau.<br>▪ Roedd rôl sefydledig mentoriaid cymunedol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn eu galluogi'n ehangach i |

| | | |
|---|---|---|
| • Mae menywod a merched o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn teimlo'n fwy abl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon.<br>• Mae gan bobl o gymunedau Cymru uchelgais o weithio ar lefel uwch yn y sector diwylliant, treftadaeth neu chwaraeon.<br>• Mae cyfranogwyr yn ennill sgiliau e.e. llythrennedd digidol.<br>• Mae cyfranogwyr yn gweld gwelliannau o ran llesiant a chysylltiadau â'u cymunedau.<br>• Mae cyfranogwyr yn teimlo'n fwy cysylltiedig â diwylliant a threftadaeth Cymru.<br>**Canlyniad 4) Canlyniadau ar lefel y gymuned (ysgolion, grwpiau cymunedol)**<br>• Gall plant mewn ysgolion ledled Cymru groesawu a dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol amrywiol.<br>• Mae gan ysgolion a cholegau fwy o fynediad at gasgliadau cenedlaethol sy'n adrodd straeon am fewnfudo i Gymru.<br>• Mae sefydliadau cymunedol yn teimlo'n hyderus wrth wneud cais am gyllid yn y sector cyhoeddus. | Mae **dull hyblyg a hygyrch o ymgysylltu, ariannu a gweithio gyda sefydliadau ar lawr gwlad** gan Diverse Cymru (ffyrdd o weithio nad ydynt ar gael i Lywodraeth Cymru) wedi galluogi sefydliadau llai i gael cyllid a gweithio gyda chymunedau lleiafrifol (cyrraedd pobl na fyddai fel arall wedi elwa ar gyllid gan y Llywodraeth).<br>**Goruchwyliaeth, dealltwriaeth a her gan adrannau ehangach Llywodraeth Cymru**. Mae cyfranogiad tîm gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil ac is-grŵp atebolrwydd allanol CHS wedi herio a chefnogi'r rhaglen grantiau i ystyried nodau ehangach Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a sicrhau bod penderfyniadau'n cyd-fynd ag agendâu presennol Llywodraeth Cymru. | gael eu hystyried fel ffynonellau dibynadwy o fewn Llywodraeth Cymru.<br>**Rhwystrau**<br>▪ Nid yw'r tîm/staff cyflawni yn gynrychiadol o'r gymuned<br>▪ Amser/hyd tasgau<br>▪ Canfyddiad o wreiddiau hil/diwylliannol y sefydliad.<br>▪ Salwch staff neu broblemau personél<br>▪ Capasiti/sgiliau'r sefydliad<br>▪ Rheoliadau ar gyfer Llywodraeth Cymru ar gaffael a chyllid 'rheoli arian cyhoeddus'.<br>▪ Digwyddiadau cenedlaethol fel y terfysgoedd yn Haf 2024. |

| | | |
|---|---|---|
| • Mae digwyddiadau/prosiectau'n cael eu cydlunio a'u cyd-gynhyrchu gyda chymunedau.<br>**Canlyniad 5) Canlyniadau ar lefel sefydliadol (cyrff hyd braich, sefydliadau a ariennir)**<br>• Mae'r corff llywodraethu yn fwy cynhwysol ac amrywiol.<br>• Mae'r gweithlu yn fwy cynhwysol ac amrywiol.<br>• Mae'r gweithlu yn fwy ymatebol i unrhyw gwynion am wahaniaethu.<br>• Mae lefelau staff wedi cynyddu ymwybyddiaeth o wrth-hiliaeth.<br>• Mwy o gymryd rhan, ymgysylltu a chyfranogiad gan bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.<br>• Manteisir i'r eithaf ar gydweithredu a chynhwysiant gydag amrywiaeth o bobl o wahanol ethnigrwydd, ac mae hyn yn dod yn rhan o'r ffordd y mae cyrff cenedlaethol yn datblygu eu gwaith.<br>• Mae aelodau o'r gweithlu o ddiwylliannau ac ethnigrwydd amrywiol yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi a'u parchu yn y gweithle. | | |

| | | |
|---|---|---|
| • Mae prosesau casglu/cofnodi data ar faterion sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi gwella.<br>• Mae sefydliadau'n dangos ymrwymiad i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br>• Mae prosesau dethol/recriwtio yn galluogi sefydliadau i fonitro a gwerthuso amrywiaeth ethnig a diwylliannol eu gweithlu.<br>• Mae sefydliadau'n dangos newid yn eu hagwedd wrth recriwtio/cadw/datblygu staff.<br>• Mae sefydliadau ar lawr gwlad yn dangos twf mewn arweinyddiaeth ac arferion sefydliadol.<br>**Canlyniad 6) Canlyniadau ar lefel gymdeithasol**<br>• Lleihau'r rhwystrau sy'n wynebu pobl Ddu, Asiaidd a ac ethnig leiafrifol mewn mannau diwylliannol.<br>• Mae mannau diwylliannol (rhithwir a ffisegol) yn cynnig casgliad mwy amrywiol a dilys sy'n gynrychiadol o'i gymunedau.<br>• Mwy o ymwybyddiaeth o gynnig Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a CHS. | | |

| | | |
|---|---|---|
| • Mae mwy o amrywiaeth ethnig a diwylliannol yn natur mannau diwylliant/treftadaeth/chwaraeon yng Nghymru. | | |

| | |
|---|---|
| **Effeithiau hirdymor** | ▪ Newid mewn agweddau at wrth-hiliaeth yn gyffredinol a sut mae’r rhain wedi’u gwreiddio ar draws pob lefel - h.y., newid yn y sector tuag at wrth-hiliaeth ar lefel sefydliadol, prosiect a chymunedol.<br>▪ Mwy o ymgysylltu ag aelodau cymunedol amrywiol fel dull safonol yn y dyfodol - cymunedau amrywiol yn rhan o’r newid.<br>▪ Cyrff hyd braich a sectorau lleol yn defnyddio dull gwahanol i ddathlu amrywiaeth ethnig a diwylliannol.<br>▪ Mwy o amrywiaeth o ran pwy sy’n cael mynediad at fannau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon, gyda mwy o gynrychiolaeth ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.<br>▪ Mae gwrth-hiliaeth wedi’i sefydlu yng ngwaith craidd sefydliadau. |

## Atodiad 2: Rhestr o’r sefydliadau cymunedol y gweithiodd maes 3 â nhw

- EYST a Gorilla Media (prosiect creu digidol)
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chanolfan India Caerdydd (ar gyfer prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Girmitya)
- GROW Cymru yn Abertawe (ar gyfer prosiect sy’n arddangos tecstilau a ffasiwn Nigeria)
- Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Academi Heddwch, Span Arts a The Place yng Nghasnewydd (digwyddiadau perfformio i’r côr i bobl sy’n chwilio am noddfa)
- Young Muslim Community Organisation, ac ymarferwyr lleol creadigol wedi’u lleoli yng Nglan yr Afon a The Place (ar gyfer prosiect hanes llafar wedi’i gyhoeddi ar ffurf llyfr)
- Canolfan Gymunedol Tre-biwt yng Nghaerdydd a Black Heritage Cymru yng Nghasnewydd (ar gyfer gweithgaredd lles domino)
- Yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd (ymweliad fel rhan o weithgaredd dosbarth Cwrdeg)
- Grŵp hip hop Avant Cymru yn Wrecsam, Clwb Dawns WISP a grŵp Portiwgaleg CLPW (ar gyfer prosiect coreograffi dawns)
- Sanatam Mandir a’r Sri Dasmais Singh Sabha Gurdwara, Caerdydd (i gysylltu ag aelodau o’r gymuned o’r cymunedau Hindŵaidd a Sicaidd ar gyfer prosiect hanes llafar), ac EYST, The Mentor Ring a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- The Cwmbwrlele Ukestra, Ptasie Radio, Dawns Gymreig Kathy Breton, Brazil Samba, Indian Dance Family, Chinyere Chukwudi-Okeh am ei Straeon Barddonol: Chinyere Chukwudi-Okeh, bardd a storïwr talentog, Grŵp Perfformio Diwylliannol NGANGA, Cyfeillion Anabl Ifanc, Cwmni Theatr The Rising Stars, Canolfan Gymunedol Affricanaidd, Cymdeithas Tsieineaidd yng

Nghymru (ar gyfer prosiect sy'n darparu gweithdai dawns draddodiadol i bobl hŷn)

- Theatr Glan yr Afon, Cobra Music, Community House, a Ballet Cymru [ar gyfer prosiect cerddoriaeth, dawns a chelfyddydau Roma).
- Pentref Rastafari, Montego Bay, Jamaica, Cyngor Celfyddydau Cymru (prif gyllidwr yr ŵyl), Caribbean Heritage Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a Chyngor Dinas Casnewydd (ar gyfer Gŵyl Reggae)
- Gigi George, Dr Pradeepan ac Amarjit Kingra (ar gyfer rhaglen o ffilmiau Indiaidd)
- Race Council Cymru (ar gyfer prosiect henuriaid Windrush)
- Coleg Cambria (ar gyfer côr amlddiwylliannol)
- Prosiect Harmindise (ar gyfer prosiect drymio Affricanaidd)
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru (ar gyfer prosiect hanes VR)
- Canolfan Gymunedol Tre-biwt (ar gyfer gweithgareddau Celfyddydau Somali)
- Screen Alliance Wales, Great Point Seren Studios (ar gyfer prosiect gwneud ffilmiau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6)
- Sioe Dalent a Ffasiwn Abertawe (ar gyfer prosiect gyda gweithgareddau sy'n dathlu amrywiaeth)
- Ymddiriedolaeth Treftadaeth De Asia, Grŵp Menywod Bangladesh, Aurav Disha, Academi Rekha Natya, Canolfan Gymunedol Tre-biwt, Cymdeithas Telugu Cymru, Cymdeithas Menywod Indiaidd Cymru, United Sri Lankans in Wales, Grŵp Rhieni Cathays, Grŵp Ymgysylltu â Chymuned y Lluoedd Arfog (ar gyfer prosiect diwylliannol sy'n dathlu treftadaeth De Asia).

## Atodiad 3: Manylion gwaddol maes 1

- **Bydd prosiect Chwaraeon yn parhau i ymgysylltu â chymunedau** drwy eu Cynghorydd Buddsoddi Cymunedol, **yn parhau i gefnogi gweithgareddau sy'n dathlu treftadaeth ddiwylliannol** ac yn ystyried cyfleoedd i ehangu digwyddiadau diwylliannol/treftadaeth ar sail Cymru gyfan.
- Mae **prosiect hanes llafar** yn bwriadu defnyddio **model prosiect ArWAP ar gyfer prosiectau tebyg yn y dyfodol**, os bydd cyllid ar gael.
- **Mae prosiect adnoddau addysgol yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe ar hyn o bryd** i gynhyrchu **adnodd dysgu am brofiadau pobl frodorol a oedd yn byw ym Mhatagonia pan aeth Cymry i fyw yno yn y 19eg ganrif**. At hynny, bydd Gwasanaeth Addysg y sefydliad yn parhau i ystyried sut y gallant **hyrwyddo gwrth-hiliaeth yn eu gweithdai**. Yn ogystal â hyn, mae'r sefydliad wedi derbyn cyllid gan fenter 'Spaces, Places and Belonging' yr Archifau Cenedlaethol, sy'n rhagweld **creu canolfan wirioneddol gynhwysol, genedlaethol a chynaliadwy ar gyfer ymchwil a arweinir gan y gymuned** yn y Deyrnas Unedig. Mae elfennau o'r prosiect newydd yn cyd-fynd ag amcanion prosiect Cymunedau Cymru, ac mae'r sefydliad yn gobeithio cydweithio eto â rhai o'r grwpiau y bu'n gweithio gyda nhw yn flaenorol.
- Mae **prosiect Llyfryddiaeth Gymreig wedi ymrwymo i lenwi comisiynau awduron** i'r **enwau a nodwyd ar restr erthyglau coll** a ddatblygwyd yn ystod y prosiect, a chwilio am awduron addas, yn enwedig awduron o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol sy'n dod â'u gwybodaeth ddiwylliannol a chymunedol gyda nhw. Fodd bynnag, yn gynharach nododd yr adroddiad mai un o'r heriau i'r Bywgraffiadur Cymreig wrth symud ymlaen fydd sefydlu model cynaliadwy heb ddibynnu ar ffynonellau cyllid allanol.
- Adroddodd **prosiect Celfyddydau ac Amgueddfeydd ar y cyd** fod llawer iawn o waith strategol ar y gweill a fydd yn llunio eu polisïau, eu gweithdrefnau a'u rhaglenni ymhellach. Er enghraifft, **nodi a neilltuo adnoddau craidd a chyllideb i barhau â'r gwaith Dad-drefedigaethu**. At hynny, bydd y gwaith ar gyflawni'r **Cynllun Ehangu Ymgysylltu** (prosiect ar y cyd rhwng y ddau

sefydliad, a oedd yn bodoli cyn prosiect ArWAP, ac sy’n gysylltiedig â phrosiect ArWAP) yn parhau. Bydd y ddau sefydliad hefyd yn gweithio gyda’i gilydd trwy amcanion ar y cyd sy’n gysylltiedig â Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol y sefydliadau unigol.

## Atodiad 4: Manylion gwaddol maes 2

Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd nifer o weithgareddau a fydd yn parhau y tu hwnt i'r cyllid, gan gynnwys:

- **Bydd astudiaethau achos o hyfforddiant addysgwyr amgueddfeydd ar gael am ddim** i ysbrydoli amgueddfeydd eraill ynghylch sut i wneud eu lleoedd yn fwy croesawgar i gymunedau amrywiol.
- **Bydd canllaw ymchwil ar-lein i alluogi mynediad at archifau yn parhau i fod yn hygyrch ac yn esblygu**, e.e. gellir ei ddiweddaru'n hawdd i ychwanegu casgliadau newydd at y rhestr o adnoddau sydd ar gael.
- **Bydd gwefan prosiect sy'n arddangos hanesion llafar** yn parhau i fod ar gael.
- **Bydd Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru yn parhau i gefnogi sefydliadau ar lawr gwlad i ddod o hyd i gyllid a chynnal cyfarfodydd misol** (fel y gwnaeth cyn y prosiect). Mae'r sefydliad wrthi'n gwneud cais am arian gan y Loteri Genedlaethol i barhau â'r prosiect am bedair blynedd arall.
- Mae **un sefydliad** yn parhau i weithio ar brosiectau ymchwil hanesyddol, e.e. ar hyn o bryd mae'n gweithio ar brosiect adrodd straeon o Affganistan ac **yn bwriadu bod y prif bwynt cyswllt neu'r corff ymchwil ymbarél ar gyfer treftadaeth De Asia.**
- **Bydd hyfforddwyr tennis dan hyfforddiant yn dechrau hyfforddi a bod yn esiamplau da i bobl eraill yn eu cymunedau** ac yn creu cysylltiadau ystyrlon â grwpiau cymunedol sydd wedi'u datblygu yn ystod y prosiect.

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o adroddiadau EoP, nod nifer o brosiectau yw parhau i weithio gyda'r partneriaethau a'r cysylltiadau a wnaed dros y prosiect. Mae cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys:

- **Cynyddu sylw i wirio iaith o fewn catalogau ar draws gwasanaethau amgueddfeydd** yng Nghymru, gan barhau i gynnwys adborth gan gymunedau amrywiol am y gwaith parhaus. Hefyd, prosiectau cymunedol pellach yn

gweithio gyda gwahanol grwpiau ac yn cysylltu pobl na fyddent fel arfer yn defnyddio archifau.

- Parhau i **weithio gyda chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i guradu arddangosfeydd ar y cyd ac i gasglu straeon** sy'n cynrychioli pawb yn ninas Caerdydd. Mae arddangosfeydd wedi eu curadu ar y cyd yn y dyfodol ar gyfer 2025 yn cynnwys partneriaethau gyda Glitter Cymru a'r Gyfnewidfa Dreftadaeth a Diwylliannol.
- Creu **adnoddau sy'n seiliedig ar addysg ar gyfer ysgolion ar gysylltiad Hanes Cymru â'r Fasnach Gaethweision hanesyddol**. Bydd adnoddau yn cael eu lanlwytho i wefan Llywodraeth Cymru.
- Datblygiad proffesiynol parhaus, rhannu gwybodaeth, gweithredu polisi, ac eiriolaeth i hyrwyddo gwrth-hiliaeth a chynhwysiant yn sector treftadaeth ddiwylliannol Cymru.
- Creu **platfform canolog i unigolion o dras De Asia** ymchwilio i gyfraniadau eu cyndeidiau a chasglu hanesion llafar.
- Parhau â'r **berthynas rhwng mentoriaid o chwith a'r sawl sy'n cael eu mentora y tu hwnt i ddiwedd y rhaglen**. At hynny, rhoddwyd cyfle i sefydliadau sy'n cael eu mentora gadw mewn cysylltiad â sefydliad y prosiect i gael cymorth ar ôl y prosiect os oes angen.
- Parhau â gweithgaredd crefft, ac estyn allan at gymunedau i ddod o hyd i gyfranogwyr, e.e. trwy wahodd teuluoedd i gymryd rhan a gweithio gydag ysgolion lleol a'r ganolfan gymunedol leol.
- Parhau â digwyddiad carnifal.
- Gweithio gyda sefydliad cymorth ceisiadau grant cenedlaethol i ddatblygu cynnig drafft sy'n canolbwyntio'n benodol ar barhad y prosiect hwn. Bydd y prosiect newydd yn cynnwys y canlynol:
- Prentisiaeth mewn Datblygiad Chwaraeon ar Lefel 3, 4 a 5. At hynny, bydd prentisiaid yn gweithredu fel modelau rôl.

- Ymdrechion parhaus i ymgysylltu â hyfforddwyr 'Gwyn' presennol yn y rhaglen hyfforddi gwrth-hiliol. Nid yw'r nifer sy'n manteisio ar y cyfle wedi cyrraedd y targed gan nad yw hyfforddwyr 'Gwyn' wedi gweld ei werth.
- Yn dilyn yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect, cael gwared ar rwystrau i gyfranogiad, e.e. cit ac esgidiau trwy gronfa caledi, sydd ar gael yn ôl angen, a thalebau.
- Bydd yr Hwb Amlddiwylliannol yn parhau i fod wedi'i sefydlu'n weithredol a bydd yn parhau i gefnogi pob grŵp cymunedol ar lawr gwlad.
- Cynlluniau i gyflwyno'r **hyfforddiant gwrth-hiliaeth (wedi'i deilwra i gwsmeriaid anabl a niwroamrywiol**) yn y sefydliad ac ymhellach i ffwrdd, e.e. ledled y DU.

## Atodiad 5: Manylion gwaddol maes 3

- Nod **prosiect hanes llafar 'Connecting Voices'** yw trefnu mwy o ddigwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd adrodd straeon, ac arddangosfeydd sy'n dathlu cyfoeth diwylliannol ac yn hyrwyddo deialog. Maent hefyd yn bwriadu defnyddio llwyfannau digidol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a gwrthsefyll naratifau negyddol trwy adrodd straeon cadarnhaol.
- Bydd **dosbarth Cwrdeg** yn parhau ac mae'n bwriadu cynnal Dosbarthiadau Cwrdeg i'r rhai nad Cwrdeg yw eu hiaith gyntaf.
- Mae **prosiect coreograffi dawns** yn awyddus i ehangu cyrhaeddiad y prosiect i ddawnswyr yn y gogledd, e.e. i'r rhai a oedd yn byw ymhellach i ffwrdd ac a oedd allan o gyrraedd y prosiect. [CW: Rwy'n gwybod bod angen cyllid ar y sefydliad hwn i barhau â'r gwaith hwn o ddata'r cyfweliad]
- Nod **prosiect hanes llafar 'Hidden Voices'** yw ehangu eu harchif ar-lein ddigidol. Maent hefyd yn bwriadu cynhyrchu adnoddau addysgol gan ddefnyddio'r straeon digidol.
- Mae **gweithdy dawns traddodiadol i bobl hŷn** yn bwriadu arallgyfeirio eu cynigion rhaglenni i gynnwys ystod ehangach o weithgareddau cyfoethogi diwylliannol ar gyfer oedolion hŷn a phobl hŷn. Gallai hyn gynnwys dosbarthiadau gwerthfawrogi cerddoriaeth, sesiynau adrodd straeon, gweithdai celf a chrefft, a gwibdeithiau diwylliannol i amgueddfeydd a thirnodau diwylliannol. Maent hefyd yn bwriadu gwella hygyrchedd a chyrhaeddiad eu rhaglenni trwy gynnig gweithdai rhithwir, adnoddau ar-lein, a llwyfannau rhyngweithiol er mwyn cyfranogi o bell. Bydd hyn yn eu galluogi i ymgysylltu ag oedolion hŷn a henoed a allai wynebu heriau symudedd neu fyw mewn ardaloedd anghysbell, gan sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd i bawb.
- Mae **prosiect rhannu creadigol (Cultural Close Up) yn bwriadu parhau â'u cyfarfodydd misol ond maent eisiau esblygu'r fformat** i gydweithrediad mwy anffurfiol, dan arweiniad mynychwyr. Eu gweledigaeth yw creu cyfle i gyfranogwyr gymryd yr awenau, gan rannu syniadau, sgiliau a phrofiadau

mewn ffordd gydweithredol ac organig yn hytrach na digwyddiadau strwythuredig gyda siaradwyr.

- Mae **Prosiect Coginio Bengali** yn bwriadu adeiladu ar gyhoeddi'r llyfr trwy drefnu gweithdai coginio, digwyddiadau adrodd straeon, ac o bosibl ehangu'r prosiect i gynnwys cymunedau diwylliannol eraill a'u coginio.
- Mae **prosiect Windrush Elders** yn bwriadu trefnu mwy o deithiau, gweithdai a digwyddiadau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth sy'n cysylltu cymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol â hanes a diwylliant lleol Cymru. Eu nod hefyd yw sefydlu partneriaethau â sefydliadau diwylliannol ac amgueddfeydd i sicrhau mynediad parhaus at brofiadau cyfoethogi.
- Mae'r **prosiect plethu gwallt** yn bwriadu defnyddio'r deunyddiau hyfforddi a'r adnoddau a ddatblygwyd yn ystod y prosiect hwn i gynnig gweithdai dilynol a grwpiau cymorth i famau sydd â diddordeb mewn parhau â'r gweithgaredd hwn. Maent hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o gydweithio ag ysgolion lleol a chanolfannau cymunedol i gynnig gweithdai gofal gwallt i bobl ifanc.
- Mae'r **prosiect hanes VR** yn bwriadu datblygu adnoddau addysgol gan ddefnyddio cynnwys VR mewn ysgolion ac amgueddfeydd.
- Mae'r **gweithgaredd gwneud ffilmiau gyda disgyblion Blwyddyn 6** yn bwriadu cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn eu diddordeb, e.e. drwy gynnig 'rhaglen ysgol uwchradd Gwneuthurwr Ffilmiau Ifanc' i bobl ifanc sydd â diddordeb yn y Cyfryngau o weithgareddau gwneud ffilmiau ym Mlwyddyn 6.
- Mae gweithgaredd **côr Pot of Good Vibes** ar gyfer pobl sy'n chwilio am noddfa wedi ennyn llawer o frwdfrydedd am brosiectau tebyg ond byddai angen cyllid i greu'r cyfleoedd hyn.
- Mae **Soel Connect** yn bwriadu archwilio a datblygu syniadau a ddatblygwyd yn ystod y prosiect, e.e. cyfansoddiadau, syniadau ysgrifennu caneuon, trwy sesiynau gweithdy, ymarferion a pherfformiadau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae angen cyllid ar y sefydliad i gynnal y prosiect ar yr un lefel.

- Mae **prosiect sy’n cysylltu diwylliant Cymru a Somali** yn bwriadu sicrhau adeiladau mwy i ddarparu ar gyfer mwy o gyfranogwyr a darparu mwy o le ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn parhau y tu hwnt i gyfnod y grant, byddant yn canolbwyntio ar fentrau codi arian ac yn gwneud cais am grantiau yn y dyfodol.
- Mae’r **Grŵp Drymio Affricanaidd** yn bwriadu sefydlu grŵp drymio cymunedol hunangynhaliol a fydd yn parhau i ddarparu cyfleoedd i gyfranogwyr ddysgu, ymarfer a pherfformio. Maent yn archwilio gwahanol ffyrdd o sicrhau cyllid cynaliadwy, megis ffioedd aelodaeth, ffioedd perfformio, a phartneriaethau â busnesau a sefydliadau lleol.

## Atodiad 6: Grwpiau rhanddeiliaid a dulliau casglu data

| Rhanddeiliad | Dull casglu data/ymgysylltiad | Natur y cysylltiad cyntaf | Dull samplu | Cydnabyddiaeth ariannol |
|---|---|---|---|---|
| Swyddogion Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar ddarparu'r rhaglen a staff Diverse Cymru | Cyfweliadau (10) | Manylion cyswllt uniongyrchol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Samplu pwrpasol – cysylltwyd â phawb dan sylw. | Nac oes |
| 3 mentor cymunedol ar ran ArWAP | Cyfweliadau (2-3)<br><br>Panel Cynghori Arbenigol (EAP) | Manylion cyswllt uniongyrchol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Samplu pwrpasol – cysylltwyd â'r holl staff perthnasol. | Oes ar gyfer mentoriaid sy'n ymuno â'r EAP (telir drwy drosglwyddiad banc). |
| Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil | Cyfweliadau (3) | Manylion cyswllt uniongyrchol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Samplu pwrpasol – cysylltwyd â'r holl staff perthnasol. | Nac oes |
| Tîm gweithredu Canolog ArWAP | Cyfweliadau (2) | Manylion cyswllt uniongyrchol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Samplu pwrpasol – cysylltwyd â'r holl staff perthnasol. | Nac oes |
| Yr Is-grŵp Atebolrwydd Allanol Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon. | Panel Cynghori Arbenigol | Manylion cyswllt uniongyrchol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Samplu pwrpasol – cysylltwyd â'r holl staff perthnasol. | Oes ar gyfer staff allanol sy'n ymuno â'r EAP (telir trwy drosglwyddiad banc). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pob ymgeisydd llwyddiannus ym maes 2 a maes 3 | Arolwg ar-lein | Dolen i'r arolwg i'w rhannu gan Lywodraeth Cymru | Anfonwyd dolen at yr holl ymgeisydd llwyddiannus ym maes 2 a maes 3 | Nac oes |
| Arweinwyr prosiect maes 1 (Cyrff hyd braich) | Cyfweliadau (7) | Manylion cyswllt uniongyrchol i'w darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Pob corff hyd braich i'w cyfweld | Nac oes |
| Arweinwyr prosiect maes 2 | Cyfweliadau (10) | Manylion cyswllt uniongyrchol i'w darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Detholiad o 10 arweinydd prosiect (sampl bwrpasol i dargedu ystod eang o brosiectau – trafodwyd gyda'r grŵp llywio) | Nac oes |
| Arweinwyr prosiect maes 3 | Cyfweliadau (15) | Manylion cyswllt uniongyrchol i'w darparu gan Lywodraeth Cymru gyda chaniatâd cyfranogwyr. | Sampl bwrpasol i dargedu ystod eang o brosiectau – trafodwyd gyda'r grŵp llywio. | Oes – taleb siopa ar-lein gwerth £50 |
| Pobl sy'n gweithio o fewn sefydliadau a dderbyniodd hyfforddiant (o brosiectau a ariannwyd) meysydd 1 a 2 | Arolwg ar-lein | Dolen i'r arolwg wedi'i hanfon at staff perthnasol gan arweinwyr prosiectau a ariannwyd. | Sampl bwrpasol i dargedu staff a dderbyniodd hyfforddiant yn rhan o'r prosiectau a ariannwyd. | Nac oes |
| Pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol a gyflogwyd/comisiynwyd yn rhan o brosiectau a ariannwyd. Meysydd 1 a 2. | Arolwg ar-lein a chyfweliadau â 6 pherson. | Dolen i'r arolwg a gwahoddiad i gyfweliad wedi'u hanfon at bobl berthnasol gan y prosiectau a ariannwyd. | Sampl bwrpasol i dargedu staff a gyflogwyd/comisiynwyd yn rhan o'r prosiectau a ariannwyd. | Nac oes ar gyfer yr arolwg<br><br>Oes – taleb siopa ar-lein gwerth £50 ar gyfer y cyfweledigion |
| Grwpiau cymunedol a weithiodd gyda'r prosiectau a ariannwyd i'w helpu i gyflawni neu ddylunio. | Arolwg ar-lein | Dolen i'r arolwg a gwahoddiad i gyfweliad wedi'u hanfon at bobl | Sampl bwrpasol i dargedu grwpiau cymunedol a weithiodd gyda'r prosiectau a ariannwyd. | Nac oes |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Meysydd 1 a 2. | | berthnasol gan y prosiectau a ariannwyd. | | |
| Pobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau a ariannwyd. Pwyslais ar faes 3 ond hefyd cynnwys rhai o feysydd 1 a 2. | Gweithdai personol a rhithiol gyda grwpiau presennol. | Wedi'i drefnu drwy brosiectau a ariannwyd. | Sampl bwrpasol o bobl a ymgysylltodd â'r prosiectau a ariannwyd. | Nac oes |

## Atodiad 7: Tystiolaeth o brosiectau a ariannwyd yn bodloni Nodau a Chamau Gweithredu ArWAP, Meysydd 1 a 2

### Nod 1: Arweinyddiaeth

### Trosolwg

Maes 1 - Disgrifiodd un sefydliad gyfrannu at y nod hwn, a chamau gweithredu o fewn y nod hwn.

Maes 2 - Disgrifiodd naw sefydliad gyfrannu at y nod hwn, a'r camau gweithredu o fewn y nod hwn. [Gweler y nodyn isod am heriau posibl wrth gysylltu gweithgareddau â'r nod hwn gan fod y nod wedi'i eirio i weddu i weithgareddau mewnol gan gyrff hyd braich.]

### Cam gweithredu 1: Cadw at egwyddorion

Maes 2 - Disgrifiodd un sefydliad weithgaredd sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn, sef timau Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn cwblhau ailddrafftio polisïau a gweithdrefnau gwrth-hiliaeth.

### Cam gweithredu 2: Hyfforddiant

Maes 1 - Disgrifiodd un sefydliad weithgaredd penodol sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn, wedi'i gysylltu'n gywir â'r cam gweithredu, e.e. hyfforddiant gwrth-hiliol

Maes 2 - Disgrifiodd pedwar sefydliad weithgarwch sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn, e.e. hyfforddiant gwrth-hiliol ar gyfer y sector neu a fwriedir ar gyfer y sector, uwchsgilio grwpiau ar lawr gwlad. Yn wreiddiol, rhoddodd un o'r rhain eu hyfforddiant gwrth-hiliol sector yn yr 'Adran Dathlu Amrywiaeth' (symudwyd yma, ochr yn ochr â gweithgareddau tebyg).

### Cam gweithredu 3: Amrywiaeth personél

Maes 1 - Disgrifiodd un sefydliad weithgaredd penodol sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn, wedi'i gysylltu'n gywir â'r cam gweithredu, e.e. cynllun gweithredu'r sefydliad a'r Canllaw Arfer Da ar gyfer Recriwtio Cynhwysol ar gyfer y sector

Maes 2 - Nododd tri sefydliad eu bod wedi cyfrannu at y cam gweithredu hwn, ym mhob achos yn gysylltiad 'llac'. Er enghraifft:

- Pwysleisiodd un sefydliad bwysigrwydd newid arweinyddiaeth yn ystod eu cwrs hyfforddi i gefnogi dad-drefedigaethu casgliadau (soniodd y prosiect hefyd nad oedd hyn yn nod uniongyrchol eu prosiect).
- Defnyddiodd sefydliad arall y cam gweithredu hwn i dynnu sylw at y ffaith eu bod yn sefydliad dan arweiniad pobl Ddu gyda phersonél amrywiol.
- Enghraifft sefydliad arall ar gyfer y cam gweithredu hwn oedd cyflogi person o gefndir de byd-eang fel Swyddog Prosiect a darparu cyfleoedd â thâl i dri ymchwilydd â phrofiad bywyd (roedd yr holl rolau hyn dros dro).

### Cam gweithredu 4: Dulliau recriwtio amrywiol

Maes 2 - Mae un sefydliad yn disgrifio gweithgaredd sy’n ymwneud â’r cam gweithredu hwn: rhaglen mentora o chwith a oedd wedi annog sefydliadau i adolygu strategaethau recriwtio a datblygu i ddenu a chadw talent amrywiol.

Mae dau sefydliad arall yn nodi gweithgarwch ar gyfer y cam gweithredu hwn ond, unwaith eto, mae’n ‘gysylltiad llac’:

Mae un yn disgrifio sut wnaethon nhw ‘geisio recriwtio rheolwyr prosiect gyda phrofiad bywyd i sicrhau llwyddiant y prosiect’ [CW: Rwy’n tybio na wnaethon nhw lwyddo i wneud hynny].

Pwysleisiodd y llall (yr un sefydliad ag yn Nod 1) bwysigrwydd gweithlu amrywiol yn ystod eu cwrs hyfforddi i gefnogi dad-drefedigaethu casgliadau (soniodd y prosiect hefyd nad oedd hyn yn nod uniongyrchol eu prosiect).

### Cam gweithredu 5: Ymdrin â gwahaniaethu

Ni chynhwysodd unrhyw sefydliadau y cam gweithredu hwn

## Nod 2: Cyllid

### Trosolwg

Maes 1 - Disgrifiodd un sefydliad gyfrannu at y nod hwn, a chamau gweithredu o fewn y nod hwn.

Maes 2 - Disgrifiodd pedwar sefydliad gyfrannu at y nod hwn.

Nododd un yn glir y cam gweithredu yr oedd gweithgareddau yn gysylltiedig ag ef tra bod dau brosiect wedi darparu disgrifiadau y gellid eu cysylltu’n hawdd â’r cam gweithredu.

Nododd un sefydliad y nod ond ni roddodd unrhyw enghreifftiau.

### Cam gweithredu 2: Mwy o fynediad at gyllid

Maes 1 - Disgrifiodd un sefydliad weithgaredd penodol sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn, wedi'i gysylltu'n gywir â'r cam gweithredu, gan ddarparu tystiolaeth, e.e. Cynghorydd Buddsoddi Cymunedol ar waith.

Maes 2 - Mae dau sefydliad yn disgrifio gweithgarwch sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn.

Roedd un sefydliad (canolfan amlddisgyblaethol) wedi llwyddo i gefnogi sefydliadau ar lawr gwlad i gael gafael ar gyllid.

Mae'r sefydliad arall yn disgrifio mai canlyniad anuniongyrchol y prosiect oedd cynghori rhai amgueddfeydd ar sut i gael cyllid wrth gyflwyno eu cwrs hyfforddi i gefnogi dad-drefedigaethu casgliadau.

### Cam gweithredu 3: Cyd-ddylunio a chydweithio rhwng sefydliadau a chyllidwyr

Maes 2 - Mae un sefydliad (sefydliad chwaraeon) yn disgrifio gweithgarwch sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn, h.y. roeddent wedi gweithio gyda chyrff cyllido i gyd-gynhyrchu ceisiadau gan sefydliadau bach neu sefydliadau a arweiniwyd gan bobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol i wella canlyniadau ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol.

### Cam gweithredu 4: Cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer grŵp sy'n cefnogi lleiafrifoedd hiliol ar lawr gwlad

Maes 1 - Disgrifiodd un sefydliad weithgaredd penodol sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn a darparu tystiolaeth, ond defnyddiodd eiriad gwahanol, e.e. "Cefnogi menywod a merched o grwpiau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol i fyw bywyd egnïol, gan ystyried anfanteision croestoriadol, ieithoedd a'r grwpiau mwyaf difreintiedig".

Maes 2 - Mae un sefydliad yn disgrifio gweithgaredd sy'n cyd-fynd yn fras â'r cam gweithredu hwn gan fod y prosiect yn seiliedig ar gyllid wedi'i neilltuo, h.y. grant mawr ArWAP a ddosbarthwyd drwy grantiau bach o £2000 i sefydliadau llawr gwlad yr Hwb dros dair blynedd

### Nod 3: Dathlu Amrywiaeth

### Trosolwg

Maes 1 - Disgrifiodd tri sefydliad gyfrannu at y nod hwn.

Roedd un yn cysylltu gweithgareddau prosiect yn gyffredinol â nod tra bod dau yn cysylltu gweithgaredd yn gywir â cham gweithredu.

Maes 2 - Disgrifiodd 11 o sefydliadau gyfrannu at y nod hwn ac mae 10 o'r rhain yn disgrifio'n glir weithgarwch sy'n ymwneud â'r camau gweithredu o fewn y nod, h.y. trwy eu disgrifiadau eu hunain o weithgareddau.

Yn ogystal â hyn, mae dau sefydliad chwaraeon yn sôn am weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r nod hwn (mynd i'r afael â thangynrychiolaeth). Gan nad oes unrhyw gamau gweithredu eraill sy'n gweddu i'w sector, mae hyn wedi'i gynnwys yma.

### Cam Gweithredu 1: Cyd-gynllunio gweithgareddau i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol i ddathlu hunaniaeth

Maes 1 - Roedd dau sefydliad yn cysylltu gweithgareddau yn gywir â'r cam gweithredu hwn. Rhoddodd un enghraifft o'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu, ond ni wnaeth y llall – dim ond nodi'r cam gweithredu yn y blwch testun (er bod tystiolaeth o'r cam gweithredu hwn yn yr adroddiad).

Maes 2 - Mae deg sefydliad yn disgrifio gweithgareddau sy'n cyfrannu at y cam gweithredu hwn. Mae sefydliad arall yn cysylltu gweithgareddau â'r cam gweithredu hwn ond nid oes sôn am gyd-gynhyrchu, e.e. dim ond yn disgrifio dod â phobl at ei gilydd ar gyfer gweithgaredd i ddathlu hunaniaeth.

### Cam gweithredu 2: Cyfathrebu marchnata amlwg gwrth-hiliol

Maes 2 - Mae dau sefydliad yn cysylltu gweithgareddau â'r cam gweithredu hwn, er bod un newydd ddechrau edrych ar gyfathrebu marchnata gwrth-hiliol.

### Cam gweithredu 3: Sector gwrth-hiliol sy'n cynhyrchu cynnwys amrywiol ac yn darparu cyfleoedd creadigol o flaen a thu ôl i'r camera

Dim sefydliadau – gallai hyn fod oherwydd bod y cam gweithredu hwn yn gysylltiedig â phrosiectau Creadigol.

### Cam gweithredu 4: Mynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn diwydiannau creadigol

Maes 2 - Defnyddiodd un sefydliad y cam gweithredu hwn i ddangos eu bod wedi cynyddu hygyrchedd i gyfranogwyr a chynulleidfaoedd anabl, h.y. ehangu'r cam gweithredu o fod yn benodol i ddiwydiannau Creadigol.

Mae dau brosiect Chwaraeon, y ddau yn cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon cymunedau amrywiol, wedi'u hychwanegu yma (oherwydd eu bod yn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth).

## Nod 4: Y Naratif Hanesyddol

### Trosolwg

Maes 1 - Disgrifiodd 5 sefydliad (2 yn brosiect ar y cyd) gyfrannu at y nod hwn, a chamau gweithredu o fewn y nod hwn.

Maes 2 - Disgrifiodd naw sefydliad gyfrannu at y nod hwn gan ddisgrifio camau gweithredu o fewn y nod hwn yn glir (eto, yn bennaf trwy eu disgrifiadau eu hunain o weithgareddau).

### Cam gweithredu 1: Dad-drefedigaethu mannau cyhoeddus a chasgliadau (cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol)

Maes 1 - Mae dau sefydliad (un prosiect ar y cyd) yn cysylltu gweithgareddau'n gywir â'r cam gweithredu hwn ac yn rhoi enghraifft. Mae sefydliad arall yn cysylltu gweithgaredd â'r cam gweithred hwn ond yn aileirio'r weithred i gyd-fynd yn benodol ag adolygu/diweddaru erthyglau i gyflwyno adroddiad cytbwys, dilys a dad-drefedigaethol o'r gorffennol – gydag enghreifftiau wedi'u darparu

Maes 2 - Mae 9 sefydliad yn darparu enghreifftiau sy'n cysylltu'n glir â'r cam gweithredu hwn.

### Cam gweithredu 2: Canolbwyntio profiadau a hanesion lleiafrifoedd hiliol. Chwalu rhwystrau i gael mynediad i safleoedd treftadaeth

Maes 1 - Mae pedwar sefydliad (dau yn brosiect ar y cyd) yn disgrifio gweithgareddau sy'n cyfrannu at y cam gweithredu hwn. Mae tri (dau yn brosiect ar y cyd) yn cysylltu gweithgaredd â'r cam gweithredu yn gywir ac yn darparu enghreifftiau. Mae sefydliad arall yn aileirio'r cam gweithredu i gyd-fynd â'u gweithgaredd, h.y. yn hepgor y frawddeg gyntaf sy'n ymwneud â chael mynediad i safleoedd treftadaeth a chasgliadau diwylliannol ac yn canolbwyntio ar yr elfen 'adrodd straeon trwy lens profiadau pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol' y cam gweithredu. Ni roddir unrhyw enghraifft yn y blwch testun, er bod tystiolaeth sy'n cefnogi'r cam gweithredu hwn yn glir yn yr adroddiad.

Maes 2 – Mae 7 sefydliad yn disgrifio gweithgareddau sy'n cyfrannu at y cam gweithredu hwn (mae hyn yn cynnwys y sefydliad a unodd y cam gweithredu â nod arall – a grybwyllir ar y chwith).

### Cam gweithredu 3: Adolygu ac adrodd ar ailgynllunio naratifau hanesyddol

Maes 1 - Mae dau sefydliad (un prosiect ar y cyd) yn cysylltu gweithgareddau'n gywir â'r cam gweithred hwn ac yn rhoi enghraifft.

Maes 2 - Mae dau sefydliad yn nodi bod gweithgareddau yn gysylltiedig â'r cam gweithredu hwn. Fodd bynnag, yn y ddau achos maent yn cyfyngu'r disgrifiad i gyd-fynd â'r canlyniad o dalu pobl yn briodol am eu hamser a'u profiad.

## Nod 5: Dysgu am ein hamrywiaeth ddiwylliannol

### Trosolwg

Maes 1 - Mae dau brosiect (o'r un sefydliad) yn disgrifio cyfrannu at y nod hwn. Mae un prosiect yn cysylltu'n gywir â cham gweithredu yn y nod hwn tra bod y prosiect arall yn gwneud sylw cyffredinol sy'n cwmpasu elfennau'r ddau gam gweithredu, e.e. sôn am y straeon heb eu hadrodd, defnyddio cyfuniad o gyfryngau cymdeithasol a darparu adnodd ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion ac ymchwilwyr – hefyd yn darparu enghreifftiau.

Maes 2 - Disgrifiodd 6 sefydliad weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r nod hwn a'r camau gweithredu o fewn y nod hwnnw.
(Gweler y sylw isod am sefydliad a gyfunodd y nod hwn â'r nod Dathlu Amrywiaeth, er bod disgrifiadau yn ei gwneud yn glir pa gamau gweithredu oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd).

### Cam gweithredu 1: Mae cynnwys ar-lein yn cydnabod amrywiaeth ac yn ceisio gwella gwelededd. Cefnogi ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd hiliol

Maes 2 - Mae pedwar sefydliad yn disgrifio gweithgareddau sy'n cysylltu'n glir â'r cam gweithredu hwn. Mae un, y sefydliad a ail-ysgrifennodd y nod fel y gellid cysylltu gweithgaredd ar draws dau nod, yn cynnwys deunyddiau addysgol dwyieithog.

### Cam gweithredu 2: Ymgorffori a chysylltu straeon grwpiau lleiafrifoedd hiliol o fewn adnoddau addysgol presennol

Maes 1 - Mae un prosiect yn cysylltu gweithgareddau'n gywir â'r cam gweithredu hwn ac yn darparu enghraifft.

Maes 2 - Mae pum sefydliad yn disgrifio gweithgarwch sy'n cysylltu'n glir â'r cam gweithredu hwn.